

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 04/03/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[2. Datganiad ynghylch Newid yn yr Hinsawdd](#)

[2. Statement on Climate Change](#)

[3. Datganiad ar Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu: y Camau Nesaf](#)

[3. Statement on the Donaldson Review of Curriculum and Assessment: Next Steps](#)

[4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)

[4. Questions to the Assembly Commission](#)

[5. Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 30 mewn Perthynas â Hysbysu Biliau Senedd y DU](#)

[5. Motion to Amend Standing Order 30 in Relation to the Notification of UK Parliament Bills](#)

[6. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Gwaith Craffu ar ôl Deddfu o ran Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#)

[6. Debate on the Health and Social Care Committee's Report on the Post-legislative Scrutiny of the Mental Health \(Wales\) Measure 2010](#)

[7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi](#)

[7. Welsh Conservatives Debate: The Economy](#)

[8. Dadl Plaid Cymru: Datganoli](#)

[8. Plaid Cymru Debate: Devolution](#)

[9. Cyfnod Pleidleisio](#)

[9. Voting Time](#)

[10. Dadl Fer: Cyfeillio—Atal Unigrwydd ac Arwahanrwydd](#)

[10. Short Debate: Befriending—Ending Loneliness and Isolation](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:31 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

The first item this afternoon is questions to the Minister for Health and Social Services. Question 1 OAQ(4)0556(HSS) has been withdrawn, so we move to question 1—David Rees.

**1. Questions to the Minister for Health and Social Services**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cwestiwn 1 OAQ(4)0556(HSS) wedi'i dynnu'n ôl, felly symudwn at gwestiwn 1—David Rees.

**Cynllunio Gweithlu y GIG**

**NHS Workforce Planning**

13:31 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru o fewn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0565(HSS)*

*2. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's workforce planning within the Welsh NHS? OAQ(4)0565(HSS)*

13:31

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I thank David Rees for that. Workforce planning in the Welsh NHS includes an annual commissioning of training places and the identification of future workforce needs within the three-year local health board plans. Arrangements are employer led, and concluded through partnership arrangements with staff-side organisations.

Diolch i David Rees am hynny. Mae cynllunio gweithlu'r GIG yng Nghymru yn cynnwys comisiynu lleoedd hyfforddi yn flynyddol a nodi anghenion y gweithlu yn y dyfodol yng nghynlluniau tair blynedd y byrddau iechyd lleol. Arweinir y trefniadau gan gyflogwyr, ac fe'u cwblheir drwy drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau ar ochr y staff.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister, and I welcome the recent announcement of £80 million investment in training for more healthcare staff across the professions. Last week, I actually hosted and chaired a seminar with specialist physiotherapists, who presented their work as part of the pelvic health physiotherapy network. This is a good example of how prudent healthcare can work, with physiotherapists doing what they do to treat patients whilst releasing consultants' time to see other patients. In fact, a consultant gynaecologist in the audience indicated that waiting times for gynaecology in the health board area of his area had fallen since investing in physiotherapy services such as this.

Diolch am eich ateb, Weinidog, a chroesawaf y cyhoeddiad diweddar ynghylch y buddsoddiad o £80 miliwn mewn hyfforddiant ar gyfer mwy o staff gofal iechyd ar draws y proffesiynau. Yr wythnos ddiwethaf, cynhaliais a chadeiriais seminar gyda ffisiotherapyddion arbenigol a gyflwynodd eu gwaith fel rhan o rwydwaith ffisiotherapi iechyd y pelfis. Mae hon yn enghraifft dda o sut y gall gofal iechyd darbodus weithio, gyda ffisiotherapyddion yn gwneud yr hyn y maent yn ei wneud i drin cleifion gan ryddhau amser meddygon ymgynghorol i weld cleifion eraill. Mewn gwirionedd, nododd gynaeolegydd ymgynghorol yn y gynulleidfa fod amseroedd aros ar gyfer gynaeoleg yn ardal ei fwrdd iechyd wedi gostwng ers buddsoddi mewn gwasanaethau ffisiotherapi o'r fath.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Now, this requires the development of specialist skills, and, as part of the investment in training, will you look at how we can develop more specialists, such as Mair Whittal in Swansea and Gillian McCabe in Cardiff, so that we can create improved healthcare in this area?

Nawr, mae hyn yn galw am ddatblygu sgiliau arbenigol, ac fel rhan o'r buddsoddiad mewn hyfforddiant, a fyddwch yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu mwy o arbenigwyr, megis Mair Whittal yn Abertawe a Gillian McCabe yng Nghaerdydd, er mwyn i ni allu creu gwell gofal iechyd yn y maes?

13:32

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank David Rees for that question. The £80 million that I announced recently is very much structured around the prudent healthcare agenda. It will support an additional 2,498 new students in training here in Wales, and it is designed to boost those professions who are able to make an additional contribution to relieve pressures elsewhere in the system. There's a 26% increase in the number of training places for physiotherapists in this coming year. As well as supporting people coming newly into the professions, there is funding within the £80 million to support additional training for new skills for people who are already embarked on careers, and physiotherapy is one of those professions where you need to have your initial practice in place before you can then go on and specialise. So, I will certainly ask my officials to explore the particular point that David Rees has raised with the relevant organisations.

Diolch i David Rees am ei gwestiwn. Mae'r £80 miliwn a gyhoeddais yn ddiweddar wedi ei strwythuro i raddau helaeth o amgylch agenda gofal iechyd darbodus. Bydd yn cefnogi 2,498 yn ychwanegol o fyfyrwyr newydd dan hyfforddiant yma yng Nghymru, ac mae wedi ei gynllunio i roi hwb i'r proffesiynau hynny sy'n gallu gwneud cyfraniad ychwanegol i leddfu'r pwysau mewn rhannau eraill o'r system. Ceir cynnydd o 26% yn nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer ffisiotherapyddion yn y flwyddyn sydd i ddod. Yn ogystal â chefnogi newydd-ddyfodiaid i'r proffesiynau, mae cyllid o fewn yr £80 miliwn i gefnogi hyfforddiant ychwanegol ar gyfer sgiliau newydd i bobl sydd eisoes wedi cychwyn ar eu gyrfaoedd, ac mae ffisiotherapi yn un o'r proffesiynau hynny lle y mae angen i chi fod â'ch ymarfer cychwynol yn ei le cyn y gallwch fynd yn eich blaen i arbenigo. Felly, byddaf yn sicr yn gofyn i fy swyddogion edrych ar y pwynt penodol y mae David Rees wedi'i godi gyda'r sefydliadau perthnasol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, on 11 March, in response to the urgent question in relation to the rotation changes imposed by the Wales Deanery, which required a one-in-11 staff rotation, whereas, elsewhere in the UK, a one-in-eight staff rotation applies, you replied to me that you would get your civil servants to look into the matter and that you would update us. What have your civil servants managed to find out in the last three weeks about those staff rotation matters?

Weinidog, ar 11 Mawrth, mewn ymateb i'r cwestiwn brys ynghylch y newidiadau yn y patrwm cylchdroi a osodwyd gan Ddeoniaeth Cymru, a oedd yn gofyn am batrwm cylchdroi staff un i 11, tra bo patrwm cylchdroi staff un i wyth yn gymwys mewn rhannau eraill o'r DU, fe ateboch y byddech yn sicrhau bod eich gweision sifil yn edrych ar y mater ac y byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni. Beth y mae eich gweision sifil wedi llwyddo i'w ddarganfod yn ystod y tair wythnos diwethaf ynglŷn â'r materion hynny sy'n ymwneud â chylchdroi staff?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Discussions have been held with the deanery on that matter, and the conclusion reached is, that for patient safety reasons, the decisions that the deanery have come to are likely to stand.
- Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ddeoniaeth ar y mater, a'r casgliad y daethpwyd iddo, am resymau diogelwch cleifion, yw bod penderfyniadau'r ddeoniaeth yn debygol o sefyll.
- 13:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, yn dilyn adolygiad y comisiynydd iaith, Meri Huws, o'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd, beth rydych chi a'ch adran yn ei wneud mewn cydweithrediad â'r byrddau iechyd i sicrhau bod digon o'r gweithlu yn medru'r Gymraeg, ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig wrth weithio gyda'r henoed a phlant?
- Minister, following the inquiry of the Welsh Language Commissioner, Meri Huws, into the Welsh language in the health service, what are you and your department doing in collaboration with the health boards to ensure that there are sufficient numbers in the workforce who can speak Welsh, and who can use the language, particularly in working with children and the elderly?
- 13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, wrth gwrs, mae hynny yn rhan bwysig o'r gwaith y mae'r byrddau iechyd yn ei wneud i gynllunio at y dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar bobl sydd yn y gweithlu ar hyn o bryd, i dynnu pobl mas sydd yn gallu gwneud pethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i'w helpu nhw i adeiladu ar y sgiliau sydd gyda nhw ar hyn o bryd. Ond hefyd, rwy'n awyddus i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn ein colegau, pan fyddant yn recriwtio pobl i mewn i'r cyrsiau, i gael y defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud hefyd.
- Well, of course, that is an important part of the work undertaken by health boards in planning for the future. We are concentrating on those already within the workforce, so that we can identify those people who are able to work through the medium of Welsh in order to assist them to build on the skills that they already have. Also, I am eager for our colleges, when they recruit people to courses, to make the use of the Welsh language an important part of their decision-making processes.
- 13:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the National Institute for Health and Care Excellence's guidelines in England have set various standards for nursing levels in that country. How do they apply in Wales, and what is the workforce planning regime doing to try to improve nurse ratio levels in Wales?
- Weinidog, mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn Lloegr wedi gosod amryw o safonau ar gyfer lefelau nyrsio yn y wlad honno. Sut y cânt eu cymhwysu yng Nghymru a beth y mae'r gyfundrefn gynllunio'r gweithlu yn ei wneud i geisio gwella lefelau cymarebau nyrsys yng Nghymru?
- 13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The NICE guidelines published in England draw very heavily on the work of the chief nursing officer here in Wales and the acuity tool that she has developed with colleagues here for nurse ratios on acute medical and surgical wards. We have a ratio of 1:7 here in Wales; it's a ratio of 1:8 in England. When I give evidence to the Health and Social Care Committee tomorrow on the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, I hope to be able to explore some of the improvements that there have been in Wales in making sure that all wards are compliant with the acuity tool that the chief nursing officer has set out.
- Mae'r canllawiau NICE a gyhoeddwyd yn Lloegr yn pwysu'n sylweddol ar waith y prif swyddog nyrsio yma yng Nghymru a'r offeryn aciwtedd y mae hi wedi'i ddatblygu gyda chydweithwyr yma ar gyfer cymarebau nyrsys ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt. Mae gennym gymhareb o 1:7 yma yng Nghymru; mae'r gymhareb yn 1:8 yn Lloegr. Pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yfory ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), rwy'n gobeithio gallu archwilio rhai o'r gwelliannau a gafwyd yng Nghymru o ran sicrhau bod pob ward yn cydymffurfio â'r offeryn aciwtedd y mae'r prif swyddog nyrsio wedi'i roi yn ei le.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, the Welsh Liberal Democrats' acting spokesperson, William Powell.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac, yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd dros dro Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

- 13:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr, Lywydd. Minister, you will know that the funding of branch surgeries can often pose serious challenges to GP practices in Wales. Is there anything in the contract announced this week that will serve to enhance the ability of surgeries to maintain their branch networks?
- 13:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I thank Bill Powell for that question. Indeed, there is something very specific in the contract agreed with the General Practitioners Committee Wales and announced earlier this week. As part of the contract, we have agreed the development of a sustainability framework to assess the extent to which a small number of GP practices may need support to secure their future, and to improve access and continuity of services. That will include unavoidably small and multi-site GP practices, located in rural and deprived parts of Wales.
- 13:37 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I very much welcome that response, Minister. We are very much supportive as a group of the aims of Welsh Government to improve access to GP surgeries, such as extending opening hours into the evenings and at weekends. However, some communities, such as those that use the Llanwrtyd Wells surgery in Brecon and Radnorshire, will find it, inevitably, very difficult indeed to access any service if it closes, as the partners have recently announced. What discussions, Minister, have taken place with Powys Teaching Local Health Board regarding additional support being offered to maintain the branch surgery in Llanwrtyd Wells, and do you consider that the announcement that you've just referred to may also be of assistance in that?
- 13:38 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Well, I know, because I discussed this with the acting chief executive of Powys Teaching Local Health Board last week, that the LHB is directly engaged in discussions with the practice that has a branch surgery at Llanwrtyd Wells. Those discussions are about ways in which additional services could be provided in order to generate additional income for that practice. Those discussions, I understand, are still ongoing, but are being constructively pursued.
- 13:39 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, once again, Minister, for that. Apart from financial pressures, there are, of course, other difficulties that surgeries and medical practices face, including the extreme difficulty, on occasion, in recruiting clinicians, which can make it very difficult to sustain services. There have been various proposals around targeted bursaries and, I think, something also that's known as the 'golden handcuffs', to retain clinicians for a period of time in particular general practice. What is the Welsh Government doing to maintain rural general practices in Wales?

13:39	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>There are a series of actions that are being taken in Wales to try, for example, to make sure that GPs who wish to stand back from full-time work in the NHS are able to continue to make a contribution to the NHS. We are doing specific things in relation to the performers list, to make sure that people who are willing to—and this will be very relevant in the Powys context—spend time on either side of the border providing services are better able to do that. We want to make sure that young GPs coming into practice in Wales have a wider range of models of career to choose from than the traditional model, which has served us reasonably well in the past but is not necessarily attractive to the new generation of students wishing to enter general practice. So, there's a whole raft of things that we are doing and we are pursuing them very actively with GPC Wales, with which we share a very close agenda.</p>	<p>Mae cyfres o gamau gweithredu yn cael eu cymryd yng Nghymru i geisio sicrhau, er enghraifft, bod meddygon teulu sy'n dymuno camu'n ôl o waith llawn amser yn y GIG yn gallu parhau i wneud cyfraniad i'r GIG. Rydym yn gwneud pethau penodol o ran y rhestri cyflawnwyr, er mwyn sicrhau bod pobl sy'n barod i wneud hynny—a bydd hyn yn berthnasol iawn yng nghyd-destun Powys—yn treulio amser yn darparu gwasanaethau ar y naill ochr neu'r llall i'r ffin yn gallu gwneud hynny'n well. Rydym eisiau sicrhau bod ystod ehangach o fodlau gyrfa ar gael i feddygon teulu ifanc sy'n dechrau ymarfer yng Nghymru ddewis ohonynt yn hytrach na'r model traddodiadol sydd wedi ein gwasanaethu'n gymharol dda yn y gorffennol, ond nad yw o reidrwydd yn ddeniadol i'r genhedlaeth newydd o fyfyrwyr sy'n dymuno cael mynediad at ymarfer meddygol. Felly, mae lluo o bethau rydym yn eu gwneud ac rydym yn mynd i'r afael â hwy'n egniol iawn gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, sy'n rhannu agenda agos iawn â ni.</p>
13:40	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Darren Millar.</p>	<p>Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.</p>
13:40	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, Presiding Officer. Minister, yesterday, on the steps of the Senedd, a petition was presented with over 15,000 names on it, calling on the Welsh Government to intervene—I've got a copy of the petition here—as a matter of urgency to halt the removal of doctor-led maternity care from Ysbyty Glan Clwyd. How do you respond to that?</p>	<p>Diolch, Lywydd. Weinidog, ddoe, ar risiau'r Senedd, cyflwynwyd deiseb â thros 15,000 o enwau arni, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd—mae gen i gopi o'r ddeiseb yma—ar frys i atal y bwriad i ddiddymu gofal mamolaeth dan arweiniad meddyg yn Ysbyty Glan Clwyd. Sut rydych chi'n ymateb i hynny?</p>
13:41	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I respond to that by saying that decisions made about healthcare needs in north Wales are almost always better made in north Wales by people who are as close as possible to those circumstances. I expect those decisions to be made on the best available clinical evidence and I then expect those decisions to go wherever that clinical evidence takes them.</p>	<p>Ymatebaf i hynny drwy ddweud bod penderfyniadau a wneir ynghylch anghenion gofal iechyd yng ngogledd Cymru bron bob amser yn cael eu gwneud yn well yng ngogledd Cymru gan bobl sydd mor agos â phosibl at yr amgylchiadau hynny. Rwy'n disgwyl i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud yn ôl y dystiolaeth glinigol orau sydd ar gael ac rwy'n disgwyl wedyn i'r penderfyniadau hynny fynd i ble bynnag y mae'r dystiolaeth glinigol yn mynd â hwy.</p>
13:41	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that response, Minister. You'll be aware that the community health council in north Wales has expressed concerns about the decision-making process and, indeed, the competency around the health board's decision-making process because of the lack of available evidence and assurances that it received about levels of risk. Having requested a copy of a letter that the community health council has sent to the First Minister just this afternoon, they have made it quite clear that they are calling upon you, and this letter says, and I quote:</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y cyngor iechyd cymuned yng ngogledd Cymru wedi mynegi pryderon am y broses o wneud penderfyniadau ac yn wir, yn glŷn â chymhwysedd o ran proses y bwrdd iechyd o wneud penderfyniadau oherwydd y diffyg tystiolaeth a sicrwydd a gafodd ynghylch lefelau risg. Ar ôl gofyn am gopi o lythyr a anfonodd y cyngor iechyd cymuned at y Prif Weinidog y prynhawn yma, maent wedi ei gwneud yn gwbl glir eu bod yn galw arnoch, ac mae'r llythyr hwn yn dweud, ac rwy'n dyfynnu:</p>
	<p>'Please accept this letter as a formal request from the North Wales CHC for Welsh Government to intervene and prevent the withdrawal of Women's Clinical Services from Ysbyty Glan Clwyd.'</p>	<p>'Os gwelwch yn dda, derbyniwch y llythyr fel cais ffurfiol gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i Lywodraeth Cymru ymyrryd ac atal y bwriad i ddiddymu Gwasanaethau Clinigol Merched yn Ysbyty Glan Clwyd.'</p>

Do you accept their analysis that this was not an urgent service change, that there needs to be full public consultation before any changes are implemented and, will you, if you don't accept the calls of members of the public to intervene in this situation, accept theirs?

A ydych yn derbyn eu dadansoddiad nad oedd hwn yn newid gwasanaeth brys, fod yn rhaid cael ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gweithredu unrhyw newidiadau ac os nad ydych yn derbyn galwadau aelodau o'r cyhoedd i ymyrryd yn y sefyllfa hon, a wnewch chi dderbyn eu galwad hwy?

13:42 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I haven't seen the letter from which the opposition party spokesperson is quoting. I'm sorry to say that I do find it somewhat discourteous that the letter should be in his hands rather than in mine, as the Minister who would be responsible for making any decision. I do have a letter addressed to me from the community health council. It does not ask me to intervene on the substantive decision. It does raise important issues to do with engagement with the CHC and between the CHC and the health board. I have asked my officials to give me advice on the specific issue of engagement in the light of the High Court decision in the case of Cardigan League of Friends versus Hywel Dda Local Health Board and I will await that advice. I will write in the meantime to the community health council this week, responding to the concerns that they have raised with me.

Nid wyf wedi gweld y llythyr y mae llefarydd yr wrthblaid yn ei ddyfynnu. Mae'n ddrwg gen i ddweud fy mod yn ei ystyried braidd yn anghwrtais fod y llythyr yn ei ddwylo ef yn hytrach nag yn fy rhai i, fel y Gweinidog a fyddai'n gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniad. Mae gennyf lythyr at fy sylw i gan y cyngor iechyd cymuned. Nid yw'n gofyn imi ymyrryd mewn perthynas â'r penderfyniad gwreiddiol. Mae'n crybwyll materion pwysig sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned ac ymgysylltu rhwng y Cyngor Iechyd Cymuned a'r bwrdd iechyd. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion roi cyngor i mi ar ymgysylltu, yn benodol, yng ngolwg penderfyniad yr Uchel Lys yn achos y Cardigan League of Friends yn erbyn Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a byddaf yn aros am y cyngor hwnnw. Yn y cyfamser, byddaf yn ysgrifennu at y cyngor iechyd cymuned yr wythnos hon yn ymateb i'r pryderon y maent wedi'u dwyn i fy sylw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The letter, of course, was forwarded to me after it was sent to both your office and the First Minister's office. It's addressed to the First Minister. There are also concerns, which are raised in the letter, regarding the independent review and assessment, which you requested from the chief nursing officer and, indeed, the deputy chief medical officer. They say that they asked the DCMO and the CNO what the review was about and were told that: it was not a review; there were no terms of reference; the investigations were complete; they would not be meeting patient groups or clinical stakeholders outside of Betsi Cadwaladr University Local Health Board; they were not considering statistical or clinical evidence; and that the Betsi Cadwaladr LHB decision to remove the service could not be altered. Do you accept that those terms of reference and the response of the CNO and DCMO are unacceptable, and that, in the light of that, the so-called review and assessment that you instructed them to undertake is a bit of a sham?

Anfonwyd y llythyr ymlaen ataf ar ôl iddo gael ei anfon i'ch swyddfa chi a swyddfa'r Prif Weinidog. Mae wedi'i gyfeirio at y Prif Weinidog. Mae yna bryderon hefyd, sy'n cael eu crybwyll yn y llythyr, ynghylch yr adolygiad a'r asesiad annibynnol, y gofynnoch chi amdanynt gan swyddfa'r prif swyddog nyrsio ac yn wir, gan y dirprwy brif swyddog meddygol. Maent yn dweud eu bod wedi gofyn i'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio beth oedd yr adolygiad a dywedwyd wrthynt: nad adolygiad ydoedd; nad oedd unrhyw gylch gorchwyl; fod yr ymchwiliadau wedi'u cwblhau; na fyddent yn cyfarfod â grwpiau cleifion neu randdeiliaid clinigol y tu allan i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr; nad oeddent yn ystyried tystiolaeth ystadegol neu glinigol; ac na ellid newid penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr i gael gwared ar y gwasanaeth. A ydych yn derbyn bod y cylch gorchwyl hwnnw ac ymateb y Prif Swyddog Nyrsio a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol yn annerbyniol, ac yng ngolwg hynny, fod yr adolygiad a'r asesiad a gyfarwyddoch iddynt eu cyflawni braidd yn ffug?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, no doubt when I've had an opportunity to read the letter that Darren Millar has read, I'll be in a position to respond to it.

Llywydd, heb os, pan fyddaf wedi cael cyfle i ddarllen y llythyr y mae Darren Millar wedi'i darllen, byddaf mewn sefyllfa i ymateb iddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:44 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Weinidog, mae'r broses o gael mynediad i feddyginiaethau a thriniaethau newydd yn para i fod yn anodd ac anghyson yng Nghymru. Yn yr Alban, fe grëwyd cronfa meddyginiaethau newydd y llynedd ac maen nhw'n bwriadu defnyddio'r arian o'r 'rebate' newydd dan y 'pharmaceutical price regulation scheme' ar feddyginiaethau newydd. Bydd Llywodraeth—[Torri ar draws.]
- Minister, the process of accessing new medicines and treatments continues to be difficult and inconsistent in Wales. In Scotland, a new medicines fund was created last year and they intend to use the money from the new rebate under the pharmaceutical price regulation scheme on new drugs and medicines. The Government— [Interruption.]
- 13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Mark Isherwood, the Plaid Cymru spokesman is trying to ask a question. Would you be kind enough to listen or at least be quiet? Elin Jones, I do beg your pardon.
- Mark Isherwood, mae llyfarydd Plaid Cymru yn ceisio gofyn cwestiwn. A fydddech yn ddigon caredig i wrando neu i fod yn dawel o leiaf? Elin Jones, mae'n ddrwg gennyf.
- 13:45 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Diolch. Bydd Llywodraeth Cymru, mae'n debyg, yn derbyn £28 miliwn o'r 'rebate' yma eleni. Pam nad ydych chi wedi clustnodi mwyafrwm y 'rebate' yma—y £28 miliwn—i gael ei ddefnyddio ar gyfer meddyginiaethau newydd yng Nghymru, fel yn yr Alban?
- Thank you. The Welsh Government, I expect, will receive £28 million from this rebate this year. Why haven't you allocated the maximum of this rebate—that £28 million—to be used for new drugs and medicines in Wales, as in Scotland?
- 13:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- The Member is right to say that we will have £28 million as a result of the rebate and we will apply it in the Welsh NHS in a way that best meets the priorities that we face here in Wales. I have already made an announcement here on the floor of the Assembly that we will be using some of that money, for example, to strengthen the way in which the individual patient funding requests process will run in future and the way in which we will assess orphan and ultra-orphan drugs. But, we will make our own decisions about how we use the money and we will make it in a way that is right for Wales, rather than thinking that we always have to look to copy how someone else has decided to make their decisions.
- Mae'r Aelod yn iawn i ddweud y bydd gennym £28 miliwn yn sgil yr ad-daliad a byddwn yn ei ddefnyddio yn y GIG yng Nghymru yn y ffordd orau ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru. Rwyf eisoes wedi gwneud cyhoeddiad ar lawr y Cynulliad y byddwn yn defnyddio rhywfaint o'r arian, er enghraifft, i gryfhau'r ffordd y bydd proses ceisiadau cyllido cleifion unigol yn digwydd yn y dyfodol a'r ffordd y byddwn yn asesu cyffuriau amddifad a thra-amddifad. Ond byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ein hunain ynglŷn â'r ffordd y defnyddiwn yr arian a byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n iawn i Gymru, yn hytrach na meddwl bob amser bod yn rhaid i ni geisio dynwared sut y mae rhywun arall wedi dewis gwneud eu penderfyniadau.
- 13:46 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Ond rhan fach o'r arian rydych chi'n ei chlustnodi ar gyfer gwella'r gyfundrefn mynediad i feddyginiaethau newydd. Dro ar ôl tro yng Nghymru rydym yn gwybod am bobl sy'n cael eu troi lawr am gyffur newydd oherwydd nad ydynt hefyd yn cwrdd â'r criteria 'exceptionality'. Mae achos Irfon Williams a'r ymgyrch Hawl i Fyw wedi'n hatgoffa ni unwaith eto o wendid y gyfundrefn sydd gennym ni yng Nghymru. Nawr, mae'r Alban wedi cael gward â'r criteria 'exceptionality'. Bythefnos yn ôl, fe gyhoeddodd Gogledd Iwerddon eu bod nhw hefyd yn bwriadu newid y criteria yma'n sylweddol. Er hynny, yng Nghymru rydym yn parhau i ddefnyddio'r criteria annheg ac aneffeithiol yma ar gyfer penderfyniadau sydd mor bwysig.
- But it is a small percentage of the funding that you're allocating to improve access to new medicines. Time and again in Wales we hear of people who are refused new drugs because they don't also meet the exceptionality criteria. The case of Irfon Williams and the Fighting Chance campaign has reminded us once again of the deficiency of the regime we have in place at the moment in Wales. Now, Scotland has abolished the exceptionality criteria, and a fortnight ago Northern Ireland announced that they too intended to change these criteria significantly. However, in Wales, we continue to use these unfair and ineffective criteria for decisions that are so important.

13:47

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't accept the basic proposition in the question, Llywydd. The best evidence is that patients in Wales get faster access to drugs that are approved by the National Institute for Health and Care Excellence as being both clinically and financially effective. That's the evidence and that's what we use the resources we have here in Wales to support. As Elin Jones knows, we had a full review of our IPFR process here in Wales from an independent and expert group. We're reforming it as a result to make it more effective, particularly in order to make sure that consistency of decision making across Wales is improved. I think that a system that approves more than half of the applications that are made to it cannot fairly be described—I don't think that she did describe it in this way, but it is sometimes thought of—as a process designed to deny people the drugs for which they have made an application.

Wel, nid wyf yn derbyn gosodiad sylfaenol y cwestiwn, Llywydd. Y dystiolaeth orau yw bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflymach at gyffuriau sydd wedi eu cymeradwyo fel rhai sy'n effeithiol yn glinigol ac yn ariannol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Dyna'r dystiolaeth a dyna'r hyn y defnyddiwn yr adnoddau sydd gennym yma yng Nghymru i'w gefnogi. Fel y gŵyr Elin Jones, cawsom adolygiad llawn o'n proses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yma yng Nghymru gan grŵp annibynnol ac arbenigol. Rydym yn ei diwygio o ganlyniad i hynny i'w gwneud yn fwy effeithiol, yn enwedig er mwyn gwella cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau ledled Cymru. Credaf nad yw'n deg disgrifio system sy'n cymeradwyo dros hanner y ceisiadau a wneir iddi—nid wyf yn meddwl iddi ei disgrifio fel hyn, ond mae weithiau yn cael ei hystyried yn y ffordd hon—fel proses a luniwyd i atal pobl rhag cael y cyffuriau y maent wedi gwneud cais amdanynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, er yr hyn rydych yn ceisio ei amddiffyn fel newidiadau yn y broses, rydym yn dal i gael cleifion, ac rydym hefyd yn cael clinigwyr, yn dweud wrthym fod y broses yn annheg ac yn anghyson. Dim ond wythnos diwethaf, clywsom ni un Aelod Cynulliad yn adrodd hanes ei hetholwr hi oedd wedi cael ei droi lawr am gyffur gan un bwrdd iechyd yng Nghymru—Aneurin Bevan—ac wedi symud i Gaerdydd ac wedi cael mynediad at gyffur wedyn o dan fwrdd iechyd gwahanol. Fel man lleiaf, Weinidog, wrth edrych ar newidiadau, mae eisiau creu cyfundrefn yng Nghymru sy'n gyson o fewn Cymru, o leiaf, yn hytrach na saith cyfundrefn ar wahân o dan y bwrddau iechyd ar wahân. A wnewch chi nawr edrych ar hynny fel man cychwyn i newid y gyfundrefn sydd gennym ni?

Minister, despite your efforts to defend what you describe as changes to the process, we still see patients, as well as clinicians, telling us that the process is unfair and inconsistent. Just last week, we heard one Assembly Member telling of a constituent who had been refused a drug by one health board—Aneurin Bevan—had moved to Cardiff and had been given access to that drug under a different health board. As a minimum, Minister, in looking at changes, we need to create a regime in Wales that is consistent within Wales at least, rather than having seven different systems under the individual health boards. Will you now look at that, as a starting point to changing the system that we currently have?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, on that narrow point, Llywydd, I am very happy to agree with some of the things that Elin Jones has said. It is not acceptable to me that we have decisions being made in identical circumstances but made differently between one health board and another. That isn't an acceptable position. But changes that are already announced as part of the review will drive better consistency in decision making. But on Monday of this week, I met with the director-general of the NHS in Wales and I have asked him to look again at the recommendations made by the expert group about the number of panels we should have in Wales, and explicitly to give me further advice on whether there are additional ways in which we can try and secure consistency of decision making in this area.

Wel, ar y pwynt penodol hwnnw, Llywydd, rwy'n hapus iawn i gytuno â rhai o'r pethau y mae Elin Jones wedi eu dweud. Nid yw'n dderbyniol i mi fod gennym benderfyniadau yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau sydd union yr un fath, ond yn cael eu gwneud yn wahanol o un bwrdd iechyd i'r llall. Nid yw honno'n sefyllfa dderbyniol. Ond bydd newidiadau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi yn rhan o'r adolygiad yn hybu mwy o gysondeb wrth wneud penderfyniadau. Ond ddydd Llun yr wythnos hon, cefais gyfarfod gyda chyfarwyddwr cyffredinol y GIG yng Nghymru ac rwyf wedi gofyn iddo edrych eto ar yr argymhellion a wnaed gan y grŵp arbenigol ynglŷn â nifer y paneli y dylai fod gennym yng Nghymru, ac yn benodol i roi cyngor pellach i mi pa un a oes ffyrdd ychwanegol y gallwn geisio sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau yn y maes hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the agenda. Question 3 is from Eluned Parrott.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar yr agenda. Daw cwestiwn 3 gan Eluned Parrott.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Derbyn Cleifion i'r Ysbyty heb Gynllunio**

**Unplanned Admissions to Hospital**



13:50	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal i gleifion sy'n aros i gael eu derbyn i'r ysbyty am ofal heb ei gynllunio? OAQ(4)0564(HSS)</p>	<p>3. Will the Minister make a statement on the care of patients awaiting unplanned admission to hospital? OAQ(4)0564(HSS)</p>
13:50	<b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health</i></p> <p>I expect all patients who require unplanned or emergency admission to hospital to be treated in order of clinical priority and in a timely manner. Local health boards should ensure patients are referred to the right care, with the most appropriate clinician for their need, as quickly as possible.</p>	<p>O ran yr holl gleifion sydd angen eu derbyn i'r ysbyty ar frys neu heb gynllunio hynny ymlaen llaw, rwy'n disgwyl iddynt gael eu trin yn nhrefn eu blaenoriaeth glinigol ac mewn modd amserol. Dylai byrddau iechyd lleol sicrhau bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio i gael y gofal cywir, gyda'r clinigydd mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, cyn gynted ag y bo modd.</p>
13:50	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that answer, Deputy Minister. We're all aware of pressures on accident and emergency departments, but I've had constituents raise concerns about other unplanned admission routes. They were referred by their GP to University Hospital Llandough's medical admissions unit with heart-related symptoms. They then sat on a plastic chair for six and a half hours before being put on a trolley for the night in a cubicle. Another elderly patient who had pneumonia sat on a chair for 12 hours before being put to sleep in an easy chair in a side room, because they couldn't even find a trolley for them. Clearly, I know you will find that unacceptable, but given that health reorganisation plans under the south Wales programme suggest changing the A&amp;E unit at Llantrisant to this kind of emergency admissions department, are you happy with the way that existing medical admissions units are operating across south Wales?</p>	<p>Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ond mae etholwyr wedi mynegi pryderon ynghylch llwybrau derbyn eraill heb eu cynllunio. Cawsant eu cyfeirio gan eu meddyg teulu i uned derbyniadau meddygol Ysbyty Athrofaol Llandochau gyda symptomau cysylltiedig â'r galon. Yna, fe fuont yn eistedd ar gadair blastig am chwe awr a hanner cyn cael eu rhoi ar droli am y noson mewn ciwbicl. Bu claf oedrannus arall a oedd yn dioddef o niwmonia yn eistedd ar gadair am 12 awr cyn cael ei roi i gysgu mewn cadair esmwyth mewn ystafell ochr am na allent hyd yn oed ddod o hyd i droli ar ei gyfer. Yn amlwg, gwn y byddwch yn ystyried hynny'n annerbyniol, ond o gofio bod cynlluniau ad-drefnu iechyd o dan raglen de Cymru yn awgrymu newid yr uned ddamweiniau ac achosion brys yn Llantrisant yn adran derbyniadau brys o'r fath, a ydych yn fodlon â'r ffordd y mae'r unedau derbyniadau meddygol sy'n bodoli eisoes yn gweithredu yn ne Cymru?</p>
13:51	<b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I'd be grateful if the Member could write to me with the detail of the particular points she raises, so that I can take them up with the relevant health board.</p> <p>In terms of the broader points about the way in which we organise admissions to hospital that aren't for elective, planned treatment, there's a broader challenge here about the whole system and how different parts make sense: you have the right streams of patients going into the right place at the right time. The examples that she mentions I do need to look at, indeed, before I come back properly, but I would always expect that patients are treated with dignity and provided care in the right place at the right time, and medical admissions units are part of what should take place, but in that dignified and appropriate manner.</p>	<p>Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelod ysgrifennu ataf gyda manylion ynghylch y pwyntiau penodol y mae'n eu codi er mwyn i mi allu eu trafod gyda'r bwrdd iechyd perthnasol.</p> <p>O ran y pwyntiau ehangach ynglŷn â'r ffordd rydym yn trefnu derbyniadau i'r ysbyty nad ydynt ar gyfer triniaethau dewisol a gynlluniwyd, mae yna her ehangach yma ynghylch y system gyfan a sut y mae gwahanol rannau yn gwneud synnwyr: y llif iawn o gleifion yn mynd i mewn i'r lle iawn ar yr adeg iawn. Mae angen i mi edrych ar yr enghreifftiau y sonia amdanynt, yn wir, cyn i mi ddod yn ôl yn iawn ar hyn, ond fe fyddwn bob amser yn disgwyl i gleifion gael eu trin gydag urddas a'u bod yn cael gofal yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Mae unedau derbyniadau meddygol yn rhan o'r hyn a ddylai ddigwydd, ond yn y modd urddasol a phriodol hwnnw.</p>
13:52	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Deputy Minister, we saw the strain some emergency departments were under this winter, as demand intensified with an increase in sick patients. However, some clinicians say there is no such thing as winter pressures, and that the demand on the NHS is all year round. What are health boards doing to reduce emergency admissions to hospitals?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, gwelsom y straen a wynebodd rhai adrannau achosion brys y gaeaf hwn, wrth i'r galw ddwysáu a chynnydd yn nifer y cleifion sâl. Fodd bynnag, mae rhai clinigwyr yn dweud nad oes y fath beth â phwysau'r gaeaf, a bod pwysau ar y GIG drwy gydol y flwyddyn. Beth y mae byrddau iechyd yn ei wneud i leihau nifer y derbyniadau brys i ysbytai?</p>

13:52

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. It's an important point that you raise, about reducing emergency admissions as well as the year-round pressure that the service is under. It is fair to point out, though, that the evidence is unambiguously explicit that pressures on urgent and emergency care services increase during the winter months. The problems about how elderly, frail and sick patients are in winter are different to the rest of the year, even though the figures may be similar for other months. So, part of this is about the whole system responding, and it's about ensuring that primary care is more joined up with social care and hospital care as well. The announcement that the Minister made earlier this week about reforms to the GP contract I think is part of that, to ensure that GPs themselves and the whole primary care team have more time to care for their sickest and, frankly, most elderly and frail patients closer to home to prevent emergency admissions being needed.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r pwynt rydych yn ei godi yn un pwysig, yn ymwneud â lleihau nifer y derbyniadau brys yn ogystal â'r pwysau sydd ar y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'n deg nodi, fodd bynnag, fod y dystiolaeth yn ddiamwys o bendant fod y pwysau ar wasanaethau gofal brys yn cynyddu yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r problemau ynglŷn â pha mor oedrannus, bregus a sâl yw cleifion yn y gaeaf yn wahanol i weddill y flwyddyn, er y gall y ffigurau fod yn debyg ar gyfer misoedd eraill. Felly, mae rhan o hyn yn ymwneud â'r system gyfan yn ymateb, ac mae'n ymwneud â sicrhau bod gofal sylfaenol yn cydgyssylltu'n well â gofal cymdeithasol a gofal ysbyty hefyd. Credaf fod y cyhoeddiad a wnaeth y Gweinidog yn gynharach yr wythnos hon ynglŷn â diwygiadau i'r contract meddygon teulu yn rhan o hynny, er mwyn sicrhau bod gan y meddygon teulu eu hunain a'r tîm gofal sylfaenol cyfan fwy o amser i ofalu am eu cleifion mwyaf sâl, a'u cleifion mwyaf oedrannus a bregus, a dweud y gwir, yn agosach i gartref er mwyn osgoi'r angen am dderbyniadau brys.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:53

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, one of the problems, of course, that's been caused as a result of emergency admissions is that our emergency departments are actually log-jamming. They've got problems with people waiting for far too long to be able to be seen and then discharged. In fact, we've got record numbers of people who are in emergency departments for 12 hours or longer. When can we expect to see improvements in that performance so that it's within the target that the Government has set of 95% of people receiving their care within the four-hour target?

Ddirprwy Weinidog, un o'r problemau a achoswyd o ganlyniad i dderbyniadau brys, wrth gwrs, yw tagfeydd yn ein hadrannau achosion brys. Maent yn wynebu problemau gyda phobl yn aros yn llawer rhy hir i gael eu gweld ac yna'u rhyddhau. Yn wir, mae gennym y niferoedd mwyaf erioed o bobl mewn adrannau achosion brys am 12 awr neu fwy. Pa bryd y gallwn ddisgwyl gweld gwelliannau yn y perfformiad fel ei fod yn cyrraedd y targed y mae'r Llywodraeth wedi'i osod o 95% o bobl yn cael gofal o fewn y targed pedair awr?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. You raise a broad point about patient flow, and again this is about the whole system, so making sure that people who don't need to be in an emergency department don't get taken there for care in an inappropriate setting. It's also about ensuring that, when those patients are there, they get the treatment they require. For some of those, it will be entirely appropriate for them to still to be treated in an A&E department after four hours, and we don't want to encourage people to make inappropriate admissions decisions. There is a suspicious increase in the number of admissions that take place right up to four hours in the English system. There's a point that we need to take on board there. Also, it's partly about the handover at the front door and also at the back door. So it's about ensuring we get delayed transfers of care resolved, so there's proper flow through the hospital, and equally so that when people do arrive in an ambulance, the handover takes place properly. That's why I'm pleased to confirm there is a new handover policy in place, which will be going right across Wales, announced on 27 February, and I look forward in coming months to see the impact of that on patient flow itself.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydych yn codi pwynt cyffredinol ynghylch llif cleifion ac unwaith eto mae'n ymwneud â'r system gyfan, a sicrhau nad yw pobl nad oes angen iddynt fod mewn adran achosion brys yn cael eu cludo yno i gael gofal mewn lleoliad amhriodol. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau, pan fo'r cleifion hynny yno, eu bod yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt. I rai ohonynt, bydd yn gwbl briodol eu bod yn dal i gael eu trin mewn adran damweiniau ac achosion brys ar ôl pedair awr, ac nid ydym am annog pobl i wneud penderfyniadau amhriodol ynghylch derbyniadau. Mae cynnydd amheus yn nifer y derbyniadau sy'n cymryd bron iawn bedair awr yn y system yn Lloegr. Mae yna bwynt yn hynny sydd angen i ni ei ystyried. Hefyd, mae'n ymwneud yn rhannol â throsglwyddo wrth y drws blaen a hefyd wrth y drws cefn. Felly mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn datrys problemau oedi wrth drosglwyddo gofal er mwyn cael llif priodol drwy'r ysbyty, ac yn yr un modd, pan fydd pobl yn cyrraedd mewn ambiwlans, fod trosglwyddo'n digwydd yn briodol. Dyna pam rwy'n falch o gadarnhau bod polisi trosglwyddo newydd wedi'i gyhoeddi ar 27 Chwefror a fydd yn gymwys ledled Cymru, ac edrychaf ymlaen yn y misoedd nesaf i weld effaith hynny ar lif cleifion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:55

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, we know that increased access to primary care is certainly part of the solution to reducing unplanned hospital admissions, and more crucially, a doctor's ability to be able to provide ongoing case management and support to someone who is indeed at risk of hospital admission. Whilst I understand that some announcements this year have been made regarding increased funding for primary care and that it's claimed that the new GP contract will free up an enormous amount of time, do you agree that the best thing to do would be to commit to employing more GPs?

Ddirprwy Weinidog, gwyddom fod mwy o fynediad at ofal sylfaenol yn sicr yn rhan o'r ateb er mwyn lleihau derbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbty, ac yn fwy hanfodol, o ran gallu meddyg i barhau i reoli'r achos a darparu cefnogaeth i rywun sy'n wynebu risg go iawn o gael eu derbyn i'r ysbty. Er fy mod yn deall bod rhai o'r cyhoeddiadau a wnaed eleni yn ymwneud â chynnydd yn cyllid tuag at ofal sylfaenol, ac yr honnir y bydd y contract meddygon teulu newydd yn rhyddhau llawer iawn o amser, a ydych yn cytuno mai'r peth gorau i'w wneud fyddai ymrwymo i gyflogi mwy o feddygon teulu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. Again, I am pleased that he acknowledges the additional investment this Government is making in primary care and also the additional focus on primary care, which I don't think gets enough attention in the business of this place when we talk about health needs. After all, 90% of interactions for health take place in a primary care setting. The challenges around recruitment that the Health and Social Care Committee are examining reveal that, in many parts of Wales, we have the right people in the right numbers. There are more than 2,000 GPs and more than 22,000 nurses. Our challenge is that, in some parts of Wales, there is a particular local problem, in some parts of rural Wales and in some more deprived communities. Health boards already recognise that this is a problem. That's why we expect to see more salaried GPs employed directly by health boards as well as salaried GPs employed by traditionally run GP practices. It goes back to the answer that the Minister gave earlier that some GPs coming into the workforce now don't want to go into the old traditional model, and there is a need to think about how we get the right people in the right place to provide care for communities right across Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Unwaith eto, rwy'n falch ei fod yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud ym maes gofal sylfaenol a hefyd y ffocws ychwanegol ar ofal sylfaenol, nad wyf yn credu yn ei fod yn cael digon o sylw yn nhrefodion y lle hwn pan fyddwn yn sôn am anghenion iechyd. Wedi'r cyfan, mae 90% o'r gweithgarwch iechyd sy'n digwydd yn cael ei gyflawni mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae'r heriau sydd ynghlwm wrth recriwtio, sy'n cael eu harchwilio gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn dangos bod gennym y nifer iawn o'r bobl iawn mewn sawl rhan o Gymru. Ceir mwy na 2,000 o feddygon teulu a mwy na 22,000 o nyrsys. Yr her sy'n ein hwynebu yw bod problemau penodol yn lleol mewn rhai rhannau o gefn gwlad Cymru ac mewn rhai cymunedau mwy difreintiedig. Mae byrddau iechyd eisoes yn cydnabod bod hon yn broblem. Dyna pam rydym yn disgwyl gweld mwy o feddygon teulu yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd yn ogystal â meddygon teulu cyflogedig yn cael eu cyflogi gan bractisau meddygon teulu traddodiadol. Mae'n mynd yn ôl at yr ateb a roddodd y Gweinidog yn gynharach nad yw rhai meddygon teulu sy'n dod i mewn i'r gweithlu yn awr yn awyddus i weithio o fewn yr hen fodel traddodiadol, ac mae angen meddwl sut y mae cael y bobl iawn yn y lle iawn er mwyn darparu gofal i gymunedau ledled Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Pobl â Hemoffilia

## Haemophiliacs

13:56

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau i bobl sydd â hemoffilia?  
OAQ(4)0568(HSS)

4. What plans does the Minister have to improve services for haemophiliacs? OAQ(4)0568(HSS)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government continues to support services within the NHS and in the third sector to improve the lives of haemophiliacs. I have recently extended the funding we provide to the Hepatitis C Trust counselling service in Wales. Other recent improvements include a new clinical nurse specialist at Nevill Hall and a new physiotherapy post in south-west Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwasanaethau yn y GIG ac yn y trydydd sector i wella bywydau pobl sydd â hemoffilia. Yn ddiweddar, rwyf wedi cynyddu'r cyllid a ddarparwn i wasanaeth cwnsela Ymddiriedolaeth Hepatitis C yng Nghymru. Mae gwelliannau eraill diweddar yn cynnwys nyrs glinigol arbenigol newydd yn Nevill Hall a swydd ffisiotherapi newydd yn ne-orllewin Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response, and I know that the Minister is aware of some of the difficulties experienced by people with haemophilia in Wales, and in particular the continued lack of a hepatologist at the Heath hospital and the access to certain drugs, but there's certainly been progress in terms of physiotherapy and psychological help. But how can we tackle those difficulties that I've referred to?

Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb, a gwn ei fod yn ymwybodol o rai o'r anawsterau a wynebir gan bobl â hemoffilia yng Nghymru, ac yn arbennig y diffyg hepatolegydd yn ysbyty'r Waun o hyd a mynediad at rai cyffuriau, ond yn sicr gwnaed cynnydd o ran ffisiotherapi a chymorth seicolegol. Ond sut y gallwn fynd i'r afael â'r anawsterau y cyfeiriais atynt?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:57 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Julie Morgan for that, and I hope I've got something I can say to her on both the points that she's raised. The new post of an additional clinical hepatologist at the Heath hospital has now been agreed. The post is advertised and a locum consultant is in post covering that post until a substantive appointment can be made, and I look forward very much to that happening and I know how important it is to those people who she does so much to represent at the cross-party group. In relation to new drug therapies, I know that Julie Morgan will be aware that we put in place an interim all-Wales commissioning policy that allowed access to sofosbuvir for adults who were severely ill with hepatitis C. That will now be overtaken by the full NICE guidance that was issued in February, and clinicians in Wales at local health board level and at the Welsh Health Specialised Services Committee are working together to see how that guidance can be implemented.

Wel, diolch i Julie Morgan am hynny, ac rwy'n gobeithio bod gennyf rywbeth y gallaf ei ddweud wrthi ar y ddau bwynt a gododd. Cytunwyd bellach i greu swydd hepatolegydd clinigol ychwanegol newydd yn ysbyty'r Waun. Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ac mae ymgynghorydd meddygol locwm yn gwneud y gwaith hyd nes y gellir gwneud penodi'n barhaol, ac edrychaf ymlaen yn fawr at weld hynny'n digwydd. Rwy'n gwybod pa mor bwysig yw hyn i'r bobl y mae'n gwneud cymaint i'w cynrychioli yn y grŵp trawsbleidiol. Mewn perthynas â therapiau cyffuriau newydd, gwn y bydd Julie Morgan yn ymwybodol ein bod wedi rhoi polisi comisiynu interim ar waith ar gyfer Cymru i ganiatáu mynediad at sofosbuvir i oedolion a oedd yn ddifrifol wael â hepatitis C. Bydd arweiniad llawn NICE a gyhoeddwyd ym mis Chwefror yn disodli hynny'n awr, ac mae clinigwyr yng Nghymru ar lefel bwrdd iechyd lleol ac ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i weld sut y gellir gweithredu'r canllawiau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, of course we welcome any work that you are doing towards improving services for patients with haemophilia, but you may recall that, when we discussed this issue previously, I expressed concerns about the lack of research into blood disorders such as haemophilia and pernicious anaemia in particular. You said that you would raise the issue with the National Institute for Social Care and Health Research at that time, so can you tell us what progress is now being made on research into blood disorders, including pernicious anaemia?

Weinidog, rydym yn croesawu unrhyw waith rydych yn ei wneud tuag at wella gwasanaethau i gleifion â hemoffilia wrth gwrs, ond efallai y byddwch yn cofio, pan drafodwyd y mater hwn gennym o'r blaen, fy mod wedi mynegi pryderon am y diffyg ymchwil i anhwylderau gwaed fel hemoffilia ac anemia dinistriol yn arbennig. Fe ddywedoch ar y pryd y byddech yn dwyn y mater i sylw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i chi allu dweud wrthym pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn awr ar ymchwil i anhwylderau gwaed, gan gynnwys anemia dinistriol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:59 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Suzy Davies for that very important question? Here is a topic where Welsh patients really do benefit from a UK-wide effort, because the numbers involved to do proper clinical research rely on a population greater than the size of Wales. We are members of the national research effort. I will get the more specific information and write to her on exactly what is going on, but we are very keen indeed to make sure that we are both part of that effort and that we get the maximum benefits for patients in Wales from it.

A gaf fi ddiolch i Suzy Davies am y cwestiwn pwysig hwn? Dyma bwnc lle y mae cleifion o Gymru yn elwa mewn gwirionedd ar yr ymdrechion a wneir ar draws y DU, gan fod y niferoedd sydd eu hangen i wneud gwaith ymchwil priodol yn dibynnu ar boblogaeth fwy o faint na Chymru. Rydym yn aelodau o'r ymdrech ymchwil genedlaethol. Fe gaf y wybodaeth fwy penodol honno ac fe ysgrifennaf ati i ddweud beth yn union beth sy'n digwydd, ond rydym yn awyddus iawn yn wir i wneud yn siŵr ein bod yn rhan o'r ymdrech honno a'n bod yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i gleifion yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:59

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you'll be familiar with the Penrose inquiry. The final report is due out, I think, on 25 March. Obviously, this is relevant to us, and you've commented on it before, in respect of those affected by contaminated blood and, of course, the group that's been co-ordinating with yourself, but equally so on the lessons that are to be learned and any measures that could, potentially, be put in place. What steps will you be taking to actually become aware of the report and engage with the inquiry and any outcomes of that, so that the Welsh NHS and those affected in Wales can benefit from its conclusions?

Weinidog, fe fyddwch yn gyfarwydd ag ymchwiliad Penrose. Rwy'n meddwl bod yr adroddiad terfynol ar fin cael ei gyhoeddi ar 25 Mawrth. Yn amlwg, mae hyn yn berthnasol i ni ac rydych wedi gwneud sylwadau arno o'r blaen mewn perthynas â'r rhai a effeithiwyd gan waed halogedig ac wrth gwrs, y grŵp sydd wedi bod cydgyssylltu â chi, ond yr un mor berthnasol hefyd yw'r gwersi sydd i'w dysgu ac unrhyw gamau y gellid eu rhoi ar waith. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ymgwyfarwyddo â'r adroddiad ac i ymgysylltu â'r ymchwiliad ac unrhyw ganlyniadau sy'n deillio ohono, er mwyn i'r GIG yng Nghymru a'r rhai yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru allu manteisio ar ei gasgliadau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mick Antoniw for that. I'm very aware of the calls by people affected here in Wales by those things that happened so very many years ago, for an inquiry into those circumstances. I've had to explain to them that I don't think an inquiry of that sort would get them the answers that they are looking for, but I have given them an undertaking that we will take a close interest in the Penrose inquiry and its conclusions.

Diolch i Mick Antoniw. Rwy'n ymwybodol iawn o'r galwadau gan bobl yr effeithiwyd arnynt yma yng Nghymru gan y pethau a ddigwyddodd gymaint o flynyddoedd yn ôl am ymchwiliad i'r amgylchiadau. Rwyf wedi gorfod esbonio iddynt nad wyf yn credu y byddai ymchwiliad o'r math hwnnw'n sicrhau'r atebion y maent yn chwilio amdanynt, ond rwyf wedi rhoi ymrwymiad y byddwn yn talu sylw manwl i ymchwiliad Penrose a'i gasgliadau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I discussed this with the Scottish health Minister in some detail two weeks ago. I'm grateful to her for her continuing willingness to make sure that we get full access in Wales to the work that they are doing. We will get information, we will get briefings, we will look carefully to see what can be learned here in Wales and we will consider, as well, the best way in which we can, collectively, make sure that we learn the lessons from Penrose and see how they can be applied here.

Trafodais hyn yn fanwl gyda Gweinidog iechyd yr Alban bythefnos yn ôl. Rwy'n ddiolchgar iddi am ei pharodrwydd diffino i wneud yn siŵr ein bod ni yng Nghymru yn cael gweld yr holl waith y maent yn ei wneud. Byddwn yn cael gwybodaeth, byddwn yn cael sesiynau briffio, byddwn yn edrych yn ofalus i weld beth y gellir ei ddysgu yma yng Nghymru a byddwn yn ystyried hefyd y ffordd orau o sicrhau, gyda'n gilydd, ein bod yn dysgu gwersi o ymchwiliad Penrose ac yn gweld sut y gellir eu cymhwysu yma.

**Ambiwlansys o Loegr sy'n Trin Cleifion yng Nghymru**

**Ambulances from England Attending Patients in Wales**

14:01

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ambiwlansys o Loegr sy'n trin cleifion yng Nghymru? OAQ(4)0562(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on the number of ambulances from England that attend to patients in Wales? OAQ(4)0562(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. There are mutually agreed arrangements in place between Wales and England with regard to emergency ambulance responses to patients on the borders. This ensures emergency responses are not compromised by those borders, and will inevitably result in some English ambulances attending Welsh residents and vice versa.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae trefniadau wedi'u cytuno gan y ddwy ochr ar waith rhwng Cymru a Lloegr o ran ymatebion ambiwlans brys i gleifion ar y ffin. Mae hyn yn sicrhau nad yw ymatebion brys yn cael eu peryglu gan y ffiniau hynny, ac mae'n anochel y bydd yn arwain at rai ambiwlansys o Loegr yn ymateb i alwadau trigolion o Gymru ac i'r gwrthwyneb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am most grateful to the Deputy Minister for his answer. I understand far more ambulances come from England to Wales than vice versa, and the instance of these ambulances from England attending to patients in Wales, particularly, in this particular case I'm going to give you an example of in Chepstow, highlight significant differences in policies for treating patients, in respect of the administration of drugs by ambulance technicians and paramedics, for example, intravenous paracetamol and glyceryl trinitrate. Given that it is medically necessary to administer these drugs, what plans do you have to address these differences?

Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei ateb. Rwy'n deall bod llawer mwy o ambiwlansys yn dod o Loegr i Gymru nag i'r gwrthwyneb, ac o achosion o'r ambiwlansys hyn o Loegr yn trin cleifion yng Nghymru. Yn benodol, yn yr achos arbennig hwn, rwy'n mynd i roi enghraifft i chi o Gas-gwent, sy'n tynnu sylw at wahaniaethau arwyddocaol yn y polisiau ar gyfer trin cleifion o ran gweinyddu cyffuriau gan dechnegwyr ambiwlans a pharafeddygon, er enghraifft paracetamol mewnwythiennol a glyceryl trinitrad. O ystyried bod angen meddygol i weinyddu'r cyffuriau hyn, pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â gwahaniaethau o'r fath?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the follow-up question. It would be helpful if he wrote to me setting out the specific concerns he has and the differences in practice and how he sees those as impacting on patient outcomes, which is what I'm especially interested in. I do understand that there are more conveyances of English ambulances to Welsh patients than vice versa, but this is just simply the nature of the beast, as it were. For example, we know that there are 5,000 more English residents who are registered with Welsh GPs than vice versa. So, it's a simple nature of cross-border treatment and flows, and we should not see a system artificially created to interrupt that.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn dilynol. Byddai o gymorth pe bai'n ysgrifennu ataf gan nodi'r pryderon penodol sydd ganddo a'r gwahaniaethau ymarferol a sut y mae'n gweld hynny'n effeithio ar ganlyniadau i gleifion, sef yr hyn y mae gennyf ddiddordeb penodol ynddo. Rwy'n deall bod mwy o drawsgludo cleifion yng Nghymru gan ambiwlansys o Loegr nag i'r gwrthwyneb, ond dyna'n syml iawn yw natur y broblem, fel petai. Er enghraifft, gwyddom fod yna 5,000 yn fwy o drigolion o Loegr wedi cofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru nag i'r gwrthwyneb. Felly, yn syml iawn, dyna natur triniaethau a llifoedd trawsffiniol, ac ni ddylem anelu i greu system artifisial i amharu ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Trefniadau Llywodraethu

## Governance Arrangements

14:03

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0555(HSS)*

*6. What assessment has the Minister made of governance arrangements at Betsi Cadwaladr University Health Board? OAQ(4)0555(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for that. Governance arrangements at the health board are subject to continuous and rigorous assessment. The Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales have reported jointly twice on this matter since June 2013. The Public Accounts Committee has taken evidence from the chief executive of NHS Wales on two occasions, and has published its own report. I have responded twice to that report, in February and September 2014.

Diolch i Ann Jones. Mae trefniadau llywodraethu yn y bwrdd iechyd yn amodol ar asesiad parhaus a thrwyadl. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi adrodd ar y cyd ddwywaith ar y mater hwn ers mis Mehefin 2013. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cymryd tystiolaeth gan brif weithredwr GIG Cymru ar ddau achlysur, ac wedi cyhoeddi ei adroddiad ei hun. Rwyf wedi ymateb ddwywaith i'r adroddiad hwnnw, ym mis Chwefror a mis Medi 2014.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that very comprehensive answer, Minister. I think that public confidence in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board was at an all-time low and that resulted in the previous chair and chief executive leaving their posts. We were promised that the way in which the health board had operated would never happen again. But, unfortunately, on the latest and the only test, I think, that the new board's had to undertake, they've failed spectacularly in the fact that they've failed to consult with the public, they've hidden papers—they've not put papers up on their website—and we've seen a slipping back. If it's possible to sink any lower in public confidence, then Betsi Cadwaladr has achieved that quite spectacularly, as a board.

Diolch yn fawr am eich ateb cynhwysfawr iawn, Weinidog. Credaf fod hyder y cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn is nag erioed a dyna a arweiniodd at y ffaith fod y cadeirydd blaenorol a'r prif weithredwr wedi gadael eu swyddi. Cawsom addewid na fyddai'r ffordd y mae'r bwrdd iechyd wedi gweithredu byth yn digwydd eto. Ond yn affodus, yn ôl y prawf diweddaraf, a'r unig brawf, rwy'n meddwl, y bu'n rhaid i'r bwrdd newydd ei wynebu, maent wedi methu'n drawiadol o ran y ffaith eu bod wedi methu ag ymgynghori â'r cyhoedd, maent wedi cuddio papurau—nid ydynt wedi gosod papurau ar eu gwefan—ac rydym wedi gweld llithro'n ôl. Os yw'n bosibl suddo'n is o ran lefelau hyder y cyhoedd, yna Betsi Cadwaladr fel bwrdd wedi cyflawni hynny'n eithaf trawiadol.

Minister, what can you do to ensure that the health boards do work in an open and transparent manner, especially when it affects so many people and many of them within my constituency?

Weinidog, beth y gallwch ei wneud i sicrhau bod y byrddau iechyd yn gweithio mewn modd agored a thryloyw, yn enwedig pan fo'n effeithio ar gymaint o bobl, a llawer ohonynt yn fy etholaeth i?

14:04

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Ann Jones raises similar points to those in the letter that I have received from the north Wales CHC, and to which reference was made earlier. As I said then, I intend to reply to the community health council this week and, in that, I will acknowledge the important role they have to play in bringing matters to a safe and sustainable conclusion. In the same letter, I will also remind the health board of its duty to abide by the spirit of the public engagement arrangements that are clearly set out in the national guidance on making changes to health services in Wales.

Mae Ann Jones yn gwneud pwyntiau tebyg i'r rheini yn y llythyr a gefais gan Gyngor Iechyd Cymuned gogledd Cymru, ac y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Fel y dywedais bryd hynny, rwy'n bwriadu ymateb i'r cyngor iechyd cymuned yr wythnos hon ac yn fy ateb, byddaf yn cydnabod y rôl bwysig sydd ganddynt yn y broses o ddatrys materion yn ddiogel a chynaliadwy. Yn yr un llythyr, byddaf hefyd yn atgoffa'r bwrdd iechyd am ei ddyletswydd i gadw at ysbryd y trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd sydd wedi'u nodi'n glir yn y canllawiau cenedlaethol ar wneud newidiadau i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

14:05

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Antoinette Sandbach, without help from Darren Millar, hopefully.

Antoinette Sandbach, heb help gan Darren Millar, gobeithio.

14:05

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, it's quite clear that they haven't complied with the protocol. They haven't complied with the protocol that was in place with the CHC and, as Ann Jones has already outlined, there is a huge loss of confidence and loss of faith in the board, because of their complete failure to act with transparency or accountability. Now, I understand, Minister, that you are going to write to the CHC about the matters that they've raised, but as Assembly Members, we need to be able to question you on these matters, given the previous criticism by reports in this Assembly of the previous conduct of the Betsi Cadwaladr health board. Would you agree that it appears that no lessons have been learned?

Wel, mae'n eithaf amlwg nad ydynt wedi cydymffurfio â'r protocol. Nid ydynt wedi cydymffurfio â'r protocol a oedd ar waith gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned ac fel y mae Ann Jones eisoes wedi'i amlinellu, collwyd llawer iawn o hyder a ffydd yn y bwrdd, oherwydd eu methiant llwyr i weithredu gyda thryloywder ac atebolrwydd. Nawr, Weinidog, rwy'n deall eich bod yn mynd i ysgrifennu at y Cyngor Iechyd Cymuned ynglŷn â'r materion y maent wedi eu crybwyll, ond fel Aelodau Cynulliad, mae angen i ni allu eich holi ar y materion hyn, o ystyried y feirniadaeth flaenorol a wnaed mewn adroddiadau yn y Cynulliad hwn ar ymddygiad blaenorol bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. A fydddech yn cytuno ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw wersi wedi cael eu dysgu?

14:06

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not in a position to agree with that proposition, Llywydd. I explained earlier that when CHCs write to me on matters of engagement, they are doing so, very specifically, within a legal framework. I will do them the courtesy of taking advice on the points that they have raised, and, as I mentioned to Members earlier, we have a very recent High Court judgment here in Wales on a matter raised in circumstances with some important parallels to those in north Wales in terms of a decision made on an urgent basis. As soon as I've had that advice, then I will come to a conclusion and I'll make sure that the CHC hear it first.

Nid wyf mewn sefyllfa i gytuno â'r gosodiad hwnnw, Lywydd. Eglurais yn gynharach fod Cyngorau Iechyd Cymuned sy'n ysgrifennu ataf ar faterion yn ymwneud ag ymgysylltu yn gwneud hynny'n benodol iawn o fewn fframwaith cyfreithiol. Byddaf yn dangos cwrteisi iddynt drwy gymryd cyngor ar y pwyntiau y maent wedi eu codi ac fel y soniais wrth yr Aelodau yn gynharach, cawsom ddyfarniad yr Uchel Lys yn ddiweddar iawn yma yng Nghymru ar fater a godwyd mewn amgylchiadau a oedd yn debyg mewn rhai ffyrdd pwysig i'r rhai yng ngogledd Cymru o ran gwneud penderfyniad ar frys. Cyn gynted ag y byddaf wedi cael y cyngor hwnnw, byddaf yn dod i gasgliad ac yn gwneud yn siŵr fod y Cyngor Iechyd Cymuned yn ei glywed yn gyntaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:07

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mewn perthynas â'r penderfyniad diweddaraf yma, a ydych chi'n credu bod y bwrdd wedi ymddwyn yn agored ac yn unol â'r ffordd y byddech chi'n disgwyl iddyn nhw ymateb? Mae penderfyniad wedi cael ei wneud ar sail prinder meddygon canolradd o fewn y gwasanaeth mamolaeth. Pryd gawsoch chi wybod am y prinder yma o feddygon yn y maes hwnnw?

In relation to this latest decision, do you believe that the board has acted in an open manner and in accordance with how you would expect them to respond? A decision has been taken on the basis of a shortage of intermediate doctors within the maternity service. When did you get to hear of the shortage of doctors in that field?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:07

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do think it's important, Llywydd, to put the decision in some slightly wider context than the one that has just been raised. Members here will be aware that the actions taken by the local health board stem from a whistleblower who, on 25 May 2013, raised a series of concerns with the local health board about the Ysbyty Glan Clwyd obstetrics and gynaecology department. The local health board acted responsibly, I believe, in securing the best possible clinical advice to them on those whistleblowing concerns. It led to the production of the Steele report, before the end of the summer of 2013. The Steele report concluded that labour ward cover did not meet standards; there were inadequate ward rounds; there was poor communication and lack of team working; there was lack of clarity about consultants on call; and there was unprofessional behaviour, including bullying and intimidating behaviour, at Ysbyty Glan Clwyd. The local health board followed that up further with a full report from the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists. It echoed many of the concerns that the Steele report had uncovered. Here's just one sentence from it:

'There has clearly been bad behaviour, interpersonal difficulties, formation of factions, undermining and overriding self-interest.'

Now, the local health board made a determined attempt to pursue the solutions that the royal college laid out. They came to a conclusion that it was not possible to bring those actions to a successful conclusion and, on the grounds of patient safety, they made the decision that they made in February for a temporary change to arrangements at Ysbyty Glan Clwyd.

Lywydd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig rhoi'r penderfyniad mewn cyd-destun ychydig yn ehangach na'r un sydd newydd gael ei grybwyll. Bydd yr Aelodau yma yn ymwybodol fod y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd lleol yn deillio o chwythu'r chwiban gan unigolyn a ddaeth â chyfres o bryderon i sylw'r bwrdd iechyd lleol ar 25 Mai 2013 ynghylch adran obstetreg a gynaeoleg Ysbyty Glan Clwyd. Rwy'n credu bod y bwrdd iechyd lleol wedi gweithredu mewn modd cyfrifol o ran sicrhau'r cyngor clinigol gorau posibl iddynt ynghylch y pryderon a amlygwyd drwy chwythu'r chwiban. Arweiniodd at gynhyrchu adroddiad Steele cyn diwedd haf 2013. Daeth adroddiad Steele i'r casgliad nad oedd y ddarpariaeth staffio ar y ward esgor yn bodloni'r safonau; nid oedd digon o rowndiau ward yn digwydd; roedd cyfathrebu'n wael a diffyg gweithio mewn tîm; roedd diffyg eglurder ynglŷn â pha feddygon ymgynghorol oedd ar alwad; ac roedd enghreifftiau o ymddygiad amhroffesiynol, gan gynnwys bwlio ac ymddygiad bygythiol, yn Ysbyty Glan Clwyd. Gwnaeth y bwrdd iechyd lleol waith pellach ar hyn gydag adroddiad llawn gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaeolegwyr. Mae'n adleisio llawer o'r pryderon a ddatgelwyd gan adroddiad Steele. Dyma un frawddeg yn unig ohono:

'Yn amlwg, cafwyd ymddygiad gwael, anawsterau rhyngpersonol, ffurfio carfanau, tanseilio a hunan-les gor-redol.'

Nawr, fe aeth y bwrdd iechyd lleol ati'n benderfynol i gyflawni'r atebion a nodwyd gan y coleg brenhinol. Daethant i'r casgliad nad oedd yn bosibl cyflawni'r camau hynny'n llwyddiannus, ac ar sail diogelwch cleifion, gwnaed penderfyniad ym mis Chwefror i newid trefniadau yn Ysbyty Glan Clwyd dros dro.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



14:10

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych chi wedi cyhoeddi datganiad heddiw ynglŷn â gwasnaethau iechyd meddwl ar gyfer yr henoed. Mae hwnnw'n cyfeirio at nifer o arolygiadau sydd wedi cymryd lle. A gaf i ddyfynnu? Rwy'n mynd i wneud hynny'n Saesneg o achos bod y cofnodion yn Saesneg.

The board minutes of Betsi Cadwaladr raised governance and leadership issues, not only with regard to maternity services, but also with regard to mental health. The board minute on 10 March of this year states that, taken together, these reports raise significant concerns regarding the leadership and systems of governance in place in the board. It goes on to say that there are expedited monitoring arrangements being undertaken by the Welsh Government.

The mental health committee report in January actually refers to a failure by CAMHS to provide out-of-hours services for under-18-year-olds. It also says that there was an urgent review of GP cover at one of the mental health units, and also said that there was poor attendance at committee meetings within the health board. Can I ask, if there are increased levels of monitoring in place at the board because of all these failings, what information is available to us as Assembly Members because, basically, we've been told now for two years that the Government is having regard to the governance problems within the health board?

You have published a statement today about mental health services for the elderly. That statement refers to a number of inspections that have taken place. May I quote? I will quote in English because the minutes are in English.

Tynnodd cofnodion bwrdd Betsi Cadwaladr sylw at broblemau llywodraethu ac arweinyddiaeth, nid yn unig o ran gwasanaethau mamolaeth, ond hefyd o ran iechyd meddwl. Mae cofnod y bwrdd ar 10 Mawrth eleni yn datgan bod yr adroddiadau hyn, gyda'i gilydd, yn peri pryder sylweddol ynghylch arweinyddiaeth a systemau llywodraethu a roddwyd ar waith yn y bwrdd. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod trefniadau monitro brys yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.

Mae adroddiad y pwyllgor iechyd meddwl ym mis Ionawr yn cyfeirio at fethiant CAMHS i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer plant dan 18 mlwydd oed. Mae hefyd yn dweud bod adolygiad brys wedi'i gynnal o'r ddarpariaeth meddygon teulu yn un o'r unedau iechyd meddwl, a dywedodd hefyd fod lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd pwyllgorau'r bwrdd iechyd yn isel. A gaf fi ofyn, os oes lefelau uwch o fonitro ar waith yn y bwrdd oherwydd yr holl ddiffygion hyn, pa wybodaeth sydd ar gael i ni fel Aelodau'r Cynulliad, oherwydd yn y bôn, rydym wedi cael gwybod ers dwy flynedd yn awr fod y Llywodraeth yn ystyried y problemau llywodraethu yn y bwrdd iechyd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:11

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Llywydd, I think that I set out in my original answer for the Member a very comprehensive set of ways in which Members in this Chamber receive reports on governance issues at Betsi Cadwaladr health board. I have myself reported twice to the Public Accounts Committee—in February and September of last year—on exactly this matter. Of course, we know there are concerns about some aspects of mental health services in north Wales, but the issues that the Member has just identified come from the governance arrangements that the local health board itself has set out in order to make sure that they are identified and attended to.

Wel, Lywydd, rwy'n meddwl fy mod wedi nodi yn fy ateb gwreiddiol i'r Aelod y gyfres gynhwysfawr iawn o ffyrdd y mae Aelodau'r Siambr hon yn cael adroddiadau ar faterion llywodraethu ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Rwyf i fy hun wedi adrodd ddwywaith i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus—ym mis Chwefror a mis Medi y llynedd—ar yr union fater hwn. Wrth gwrs, gwyddom fod pryderon ynghylch rhai agweddau ar wasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru, ond mae'r materion y mae'r Aelod newydd eu crybwyll yn deillio o'r trefniadau llywodraethu y mae'r bwrdd iechyd lleol ei hun wedi tynnu sylw atynt er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu nodi a'u datrys.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Ailgylchu Offer Meddygol

## Recycling Medical Equipment

14:12

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Pa gamau y mae byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG yn cymryd i ailgylchu offer meddygol pan nad oes angen yr offer ar y defnyddiwr cychwynnol bellach?*  
OAQ(4)0566(HSS)

*7. What steps do NHS boards and trusts take to recycle medical equipment that is no longer needed by the initial user?* OAQ(4)0566(HSS)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 14:12 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for the question. NHS Wales seeks to reuse medical equipment no longer required by the initial user. Where that is inappropriate or uneconomic, parts should be recycled. The potential for recycling is subject to legal and regulatory considerations, which require the recycled equipment and parts to be both reliable and safe.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae GIG Cymru yn ceisio aildddefnyddio offer meddygol nad oes mo'i angen mwyach ar y defnyddiwr cychwynnol. Lle y mae hynny'n amhriodol neu'n aneconomaidd, dylid ailgylchu cydrannau. Mae'r potensial ar gyfer ailgylchu yn amodol ar ystyriaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i offer a chydrannau wedi'u hailgylchu fod yn ddibynadwy ac yn ddiogel.
- 14:12 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Obviously, the best practice in terms of sustainability is for things to be reused where possible. I was contacted by a constituent who was keen to return three perfectly good Zimmer frames. We managed to identify three different organisations that serve Cardiff and the Vale. One was the joint equipment store, which mainly stocks occupational therapy equipment, but other equipment as well, but they will only collect the equipment that they have issued. Second, the physiotherapy team, which issues Zimmer frames and many other things; they no longer will provide a collection service. Third, the British Red Cross, which is now based in Newport, but covers the whole of south-east Wales; they will collect if you ask them to, and then they will either lend it or sell it for a modest sum to cover their costs. If active citizens are not, you know, hunting these organisations down—
- Yn amlwg, yr arfer gorau o ran cynaliadwyedd yw aildddefnyddio pethau lle y bo modd. Cysylltodd etholwr â mi i ddweud ei fod yn awyddus i ddychwelyd tair ffrâm Zimmer a oedd mewn cyflwr da. Fe lwyddon ni i ddod o hyd i dri sefydliad sy'n gwasanaethu Caerdydd a'r Fro. Un oedd y storfa offer ar y cyd, sy'n storio offer therapi galwedigaethol yn bennaf. Mae ganddynt offer arall hefyd, ond ni fyddant yn casglu offer na chafodd ei roi allan ganddynt hwy yn y lle cyntaf. Yn ail, mae'r tîm ffisiotherapi yn dosbarthu fframiau Zimmer a llawer o bethau eraill; ni fyddant bellach yn darparu gwasanaeth casglu. Yn drydydd, mae'r Groes Goch Brydeinig, sydd bellach wedi'u lleoli yng Nghasnewydd, yn gwasanaethu de-ddwyrain Cymru i gyd; maent yn casglu deunydd os gofynnwch iddynt wneud hynny, a byddant naill ai'n ei roi ar fenthyg neu'n ei werthu am swm bychan i dalu am eu costau. Wyddoch chi, os nad yw dinasyddion gweithgar yn mynd ati i chwilio am y sefydliadau hyn—
- 14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Are you coming to the question? A ydych yn dod at y cwestiwn?
- 14:14 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—how do we get everybody in the health service to husband the resources of our NHS and make it easy for them to get the equipment back to where it can be reused?
- [Yn parhau.]—sut y mae sicrhau bod pawb yn y gwasanaeth iechyd yn gofalu am adnoddau ein GIG a'i gwneud yn hawdd iddynt ddychwelyd yr offer i lle y gellir ei aildddefnyddio?
- 14:14 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for the question. I understand the point that she makes about how we make it easier for people to return equipment who want to. Obviously, some medical equipment isn't appropriate for return. There are some single-use items, but we recognise, in particular, for mobility aids and a number of high-need patients who will be at home, that at some point that equipment will need to be returned and either disposed of or reused. It is disappointing that she's been able to bring an example of somebody who wants to return equipment for reuse and has found it difficult to do so. I'd be grateful if she could provide me with more detail in writing. I'll happily take it up with the health board in question. I'll also take matters up with other health boards to ensure they take on the message and make it easy for people to return equipment, which could be reused or recycled, but should be returned for proper and safe disposal by the service itself.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n deall y pwynt y mae'n ei wneud ynglŷn â sut y gallwn ei gwneud yn haws i bobl ddychwelyd offer pan fyddant eisiau gwneud hynny. Yn amlwg, nid yw'n briodol dychwelyd peth offer meddygol. Ceir rhai eitemau untro, ond rydym yn cydnabod, yn arbennig, y bydd angen dychwelyd cymhorthion symudedd ar ryw adeg yn achos y nifer o gleifion yn eu cartrefi gydag anghenion mawr, naill ai i gael eu gwared neu eu haildddefnyddio. Mae'n siomedig ei bod hi wedi gallu rhoi enghraifft o rywun sydd am ddychwelyd offer ar gyfer ei aildddefnyddio ac sydd wedi cael anhawster i wneud hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai roi mwy o fanylion i mi yn ysgrifenedig. Byddwn yn hapus i ddwyn y mater i sylw'r bwrdd iechyd dan sylw. Fe ddof â'r materion hyn i sylw byrddau iechyd eraill hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y neges ac yn ei gwneud yn hawdd i bobl ddychwelyd offer, y gellid ei aildddefnyddio neu ei ailgylchu, ond y dylid ei ddychwelyd er mwyn i'r gwasanaeth ei hun gael ei wared yn briodol a diogel.

- 14:15 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, recycling medical equipment not only provides cost savings, but also reduces the amount of medical waste. What is the Welsh Government doing to encourage greater partnership working between clinical and managerial leaders who recycle medical equipment and reduce medical waste to deliver cost benefits that can be used to improve patient care in Wales?
- Weinidog, mae ailgylchu offer meddygol nid yn unig yn arbed arian, ond hefyd yn lleihau gwastraff meddygol. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng arweinwyr clinigol a rheolaethol sy'n ailgylchu offer meddygol ac yn lleihau gwastraff meddygol er mwyn sicrhau manteision o ran costau y gellir eu defnyddio i wella gofal cleifion yng Nghymru?
- 14:15 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for the question. I think I substantially answered that point in my responses to Jenny Rathbone. I've got a very clear expectation of how the health service should behave, and I've said in answer to the Member for Cardiff Central that I'll take steps to ensure that health boards look to make it easy for that equipment to be returned, reused, recycled or safely disposed of.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n credu fy mod wedi ateb y pwynt yn sylweddol yn fy ymateb i Jenny Rathbone. Mae gen i ddisgwyliad dir iawn ynglŷn â sut y dylai'r gwasanaeth iechyd ymddwyn, ac rwyf wedi dweud yn fy ateb i'r Aelod dros Ganol Caerdydd y byddaf yn rhoi camau ar waith i sicrhau bod byrddau iechyd yn ceisio ei gwneud yn hawdd dychwelyd, ailddefnyddio, ailgylchu neu gael gwared ar offer o'r fath yn ddiogel.
- 14:15 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Similar to the issue that you've had with Jenny Rathbone, I've been contacted by a constituent—and I believe other Assembly Members in the region have—with regard to a number of large-scale sealed supplies that had been left with a gentleman who didn't need them anymore after an operation. When his wife called Swansea health centre in Fforestfach to ask whether they could return them to the pharmacy or the health centre, they were told they should dispose of them—put them in a bin or a skip—because they couldn't take them back. I wonder, as I heard you say in response, if you could, either in guidance or in a letter, put out some sort of statement to local health boards, because, of course, these were sealed and they could be used again. So, we don't want to be recycling or chucking things in bins that don't need to be.
- Yn debyg i'r mater rydych wedi bod yn ei drafod gyda Jenny Rathbone, mae etholwr wedi cysylltu â mi—a gydag Aelodau Cynulliad eraill yn y rhanbarth, rwy'n credu—mewn perthynas â nifer o gyflenwadau mawr wedi'u selio a adawyd gyda gŵr bonheddig nad oedd eu hangen arno mwyach ar ôl llawdriniaeth. Pan ffoniodd ei wraig ganolfan iechyd Abertawe yn Fforest-fach i ofyn a allent eu dychwelyd i'r fferyllfa neu'r ganolfan iechyd, dywedwyd wrthynt y dylent gael gwared arnynt—eu rhoi mewn bin neu sgip—am na allent eu cymryd yn ôl. Fel y clywais i chi'n dweud yn eich ateb, tybed a allech chi gyhoeddi rhyw fath o ddatganiad naill ai mewn canllawiau neu mewn llythyr at y byrddau iechyd lleol, oherwydd roedd y rhain wedi cael eu selio a gellid eu defnyddio eto, wrth gwrs. Felly, nid ydym am ailgylchu neu daflu pethau i'r bin lle nad oes angen gwneud hynny.
- 14:16 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, again, it would be helpful if you could write to me with the particulars of what were sealed so that I can take that up with the relevant health board. But I will make contact with each health board to reiterate the point about making it easy to reuse, recycle or safely dispose of medical equipment or other supplies.
- Wel, unwaith eto, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ysgrifennu ataf gyda manylion yr hyn a oedd wedi'i selio er mwyn i mi allu dwyn y mater i sylw'r bwrdd iechyd perthnasol. Ond fe fyddaf yn cysylltu â phob bwrdd iechyd i ailadrodd y pwynt ynglŷn â'i gwneud yn hawdd ailddefnyddio, ailgylchu neu gael gwared ar offer meddygol neu gyflenwadau eraill yn ddiogel.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Diolch i chi, Weinidog.
- 14:17 **2. Datganiad ynghylch Newid yn yr Hinsawdd** **Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move on to agenda item 2, which is a statement from the Minister for Natural Resources on climate change, which has been withdrawn.
- 2. Statement on Climate Change**  
**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Rydym bellach yn symud ymlaen at eitem 2, sef datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar newid hinsawdd, sydd wedi cael ei dynnu'n ôl.

14:17

### 3. Datganiad ar Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu: y Camau Nesaf

#### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next item is item 3, which is a statement by the Minister for Education and Skills on the Donaldson review of curriculum and assessment. So, I call on the Minister, Huw Lewis.

14:17

#### Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Presiding Officer, it was just under a year ago when I asked Professor Donaldson to undertake a fundamental and wide-ranging review of the school curriculum and of our assessment arrangements here in Wales. Professor Donaldson brought with him a wealth of experience of education, both in Scotland, where he was chief inspector for a number of years and played a key role in the introduction of their curriculum for excellence, as well as having an important international reputation. I know that he has been tireless in this task and I am sincerely grateful to him for the dedication and care that he has taken to produce his final report, 'Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales', which was published last week. I believe this is a seminal piece of work and I welcome it.

During the review, I know that Professor Donaldson met with very significant numbers of children and young people, practitioners and other interested parties. In addition, his call for evidence received over 700 responses, over 300 of which came from children and young people themselves. He also undertook research and looked at a range of international curriculum models. I know the evidence was very positive about key aspects of our education system, and that Professor Donaldson's recommendations have built on those. They include the foundation phase, routes for learning, our focus on literacy and numeracy, and our emphasis on the Welsh language and culture. We should all be proud of these aspects of our curriculum.

But Professor Donaldson's report also builds a powerful case for change, which he argues is necessary if we are to give our children the best chance of a successful future in the twenty-first, and, indeed, perhaps, the twenty-second, century. As he points out in his report, the first national curriculum was introduced as long ago as 1988. This was before the worldwide web, and before the very significant advances in technology and globalisation that have fundamentally changed the way we live and work today. Professor Donaldson's report argues that our curriculum needs to be simplified, reorganised and modernised if we are to ensure our learners have the best chance of a successful future.

### 3. Statement on the Donaldson Review of Curriculum and Assessment: Next Steps

Yr eitem nesaf yw eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu. Felly, galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

Lywydd, ychydig o dan flwyddyn yn ôl gofynnais i'r Athro Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol ac eang o'r cwricwlwm ysgol a'n trefniadau asesu yma yng Nghymru. Cyfrannodd yr Athro Donaldson gyfoeth o brofiad o fyd addysg yn yr Alban, lle'r oedd yn brif arolygydd am nifer o flynyddoedd a lle y bu ganddo rôl allweddol yn y broses o gyflwyno eu cwricwlwm ar gyfer rhagoriaeth, ac mae'n ffigur pwysig yn rhyngwladol hefyd. Gwn ei fod wedi bod yn ddiflino yn y dasg hon ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar iddo am ei ymroddiad a'i ofal wrth gynhyrchu ei adroddiad terfynol, 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru', a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Credaf fod hwn yn waith arloesol ac rwy'n ei groesawu.

Yn ystod yr adolygiad, gwn fod yr Athro Donaldson wedi cyfarfod â nifer sylweddol iawn o blant a phobl ifanc, addysgwyr ac eraill â diddordeb. Yn ogystal â hynny, denodd ei alwad am dystiolaeth dros 700 o ymatebion, a thros 300 ohonynt gan blant a phobl ifanc eu hunain. Hefyd, cyflawnodd waith ymchwil ac edrychodd ar ystod o fodelau cwricwlwm rhyngwladol. Rwy'n gwybod bod y dystiolaeth yn gadarnhaol iawn am agweddau allweddol o'n system addysg, a bod argymhellion yr Athro Donaldson wedi adeiladu ar y rheini. Maent yn cynnwys y cyfnod sylfaen, llwybrau dysgu, ein ffocws ar lythrennedd a rhifedd, a'n pwyslais ar y Gymraeg a diwylliant Cymru. Dylai pob un ohonom fod yn falch o'r agweddau hyn yn ein cwricwlwm.

Ond mae adroddiad yr Athro Donaldson hefyd yn datblygu achos cryf dros newid, ac mae'n dadlau bod hynny'n angenrheidiol os ydym am roi'r cyfle gorau o ddyfodol llwyddiannus i'n plant yn yr unfed ganrif ar hugain, ac yn wir, yn yr ail ganrif ar hugain, o bosibl. Fel y mae'n nodi yn ei adroddiad, cafodd y cwricwlwm cenedlaethol cyntaf ei gyflwyno cyn belled yn ôl â 1988. Roedd hyn cyn dyfodiad y we fyd-eang, a chyn y datblygiadau arwyddocaol iawn mewn technoleg a globaleiddio sydd wedi newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio heddiw yn sylfaenol. Mae adroddiad yr Athro Donaldson yn dadlau bod angen symleiddio, ad-drefnu a moderneiddio ein cwricwlwm os ydym am sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y cyfle gorau o ddyfodol llwyddiannus.

Y [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

His proposals are radical and wide-ranging and envisage a new and exciting approach to the curriculum that will generate better learning and higher standards: better learning because it focuses on what really matters in a modern school curriculum; higher standards, because it will set high expectations for learning and seek to help young people meet and, indeed, exceed them. At the heart of his report is a vision for what a well-educated young person in Wales should look like. He articulates this vision through four purposes of the curriculum and argues that they should underpin everything that happens in schools, including providing us with a measure for our success. He recommends that the four purposes should help all our children and young people to become, firstly, ambitious, capable learners, secondly, enterprising, creative contributors, thirdly, ethical, informed citizens of Wales and the world, and, fourthly, healthy, confident individuals.

One of Professor Donaldson's principles of curriculum design is that of subsidiarity. And, in this vein, he argues that to enable schools to achieve this vision, schools need to have much greater scope to provide a creative, engaging and challenging curriculum, within the context of an overarching national curriculum framework. I believe that Professor Donaldson has set out an exciting vision of the future of learning in Wales—a vision that I find extremely convincing and inspiring. But neither I nor the Department for Education and Skills can, or should, develop this curriculum on our own. I am clear that it has to be built for the profession, by the profession. As I said earlier, Professor Donaldson's report has at its core the principle of subsidiarity, and I think he is right. That's why I am determined that we engage, from the outset, with as many people from across Wales as possible: with the profession, parents, children and young people, and with the wider community, including businesses. I intend to listen to what they have to say about Professor Donaldson's recommendations and about how we implement them. That is why, today, I am launching the Great Debate.

I will ensure that the Great Debate gives maximum opportunity for engagement by providing a programme of activities that include classroom debates, webinar sessions and face-to-face sessions with Professor Donaldson. The online engagement pack will contain information about the report and film clips from Professor Donaldson, explaining his vision. I want to make sure that everyone has a chance to contribute, so the pack will contain an adult and a child-friendly questionnaire. I would urge everyone to take time to complete this questionnaire. In this way, I can be sure that my formal response to the report, which I intend to publish in the summer, reflects the views of the citizens of Wales. If change is to come, and I firmly believe it must, that change will take many years to achieve. We will need to maintain pace and momentum and, at times, hold our nerve. The ongoing Great Debate will sustain that momentum and will help us develop manageable and realistic plans. We need to take time to get this right, whilst maintaining pace, passion and professionalism.

Mae ei argymhellion yn radical ac yn eang ac yn rhagweld ymagwedd newydd a chyffrous tuag at y cwricwlwm a fydd yn cynhyrchu gwell dysgu a safonau uwch: dysgu gwell, am ei fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig mewn gwirionedd mewn cwricwlwm ysgol modern; safonau uwch, am y bydd yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu ac yn ceisio helpu pobl ifanc i'w cyrraedd ac yn wir, i ragori arnynt. Wrth wraidd ei adroddiad ceir gweledigaeth o sut un fydd person ifanc sydd wedi cael addysg dda yng Nghymru. Mae'n mynegi'r weledigaeth hon drwy bedwar diben y cwricwlwm ac mae'n dadlau y dylent fod yn sail i bopeth sy'n digwydd mewn ysgolion, gan gynnwys darparu dull o fesur ein llwyddiant i ni. Mae'n argymhell y dylai'r pedwar diben helpu pob un o'n plant a'n pobl ifanc i fod, yn gyntaf, yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn ail, yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn drydydd, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus i Gymru a'r byd; ac yn bedwerydd, yn unigolion iach, hyderus.

Un o egwyddorion yr Athro Donaldson ar gyfer llunio cwricwlwm yw sybsidiaredd. Ac i'r perwyl hwn, er mwyn galluogi ysgolion i gyflawni'r weledigaeth, mae'n dadlau bod angen iddynt gael llawer mwy o le i ddarparu cwricwlwm creadigol, apelgar a heriol yng nghyd-destun fframwaith ar gyfer cwricwlwm cenedlaethol trosfwaol. Credaf fod yr Athro Donaldson wedi gosod gweledigaeth gyffrous am ddyfodol dysgu yng Nghymru—gweledigaeth hynod argyhoeddiadol ac ysbrydoledig yn fy marn i. Ond ni allaf fi na'r Adran Addysg a Sgiliau ddatblygu'r cwricwlwm hwn ar ein pennau ein hunain, ac ni ddylem wneud hynny. Rwy'n bendant y dylai gael ei adeiladu ar gyfer y proffesiwn, gan y proffesiwn. Fel y dywedais yn gynharach, mae egwyddor sybsidiaredd yn greiddiol i adroddiad yr Athro Donaldson, ac rwy'n credu ei fod yn iawn. Dyna pam rwy'n benderfynol ein bod yn ymgysylltu, o'r cychwyn cyntaf, â chymaint o bobl o bob rhan o Gymru ag sy'n bosibl: gyda'r proffesiwn, rhieni, plant a phobl ifanc, a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau. Rwy'n bwriadu gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud am argymhellion yr Athro Donaldson ac am y ffordd rydym yn eu gweithredu. Dyna pam rwy'n lansio'r Sgwrs Fawr heddiw.

Byddaf yn sicrhau bod y Sgwrs Fawr yn rhoi cymaint o gyfle a phosibl i ymgysylltu drwy ddarparu rhaglen o weithgareddau sy'n cynnwys dadleuon dosbarth, sesiynau gweminar a sesiynau wyneb yn wyneb gyda'r Athro Donaldson. Bydd y pecyn ymgysylltu ar-lein yn cynnwys gwybodaeth am yr adroddiad a chlipiau ffilm gan yr Athro Donaldson, yn egluro ei weledigaeth. Rwyf am wneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu, felly bydd y pecyn yn cynnwys holiadur sy'n addas i oedolion a phlant. Byddwn yn annog pawb i roi amser i lenwi'r holiadur. Yn y modd hwn, gallaf fod yn siŵr fod fy ymateb ffurfiol i'r adroddiad, ymateb rwy'n bwriadu ei gyhoeddi yn yr haf, yn adlewyrchu barn dinasyddion Cymru. Os oes newid i ddod, ac rwy'n credu'n gryf fod yn rhaid ei gael, bydd y newid hwnnw'n cymryd blynyddoedd lawer i'w gyflawni. Bydd angen i ni gynnal cyflymder a momentwm, a chynnal ein ffydd hefyd ar adegau. Bydd y Sgwrs Fawr barhaus yn cynnal y momentwm hwnnw a bydd yn ein helpu i ddatblygu cynlluniau hylaw a realistig. Mae angen i ni roi amser i gael hyn yn iawn, gan gynnal cyflymder, angerdd a phroffesiynoldeb.

Critically, we also need to focus on building understanding, commitment and capacity. Professor Furlong's review of initial teacher education and training and the new deal to improve teachers' professional development, details of which I will be announcing in the next few weeks, will help do just that. At this stage, it would be neither appropriate nor possible for me to quantify the exact cost of implementing the new curriculum envisaged by Professor Donaldson. That said, I have already identified £1 million to support initial scoping work. I have also earmarked a further £2 million in 2015-16 to begin to develop the new curriculum and the new deal. Professor Donaldson has given us a blueprint for a world-class curriculum, which will give us better learning and higher standards. We must work together to embrace this opportunity to build a successful future for all of our children and young people.

Yn allweddol, mae angen inni ganolbwyntio hefyd ar adeiladu dealltwriaeth, ymrwymiad a gallu. Bydd adolygiad yr Athro Furlong o addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon a'r fargen newydd i wella datblygiad proffesiynol athrawon, y byddaf yn ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf, yn helpu i wneud hynny. Ar y cam hwn, ni fyddai'n briodol nac yn bosibl i mi fesur union gost gweithredu'r cwricwlwm newydd a ragwelwyd gan yr Athro Donaldson. Wedi dweud hynny, rwyf eisoes wedi neilltuo £1 miliwn i gefnogi gwaith cwmpasu cychwynnol. Rwyf hefyd wedi clustnodi £2 filiwn arall yn 2015-16 i ddechrau datblygu'r cwricwlwm newydd a'r fargen newydd. Mae'r Athro Donaldson wedi rhoi glasbrint ar gyfer cwricwlwm o safon fyd-eang, a fydd yn rhoi dysgu gwell a safonau uwch i ni. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i groesawu'r cyfle hwn i adeiladu dyfodol llwyddiannus i bob un o'n plant a'n pobl ifanc.

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a very long list of speakers, so I want to request that you just limit yourself to questions on the report, and not on long introductions. Paul Davies.

Mae gen i restr hir iawn o siaradwyr, felly rwyf am ofyn i chi gyfyngu eich hun i gwestiynau ar yr adroddiad yn unig, heb gyflwyniadau hir. Paul Davies.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:24 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Can I first of all thank the Minister for his statement today? I also think that this is a very exciting report, with many good recommendations. I agree with the Minister, given that there are 68 recommendations in this report, that it's important that the education profession, businesses, parents, children and young people are consulted on the recommendations, and I very much welcome that the Minister will be launching the Great Debate on the curriculum.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf i'n gyntaf oll ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw? Rwyf innau hefyd yn meddwl fod hwn yn adroddiad cyffrous iawn, gyda llawer o argymhellion da. O gofio bod yna 68 o argymhellion yn yr adroddiad, rwy'n cytuno â'r Gweinidog ei bod yn bwysig inni ymgynghori â'r proffesiwn addysg, busnesau, rhieni, plant a phobl ifanc ar yr argymhellion, ac rwy'n mawr groesawu'r ffaith y bydd y Gweinidog yn lansio'r Sgwrs Fawr ar y cwricwlwm.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Now, I note from his written statement last week that he envisages that this debate will take place over a significant period of time, and I accept that sufficient time needs to be given to allow people to have their say, but can the Minister give us an indication of the timescales for when the Great Debate will end, as it's probably important that we see some of these recommendations implemented as soon as is practically possible? I ask this question in light of today's statement, where he confirms that he intends to publish his formal response to the report in the summer, whilst also saying that the Great Debate will be ongoing. I also note from his statement last week that a series of events will be held to consult with the teaching profession, businesses, parents, children and young people, and some of these events, I understand, will take place around Wales. Perhaps the Minister would be kind enough to tell us what these events will actually look like, and can he confirm that they will be meaningful and that everybody's opinion will be taken into consideration?

Nawr, rwy'n sylwi o'i ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf ei fod yn rhagweld y bydd y sgwrs yn digwydd dros gyfnod sylweddol o amser, ac rwy'n derbyn bod angen rhoi digon o amser i ganiatáu i bobl fynegi barn, ond a yw'r Gweinidog yn gallu rhoi syniad o'r amserlen ar gyfer pryd y bydd y Sgwrs Fawr yn dod i ben, gan ei bod hi'n bwysig, mae'n siŵr, ein bod yn gweld rhai o'r argymhellion hyn ar waith cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl? Rwy'n gofyn y cwestiwn yng ngoleuni'r datganiad heddiw, lle y mae'n cadarnhau ei fod yn bwriadu cyhoeddi ei ymateb ffurfiol i'r adroddiad yn yr haf, gan ddweud hefyd y bydd y Sgwrs Fawr yn parhau. Rwy'n nodi hefyd, o'i ddatganiad yr wythnos diwethaf, y bydd cyfres o ddiwyddiadau yn cael eu cynnal i ymgynghori â'r proffesiwn addysgu, busnesau, rhieni, plant a phobl ifanc, a bydd rhai o'r digwyddiadau hyn, rwy'n deall, yn digwydd ledled Cymru. Efallai y byddai'r Gweinidog yn ddigon caredig i ddweud wrthym sut bethau fydd y digwyddiadau mewn gwirionedd, ac a yw'n gallu cadarnhau y byddant yn ystyrion ac y bydd barn pawb yn cael ei hystyried?

I very much welcome many of the recommendations in this report, but I very much welcome recommendation 8, which recognises the importance of ensuring that children and young people develop a range of wider skills thought necessary for modern life and work. I very much hope that the Welsh Government follows the review's advice and that it introduces the teaching of wider skills as early as possible in a child's education—not waiting until the Welsh baccalaureate in year 10 to actually learn these skills.

Rwy'n croesawu llawer o argymhellion yr adroddiad hwn, ond rwy'n croesawu argymhelliad 8 yn arbennig, sy'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu ystod o sgiliau ehangach sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer gwaith a bywyd modern. Rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor yr adolygiad ac yn cyflwyno addysgu sgiliau ehangach cyn gynted ag y bo modd yn addysg y plentyn—yn hytrach nag aros nes cyflwyno'r fagloraeth Gymreig ym mlwyddyn 10 i ddysgu'r sgiliau hyn.

The Minister will be aware that I've been championing the establishment of social enterprises in every secondary school over recent years so that children and young people can develop wider skills, such as entrepreneurial skills. So, can I ask the Minister will he consider that as part of the new curriculum, when he takes this agenda forward? I agree with the review that decisions about teaching and learning are very context and purpose-specific and are best taken by teachers themselves, however, teachers will inevitably have to change some of their teaching methods to ensure the successful implementation of a new curriculum, which could result in additional workload for teachers. Can the Minister tell us how he will ensure that teachers undergo a smooth transition to learn and adopt new teaching techniques without substantially increasing their workload? Can he reassure us that measures and support will be put in place to minimise teachers' workload?

I note that the review proposes significant changes to assessment arrangements under a new curriculum. Should the Minister, of course, decide to adopt some of these recommendations, can he tell us how he will adapt the school categorisation system to actually accommodate these changes? How will he ensure that the system, which currently measures a more rigid performance framework, changes to one that is more fluid and dynamic?

I note that the review is recommending that schools should use external, standardised testing alongside in-house school tests. Could the Minister tell us whether he agrees with this view, and, if so, how would any future changes impact on the proposed Qualifications Wales Bill, which, of course, is currently making its passage through the Assembly?

Now, the final recommendation in the report, recommendation 68, states that the Welsh Government should no longer gather information about children and young people's performance on a school-by-school basis but should monitor performance in key aspects of the curriculum through annual testing on a sampling basis. Can the Minister tell us whether he agrees with this recommendation or whether he agrees with some who have argued that it could lead to a system that is less rigorous and that underperforming schools could go unnoticed, given that this would be general sample of schools' performance?

I very much welcome and support the idea of developing personal e-portfolios and e-badges for each pupil that mark notable achievements as they move through the system. This would of course be a great way of teachers being able to track individual children and it would give pupils, I think, the opportunity of owning their performance and, at the same time, contribute to developing their digital competence. I hope the Minister will adopt this particular recommendation, as I believe this would be an effective part of a pupil's education.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fy mod wedi bod yn hyrwyddo'r gwaith o sefydlu mentrau cymdeithasol ym mhob ysgol uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau ehangach, megis sgiliau entrepreneuriaidd. Felly, a gaf fi ofyn i'r Gweinidog a fydd yn ystyried hynny'n rhan o'r cwricwlwm newydd, wrth iddo ddatblygu'r agenda hon? Rwy'n cytuno gyda'r adolygiad fod penderfyniadau am addysgu a dysgu yn dibynnu ar gyd-destun a phwrpas penodol ac mai athrawon eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd yn rhaid i athrawon addasu rhai o'u dulliau addysgu er mwyn sicrhau y bydd cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, a gallai hynny arwain at lwyth gwaith ychwanegol i athrawon. A all y Gweinidog ddweud wrthym sut y bydd yn sicrhau bod athrawon yn gallu pontio'n llyfn i ddysgu a mabwysiadu technegau addysgu newydd heb gynyddu eu llwyth gwaith yn sylweddol? A yw'n gallu ein sicrhau y bydd mesurau a chymorth ar gael er mwyn lleihau llwyth gwaith athrawon?

Rwy'n nodi bod yr adolygiad yn cynnig newidiadau sylweddol i drefniadau asesu o dan gwricwlwm newydd. Pe bai'r Gweinidog yn penderfynu mabwysiadu rhai o'r argymhellion hyn, a all ddweud wrthym sut y bydd yn addasu'r system gategoreiddio ysgolion i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn mewn gwirionedd? Sut y bydd yn sicrhau bod y system, sydd ar hyn o bryd yn mesur fframwaith perfformiad mwy diwyro, yn newid i un sy'n fwy hyblyg a deinamig?

Nodaf fod yr adolygiad yn argymhell y dylai ysgolion ddefnyddio profion allanol, safonedig ochr yn ochr â phrofion ysgol mewnol. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym a yw'n cytuno â'r farn hon, ac os felly, sut y byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar y Bil Cymwysterau Cymru arfaethedig sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Cynulliad, wrth gwrs?

Nawr, mae argymhelliad terfynol yr adroddiad, argymhelliad 68, yn nodi na ddylai Llywodraeth Cymru fynd ati mwyach i gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc ar sail ysgolion unigol, ond y dylai fonitro perfformiad mewn agweddau allweddol o'r cwricwlwm drwy brofion blynyddol yn seiliedig ar samplu. A all y Gweinidog ddweud wrthym a yw'n cytuno â'r argymhelliad hwn, neu a yw'n cytuno â rhai sydd wedi dadlau y gallai arwain at system sy'n llai trwyadl ac sy'n methu â sylwi ar ysgolion sy'n tangyflawni, o gofio mai sampl cyffredinol o berfformiad ysgolion fyddai hyn?

Rwy'n croesawu ac yn cefnogi'n fawr iawn y syniad o ddatblygu e-bortffolios ac e-fathodynnau personol i bob disgybl sy'n nodi llwyddiannau nodedig wrth iddynt symud drwy'r system. Byddai hyn, wrth gwrs, yn ffordd wych o alluogi athrawon i dracio plant unigol ac rwy'n credu y byddai'n rhoi cyfle i ddisgyblion berchnogi eu perfformiad a chyfrannu ar yr un pryd at ddatblygu eu cymhwysedd digidol. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn mabwysiadu'r argymhelliad penodol hwn, gan fy mod yn credu y byddai'n rhan effeithiol o addysg y disgybl.

Finally, Presiding Officer, in his statement today, the Minister confirms that he has initially confirmed £3 million to begin developing the new curriculum. In the circumstances, can he tell us how he and his officials have actually arrived at these figures? So, in closing, Presiding Officer, can I once again thank the Minister for his statement today? I look forward to seeing how the Government will actually take forward these recommendations in the near future.

Yn olaf, Lywydd, yn ei ddatganiad heddiw mae'r Gweinidog yn dweud ei fod wedi rhoi cadarnhad cychwynnol i roi £3 miliwn tuag at ddechrau datblygu'r cwricwlwm newydd. O dan yr amgylchiadau, a all ddweud wrthym sut y mae ef a'i swyddogion wedi cytuno ar y ffigurau hyn? Felly, wrth gloi, Lywydd, a gaf fi unwaith eto ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw? Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn yn y dyfodol agos.

14:29

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I thank Paul Davies for the underlying positivity with which he has welcomed Professor Donaldson's review. I think it has been a fantastic feature of the reception, political and public, thus far of the Donaldson review that there has been such a positive response from all quarters.

To attempt to answer the great many questions that Paul Davies has put down, in terms of the timescale of the Great Debate, my intention is that the formal evidence-taking, if you like, or input from members of the public and professionals, should come to a close on 8 May. You can imagine why particularly 8 May, and that then, as Welsh Government, we will take a look at Donaldson and the public input together, in order to inform that response come the summer. The events around Wales, the major events, are those being attended by Professor Donaldson himself. Details of the events can be found on the Learning Wales website, and they will be open affairs, where Professor Donaldson will speak about his ideas, and of course, answer questions. But today being the modern day, all this will be accessible online through the Learning Wales website, together with the questionnaire for public input.

I do agree with Paul Davies around the need for us to raise our eyes always to wider skills. This is a theme that employers are very keen to emphasise. They want individuals with a rounded education and rounded personalities, who are confident and informed about the wider world. Of course, the Welsh baccalaureate does give us new departures in that regard, but he is quite right to point out that we should, as we develop the curriculum now, I think, think about ways in which other age groups of young people are exposed to experiences that are not necessarily accessible, particularly to the least well-off. Part of this, I hope, will be answered by the pupil offer, which is beginning to do its work out there in the school system, but the actual design of the curriculum could also answer many of these points.

He mentions rightly the connection with Furlong and the new deal, and indeed, this spring sees a tripartite series of reforms: Donaldson, Furlong and the new deal. Their implementation, and the consequences of their implementation, must be intertwined—and they were intended to be; I engineered it that way. Essentially, the first one, Donaldson, depends upon the teaching profession, and Furlong and the new deal are about the teaching profession, about supporting it to deliver on Donaldson, and also on the standards and rigour agenda. So, they are inseparable and they depend upon each other, this trinity of reforms.

Lywydd, diolch i Paul Davies am y modd cadarnhaol y mae wedi croesawu adolygiad yr Athro Donaldson. Rwy'n credu mai un nodwedd wych o'r derbyniad gwleidyddol a chyhoeddus y mae adolygiad Donaldson wedi'i gael hyd yma yw'r ymateb positif o bob cyfeiriad.

Er mwyn ceisio ateb y lluo o gwestiynau a ofynnodd Paul Davies o ran amserlen y Sgwrs Fawr, fy mwriad yw y dylai'r broses ffurfiol o gymryd tystiolaeth, os mynnwch, neu fewnbwn gan aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, ddod i ben ar 8 Mai. Gallwch ddechymgu pam yr wythfed o Fai yn arbennig, ac yna, fel Llywodraeth Cymru, byddwn yn ystyried Donaldson a chyfraniad y cyhoedd gyda'i gilydd, er mwyn llywio'r ymateb pan ddaw'r haf. Y digwyddiadau o amgylch Cymru, y prif ddigwyddiadau, yw'r rhai y bydd yr Athro Donaldson ei hun yn bresennol ynddynt. Mae manylion y digwyddiadau i'w gweld ar wefan Dysgu Cymru, a byddant yn ddigwyddiadau agored, lle y bydd yr Athro Donaldson yn siarad am ei syniadau, ac wrth gwrs, yn ateb cwestiynau. Ond fel y mae pethau heddiw, bydd hyn i gyd ar gael ar-lein drwy wefan Dysgu Cymru, ynghyd â'r holiadur ar gyfer mewnbwn y cyhoedd.

Rwy'n cytuno â Paul Davies ynghylch yr angen i ni godi ein llygaid bob amser at sgiliau ehangach. Mae hon yn thema y mae cyflogwyr yn awyddus iawn i'w phwysleisio. Maent eisiau unigolion sydd wedi cael addysg gyflawn, sy'n meddu ar bersonoliaethau cyflawn, ac sy'n hyderus ac yn wybodus am y byd ehangach. Wrth gwrs, mae bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfleoedd newydd inni yn hynny o beth, ond rwy'n credu ei fod yn hollol iawn i nodi y dylem feddwl yn awr, wrth i ni ddatblygu'r cwricwlwm, am ffyrdd o gyflwyno profiadau nad ydynt o reidrwydd o fewn cyrraedd i grwpiau oedran eraill o bobl ifanc, yn enwedig rhai llai cefnog. Rwy'n gobeithio y caiff rhan o hyn ei ateb gan y cynnig i ddisgyblion, sy'n dechrau gwneud ei waith yn y system ysgolion, ond gallai union gynllun y cwricwlwm hefyd ateb llawer o'r pwyntiau hyn.

Mae'n cyfeirio'n briodol at y cysylltiad â Furlong a'r fargen newydd, ac yn wir, y gwanwyn hwn cyflawnir cyfres deirran o ddiwygiadau: Donaldson, Furlong a'r fargen newydd. Rhaid cydblethu'r broses o'u gweithredu, a chanlyniadau eu gweithredu—a dyna oedd y bwriad ar eu cyfer; dyna sut y'u trefnais. Yn y bôn, mae'r cyntaf, Donaldson, yn dibynnu ar y proffesiwn addysgu, ac mae Furlong a'r fargen newydd yn ymwneud â'r proffesiwn addysgu, a'i gynorthwyo i gyflawni argymhellion Donaldson, a hefyd y safonau a'r agenda drylywredd. Felly, mae'r drindod hon o ddiwygiadau yn anwahanadwy ac yn gyd-ddibynnol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



In terms of assessment for learning and Professor Donaldson's suggestions around assessment, yes, I agree with him, but I think he would agree with me that there is a journey to travel in terms of us being confident about a consistent approach across Wales when it comes to teacher assessment and assessment for learning. Estyn tells us this. It is far too variable. We need to go through a process of professional development right across Wales, so that parents and public representatives like ourselves can be confident that that kind of annual sampling that Professor Donaldson mentions as an ambition will be supported by rigour within the system, honest evaluation, and in-truth assessment for learning being operated well and operated properly.

Finally, Presiding Officer, in terms of the £3 million, I am confident that that will get us through the first 18 months or so of development. As Paul Davies will know, money is short at present, but given the rough calculations—and these are rough calculations—of the numbers of officials and others whom we would need to carry through that first 18 months, I'm confident that we will be adequately resourced.

14:34 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw, hoffwn i roi ar gofnod fy niolchiadau innau i'r Athro Donaldson am adroddiad mor gynhwysfawr, mor gyffrous, ac un y mae Plaid Cymru yn ei dderbyn ac yn barod iawn i weithio gydag e i weld cwricwlwm newydd, yr un cyntaf o dan Lywodraeth wedi'i datganoli yng Nghymru, ac un, gobeithio, a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc Cymru ar gyfer yr hanner canrif nesaf o ran yr egwyddor sydd y tu fewn i adroddiad yr Athro Donaldson.

Os caf fi ddechrau gyda chwestiynau i'r Prif Weinidog—i'r Gweinidog; roedd e'n moyn bod yn Brif Weinidog unwaith, ond dyna fe—ynglŷn â mater y Ddadl Fawr.

14:35 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not anymore. [Laughter.]

14:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid wyf cweit mor groesawgar i'r syniad yma ag yr oedd Paul Davies, mae'n rhaid i mi ei ddweud. Nid wyf yn siŵr iawn pam ŷch chi'n dechrau'r broses yma gydag ymgynghori pellach, Weinidog. Roedd 700 o ymatebion, fel y dywedoch chi, i adroddiad Donaldson yn y lle cyntaf, ac, am wn i, o'r hyn glywais i, roedd yr Athro Donaldson yn ymgynghori yn helaeth iawn â phobl wrth iddo wneud ei waith.

O ran asesu ar gyfer dysgu ac awgrymiadau yr Athro Donaldson ynghylch asesu, ydw, rwy'n cytuno ag ef, ond rwy'n meddwl y byddai'n cytuno â mi fod ffordd bell i fynd cyn y gallwn fod yn hyderus fod ymagwedd gyson yn bodoli ar draws Cymru o ran asesu athrawon ac asesu ar gyfer dysgu. Mae Estyn yn dweud hynny wrthym. Mae'n llawer rhy newidiol. Mae angen i ni fynd drwy broses o ddatblygu proffesiynol ledled Cymru, er mwyn i rieni a chynrychiolwyr cyhoeddus fel ni ein hunain allu bod yn hyderus y bydd y math o samplu blynyddol y mae'r Athro Donaldson yn ei grybwyll fel uchelgais yn cael ei gynnal gan drylwyredd o fewn y system, gwerthuso gonest, a gweithredu asesu ar gyfer dysgu yn dda ac yn briodol.

Yn olaf, Lywydd, o ran y £3 miliwn, rwy'n ffyddiog y bydd yn mynd â ni drwy'r 18 mis cyntaf o ddatblygu. Fel y gwŷr Paul Davies, mae arian yn brin ar hyn o bryd, ond o ystyried y cyfrifiadau bras—a chyfrifiadau bras yw'r rhain—o nifer y swyddogion ac eraill y byddai angen i ni eu cario drwy'r 18 mis cyntaf, rwy'n hyderus y bydd gennym adnoddau digonol.

In thanking the Minister for his statement today, I would like to put on record my own thanks to Professor Donaldson for such a comprehensive and exciting report, and one that Plaid Cymru accepts and is willing to work with in order to see a new curriculum, the first under a devolved Government here in Wales, and one, we hope, that will enable our children and young people for the next half a century in terms of the principle contained within Professor Donaldson's report.

If I may begin with questions to the First Minister—the Minister; he wanted to be First Minister once, but there we go—on the issue of the Great Debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Byddai'n well gyda fi weld mwy o arweiniad gan y Llywodraeth ar yr adeg hyn, yn gosod allan yr ymateb i'r Athro Donaldson, ac wedyn yn ymgynghori â'r proffesiwn, ac â'r cyhoedd yn ehangach, ar weithredu'r argymhellion yna. Wedi'r cyfan, Weinidog, os ydych chi'n dweud yn eich datganiad taw hwn yw'r 'blueprint', nid wyf i'n gweld bod angen dadl fawr bellach ynglŷn â'r 'blueprint'. Naill ai mae hwn yn 'blueprint', neu nid yw. Os yw e'n 'blueprint', aed ati yn ddiymdroi i weithredu'r 'blueprint' yna, ac wedyn ymgynghori ar sut i wneud. Efallai fy mod i wedi camddeall pwrpas y Dadl Fawr yma, ond byddwn i'n licio clywed mwy am hynny. Nid yw rhoi priflythyren i enwau pethau o reidrwydd yn dangos eu bod nhw'n bwysig.

Nawr, yr ail gwestiwn sydd gen i yn benodol ar y cwestiwn yma yw faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd hwn yn ei gymryd? Yn eich araith yn Nantgarw ar 5 Chwefror, roeddech chi'n sôn am ddegawd i roi'r cwricwlwm newydd yn ei le. Neithiwr, pan oedd Aelodau yn codi'r mater yma wrth drafod y Bil trais yn y cartref, roeddech chi'n gwgu pan oedd pobl yn sôn am ddegawd. Felly, beth yn union yw'r amserlen sydd gyda chi mewn golwg ar gyfer gweithredu'n llwyr argymhellion Donaldson?

Ac, yn y cyfamser, a ydych chi eich hunan yn mynd i roi moratoriwm ar ragor o gyhoeddiadau cwricwlwm, a chynnwys y cwricwlwm, gan y Llywodraeth? Rydym ond ddoe wedi cael datganiad pellach ar rôl y celfyddydau yn y cwricwlwm—rwy'n siŵr bod hwn yn bwysig, ond mae'n ymddangos i mi nad oes angen rhagor o gyhoeddiadau gan y Llywodraeth ar hyn o bryd, gan ein bod ni nawr yn ffocysu ar Donaldson. Felly, beth fydd eich agwedd tuag at y pethau yna?

Dau neu dri chwestiwn mwy penodol nawr, os caf fi, ar rai o'r pethau sydd yn Donaldson. Rydych chi, yn y gorffennol, wedi sôn yn benodol am sgiliau corfforol, a byddwn i'n licio clywed ym mha ffordd rŷch chi'n gweld rheini nawr yn eu hamlygu eu hunain o dan y cwricwlwm newydd. Rydych chi eisoes wedi cyffwrdd, yn briodol iawn, â'r ffaith bod Donaldson yn gorfod cydweddu ag adroddiad Furlong, ond, yn benodol, beth ŷch chi'n mynd i'w wneud yn y cyd-destun hwnnw i sicrhau bod athrawon yn cael ymarfer dysgu sydd yn eu galluogi nhw i ddysgu ar draws y cwricwlwm, fel y mae Donaldson yn ei argymhell?

Yn benodol o ran gwyddoniaeth, ym mha ffordd ŷch chi'n gweld gwyddoniaeth yn cael ei darparu bellach o dan yr argymhellion yma? A ydych chi'n ei gweld fel y tri phwnc gwyddoniaeth yn dal i gael eu dysgu ar wahân, i 16, neu a ydych chi'n gweld rhywbeth mwy cul, neu yn fwy o dan un ambarél, fel petai, y tu fewn i'r cwricwlwm? Nid yw'n glir i fi i ble mae hynny'n arwain. Ac, yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs, mae mor bwysig gweld mwy o ferched yn astudio gwyddoniaeth, a phynciau STEM—gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg—yn gyffredinol, ac mae'n rhaid i Donaldson fod yn gwricwlwm niwtral o ran 'gender'. A ydych chi, felly, yn gweld ym mha ffordd y gallwn ni ddenu mwy o ferched i astudio'r pynciau STEM?

I would prefer to see more leadership from Government at this point in time, setting out its response to Professor Donaldson, and then consulting with the profession and the wider public on the implementation of those recommendations. After all, Minister, if you say in your statement that this is the blueprint, I don't see the need for a further great debate now about the blueprint. Either this is a blueprint, or it's not. If it is the blueprint, then let us implement it without delay, and then consult on how it should be done. Perhaps I've misunderstood the purpose of this Great Debate, but I would like to hear more about that. Putting a capital letter in the title of something doesn't necessarily mean that it's important.

Now, the second question that I have specifically on this issue is how much time do you think this will take? In your speech in Nantgarw on 5 February, you talked of a decade to implement this new curriculum. Last night, when Members raised this issue in discussing the domestic violence Bill, you frowned upon people who were talking about a decade. So, what exactly is the timetable you have in mind for fully implementing the Donaldson recommendations?

And, in the meantime, are you yourself going to place a moratorium on further curricular announcements, and on curriculum content, from Government? Just yesterday, we had a further statement on the role of the arts in the curriculum—and I'm sure that's important, but it seems to me that there's no need for further announcements from the Government at this point, as we are now focusing on Donaldson. So, what will your approach be to those issues?

Two or three more specific question now, if I may, on some of the issues contained within Donaldson. In the past, you have specifically mentioned physical skills, and I would like to hear in what way you want to see those emerging under the new curriculum. You've already, quite rightly, touched on the fact that Donaldson will have to accord with the Furlong report, but, specifically, what are you going to do in that context to ensure that teachers do get teacher training that enables them to teach across the curriculum, as Donaldson recommends?

Specifically in terms of science, how do you see science being provided now under the Donaldson recommendations? Do you see the three science subjects continuing to be taught separately, up to age 16, or do you see something narrower, perhaps under a single umbrella, so to speak, within the curriculum? It's not clear to me where that will actually lead us. And, in that context, of course, it's so important to see more girls studying science and the STEM subjects— science, technology, engineering and mathematics — more generally, and Donaldson does have to provide a gender-neutral curriculum. Do you, therefore, see how we can attract more girls to study the STEM subjects?

Wrth dderbyn diwedd y cyfnod allweddol, a chroesawu, felly, beth sydd gan Donaldson i'w ddeud ynglŷn â chamau cynyddu, ydy hyn, yn eich barn chi, yn golygu dysgu oedran cymysg? Hynny yw, os ŷch chi'n mynd i ddysgu o ran cyrhaeddiad, mae yna oeddrannau yn mynd i fod yn gymysg yn y cyd-destun hwnnw, achos nid yw pawb yn cynyddu ar yr un raddfa. Mewn ffordd, gall hwn fod yn bositif, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc, efallai, sydd yr ieuengaf mewn blwyddyn, neu yr hynaf mewn blwyddyn, neu beth bynnag yw e; mae'n ymateb yn fwy pwrpasol i anghenion y disgybl, wrth gwrs. Ond, mae yna bethau ymarferol ynglŷn â strwythur llythrennol ein hysgolion ni, yn y ffordd y mae hynny'n cael ei ddarparu. Felly, ym mha ffordd ŷch chi'n gweld bod modd bwrw ymlaen â hynny?

A'r cwestiwn olaf yn y cyd-destun—na, mae'n ddrwg gen i, y cwestiwn olaf ond un—yw: sut ydych chi'n gweld, fel yr oedd Paul Davies yn ei ofyn, ond roeddwn i jest eisiau cael bach mwy o wybodaeth ar sut mae'r cymwysterau newydd, Cymwysterau Cymru, nawr yn ffitio i mewn â'r asesu sy'n digwydd sydd wedi'i argymhell gan Donaldson.

A'r cwestiwn olaf oll yw hwn: yr unig ymatebion yr wyf fi wedi eu gweld i Donaldson sydd ddim wedi bod cweit mor bositif, mae'n rhaid dweud, yw'r rheini sydd yn poeni am addysg Gymraeg. Nid wyf o reidrydd yn rhannu eu pryderon nhw. Rwy'n deall eu pryderon nhw achos mae Donaldson uwchben, fel petai, peth o'r cynnwys neu gyfrwng y dysgu, ond maen nhw'n pryderi nad yw argymhellion adroddiad Sioned Davies, er enghraifft, wedi'u llwyr adlewyrchu yn Donaldson. Rŷch chi wedi cael sawl argymhelliad dros y blynyddau ynglŷn ag addysg Gymraeg ac, wrth gwrs, nid ydym ni'n gweld bod y cynlluniau strategol yn addysg Gymraeg yn bodloni'r amcanion cenedlaethol ar hyn o bryd. Beth yw eich ymateb chi bellach felly i rai megis Rhieni dros Addysg Gymraeg sydd wedi mynegi rhai pryderon ynglŷn ag addysg Gymraeg o dan Donaldson?

In accepting the end of the key stages, and in welcoming, therefore, what Donaldson has to say about the progression steps, does this, in your opinion, mean teaching mixed-age classes? That is, if you're going to teach in terms of attainment, then the age groups may be mixed in that context, because not everyone will progress at the same rate. In a way, that could be positive, particularly with children and young people who are the youngest in their year, or the oldest in their year, or whatever. It is a more appropriate response to the pupils' needs, of course. But there are practical issues in terms of the actual structure of our schools, in the way that that is being provided. So, how do you see that it is possible for us to progress with that issue?

And the final question in the context—or rather the penultimate question, sorry—is: how do you see, as Paul Davies asked, but I would just like a little more information on how the new qualifications, Qualifications Wales, will now fit in with the assessment recommended by Donaldson.

And the very final question is this: the only responses that I've seen to Donaldson that have not been quite as positive, it must be said, are from those who are concerned about Welsh-medium education. I do not necessarily share their concerns. I understand their concerns because Donaldson is over and above, as it were, some of the content or the medium of tuition, but they are concerned that the recommendations of the Sioned Davies report, for example, have not been fully reflected in Donaldson. You have had a number of recommendations made over the years on Welsh-medium education and, of course, we do not see that the Welsh in education strategic plans meet the national objectives at this time. What is your response to some, such as RhAG—Parents for Welsh Medium Education, who have expressed concerns about Welsh-medium education under Donaldson?

14:40

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome Simon Thomas's initial remarks about the exciting period of time we're now entering into in terms of curriculum reform. He's quite right: this is very important and I'm very anxious that this permeates the public mind, if you like, that people understand that this is not some kind of tinkering exercise with the old national curriculum 1988. This marks the doing away with the national curriculum of 1988 and the rewriting from the ground floor up of an entirely new curriculum with a different philosophy behind it. It is the first, as Simon Thomas has said, curriculum to be made in Wales for Wales.

Rwy'n croesawu sylwadau cychwynnol Simon Thomas yn fawr iawn am y cyfnod cyffrous rydym yn cychwyn arno yn awr o ran diwygio'r cwricwlwm. Mae'n hollol gywir: mae hyn yn bwysig iawn ac rwy'n awyddus iawn i hyn dreiddio i feddwl y cyhoedd, os mynnwch, er mwyn i bobl ddeall nad rhyw chwarae â hen gwricwlwm cenedlaethol 1988 yw hyn. Mae'n nodi ein bod yn cael gwared ar gwricwlwm cenedlaethol 1988 ac yn ail-greu cwricwlwm hollol newydd o'r gwaelod i fyny gydag athroniaeth wahanol yn sail iddo. Fel y nododd Simon Thomas, dyma'r cwricwlwm cyntaf i gael ei greu yng Nghymru ar gyfer Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hence, in part, the reason for the Great Debate, because he says, 'Why more consultation?' and it's a fair enough question, but I think the Great Debate is about more than about consultation. It's also about the absorption of the fundamentals of this message, most primarily by the professionals themselves because intelligent reading of what Graham Donaldson is saying will make it clear to all that, without the commitment and without the profession putting their shoulder to the wheel, this is undeliverable. No politician can deliver, given the philosophy behind Donaldson, a new curriculum, tied up with a ribbon and delivered to each and every classroom. This is going to entail years of professional input at a level that many of our teaching workforce have never been expected to work at before. They've never been given the opportunity of thinking about these fundamentals in terms of how we deliver: in terms of content, but also in terms of high aspirations for our young people.

So, the Great Debate is not just about consultation. Of course, it'll inform my response, but it is also, I hope, a manifestation of leadership. I do not feel that, as yet—and we're only just beginning to—we've got people's heads around the fundamental nature of the change that we're about to go through and how much hard work there is ahead of us, not just on the part of the profession, as of course parents and young people, too, need to understand that.

Having said that, and he mentions, 'Why can't we just get on with some things?' and, of course, I'll be making some announcements relatively soon. There are obvious aspects of Graham Donaldson's recommendations that we should, essentially, get on with. I've not heard any peep of opposition to the idea, for instance, that we should now put digital competence up there alongside literacy and numeracy, and, of course, a good deal of work has been done. But, there is, if we are to meet that ambition, a fundamental issue around the skills of the workforce, at primary, secondary and at college level. I will make announcements soon, as Simon Thomas will be aware, around the new deal. That is one of the key aspects, I think, that we have to understand has to be got on with, over and above curriculum content and such like.

Felly, yn rhannol, y rheswm dros y Sgwrs Fawr, oherwydd mae'n dweud, 'Pam fod angen mwy o ymgynghori?' ac mae'n gwestiwn digon teg, ond rwy'n credu bod y Sgwrs Fawr yn ymwneud â mwy nag ymgynghori. Mae hefyd yn ymwneud ag amsugno hanfodion y neges hon, yn bennaf gan y gweithwyr proffesiynol eu hunain gan y bydd dehongliad deallus o'r hyn a ddywed Graham Donaldson yn ei gwneud yn glir i bawb na ellir cyflawni hyn heb ymrwymiad a heb i'r proffesiwn roi ei drwyn ar y maen. O ystyried yr athroniaeth sy'n sail i Donaldson, ni all unrhyw wleidydd ddarparu cwricwlwm newydd wedi'i glymu â rhuban a'i gyflwyno i bob dosbarth. Mae'n mynd i olygu blynyddoedd o fewnbwn proffesiynol ar lefel na fu disgwyl i lawer o'n gweithlu addysgu weithio arni erioed o'r blaen. Nid ydynt erioed wedi cael cyfle i feddwl am yr hanfodion hyn o ran sut rydym yn cyflawni: o ran cynnwys, ond hefyd o ran dyheadau uchel ar gyfer ein pobl ifanc.

Felly, nid ymwneud ag ymgynghori'n unig y mae'r Sgwrs Fawr. Wrth gwrs, bydd yn llywio fy ymateb, ond gobeithio ei bod hefyd yn arddangosiad o arweinyddiaeth. Nid wyf yn teimlo hyd yn hyn—a dim ond dechrau rydym ni—ein bod wedi cael pobl i ddeall natur sylfaenol y newid rydym ar fin mynd drwyddo a faint o waith caled sydd o'n blaenau, nid yn unig o fewn y proffesiwn, gan fod angen wrth gwrs i rieni a phobl ifanc ddeall hynny hefyd.

Wedi dweud hynny, ac mae'n gofyn, 'Pam na allwn ni fwrw ati â rhai pethau?' ac wrth gwrs, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau yn gymharol fuan. Yn y bôn, ceir agweddau amlwg ar argymhellion Graham Donaldson y dylem fwrw ati i'w gwneud. Nid wyf wedi clywed smic o wrthwynebiad i'r syniad, er enghraifft, y dylem yn awr ddyrchafu cymhwysedd digidol ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd ac wrth gwrs, gwnaed llawer iawn o waith ar hynny. Ond os ydym am gyflawni'r uchelgais hwnnw, mae yna broblem sylfaenol gyda sgiliau'r gweithlu, ar lefel gynradd, uwchradd a cholegol. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau cyn bo hir, fel y gŵyr Simon Thomas, ynglŷn â'r fargen newydd. Rwy'n meddwl mai dyna un o'r agweddau allweddol sy'n rhaid inni ddeall bod yn rhaid bwrw ati arnynt, yn ychwanegol at gynnwys y cwricwlwm ac yn y blaen.

In terms of the subject review, I made I think very positive announcements about the arts and creativity in education yesterday, and it's no coincidence that Professor Donaldson was well aware of the development of the arts in education policy platform. He knew about that—he was intimately connected to it—and of course we see the word 'creative' amongst the four fundamental purposes there, so that there was resonance between what Professor Dai Smith and Professor Donaldson were saying right from the very beginning. The curriculum review is, in part, a response to those various strands of subject reviews that were put in place around a year or 18 months ago in computing, Welsh second language—as he has mentioned—the arts and creativity, and physical education as well. I believe that what Donaldson has presented us with is a way of thinking in a different way about the curriculum instead of trying to shoehorn these various reviews into an existing curriculum—just being honest with ourselves and saying, 'We cannot fit all this stuff in that way. We have to redesign the curriculum in order to answer the ambitions of the good people that presented us with those reports'. On arts and creativity, I think there is no reason—. Simon Thomas can't have it both ways, really. He wants us not to pause for consultation, but not to rush ahead with the arts. I think we can, in certain aspects, get on with particular bits of work.

Time is short, but I hope I have also, by implication, answered his points on physical education. On initial teacher training reform, John Furlong will be making the announcements around the reform of ITT, which also will be about fundamental change: first of all, in terms of having a workforce that answers the demands of this new curriculum, because they'll be getting into their professional lives as this is being rolled out; but also a recognition that the standards and aspirations that we have for teachers in their training are not high enough. We frankly need to raise our game, and so do the universities that deliver—but more on that from Furlong very soon.

14:47

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf hefyd yn cytuno bod hwn yn adroddiad cyffrous. Rwy'n meddwl ei fod yn llawer iawn mwy pellgyrhaeddol nag oedd nifer yn disgwyl, ac rwy'n meddwl, o achos hynny, fod angen inni wneud yn siŵr ein bod ni'n cael hyn yn iawn. Hwyrach na ddylem ni ruthro, fel y dywedodd Simon Thomas, ac felly rwyf yn meddwl bod yna le i'r Llywodraeth feddwl am ryw fath o foratoriwm. Rwy'n deall bod yna waith wedi bod yn ei le ers rhai blynyddoedd, ond rwy'n meddwl mai un o'r prif gwynion yn y proffesiwn ydy bod yna newid polisi dro ar ôl tro, ac mae hynny'n batrwm nid yn unig yma, ond yn Lloegr ac yn yr Alban hefyd.

O ran yr adolygiadau pwnc, gwneuthum gyhoeddiadau cadarnhaol iawn am y celfyddydau a chreadigrwydd mewn addysg ddoe, ac nid yw'n gyd-ddigwyddiad fod yr Athro Donaldson yn ymwybodol iawn o ddatblygiad y llwyfan polisi celfyddydau mewn addysg. Roedd yn gwybod am hynny—roedd yn gysylltiedig iawn ag ef—ac wrth gwrs gwelwn y gair 'creadigol' wedi'i gynnwys ymhllith y pedwar diben sylfaenol yno, fel bod cytgorod rhwng yr hyn roedd yr Athro Dai Smith a'r Athro Donaldson yn ei ddweud o'r cychwyn cyntaf. Mae'r adolygiad o'r cwricwlwm yn rhannol yn ymateb i'r gwahanol elfennau hynny o'r adolygiadau pwnc a roddwyd ar waith tua blwyddyn neu 18 mis yn ôl mewn cyfrifiadureg, Cymraeg ail iaith—fel y soniodd—y celfyddydau a chreadigrwydd, ac addysg gorfforol hefyd. Rwy'n credu bod yr hyn y mae Donaldson wedi ei gyflwyno i ni yn ffordd wahanol o feddwl am y cwricwlwm yn hytrach na cheisio gwthio'r adolygiadau amrywiol hyn i mewn i gwricwlwm sy'n bodoli eisoes—bod yn onest gyda'n gilydd a dweud, 'Ni allwn wthio'r holl bethau hyn i mewn yn y ffordd honno. Rhaid i ni ailgynllunio'r cwricwlwm er mwyn ateb dyheadau'r bobl dda a gyflwynodd yr adroddiadau hynny i ni'. Ar y celfyddydau a chreadigrwydd, rwy'n credu nad oes rheswm—. Ni all Simon Thomas chael hi bob ffordd, mewn gwirionedd. Mae'n awyddus i ni beidio ag oedi i ymgynghori, ond i beidio â rhuthro yn ein blaenau gyda'r celfyddydau. Mewn rhai agweddau, rwy'n meddwl y gallwn ni fwrw ati gyda darnau penodol o waith.

Mae amser yn brin, ond rwy'n gobeithio fy mod, drwy ymhlygiad, wedi ateb ei bwyntiau ar addysg gorfforol hefyd. Ar ddiwygio hyfforddiant cychwynnol athrawon, bydd John Furlong yn gwneud y cyhoeddiadau ynghylch diwygio HCA, a fydd hefyd yn ymwneud â newid sylfaenol: yn gyntaf, o ran cael gweithlu sy'n ateb gofynion y cwricwlwm newydd hwn gan y byddant yn cychwyn ar eu bywydau proffesiynol wrth i hyn gael ei gyflwyno; ond hefyd, o ran cydnabod nad yw'r safonau a'r dyheadau sydd gennym ar gyfer athrawon yn eu hyfforddiant yn ddigon uchel. Mae angen i ni wella ein perfformiad a bod yn onest, ac felly hefyd y prifysgolion sy'n cyflwyno'r hyfforddiant—ond fe glywn ragor am hynny gan Furlong yn fuan iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I also agree that this is an exciting report. I think that it is more far-reaching than a number of people expected it to be, and, because of that, we need to ensure that we get it right. We possibly should not rush, as Simon Thomas said, and so I do think that there is scope here for the Government to think about having some kind of moratorium. I understand that there has been work in progress for a number of years, but I think that one of the main complaints among the profession is that policy is changed time and again, and that pattern is seen not only here, but in England and in Scotland too.

Felly, rwy'n deall beth rydych chi wedi ei ddweud ynglŷn â'r Drafodaeth Fawr yma, y drafodaeth genedlaethol, sef bod angen ichi weld yn union beth mae'r proffesiwn yn ei feddwl. Ond a gaf i ofyn ichi a oes unrhyw fodd y gallwn ni gael rhyw fath o drafodaeth wleidyddol hefyd, achos, un o'r problemau, rwy'n meddwl, sydd gennym ni ar hyn o bryd ydy, wrth inni ystyried bod hyn yn mynd i—? Mae'r rhan fwyaf o newidiadau yma yn mynd i gymryd lle ar ôl etholiad y Cynulliad ac, o achos hynny—ac mae yna ddisgwyf yn y proffesiwn—ni fydd polisiau yn newid, achos, os oes yna Weinidog addysg yma, hyd yn oed o'r un blaid, ar ôl etholiad y Cynulliad, dylai fod rhyw fath o gonsensws gwleidyddol ynglŷn â'r ffaith bod hon yn siwrnai sydd yn eithaf pwysig o ran athrawon a disgyblion Cymru, a'n bod ni'n awyddus i weld hyn yn setlo i lawr, ac y byddwn ni'n rhoi amser i'r holl newidiadau yma lwyddo yn y pen draw. Mae yna gyfrifoldeb felly, rwy'n meddwl, arnom ni i gyd, ar draws y pleidiau yma, i wneud yn siŵr bod hyn yn gweithio.

Rwy'n meddwl bod nifer o'r pwyntiau wedi cael eu gwneud, felly wnaf i ddim eu haildweud nhw. Mae yna hefyd gyfrifoldeb ar y Llywodraeth i ailystyried rhai o'r polisiau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae yna sôn hwyrach y bydd angen newid y gyfundrefn categoreiddio. Mae categoreiddio ar hyn o bryd yn seiliedig ar ganlyniadau TGAU i ryw raddau, a bydd hynny'n newid, wrth gwrs, os ydych chi'n edrych ar y system. Ond, a gaf i ofyn ichi yn fyr i esbonio—? Un o'r pwyntiau y gwnaeth Simon Thomas eu codi yw'r ffaith ein bod ni'n gweld camau datblygu o ran unigolion—y plant. Ar hyn o bryd, maen nhw'n symud o flwyddyn i flwyddyn ac o gyfnod allweddol i gyfnod allweddol jest o achos eu hoedran, ond, wrth gwrs, beth mae'r adolygiad yma yn ei ddweud yw y dylen nhw symud, hwyrach, pan fyddant yn cyrraedd y cam nesaf. Felly, a fydd hyn yn ailstrwythuro'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd? A fydd dosbarthiadau cymysg o ran oedran? A ydy hynny'n bosibl o ran y ffordd y mae rhai o'n hysgolion ni wedi cael eu trefnu? Hefyd, rwy'n meddwl, wrth inni sôn am y chwe maes hyn o ran llafur plant, y bydd yna blant a fydd yn cael eu hyfforddi yn y gyfundrefn bresennol o dan yr hen drefn. Felly, a ydych chi'n rhagweld mai symud i'r drefn newydd rhywbryd yn y dyfodol fydd nifer o'r plant yma? Bydd hi'n anodd iawn i rai ohonynt symud o gyfundrefn TGAU i'r gyfundrefn newydd yma yn fuan iawn.

Hefyd—rwy'n meddwl i Simon Thomas wneud yr un pwynt—yr unig ymateb negyddol rwyf wedi'i weld hyd at rŵan, er bod llawer iawn yn croesawu'r ffaith bod Donaldson wedi dweud ei fod yn awyddus i weld bod y Gymraeg yn parhau tan eich bod yn 16, yw, wrth gwrs, y feirniadaeth lem o'r gyfundrefn bresennol gan adroddiad yr Athro Sioned Davies. Felly, pa fath o gynigion fydd y Llywodraeth yn rhoi yn eu lle fel bod hynny'n rhan o'r drafodaeth genedlaethol yma, fel eich bod chi'n cael rhyw fath o ymateb ynglŷn â beth mae pobl yn ei feddwl o'r ffordd ymlaen ynglŷn â'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu? Rwy'n meddwl bod pawb erbyn hyn yn cytuno nad yw'r hen drefn yn un sy'n mynd i greu Cymru ddwyieithog i'r dyfodol.

So, I understand what you have said about this Great Debate, this national debate, which is that you need to understand exactly what the profession thinks. But, may I ask you whether it would be possible for us to have some kind of political discussion or debate as well, because, one of the problems that I think we have at present, in considering that this will—? The majority of these changes will take place after the Assembly elections and, as a result—and there is an expectation within the profession—policies will not change, because, if there is an education Minister here, even from the same party, post the Assembly elections, there should be some kind of political consensus that this is an important journey from the point of view of teachers and pupils in Wales, and that we are eager to see it settling down and that we will give time for all of these changes to succeed ultimately. Therefore, we are all duty bound, I believe, across the parties, to ensure that this does work.

A number of the points have already been made, so I won't repeat them. There is also a responsibility on Government to reconsider some of their current policies. It is mentioned that the categorisation system will perhaps need to be changed. Categorisation is currently based on GCSE results to some extent, and that will change, of course, if you are going to reconsider the system. But, may I ask you briefly to explain—? One of the points made by Simon Thomas was the fact that we view development steps from the point of view of individuals—the children. At present, they move from one year to the next and from one key stage to the next solely on the basis of age. But, of course, what this review says is that they should perhaps move when they actually reach the next step. So, will this lead to the restructuring of the way in which schools are configured at present? Will there be mixed-age classes? Is that possible in terms of the way in which some of our schools have been organised? Also, I think that, as we talk about these six areas as regards the syllabus for children, there are children who will be taught within the current system as part of the old regime. So, do you anticipate that many of these children will move to the new system at some point in the future? It will be very difficult for them to move from the GCSE system to the new system anytime soon.

Also—and I think that Simon Thomas made this very point—the only negative response that I have seen to date, regardless of the fact that very many welcome the fact that Donaldson has said that he is eager to see the Welsh language being studied up to the age of 16, is, of course, the severe criticism of the current system in the Professor Sioned Davies report. So, what kind of proposals will the Government put in place so that this forms part of the national debate and so that you have some kind of response as regards what people think about the way forward for the teaching of the Welsh language? I think that everyone now agrees that the old system is not one that will create a bilingual Wales for the future.

I thank Aled Roberts for the positivity of the basis of his remarks too. If I can answer some of his points, because they were also raised by Simon Thomas and I didn't actually get around to answering some of those points—so, thank you for that—in terms of timescales, I'm not going to look into a crystal ball here and say this will take exactly seven years and six months. We are entering into a period of working that has frankly never been attempted before. We can look to the experience of Scotland. They are 10 years on from the equivalent of today and there is still resonance in terms of implications for professionals and change within the system going on now, 10 years later. Having said that, insight from Professor Donaldson suggests that, because someone has travelled this path prior to us, we have a lot to learn from mistakes, frankly, that were made by the Scots along the way, and that it may not take us as long as that to get to a new curriculum shape that is recognisable in every classroom.

He is right that a great deal of debate has to happen now about content, amongst other things. I'm anxious at this stage that we do not fall into a political debate which is driven by 'whatabouttery'. What about this subject? What about that subject, and what about this? Because, what Professor Donaldson is offering us is a new way of trying to organise our thinking about the curriculum, not necessarily in subject silos. He's been much more challenging than saying, 'You should prioritise this subject over that subject'. He's asking us to redesign our pupils' experience so that if we really want to prioritise certain subject areas or experiences, then we have to get to grips with actually redesigning their school career.

That brings us on to the important point that Aled Roberts just made in connection with progression steps. If we do away with key stages—. Each key stage at the moment tends to have its own sort of culture, aims, administration and way of doing things, and then, suddenly, a child swaps to another key stage and things are different. What professor Donaldson is saying is that we should have clear line of sight from the age of three to 13 about a young persons' journey through school and that we should have milestones along the way in order to make sure that their parents and they themselves understand how they're progressing along that journey.

So, it may well imply mixed-age groups for instance, as one issue. I have seen some very exiting work in mathematics at primary level in the Cynon Valley very recently. My colleague, Chris Chapman, took me to see some very exiting mathematics teaching that is done on a mixed-age basis in a school in RCT. But, as I said, it is for the professionals, really, to decide how they're going to step up to this challenge.

Diolch i Aled Roberts am y sail gadarnhaol sydd i'w sylwadau hefyd. Os caf fi ateb rhai o'i bwyntiau, oherwydd fe gawsant eu crybwyll gan Simon Thomas hefyd ac ni ddeuthum i ben ag ateb rhai o'r pwyntiau hynny mewn gwirionedd—felly, diolch i chi am hynny—o ran amserlenni, nid wyf yn mynd i edrych i mewn i belen risial yma a dweud y bydd hyn yn cymryd saith mlynedd a chwe mis union. Rydym yn cychwyn ar gyfnod o weithio nad oes neb wedi ceisio ei wneud o'r blaen a dweud y gwir. Gallwn edrych ar brofiad yr Alban. Maent hwy 10 mlynedd ymlaen ar yr hyn sy'n cyfateb i heddiw ac mae'r goblygiadau i weithwyr proffesiynol a newid o fewn y system sy'n digwydd yn awr yn dal i atseinio, 10 mlynedd yn ddiweddarach. Wedi dweud hynny, mae mewnwelediad yr Athro Donaldson yn awgrymu a dweud y gwir, am fod rhywun wedi teithio'r llwybr hwn o'n blaenau, fod gennym lawer i'w ddysgu o gangymeriadau a wnaed gan yr Albanwyr ar hyd y ffordd, ac efallai na fydd yn cymryd cymaint o amser â hynny i gael cwricwlwm newydd i siâp y gellir ei adnabod ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae'n gywir i ddweud fod yn rhaid i lawer iawn o drafodaeth ddigwydd yn awr ynghylch y cynnwys, ymhlith pethau eraill. Rwy'n bryderus ar hyn o bryd ein bod yn mynd i gael ein sugno i ddadl wleidyddol wedi'i hysgogi gan gwestiynau 'beth am'. Beth am y pwnc hwn? Beth am y pwnc arall, a beth am hyn? Oherwydd mae'r hyn y mae'r Athro Donaldson yn ei gynnig i ni yn ffordd newydd o geisio trefnu ein ffordd o feddwl am y cwricwlwm, nid o reidrwydd mewn seilos o bynciau. Mae wedi bod yn llawer mwy heriol na dweud, 'Dylech roi blaenoriaeth i'r pwnc hwn dros y pwnc hwnnw'. Mae'n gofyn i ni ail-lunio profiad ein disgyblion fel ein bod yn gorfod mynd i'r afael ag ail-lunio eu gyrfa ysgol os ydym am flaenoriaethu meysydd pwnc neu brofiadau penodol.

Daw hynny â ni at y pwynt pwysig a wnaeth Aled Roberts ynghylch camau datblygu. Os cawn wared ar gyfnodau allweddol—. Mae pob cyfnod allweddol ar hyn o bryd yn tueddu i fod â'i fath ei hun o ddiwylliant, nodau, gweinyddiaeth a ffordd o wneud pethau, ac yna'n sydyn, bydd plentyn yn newid i gyfnod allweddol arall ac mae pethau'n wahanol. Yr hyn y mae'r athro Donaldson yn ei ddweud yw y dylem weld taith person ifanc drwy'r ysgol yn glir o dair i 13 oed ac y dylai fod gennym gerrig milltir ar hyd y ffordd er mwyn sicrhau bod eu rhieni a hwy eu hunain yn deall sut y maent yn symud ymlaen ar hyd y daith honno.

Felly, gallai'n sicr awgrymu grwpiau oedran cymysg er enghraifft, fel un agwedd. Gwelais waith cyffrous iawn ym maes mathemateg ar lefel gynradd yng Nghwm Cynon yn ddiweddar iawn. Aeth fy nghyd-Aelod, Chris Chapman, â mi i weld addysgu mathemateg cyffrous iawn sydd ar waith ar sail oedran cymysg mewn ysgol yn Rhondda Cynon Taf. Ond fel y dywedais, mater i weithwyr proffesiynol, mewn gwirionedd, yw penderfynu sut y maent am fynd i'r afael â'r her hon.

I will, though, say this: there is nothing inherent in the Donaldson review that means that I am tempted now to think about doing away with categorisation. Categorisation is a co-production between consortia and the schools themselves. It is intended to be an honest self-evaluation, essentially, of where a school is, and we will still need to know and understand where a school is on its own progression journey. Also, there is no incompatibility here with the GCSE and A-level system, but it will be very important that the leadership of Qualifications Wales is at the centre of the curriculum design so that we understand the implications for qualifications and vice versa.

In terms of his very important point—and my apologies to Simon Thomas; I didn't respond to this—in terms of Welsh as a second language, I accept that the current system we have does not deliver. It does not deliver people who are confident in Welsh, who can use the language. It's broken; it's not working. So, if we truly have a national commitment to this and putting this situation right, I think that one of the first issues we will have to come to grips with is that we have a severe skills shortage in terms of the workforce out there, particularly in English-medium primary education, in my view.

We also have the very interesting and exciting proposal from Professor Donaldson that Welsh-medium schools should now take a leadership role in terms of, perhaps most particularly, that professional development around Welsh language skills amongst the workforce. We cannot expect our pupils to acquire the language if our teachers haven't done so first.

Fodd bynnag, fe ddywedaf hyn: nid oes dim yn gynhenid yn adolygiad Donaldson sy'n golygu fy mod yn cael fy nhemtio yn awr i feddwl am gael gwared ar gategoreiddio. Cydgyhyrchiad rhwng consortia a'r ysgolion eu hunain yw categorieiddio. Bwriedir iddo fod yn hunanarfarniad gonest, yn y bôn, o lle y mae ysgol arni, a bydd yn dal i fod angen i ni wybod a deall lle y mae ysgol arni wrth iddi ddatblygu. Yn ogystal, nid oes unrhyw anghydnawsedd yma â system TGAU a Safon Uwch, ond bydd yn bwysig iawn sicrhau bod arweinyddiaeth Cymwysterau Cymru yn ganolog i gynllun y cwricwlwm er mwyn i ni ddeall y goblygiadau o ran cymwysterau ac fel arall.

O ran ei bwynt pwysig iawn—ac ymddiheuriadau i Simon Thomas; ni roddais ymateb i hyn—o ran y Gymraeg fel ail iaith, rwy'n derbyn nad yw'r system bresennol sydd gennym yn cyflawni. Nid yw'n creu pobl sy'n hyderus yn y Gymraeg, sy'n gallu defnyddio'r iaith. Mae wedi torri; nid yw'n gweithio. Felly, os ydym wedi ymrwymo'n genedlaethol i hyn go iawn ac i'r gwaith o unioni'r sefyllfa, rwy'n meddwl mai un o'r materion cyntaf sy'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef yw'r prinder sgiliau difrifol sydd gennym o ran y gweithlu ar lawr gwlad, yn enwedig mewn addysg gynradd cyfrwng Saesneg, yn fy marn i.

Mae gennym hefyd y cynnig diddorol a chyffrous iawn gan yr Athro Donaldson y dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg gael rôl arweiniol yn awr, yn fwyaf arbennig efallai o ran datblygiad proffesiynol mewn perthynas â sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y gweithlu. Ni allwn ddisgwyl i'n disgyblion gaffael yr iaith os nad yw ein hathrawon wedi gwneud hynny yn gyntaf.

#### 14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've had three very probing contributions from the party spokespeople. I still have a long list of people who wish to speak. It's a very important debate, but I would now ask people just to ask questions of the Minister. John Griffiths.

Cawsom dri chyfraniad treiddgar iawn gan lefarwyr y pleidiau. Mae'n dal i fod gennyf restr hir o bobl sydd am siarad. Mae'n ddadl bwysig iawn, ond hoffwn ofyn i bobl gadw'n unig at ofyn cwestiynau i'r Gweinidog. John Griffiths.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

#### 14:57 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. We've touched on some important areas of work that are currently ongoing, Minister, such as the arts and, indeed, physical education. It's clear, as you said, that not everything will be in place overnight in terms of Donaldson. There's a process and some time to go before we get to that stage. So, obviously, we don't want everything to stop in terms of important areas of work that have been started and, to some extent, mapped out. You touched on the recent statements around Dai Smith's work and arts and culture in education, Minister. I wonder if you could say a little bit more about physical literacy, because we've had Tanni Grey-Thompson's report. I know work is ongoing in terms of the physical literacy programme in schools. Obviously, the effort is to make physical literacy core to the curriculum, and a physical literacy framework, hopefully, will achieve that, and there are issues around initial teacher training, continuous professional development, leadership in schools and the inspection and assessment regimes. So, I wonder if you could say a little bit, Minister, about how that work will now proceed so that we can get those benefits in place and then, hopefully, incorporate them into Donaldson in due course.

Diolch yn fawr, Lywydd. Rydym wedi crybwyll rhai meysydd gwaith pwysig sydd ar y gweill ar hyn o bryd, Weiniog, megis y celfyddydau ac addysg gorfforol yn wir. Mae'n amlwg, fel y dywedoch, na fydd popeth yn cael ei roi yn ei le dros nos o ran Donaldson. Mae yna broses a pheth amser i fynd cyn i ni gyrraedd y cam hwnnw. Felly, yn amlwg, nid ydym am i bopeth ddod i stop o ran y meysydd gwaith pwysig sydd wedi cael eu cychwyn a'u mapio i ryw raddau. Fe sonioch chi am y datganiadau diweddar ynghylch gwaith Dai Smith a'r celfyddydau a diwylliant ym maes addysg, Weiniog. Tybed a allech ddweud ychydig mwy am llythrennedd corfforol, gan ein bod wedi cael adroddiad Tanni Grey-Thompson. Gwn fod gwaith yn mynd rhagddo ar y rhaglen llythrennedd corfforol mewn ysgolion. Yn amlwg, yr ymdrech yw gwneud llythrennedd corfforol yn greiddiol i'r cwricwlwm, a gobeithio y bydd fframwaith llythrennedd corfforol yn cyflawni hynny, ac mae materion yn codi ynghylch hyfforddiant cychwynnol athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, arweinyddiaeth mewn ysgolion a'r cyfundrefnau arolygu ac asesu. Felly, tybed a allech sôn ychydig bach, Weiniog, ynglŷn â sut y bydd y gwaith yn symud ymlaen yn awr fel y gallwn roi'r manteision hynny ar waith, cyn eu hymgorffori yn Donaldson maes o law, gobeithio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I thank John Griffiths for his important question? My understanding is that Tanni Grey-Thompson has been very positive in terms of her response to the way that Graham Donaldson has tackled this almost, on the face of it, impossible task of balancing so many important aspects of a crowded curriculum. Essentially, he's done that by doing away with that word 'core'. That bid to become a core subject, if you like, was really the holy grail in terms of making sure that, for instance, physical literacy really was happening for every one of our young people. Instead of that, what he's said is, 'Well, what kind of young person do you want to come out at the other end, at the age of 16?' He has said they need to be capable learners, they need to be creative, they need to be informed citizens and they need to be healthy and confident. Of course, you cannot now—you cannot—construct a school curriculum without that word 'healthy'. He goes on actually to explain a little more about what healthy means by saying that they

Hoffwn ddiolch i John Griffiths am ei gwestiwn pwysig. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae Tanni Grey-Thompson wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran ei hymateb i'r ffordd y mae Graham Donaldson wedi mynd i'r afael â'r hyn a oedd, ar yr olog gyntaf, yn dasg amhosibl bron o gydbwysio cymaint o agweddau pwysig ar gwricwlwm gorllawn. Yn y bôn, gwnaeth hynny drwy gael gwared ar y gair 'craidd'. Y cais i ddod yn bwnc craidd, os mynnwch, oedd y greal sanctaidd o ran gwneud yn siŵr, er enghraifft, fod llythrennedd corfforol yn digwydd go iawn i bob un o'n pobl ifanc. Yn hytrach na hynny, yr hyn y mae wedi ei ddweud yw, 'Wel, pa fath o berson ifanc ydych chi eisiau bod ar y pen arall, yn 16 oed?' Mae wedi dweud bod angen iddynt fod yn ddysgwyr medrus, mae angen iddynt fod yn greadigol, mae angen iddynt fod yn ddinasyddion gwybodus ac mae angen iddynt fod yn iach ac yn hyderus. Wrth gwrs, ni allwch yn awr—ni allwch—greu cwricwlwm ysgol heb y gair 'iach'. Mae'n mynd yn ei flaen i egluro ychydig mwy am yr hyn y mae iach yn ei olygu drwy ddweud y dylent:

'should apply knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in their daily lives... and take part in physical activity'.

'[g]ymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd bob dydd... [a] chlymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol'.

So, it's there. In the very fundamental four purposes of this new curriculum is the commitment to look after the whole person—the body as well as the mind. Now he has given us, I think, a different structure and we can begin to break away from that old way of thinking this is a core subject, that is not a core subject, this is more important than the other, because it is obvious, when you really step back and think about it, that we wouldn't necessarily want academic high-achievers coming out of our schools whose health was so poor that their lives were affected adversely because of it. You need both together.

Felly, mae yno. Ym mhedwar diben sylfaenol iawn y cwricwlwm newydd hwn, mae'r ymrwymiad i ofalu am y person cyfan—y corff yn ogystal â'r meddwl. Nawr, rwy'n credu ei fod wedi rhoi strwythur gwahanol i ni allu dechrau torri'n rhydd o'r hen ffordd o feddwl fod y pwnc hwn yn bwnc craidd, nad yw'r pwnc hwnnw'n bwnc craidd, fod hwn yn bwnc pwysicach na'r llall, gan ei bod yn amlwg, pan edrychwch ar y mater yn ei gyfanrwydd a meddwl am y peth, na fyddem o reidrwydd eisiau i blant sy'n cyflawni ar lefel uchel yn academiaidd adael ein hysgolion a'u hiechyd mor wael fel bod eu bywydau'n cael eu niweidio yn sgil hynny. Mae angen i chi gael y ddau gyda'i gilydd.

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, much of what I was going to say has been said and a lot of the teachers have been very pleased with, I suppose, their first quick flick-through of this very weighty review. How do you intend to take the profession with you, because it will be them, of course, that will be delivering this new radical change?

Weinidog, mae llawer o'r hyn roeddwn yn mynd i'w ddweud wedi cael ei ddweud ac mae llawer o'r athrawon wedi bod yn fodlon iawn â'r cipolwg cyflym cyntaf hwn ar yr adolygiad grymus hwn. Sut y bwriadwch sicrhau bod gweithwyr y proffesiwn yn dod gyda chi, gan mai hwy, wrth gwrs, fydd yn cyflwyno'r newid radical newydd hwn?

15:01

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Ann Jones? I have already, of course, been running sort of previews of the report at events up and down the country, speaking to educational leaders, headteachers and teachers in the round. Although I wasn't able, of course, to prejudge Professor Donaldson's conclusions, some things were telegraphed well in advance—that this would be a fundamental change and that, essentially, the people we will rely on to build this and deliver it are not politicians, they will be teachers. It will stand or fall depending on their commitment, their sincerity of commitment and their willingness to step up to this significant professional challenge. No politician or group of politicians can do it for them. I will be repeating that mantra up and down the country as we go. I know Professor Donaldson—. Throughout this great debate, this is the first phase I think of making sure that we really get it into the heads of everyone that, unlike the national curriculum, which was handed down from on high by Kenneth Baker, I think it was at the time—there are no Kenneth Bakers in Wales—we're going to do it differently. We have foundations laid by Professor Donaldson, but designing and building the house that sits on the foundations is the job of the Welsh people and, primarily, the Welsh teaching profession.

A gaf fi ddiolch i Ann Jones? Eiso,es, wrth gwrs, rwyf wedi cynnal rhyw fath o ragolygon ar yr adroddiad mewn digwyddiadau ar hyd a lled y wlad, gan siarad ag arweinwyr addysgol, penaethiaid ac athrawon yn gyffredinol. Er na allwn farnu casgliadau'r Athro Donaldson ymlaen llaw wrth gwrs, roedd rhai pethau wedi eu cyfleu gryn dipyn ymlaen llaw—y byddai hwn yn newid sylfaenol, ac yn y bôn, nad gwleidyddion fydd y bobl y byddwn yn dibynnu arnynt i'w ddatblygu a'i gyflawni, ond athrawon. Bydd yn llwyddo neu'n methu yn dibynnu ar eu hymrwymiad, didwylledd eu hymrwymiad a'u parodrwydd i wynebu'r her broffesiynol sylweddol hon. Ni all unrhyw wleidydd neu grŵp o wleidyddion wneud hynny ar eu rhan. Byddaf yn ailadrodd y mantra ar hyd a lled y wlad wrth i ni fynd yn ein blaenau. Gwn fod yr Athro Donaldson—. Drwy gydol y sgwrs fawr, rwy'n credu mai dyma'r cam cyntaf o'r broses o argyhoeddi pawb ein bod yn mynd i wneud hyn mewn ffordd wahanol, yn wahanol i'r cwricwlwm cenedlaethol a drosglwyddwyd oddi fry gan Kenneth Baker, rwy'n credu mai dyna pwy oedd—nid oes unrhyw Kenneth Bakers yng Nghymru. Mae'r Athro Donaldson wedi gosod sylfeini ond gwaith pobl Cymru, ac yn bennaf, y proffesiwn addysgu yng Nghymru, yw cynllunio ac adeiladu'r tŷ ar ben y sylfeini.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I was particularly pleased to see reference in the report to children and young people seeing

'the point of what they are learning'

and then this central shift to helping children and young people learn how to apply what they've learned in different ways. So, my question, essentially, is: will the workforce training introduce the pedagogic skills specifically addressing this application of learning? Will that be introduced more quickly under Furlong rather than under Donaldson? Further, are your curriculum design powers, reserved to Government in the Qualifications Wales Bill, likely to be exercised in the short to medium term to ensure that awarding bodies know that courses for Wales, especially those priority subjects you mentioned, will reflect that shift to and examination of application skills?

Finally, Llywydd, just briefly to associate myself with the questions raised by Simon Thomas and Aled Roberts in connection with the Welsh language, can you just give us a little indication into how you see the relationship between Welsh language standards working with the Donaldson aspirations for the workforce, at population level, including, of course, the education workforce itself? So, it's a sort of supply and demand question, if you like.

Diolch i chi, Weinidog. Roeddwn yn arbennig o falch o weld cyfeiriad yn yr adroddiad at blant a phobl ifanc yn gweld

'pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu'

ac yna'r newid canolog i helpu plant a phobl ifanc ddysgu sut i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwahanol ffyrdd. Felly, fy nghwestiwn, yn y bôn, yw: a fydd hyfforddiant y gweithlu'n cyflwyno'r sgiliau addysgeg sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r dull hwn o gymhwyso'r hyn a ddysgir? A gaiff eu cyflwyno'n gynt o dan Furlong yn hytrach nag o dan Donaldson? Ymhellach, a yw eich pwerau i gynllunio'r cwricwlwm, a gedwir i'r Llywodraeth ym Mil Cymwysterau Cymru, yn debygol o gael eu harfer yn y tymor byr i'r tymor canolig er mwyn sicrhau bod cyrff dyfarnu'n gwybod y bydd cyrsiau ar gyfer Cymru, yn enwedig y pynciau â blaenoriaeth y sonioch amdanynt, yn adlewyrchu ac yn archwilio'r newid i sgiliau cymhwyso?

Yn olaf, Lywydd, i gysylltu fy hun â'r cwestiynau a ofynnwyd gan Simon Thomas ac Aled Roberts mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, a allwch roi rhyw syniad i ni sut y gwelwch y berthynas rhwng safonau iaith Gymraeg yn gweithio gyda dyheadau Donaldson ar gyfer y gweithlu, ymhlith y boblogaeth, gan gynnwys, wrth gwrs, y gweithlu addysg ei hun? Felly, mae'n gwestiwn ynghylch cyflenwad a galw, os mynnwch.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. These are insightful questions from Suzy and I thank her for them. I've been a teacher and I don't think any teacher has gone a full working week without a young person turning to them and saying,

Ydy. Mae'r rhain yn gwestiynau treiddgar gan Suzy a diolch iddi amdanynt. Fe fŷm i'n athro ac nid wyf yn meddwl bod unrhyw athro wedi gweithio wythnos waith lawn heb i un person ifanc ofyn iddynt,

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

'What's the point of this, Sir/Miss? I'll never use this in my—'.

In fact, my eldest son laments in this way on practically a daily basis, and my response has always been, 'Shut up and get on with it'. No. [Laughter.] It is, of course, very important that we communicate a love of learning, brutally or otherwise, and a part of that, or an aspect of that, is the child understanding that they can succeed at this, and not only can they succeed at it but it's applicable, useful and it will be a skill for life.

Of course, indeed, we are seeing changes within the system already. Our GCSE mathematics, for instance, will become much more connected to the real world, and those numerical reasoning skills that are so important for PISA, for instance—and so important for many professions, too—will become an inherent part of our qualifications system. But this kind of thinking is something that we need to transfer across the curriculum as a whole.

On Furlong, I cannot pre-announce what John Furlong is going to say, but rest assured that I think everyone will see the intimate connection with answering the demands of what Donaldson has initially come out and said.

On supply and demand problems, you're quite right; take the Welsh language, for instance. There are other issues, but take the Welsh language, for instance. We have to have a teacher training system that answers that demand problem around numbers of teachers with competence and confidence in the Welsh language, particularly at the primary level. That also goes, incidentally, for science, maths, and, I think, music, as well, at primary level. There are ways in which we now can re-engineer our teacher training system in order that it sits with intelligent answers to the point that you have raised.

'Beth yw pwynt hyn, Syr/Miss? Ni fyddaf i byth yn defnyddio hyn yn fy—'.

Yn wir, mae fy mab hynaf yn cwyno yn y ffordd hon bron bob dydd, a fy ymateb bob amser yw, 'Cau dy geg a dal ati'. Na. [Chwerthin.] Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn cyfleu cariad at ddysgu yn chwyrn neu fel arall, a rhan o hynny, neu agwedd ar hynny, yw i'r plentyn ddeall y gall lwyddo ar hyn, ac nid yn unig y gall lwyddo, ond ei fod yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn sgil am oes.

Wrth gwrs, rydym yn bendant yn gweld newidiadau yn y system yn barod. Bydd ein mathemateg TGAU, er enghraifft, yn dod yn llawer mwy cysylltiedig â'r byd go iawn, a bydd y sgiliau rhesymu rhifiadol sydd mor bwysig i PISA, er enghraifft—ac mor bwysig i lawer o broffesiynau hefyd—yn dod yn rhan annatod o'n system gymwysterau. Ond mae'r math hwn o feddwl yn rhywbeth y mae angen inni eu trosglwyddo ar draws y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.

Ar Furlong, ni allaf gyhoeddi ymlaen llaw yr hyn y mae John Furlong yn mynd i ddweud, ond gallwch fod yn sicr fy mod yn credu y bydd pawb yn gweld y cysylltiad agos ag ateb gofynion yr hyn y dywedodd Donaldson ar y cychwyn.

Ar broblemau cyflenwad a galw, rydych yn hollol iawn; cymerwch y Gymraeg, er enghraifft. Mae yna broblemau eraill, ond cymerwch yr iaith Gymraeg, er enghraifft. Mae'n rhaid i ni gael system hyfforddi athrawon sy'n ateb y galw o ran nifer yr athrawon â gallu a hyder yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar lefel gynradd. Rwy'n credu bod hynny'n wir hefyd, gyda llaw, am wyddoniaeth, mathemateg, a cherddoriaeth ar lefel gynradd. Mae yna ffyrdd y gallwn ail-drefnu ein system hyfforddi athrawon yn awr er mwyn iddi allu cynnig atebion deallus i'r pwynt a wnaethoch.

15:06

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I must say that, as a former Deputy Minister for Skills, I welcome Professor Donaldson's report. Minister, will you agree with me that the follow-up work to Professor Donaldson's review will need to build on the 14-19 qualifications review, by putting in place a curriculum assessment and qualifications regime that is fit for modern-day Wales, and one that serves the needs of learners and employers? Will you also agree with me, Minister, about the importance that Professor Donaldson places on digital competence being on an equal footing with traditional literacy and numeracy skills, and that we need to work through existing anti-poverty initiatives, such as Communities 2.0, to ensure that people living in our more deprived communities do not miss out on boosting our nation's digital skills levels?

Fel cyn Ddirprwy Weinidog Sgiliau, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn croesawu adroddiad yr Athro Donaldson. Weinidog, a ydych chi'n cytuno y bydd angen i'r gwaith dilynol yn sgil adolygiad yr Athro Donaldson adeiladu ar yr adolygiad o gymwysterau 14-19, drwy sefydlu cyfundrefn asesu cwricwlwm a chymwysterau sy'n addas i'r Gymru fodern, ac sy'n gwasanaethu anghenion dysgwyr a chyflogwyr? Hefyd, Weinidog, a ydych chi'n cytuno ynglŷn â'r pwys y mae'r Athro Donaldson yn ei roi ar osod cymhwysedd digidol ar sail gyfartal i sgiliau llythrennedd a rhifedd traddodiadol, a bod angen inni weithio drwy fentrau gwrthlodi presennol, fel Cymunedau 2.0, i sicrhau nad yw pobl sy'n byw yn ein cymunedau mwy difreintiedig ar eu colled wrth inni hybu lefelau sgiliau digidol ein cenedl?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:07

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, I agree with the Member for Caerphilly. There are no babies going to be thrown out with the bathwater here. On that involved and very necessary work around reform of 14-19, of course Professor Donaldson got to grips with it and understood it fully, and I see no incompatibility and no reason to move away from the philosophy of what we were about there. Close co-working between, as I say, the new leadership of Qualifications Wales and those involved in leading the curriculum review roll out will be very, very necessary.

Wrth gwrs, rwy'n cytuno â'r Aelod dros Gaerffili. Ni fyddwn yn taflu'r llo a chadw'r brych yn hyn o beth. O ran y gwaith caled ac angenrheidiol ar ddiwygio'r cwricwlwm 14-19, mae'r Athro Donaldson wedi mynd i'r afael ag ef a'i ddeall yn llawn, ac ni wela unrhyw anghydnawsedd na rheswm dros symud oddi wrth athroniaeth yr hyn roeddem yn ei wneud. Fel y dywedais, bydd yn rhaid wrth gydweithio agos rhwng arweinyddiaeth newydd Cymwysterau Cymru a'r rhai sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r adolygiad o'r cwricwlwm.

You're right to say that this review hands us the challenge of delivering a well-rounded human being, essentially, at the end of their school education—a broad education that is also rigorous. That has, for a long time, been the holy grail, if you like. I don't see any tension, and we should try and get away, I think, from this black-and-white argument that, if you have a broad education, somehow it's diluted. We have the opportunity to build a curriculum that is rigorous, that stretches our young people but, because of its founding philosophy, is also about addressing the whole person.

Rydych chi'n iawn i ddweud bod yr adolygiad hwn yn ein herio i sicrhau bod dynol cyflawn, yn ei hanfod, ar ddiwedd eu haddysg ysgol—addysg eang sydd hefyd yn drylwyr. Ers amser hir, dyna yw'r greal sanctaidd os mynnwch. Ni wela unrhyw densiwn, ac rwy'n credu y dylem geisio symud oddi wrth y ddadl ddu a gwyn sy'n honni, os ydych yn cael addysg eang, fod hynny rywsut yn ei gwanhau. Mae gennym gyfle i adeiladu cwricwlwm sy'n drylwyr ac yn ymestyn ein pobl ifanc, ond oherwydd yr athroniaeth sy'n sylfaen iddo, mae hefyd yn ymwneud â mynd i'r afael â'r person cyfan.

15:09

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:09

**4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

**4. Questions to the Assembly Commission**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are no questions tabled to the Assembly Commission.

Ni chyflwynwyd cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad.

15:09

**5. Cynnig i Ddiwygio Rheol Sefydlog 30 mewn Perthynas â Hysbysu Biliau Senedd y DU**

**5. Motion to Amend Standing Order 30 in Relation to the Notification of UK Parliament Bills**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 5, which is a motion to amend Standing Order 30 in relation to the notification of UK Parliament Bills. I call on a member of the Business Committee to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 30 ar hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5707 Rosemary Butler

Motion NDM5707 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2015; a

1. Considers the Report of the Business Committee 'Amending Standing Orders: Standing Order 30: Notification in Relation to UK Parliament Bills' laid in the Table Office on 24 February 2015; and

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 30, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

2. Approves the proposal to revise Standing Order 30, as set out in Annex B of the Report of the Business Committee.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:09	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn ffurfiol.</p>	<p>Formally.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have no speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections, then the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Nid oes gennyf siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>6. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Gwaith Craffu ar ôl Deddfu o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</b></p> <p><b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move on to a debate on the Health and Social Care Committee's report on the post-legislative scrutiny of the Mental Health (Wales) Measure 2010. I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.</p> <p>Cynnig NDM5709 David Rees</p> <p>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2015.</p> <p><i>Cynigiwyd y cynnig.</i></p>	<p><b>6. Debate on the Health and Social Y Care Committee's Report on the Post-legislative Scrutiny of the Mental Health (Wales) Measure 2010</b></p> <p>Symudwn ymlaen yn awr at y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.</p> <p>Motion NDM5709 David Rees</p> <p>The National Assembly for Wales:</p> <p>Notes the report by the Health and Social Care Committee on its post-legislative scrutiny of the Mental Health (Wales) Measure 2010, which was laid in the Table Office on 15 January 2015.</p> <p><i>Motion moved.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon ar waith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.</p> <p>Yn anffodus, mae stigma'n parhau i fod yn gysylltiedig â salwch meddwl yn llawer rhy aml. Clywsom y neges hon yn glir yr wythnos diwethaf yn ystod dadl y Democratiaid Rhyddfrydol ar iechyd meddwl. Gall fod yn anodd i bobl sôn am eu hiechyd meddwl eu hunain, neu i gael hyd i'r geiriau i sôn am salwch meddwl pobl eraill, ac mae'n rhaid inni sicrhau ei bod yn haws gwneud hynny. Rwy'n siŵr y byddai pawb yn y Siambr y prynhawn yma'n cytuno bod gennym ni, fel cynrychiolwyr etholedig, gyfrifoldeb pwysig i fynd i'r afael â'r stigma hwnnw. Diolch i'r rhai sydd wedi ceisio gwneud hynny drwy siarad yn y Siambr hon am eu profiadau eu hunain o ymdopi â'u salwch meddwl.</p>	<p>It is my pleasure to open this debate on the Health and Social Care Committee's post-legislative scrutiny of the Mental Health (Wales) Measure 2010.</p> <p>Unfortunately, much too often, stigma continues to be attached to mental ill health. We heard this message clearly last week during the Liberal Democrat debate on mental health. It can be difficult for people to talk about their own mental health or to find the words to talk about other people's mental ill health issues, and we must ensure that it's easier for people to do that. I'm sure that everyone in the Chamber this afternoon would agree that we, as elected representatives, have an important responsibility to tackle that stigma. I'd like to thank those who have endeavoured to do that by speaking in this Chamber about their own experiences of dealing with their mental health issues.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Dim ond un rhan o ymdrech y Cynulliad i godi proffil iechyd meddwl a hybu a datblygu gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yw mesur iechyd 2010. Mae'r Mesur ar waith ers 2012. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, sef dechrau 2014, roedd y pwyllgor yn teimlo y dylem ystyried ei effaith ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

As well as looking at the Measure's impact, however, we wanted to take the opportunity to see what lessons we could learn from how the Measure was made and implemented. We rightly spend a lot of time in the Assembly's committees and in this Chamber scrutinising legislation. This is a maturing legislature with increasing powers, and we must make sure that we learn from our experiences. Members will have had the opportunity to read our report and the Welsh Government's response, and I hope that you will have gained an insight into the detailed issues identified. Before I highlight some of those key recommendations, I would like to take the opportunity to say 'thank you' to all those who contributed to our inquiry by providing us with evidence to inform our conclusions.

There were three key elements to our work, and I will comment briefly on each of them. The first element was to identify the extent to which the objectives of the Measure are being achieved. We were pleased as a committee to see that, following the implementation of the Measure, there have been clear improvements to mental health services in Wales. We heard that access to primary mental health assessment is easier, more people in receipt of secondary mental health services have care and treatment plans, and more people are now able to access independent mental health advocacy. However, the evidence also showed that, if the aims of the Measure are to be fully achieved, more work must be done to ensure that our mental health services have sufficient capacity. I welcome the Minister's acceptance of our first recommendation—that he should ensure that the action plan for psychological therapies clearly sets out the timescales and resourcing for each action and how those actions will be evaluated and assessed for value for money. I am sure that the publication, implementation and evaluation of that plan will continue to be an area of interest to Members of the Assembly.

More work is also needed to clear up the confusion that still exists among service users, service providers and health professionals about self-referral for reassessment under Part 3 of the Measure and access to mental health advocacy under Part 4. Recommendations 4, 5 and 8 of our report all relate to the provision of information to patients and staff. Staff must have the right information and training to help them provide the right support to those in need of mental health services. Mental health service users, including children, young people and people from harder to reach groups, must have access to the right information, delivered in the right way, at the right time, to help them to access the services they need. I welcome the Minister's acceptance of these recommendations, and I hope that when the Government's own review of the Measure is published in early 2016, it finds that the quality and availability of information has improved.

It's only one part of the Assembly's commitment to raise the profile of mental health issues in Wales, and the mental health Measure 2010 is part of that, and it's been implemented since 2012. Two years later, namely at the beginning of 2014, the committee felt that we should consider its impact on mental health services here in Wales.

Yn ogystal ag edrych ar effaith y Mesur, fodd bynnag, roeddem yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i weld pa wersi o'r gallem eu dysgu o'r modd y cafodd y Mesur ei lunio a'i roi ar waith. Fe dreulion ni lawer o amser, yn briodol, ym mhwyllgorau'r Cynulliad ac yn y Siambr hon yn craffu ar ddeddfwriaeth. Mae hon yn ddeddfwriaeth sy'n aeddfedu gyda phwerau cynyddol a rhaid inni sicrhau ein bod yn dysgu o'n profiadau. Bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen ein hadroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru, ac rwy'n gobeithio y byddwch wedi cael cipolwg ar y materion manwl a nodwyd. Cyn i mi dynnu sylw at rai o'r argymhellion allweddol hynny, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad drwy ddarparu tystiolaeth i lywio ein casgliadau.

Roedd tair elfen allweddol i'n gwaith, ac rwyf am wneud sylwadau byr ar bob un ohonynt. Yr elfen gyntaf oedd canfod i ba raddau y mae amcanion y Mesur yn cael eu cyflawni. Fel pwyllgor roeddem yn falch o weld gwelliannau clir i wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn sgil gweithredu'r Mesur. Clywsom fod cael asesiad iechyd meddwl sylfaenol yn haws, fod cynlluniau gofal a thriniaeth gan ragor o bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, a bod mwy o bobl bellach yn gallu cael eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol. Fodd bynnag, dangosodd y dystiolaeth hefyd fod angen gwneud rhagor i sicrhau bod digon o gapasiti gan ein gwasanaethau iechyd meddwl os yw amcanion y Mesur i gael eu cyflawni'n llawn. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn ein hargymhelliad cyntaf—y dylai sicrhau bod y cynllun gweithredu ar gyfer therapiau seicolegol yn nodi'r amserlenni a'r adnoddau ar gyfer pob cam yn eglur yn ogystal â'r modd y caiff y camau gweithredu hynny eu gwerthuso a'u hasesu o ran gwerth am arian. Rwy'n sicr y bydd cyhoeddi, gweithredu a gwerthuso'r cynllun hwn yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad.

Mae angen gwneud mwy o waith hefyd i glirio'r dryswch sy'n dal i fodoli ymysg defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch hunangyfeirio am ailasesiad o dan Ran 3 o'r Mesur a mynediad at eiriolaeth iechyd meddwl o dan Ran 4. Mae argymhellion 4, 5 ac 8 ein hadroddiad oll yn ymwneud â darparu gwybodaeth i gleifion a staff. Mae'n rhaid i staff gael y wybodaeth a'r hyfforddiant cywir i'w helpu i ddarparu'r cymorth iawn i'r rhai sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys plant, pobl ifanc a phobl o grwpiau anos eu cyrraedd gael y wybodaeth gywir, wedi'i chyflwyno yn y ffordd iawn, ar yr adeg gywir, er mwyn eu helpu i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn yr argymhellion hyn a phan fydd adolygiad y Llywodraeth ei hun o'r Mesur yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016, rwy'n gobeithio y gwêl fod ansawdd ac argaeledd gwybodaeth wedi gwella.

The second strand of our inquiry sought to identify whether there are any lessons that can be learned, or good practice that can be shared, from the making and implementation of the Measure. We heard evidence that, in many ways, the Measure is an example of good practice. Stakeholders welcomed the consultative approach taken by the Welsh Government through the development and implementation of the Measure, although some were concerned about the degree to which issues raised during the consultations were taken on board and addressed. Recommendation 7 of our report sought a commitment from Welsh Ministers to learn from this to ensure that it consults effectively using traditional and innovative methods throughout the development, implementation and evaluation of all of its legislation.

During its passage through the Assembly, the Measure was amended significantly in order to include children and young people within its scope. This was welcomed in principle by stakeholders, but health boards, local authorities and the third sector told us that the provisions in the Measure had been designed with adults in mind and were not, therefore, always appropriate for children and young people. For example, there were questions about whether local primary mental health services have the appropriate skill sets to deliver services to children and young people, and about the way in which children and young people are involved in their care and treatment planning.

The concerns that we hear during our work echo those identified by the Children, Young People and Education Committee in their inquiry into CAMHS. As we comment in our report, it could be argued that the impact of the Measure on children and young people might have been different had they been included in the Measure from an earlier stage. We chose not to make a recommendation in relation to the role of pre-legislative scrutiny at this point, as we are aware of the in-depth inquiry being undertaken by the Constitutional and Legislative Affairs Committee into making laws in the fourth Assembly. We do, however, look forward with interest to the findings of that particular inquiry.

What is important now is to ensure that the right services are put in place to meet the mental health needs of children, young people and their families. As a committee, we welcome the Minister's recent announcement of the external review to be led by Professor Dame Sue Bailey. But, following her contributions to last week's CAMHS conference, I would ask for confirmation of her role in that review and the extent of the review. Any such review must be robust and the Minister and health boards must act swiftly on its recommendations to take action to improve mental health services for our children and young people.

Recommendation 9 asks the Minister to provide us with an update on the identified actions and, more importantly, how you will ensure that they are delivered. I am pleased to note the Minister's acceptance of this recommendation.

Roedd ail elfen ein hymchwiliad yn ceisio gweld a oes unrhyw wersi y gellir eu dysgu, neu arfer da y gellir ei rannu, o lunio a gweithredu'r Mesur. Clywsom dystiolaeth fod y Mesur, mewn llawer o ffyrdd, yn enghraifft o arfer da. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r dull ymgynghorol a arferwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu'r Mesur, er bod rhai yn poeni i ba raddau y câi materion a godai yn ystod yr ymgynghoriadau eu hystyried a'u trin. Roedd argymhelliad 7 ein hadroddiad yn gofyn am ymrwymiad gan Weinidogion Cymru i ddysgu o hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymgynghori'n effeithiol gan ddefnyddio dulliau traddodiadol ac arloesol drwy gydol y broses o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso ei holl ddeddfwriaeth.

Yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad, cafodd y Mesur ei ddiwygio'n sylweddol er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc. Croesawyd hyn mewn egwyddor gan rhanddeiliaid, ond dywedodd byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector wrthym fod y darpariaethau yn y Mesur wedi cael eu llunio gydag oedolion mewn golwg ac nad oedd bob amser yn briodol ar gyfer plant a phobl ifanc oherwydd hynny. Er enghraifft, cafwyd cwestiynau ynglŷn ag a oedd gan wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol y sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac am y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ymllunio gofal a thriniaeth.

Mae'r pryderon a glywn yn ystod ein gwaith yn adleisio'r rhai a nodwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei ymchwiliad i CAMHS. Fel yr amlygwyd yn ein hadroddiad, gellid dadlau y gallai effaith y Mesur ar blant a phobl ifanc fod wedi bod yn wahanol pe baent wedi eu cynnwys yn y Mesur o gam cynharach. Fe ddewiswn ni beidio â gwneud argymhelliad mewn perthynas â rôl graffu cyn deddfu ar y pwynt hwn, gan ein bod yn ymwybodol o'r ymchwiliad manwl sydd ar y gweill gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ddeddfu yn y pedwerydd Cynulliad. Fodd bynnag, edrychwn ymlaen gyda diddordeb at ganfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw.

Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu rhoi ar waith i fodloni anghenion iechyd meddwl plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fel pwyllgor, rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar y Gweinidog am yr adolygiad allanol sydd i'w arwain gan yr Athro Fonesig Sue Bailey. Ond yn dilyn ei chyfraniadau i gynhadledd CAMHS yr wythnos diwethaf, hoffwn ofyn am gadarnhad o'i rôl yn yr adolygiad hwnnw ac ynglŷn â chwmpas yr adolygiad. Rhaid i adolygiad o'r fath fod yn gadarn a rhaid i'r Gweinidog a'r byrddau iechyd weithredu'n gyflym ar ei argymhellion i roi camau ar waith i wella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Mae argymhelliad 9 yn gofyn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y camau gweithredu a nodwyd ac yn bwysicach, ynglŷn â sut y byddwch yn sicrhau y cânt eu cyflawni. Rwy'n falch o nodi bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad.

The third and final element of our work was to consider whether the Measure has represented, and continues to represent, value for money. We appreciate that forecasting the costs of legislation is difficult, particularly, where the introduction of new services can unlock latent demand, as appears to have happened in this case. However, we do expect that the Welsh Government will continue to refine and improve the ways in which it estimates the financial implications of its legislation.

As a committee, we strongly believe that it is important to have the right services in place to support people with their mental health needs. To achieve this, the Measure needs to be resourced adequately and mental health must be appropriately prioritised. However, to identify whether the Measure represents value for money, there needs to be clarity, not only on the inputs in terms of money going in, but also on the outputs and, more importantly, outcomes for the mental health of people in Wales.

At present, there is limited evidence available on which to base any assessment of whether the Measure has represented value for money. Our recommendation 10 asks the Minister to confirm that the Welsh Government's final review of the Measure will include a robust cost-benefit analysis. I welcome the Minister's acceptance of the recommendation in principle in his written response, and his confirmation that there will be a cost-benefit analysis. However, I would be grateful if he could say more about how he intends to go about this work and how he will ensure that the right data are currently being collected.

Much of what we heard during the course of our post-legislative scrutiny showed that the Measure is widely welcomed. It is helping to raise the profile and status of mental health, and is improving access to services. If, however, it is to achieve its objectives in the longer term, we must keep the spotlight on mental health, and maintain the momentum achieved so far. I commend the committee's report to the Assembly, and look forward to hearing other Members' contributions to this debate today.

15:18 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to the Chair for opening the debate and, indeed, for his work in steering the committee through this very important follow-up inquiry on the implementation of the mental health Measure and its impact for patients across Wales.

I want to pay tribute, as well, to those third sector organisations that gave evidence to the committee—very open and honest evidence—which highlighted, yes, some of the improvements that have been secured as a result of the implementation of this legislation, but also some of the shortcomings that were still being felt for some people across the country in terms of their mental health services. In particular, I want to put on record my thanks to Hafal, Gofal and Mind for their efforts.

Y drydedd elfen a'r elfen olaf o'n gwaith oedd ystyried a yw'r Mesur wedi cynnig, ac yn parhau i gynnig gwerth am arian. Rydym yn sylweddoli bod rhagweld costau deddfwriaeth yn anodd, yn arbennig lle y gall cyflwyno gwasanaethau newydd ddatgloi galw cudd, fel sydd i'w weld wedi digwydd yn yr achos hwn. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fireinio a gwella'r ffyrdd y mae'n amcangyfrif goblygiadau ariannol ei deddfwriaeth.

Fel pwyllgor, credwn yn gryf ei bod yn bwysig cael y gwasanaethau iawn ar waith i gefnogi pobl gyda'u hanghenion iechyd meddwl. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen adnoddau digonol ar y Mesur ac mae'n rhaid i iechyd meddwl gael ei flaenoriaethu'n briodol. Fodd bynnag, er mwyn gweld a yw'r Mesur yn cynnig gwerth am arian, mae angen eglurder, nid yn unig ynglŷn â'r mewnbynnau ariannol, ond hefyd yr allbynnau ac yn bwysicach, y canlyniadau o ran iechyd meddwl pobl yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn sail i unrhyw asesiad ynglŷn ag a yw'r Mesur wedi cynnig gwerth am arian. Mae ein hargymhellad 10 yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau y bydd adolygiad terfynol Llywodraeth Cymru o'r Mesur yn cynnwys dadansoddiad cost a budd trylwyr. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn yr argymhellad mewn egwyddor yn ei ymateb ysgrifenedig, a'i gadarnhad y bydd dadansoddiad cost a budd yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, fe fyddwn yn ddiolchgar pe gallai ddweud mwy ynglŷn â sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r gwaith hwn a sut y bydd yn sicrhau bod y data cywir yn cael ei gasglu ar hyn o bryd.

Dangosodd llawer o'r hyn a glywsom yn ystod ein gwaith craffu ar ôl deddfu bod y Mesur yn cael ei groesawu yn eang. Mae'n helpu i godi proffil a statws iechyd meddwl ac yn gwella mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, os yw'n mynd i gyflawni ei amcanion yn y tymor hwy, mae'n rhaid i ni barhau i roi sylw i iechyd meddwl a chynnal y momentwm a gyflawnwyd hyd yn hyn. Rwy'n cymeradwyo adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau gan Aelodau eraill at y ddadl hon heddiw.

Diolch yn fawr i'r Cadeirydd am agor y ddadl ac yn wir am ei waith yn llywio'r pwyllgor drwy'r ymchwiliad dilynol tra phwysig hwn ar weithrediad y Mesur iechyd meddwl a'i effaith ar gleifion ledled Cymru.

Hoffwn roi teyrnged, yn ogystal, i'r sefydliadau trydydd sector a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor—tystiolaeth agored a gonest iawn—a amlygodd, do, rai o'r gwelliannau a gafodd eu sicrhau yn sgil gweithredu'r ddeddfwriaeth hon, ond hefyd, rai o'r diffygion a oedd yn dal i gael eu teimlo gan rai pobl ar draws y wlad mewn perthynas â'u gwasanaethau iechyd meddwl. Yn benodol, rwyf am gofnodi fy niolch i Hafal, Gofal a Mind am eu hymdrechion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



There's a lot that is going on in mental health care in Wales that is very positive: I've been very pleased with the Welsh Government's announcements on extra resources for our veterans services, for mindfulness and the expansion of mindfulness through the NHS. But, I think it's very important to highlight that there are still people waiting for far too long for access to treatment, particularly to psychological treatments in Wales. We need to address that shortcoming and, indeed, the shortcomings that were really identified through this inquiry and through other pieces of work in the Assembly in terms of access to mental health services, particularly in-patient services for children and young people in Wales. I know that the Welsh Government has a piece of work that is ongoing into that—a review—and it would be very helpful if the Minister could indicate what the timescales for the completion of that piece of work are, in relation to children and young people's services.

My party, of course, has made it quite clear that we want to see the mental health ring fence continue to be applied in the NHS, and we also want to see a ring fence within the ring fence for children and adolescent mental health services in order to secure the future of those services. I think it is a matter of regret that there has been a shrinking budget in real terms for mental health services in recent years, which I think suggests that the ring fence, as it currently operates, isn't actually working as the Government originally intended when Edwina Hart was the Minister and made that very important commitment for mental health services.

I think it is welcome that there has been increased access to mental health care and support in terms of primary care delivery, and there does appear to be an increased awareness amongst GPs of the needs of patients who present with mental health problems. Of course, it was also very positive to hear that most mental health patients now have a care and treatment plan, and I think those are very positive developments indeed.

But there are some shortcomings in terms of access to independent advocacy. I think the commissioning arrangements—and we make reference to this in our recommendation 5 in the report. The commissioning processes for independent advocacy are very different in different parts of Wales, and, unfortunately, I think there's insufficient focus on the quality of those advocacy services. I wonder, Minister, whether you'll be able to tell us what you expect health boards to do to ensure that there is quality of provision in all parts of Wales and that all patients are aware of their entitlement to independent advocacy, should they need access to it.

Mae llawer sy'n gadarnhaol iawn yn digwydd ym maes gofal iechyd meddwl yng Nghymru: rwyf wedi bod yn fodlon iawn gyda chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar ryddhau adnoddau ychwanegol i'n gwasanaethau i gyn-filwyr, i ymwybyddiaeth ofalgar ac ehangu ymwybyddiaeth ofalgar drwy'r GIG. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn tynnu sylw at y ffaith fod yna bobl sy'n aros yn llawer rhy hir o hyd i gael triniaeth, yn arbennig triniaethau seicolegol yng Nghymru. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r diffyg ac yn wir, y diffygion a nodwyd gan yr ymchwiliad hwn a gwaith arall gan y Cynulliad ar fynediad at wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig gwasanaethau cleifion mewnol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Gwn fod gan Lywodraeth Cymru waith ar y gweill ar hynny—adolygiad—a byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai'r Gweinidog nodi'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwnnw mewn perthynas â gwasanaethau plant a phobl ifanc.

Mae fy mhleid, wrth gwrs, wedi dweud yn gwbl glir ein bod am weld arian yn parhau i gael ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl yn y GIG ac rydym hefyd am weld neilltuo arian o fewn hynny wedyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod er mwyn sicrhau dyfodol y gwasanaethau hynny. Mater i'w resynu yw'r crebachu a fu yn y gyllideb mewn termau real ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y blynyddoedd diwethaf, a chredaf fod hynny'n awgrymu nad yw'r trefniadau neilltuo arian fel y maent yn gweithredu ar hyn o bryd yn gweithio fel y bwriadai'r Llywodraeth iddynt ei wneud yn wreiddiol pan oedd Edwina Hart yn Weinidog a phan ddangosodd ymrwymiad pwysig iawn i wasanaethau iechyd meddwl.

Credaf fod cynyddu mynediad at ofal a chymorth iechyd meddwl yn gam i'w groesawu o ran y ddarpariaeth gofal sylfaenol, ac ymddengys bod mwy o ymwybyddiaeth ymhlith meddygon teulu o anghenion cleifion sy'n dod atynt â phroblemau iechyd meddwl. Wrth gwrs, roedd hi'n gadarnhaol iawn clywed hefyd bod y rhan fwyaf o gleifion iechyd meddwl â chynllun gofal a thriniaeth yn awr, ac rwy'n meddwl bod y rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol iawn yn wir.

Ond ceir rhai diffygion o ran mynediad at eiriolaeth annibynnol. Rwy'n meddwl bod y trefniadau comisiynu—ac rydym yn cyfeirio at hyn yn argymhellid 5 ein hadroddiad. Mae'r prosesau comisiynu ar gyfer eiriolaeth annibynnol yn wahanol iawn mewn gwahanol rannau o Gymru, ac yn anffodus, rwy'n credu nad oes digon o ffocws ar ansawdd y gwasanaethau eiriolaeth hynny. Weinidog, tybed a allwch ddweud wrthym beth rydych yn disgwyl i fyrddau iechyd ei wneud er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ym mhob rhan o Gymru, a bod pob claf yn ymwybodol o'u hawl i eiriolaeth annibynnol os ydynt ei hangen.

I think, also, focusing on recommendation 4, one thing that we did find very much as a committee was that not all patients are aware of their entitlement to self-refer back into secondary care if they've been a secondary care patient. They are finding themselves having to end up in yet another crisis before they can get access back into secondary care services. One of the intentions of the mental health Measure, of course, was to bring an end to that—an end to the need for a person to end up in crisis. I wonder, Minister, what work you will do with health boards to ensure that they meet their obligations under the Measure to ensure that all patients have information given to them when they're discharged from secondary care that makes it clear how they can better access, more swiftly, a secondary care service, should they need it. I think that if we can get that right, we can prevent lots of additional costs to the NHS that could be avoided, and then those savings could be reinvested into other parts of the healthcare system to ensure better provision across the board.

But I do want to welcome the committee's work. I commend the recommendations to you, and I look forward, Minister, to hearing your response later in the debate.

Gan ganolbwytio ar argymhelliad 4, rwy'n meddwl hefyd mai un peth a welsom fel pwyllgor yn sicr iawn oedd nad oedd pob claf yn ymwybodol o'i hawl i hunangyfeirio yn ôl i ofal eilaidd os ydynt wedi bod yn gleifion gofal eilaidd. Maent yn tueddu i orfod wynebu argyfwng arall eto cyn y gallant ddychwelyd i wasanaethau gofal eilaidd. Un o fwiadau'r Mesur iechyd meddwl, wrth gwrs, oedd rhoi terfyn ar hynny—rhoi diwedd ar yr angen i berson orfod wynebu argyfwng. Weinidog, tybed pa waith y byddwch yn ei wneud gyda'r byrddau iechyd i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau o dan y Mesur i sicrhau bod pob claf yn meddu ar y wybodaeth a roddir iddynt pan gânt eu rhyddhau o ofal eilaidd sy'n ei gwneud yn glir sut y gallant gael gwell mynediad, yn gyflymach, at wasanaeth gofal eilaidd os oes ei angen arnynt. Os gallwn gael hynny'n iawn, credaf y gallwn osgoi llawer o gostau ychwanegol i'r GIG, ac y gellid ail-fuddsoddi'r arbedion mewn rhannau eraill o'r system gofal iechyd er mwyn sicrhau gwell darpariaeth ar draws y bwrd.

Ond rwyf am groesawu gwaith y pwyllgor. Cymeradwyaf yr argymhellion i chi, ac edrychaf ymlaen, Weinidog, at glywed eich ymateb yn ddiweddarach yn y ddafl.

15:23

### **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd also like to echo the thanks to everyone involved in this committee report. I want to concentrate on what I think are the key recommendations and issues raised in the committee's report on the mental health Measure and, indeed, the Minister's response. What I, too, find disturbing is the understanding of GPs and practice staff about mental health. It varies across Wales. This places a heavy responsibility on health boards to put in place appropriate training so that we don't have a postcode lottery in Wales, where people with mental health problems in some parts of Wales receive poorer services than those elsewhere.

I note with some satisfaction that the Minister is indeed providing additional funding for psychological therapies. This will go some way to pleasing a number of third sector organisations that have signalled lack of psychological therapies as a major deficit in the Welsh Government's resourcing of mental health.

Another key issue, which is only touched on in our report, is the lack of information about the benefits to patients of various forms of care and treatment. We know the Minister will be including a cost-benefit analysis of the Measure in the final report to be published next year, but nearly five years after the mental health Measure was introduced, to have little or no idea about what works for persons experiencing mental health problems is just not good enough. What use are we making of evidence from research or, more importantly, from carrying out in-depth surveying, asking patients what has worked or has not worked for them? One of the main objectives of the Measure should be to prevent the need for accessing secondary mental health services. We know that the Minister is keen to place more emphasis on directing health services away from hospitals and into the community, and this is especially important when we're talking about children and young people with mental health problems.

Hoffwn innau hefyd ategu fy niolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r adroddiad pwyllgor hwn. Rwyf am ganolbwytio ar yr hyn y credaf yw'r prif argymhellion a materion a godwyd yn adroddiad y pwyllgor ar y Mesur iechyd meddwl ac yn wir, yn ymateb y Gweinidog. Yr hyn rwyf innau hefyd yn ei ystyried yn bryderus yw dealltwriaeth meddygon teulu a staff practisau am iechyd meddwl. Mae'n amrywio ledled Cymru. Mae'n gosod cyfrifoldeb trwm ar fyrddau iechyd i sicrhau hyfforddiant priodol fel nad oes gennym loteri cod post yng Nghymru, lle y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn rhai rhannau o Gymru yn cael gwasanaethau gwaeth na phobl mewn mannau eraill.

Nodaf gyda pheth boddhad fod y Gweinidog yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer therapïau seicolegol. Bydd hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at blesio nifer o fudiadau trydydd sector sydd wedi nodi prinder therapïau seicolegol fel diffyg mawr yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyllido iechyd meddwl.

Mater allweddol arall sydd ond yn cael ei grybwyll yn fras yn ein hadroddiad yw'r diffyg gwybodaeth am y manteision i gleifion o wahanol fathau o ofal a thriniaeth. Gwyddom y bydd y Gweinidog yn cynnwys dadansoddiad cost a budd o'r Mesur yn yr adroddiad terfynol sydd i'w gyhoeddi y flwyddyn nesaf, ond bron i bum mlynedd ar ôl i'r Mesur iechyd meddwl gael ei gyflwyno, nid yw'n ddigon da nad oes gennym ond ychydig o syniad, os o gwbl, ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio i bobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Pa ddefnydd a wnawn o dystiolaeth ymchwil neu'n bwysicach, o gyflawni arolygon manwl yn gofyn i gleifion beth sydd wedi gweithio neu heb weithio iddynt hwy? Dylai atal yr angen i gael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd fod yn un o brif amcanion y Mesur. Gwyddom fod y Gweinidog yn awyddus i roi mwy o bwyslais ar gyfeirio gwasanaethau iechyd i ffwrdd o ysbysai ac i mewn i'r gymuned, ac mae hyn yn arbennig o bwysig wrth inni sôn am blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

This brings me perhaps to what is the most important issue in this debate: the pressing need for the Welsh Government to improve the children and adolescent mental health services. I look forward, Llywydd, to reading the report of the Minister on this matter, when it's made available in October, as was raised in the committee's ninth recommendation on how the actions promised in that report will be delivered. In Wales, as in the rest of the UK, the increasing number of children and young people who are suffering from depression, often as a life-threatening condition, is very worrying and presents us with an enormous challenge. Maybe because the original Measure did not refer to young people under the age of 18, we have a lot of catching up to do in order for us in Wales to provide a range of tried and tested means of preventing children and young people from self-harming or even taking their own lives.

The committee heard some disturbing information in scrutinising the mental health Measure's progress over the past few years. It heard that many young people felt they were not sufficiently informed about, or included in, their care and treatment plan; that not enough information suitable for children and young people is available; and that, in many cases, schools' counselling services can be much more appropriate and successful for young people than what we might call medical services, but these services are so underdeveloped. As the mental health organisation, Hafal, has stated, what all clients, especially young people, need is their own unique recovery programme based on the modern principles of self-management and empowerment. I have written here that, in a word, we need to have in place a wide range of care and treatment plans for people of all ages that put an emphasis on early intervention and ongoing support in the community. It is a long word, but perhaps the best word, indeed, is 'understanding'. Diolch yn fawr. Thank you.

Daw hyn â mi at y mater pwysicaf yn y ddatl hon, efallai: yr angen dybryd i Lywodraeth Cymru wella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Lywydd, edrychaf ymlaen at ddarllen adroddiad y Gweinidog ar y mater hwn pan fydd ar gael ym mis Hydref, fel y crybwyllwyd yn nawfed argymhelliad y pwyllgor ar sut y bydd y camau a addawyd yn y cyfryw adroddiad yn cael eu cyflwyno. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n dioddef o iselder, yn aml fel cyflwr sy'n bygwth bywyd, yn peri pryder mawr ac yn her enfawr. Am nad oedd y Mesur gwreiddiol yn cyfeirio at bobl ifanc o dan 18 oed o bosibl, mae gennym lawer o waith dal i fyny er mwyn i ni yng Nghymru ddarparu ystod o ddulliau profedig o atal plant a phobl ifanc rhag hunan-niweidio, neu gyflawni hunanladdiad hyd yn oed.

Clywodd y pwyllgor wybodaeth sy'n peri pryder wrth graffu ar gynnydd y Mesur iechyd meddwl dros y blynyddoedd diwethaf. Clywodd fod llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oeddent yn gwybod digon am eu cynllun gofal a thriniaeth, neu'n cael eu cynnwys ddigon ynddo; nad oes digon o wybodaeth addas ar gael i blant a phobl ifanc; ac mewn llawer o achosion, fod gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn gallu bod yn llawer mwy priodol a llwyddiannus i bobl ifanc na'r hyn y byddem yn eu galw'n wasanaethau meddygol, ond nid yw'r gwasanaethau hynny wedi eu datblygu'n ddigonol o gwbl. Fel y mae'r sefydliad iechyd meddwl, Hafal, wedi datgan, yr hyn y mae pob cleient, yn enwedig pobl ifanc, ei angen yw eu rhaglen adfer unigryw eu hunain yn seiliedig ar egwyddorion modern hunanreolaeth a grymuso. Rwyf wedi ysgrifennu yma, mewn gair, fod angen i ni gael ystod eang o gynlluniau gofal a thriniaeth ar waith ar gyfer pobl o bob oed sy'n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar a chymorth parhaus yn y gymuned. Mae'n air hir, ond efallai mai'r gair gorau, yn wir, yw 'dealltwriaeth'. Diolch yn fawr.

15:27

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find myself talking on a report that I didn't take part in the inquiry, and in fact my involvement in this particular Measure was at the Stage 1 proceedings of that Measure, following which, of course, the Minister completely rewrote it after we made a report, suggesting that it should also refer to children. I didn't take any further part in that. So, I'm going to do my best.

I do want to start by saying that the Welsh Liberal Democrats and the Liberal Democrats in Westminster are committed to improving mental health. It is on the front page of our manifesto. I think that's very important. One in four people experience a mental health problem in any given year. Nine out of 10 people with mental health problems experience stigma and discrimination.

Rwy'n siarad am adroddiad nad oeddwn yn rhan o'r ymchwiliad ar ei gyfer, ac mewn gwirionedd roeddwn yn ymwneud â'r Mesur penodol hwn adeg trafod Cam 1 y Mesur, ac yn dilyn hynny wrth gwrs, aeth y Gweinidog ati i'w ailwampio'n llwyr wedi i ni lunio adroddiad, gan awgrymu y dylai gyfeirio at blant hefyd. Ni chymerais ran bellach yn hynny. Felly, mi wnaif fy ngorau.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi ymrwymo i wella iechyd meddwl. Mae ar dudalen flaen ein manifesto. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Mae un o bob pedwar o bobl yn dioddef problem iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn. Mae naw o bob 10 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu stigma a gwahaniaethu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mental health has been traditionally viewed with less gravity than more physical forms of health, and we strongly believe that mental health should be treated equally with other forms of healthcare. Improved mental health and wellbeing is a worthwhile goal in itself and leads to better outcomes; for example, in physical health, health behaviours, educational attainment, employability and crime reduction.

There is little doubt that the Mental Health (Wales) Measure 2010 has improved things, but clearly the committee found that there is still much to do before we have a service that meets the needs of the people of Wales or even meets the goals of the Measure itself, as is shown by the committee's 10 recommendations. I think that when we examined this Measure originally, it was a very ambitious programme of work. I think that it is evident, not just in terms of what the committee has found, but also in terms of casework that I've taken up and people that I've spoken to over the course of the years, that the demand for particularly primary mental health care services is very high, and in some cases primary healthcare struggles to cope with that demand. I have spoken, for example, to Mind in Swansea, which finds that they have health centres and doctors referring patients directly to them rather than to appropriate therapy, and people misunderstanding in primary healthcare settings exactly what is available to them. We still get situations, I think, where people presenting with mental health problems are medicalised rather than given the therapy treatments that might be more appropriate for them. But that is anecdotal evidence; it's not evidence that is in the committee report. It's certainly what I have found in terms of my own experience of working with people and also talking to various organisations in my own region.

I won't talk about all the recommendations. I'm going to focus on recommendation 5, which states,

'That the Minister for Health and Social Services requires health boards to ensure that appropriate training and information is available to staff in relevant healthcare settings'.

This underlines what I think has been said: that in every healthcare setting, that training and information isn't always available, and I think it's absolutely imperative that that is put in place, particularly about those who are eligible for independent mental health advocacy under Part 4 of the Measure, and how to support patients to access advocacy services.

Mae iechyd meddwl wedi cael ei weld yn draddodiadol fel mater llai difrifol nag agweddau mwy corfforol ar iechyd, a chredwn yn gryf y dylai iechyd meddwl gael ei drin yn gyfartal â mathau eraill o ofal iechyd. Mae gwell iechyd meddwl a lles yn nod gwerth chweil ynddo'i hun ac yn arwain at ganlyniadau gwell; er enghraifft, o ran iechyd corfforol, patrymau ymddygiad iechyd, cyrhaeddiad addysgol, cyflogadwyedd a lleihau troseddau.

Nid oes fawr o amheuaeth fod Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 wedi gwella pethau, ond yn amlwg, canfu'r pwyllgor fod llawer eto i'w wneud cyn inni gael gwasanaeth sy'n cwrrd ag anghenion pobl Cymru neu hyd yn oed yn bodloni amcanion y Mesur ei hun, fel y dangosir yn 10 argymhelliad y pwyllgor. Pan aethom ati i archwilio'r Mesur yn wreiddiol, roedd yn rhaglen waith uchelgeisiol iawn. Credaf ei bod yn amlwg, nid yn unig o ran yr hyn y mae'r pwyllgor wedi ei ganfod, ond hefyd o ran gwaith achos a wneuthum a'r bobl y siaradais â hwy dros y blynyddoedd, fod y galw am wasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol, yn arbennig, yn uchel iawn, ac mewn rhai achosion mae gofal iechyd sylfaenol yn brwydro i ymdopi â'r galw hwnnw. Rwyf wedi siarad, er enghraifft, â Mind yn Abertawe, sy'n canfod bod canolfannau iechyd a meddygon yn atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol atynt hwy yn hytrach nag at therapi priodol, a phobl yn camddeall beth yn union sydd ar gael iddynt mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol. Rydym yn dal i gael sefyllfaoedd, rwy'n credu, lle y mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu trin yn feddygol yn hytrach na chael triniaethau therapi a allai fod yn fwy priodol ar eu cyfer. Ond tystiolaeth anecdotaidd yw honno; nid yw'n dystiolaeth sydd yn adroddiad y pwyllgor. Yn sicr, dyna a welais yn fy mhrofiad fy hun o weithio gyda phobl a hefyd o siarad â sefydliadau amrywiol yn fy rhanbarth ei hun.

Nid wyf am sôn am yr holl argymhellion. Rwy'n mynd i ganolbwyntio ar argymhelliad 5, sy'n datgan,

'Bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sicrhau bod gwybodaeth a hyfforddiant priodol ar gael i staff mewn lleoliadau gofal iechyd perthnasol'.

Mae hyn yn tanlinellu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud: nad oes hyfforddiant a gwybodaeth bob amser ar gael ym mhob lleoliad gofal iechyd, ac rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol i hynny gael ei roi ar waith, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai sy'n gymwys i gael eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol o dan Ran 4 y Mesur, a sut i gynorthwyo cleifion i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth.

The frequent comorbidity of mental health means that it affects many aspects of the health service. We need more and better joined-up working between all aspects of the health service if we are to deal with that issue. I'm very pleased that the Minister's accepted, or accepted in principle, all 10 recommendations, but, of course, as Lindsay has just pointed out, child and adolescent mental health services are of particular concern. It is recognised that one in 10 children and adolescents will experience a mental health issue, and many will continue to have mental health problems into adulthood. The number of vulnerable young people in Wales waiting more than 14 weeks to access child and adult psychiatric services has almost quadrupled recently, from 199 in January 2013 to 736 in January 2014. I think we need to recognise that crisis and deal with it.

Presiding Officer, as I said, I think that this Measure was groundbreaking. It also, I think, required a huge amount of investment of time and resource, and, of course, it wasn't going to transform services overnight; it is going to take time. I think I would recognise that things have improved as a result of it, that we are taking important steps forward in terms of tackling mental health, but I think we also need to recognise that things can be better still, and that things can be put into place to improve access to health services, particularly advocacy and counselling services for people suffering with a mental health problem. Measures such as expanding liaison psychiatry, ensuring that all public enterprises become mental health-friendly employers, improving crisis care, having a mental health and well-being champion in each health board, and addressing the inequitable variation in the availability and accessibility of CAMHS in Wales, are just some of the things that can be done better. But I certainly think this report is an important contribution to putting things right and improving things, and I very much support the recommendations in it.

Mae cyd-forbidrwydd mynych iechyd meddwl yn golygu ei fod yn effeithio ar lawer o agweddau ar y gwasanaeth iechyd. Mae angen cydweithio gwell a mwy cydgysylltiedig rhwng pob agwedd ar y gwasanaeth iechyd os ydym am ddelio â'r mater hwnnw. Rwy'n falch iawn fod y Gweinidog wedi derbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, pob un o'r 10 argymhelliad, ond wrth gwrs, fel y nododd Lindsay yn awr, mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod yn peri pryder penodol. Cydnabyddir y bydd un o bob 10 o blant a phobl ifanc yn dioddef problem iechyd meddwl, a bydd llawer yn parhau i ddiodeff problemau iechyd meddwl pan fyddant yn oedolion. Mae nifer y bobl ifanc agored i niwed yng Nghymru sy'n aros mwy na 14 wythnos i gael gwasanaethau seiciatrig i blant ac oedolion wedi cynyddu bron bedair gwaith yn ddiweddar, o 199 ym mis Ionawr 2013 i 736 ym mis Ionawr 2014. Rwy'n credu bod angen cydnabod yr argyfwng a'i ddatrys.

Lywydd, fel y dywedais, credaf fod y Mesur hwn yn torri tir newydd. Rwy'n credu ei fod hefyd wedi galw am lawer iawn o fuddsoddiad o ran amser ac adnoddau, ac wrth gwrs, nid oedd yn mynd i drawsnewid gwasanaethau dros nos; mae'n mynd i gymryd amser. Rwy'n credu y byddwn yn cydnabod bod pethau wedi gwella o ganlyniad iddo, ein bod yn cymryd camau pwysig ymlaen o ran mynd i'r afael ag iechyd meddwl, ond rwy'n meddwl bod angen i ni hefyd gydnabod y gall pethau fod yn well fyth, ac y gellid rhoi pethau ar waith i wella mynediad at wasanaethau iechyd, yn enwedig eiriolaeth a gwasanaethau cwnsela i bobl sy'n dioddef problem iechyd meddwl. Nid yw mesurau fel ehangu seiciatreg gyswllt, gan sicrhau bod pob menter gyhoeddus yn dod yn gyflogwr sy'n ystyriol o iechyd meddwl, gwella gofal argyfwng, cael hyrwyddwr iechyd meddwl a lles ym mhob bwrdd iechyd, a mynd i'r afael â'r amrywiadau annheg yn argaeledd a hygyrchedd CAMHS yng Nghymru, ond yn rhai o'r pethau y gellir eu gwneud yn well. Ond rwy'n sicr o'r farn fod yr adroddiad hwn yn gyfraniad pwysig i unioni pethau a gwella pethau, ac rwy'n gefnogol iawn i'w argymhellion.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to speak on behalf of the Government—  
Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth—Mark  
Drakeford.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:32 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. A gaf i ddechrau, yn ôl yr arfer, drwy ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ei waith craffu ar ôl deddfu o ran y Mesur iechyd meddwl? Mae'n wych cael cyfle arall i drafod materion yn ymwneud ag iechyd meddwl ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol, gan adeiladu ar y ddadl am iechyd meddwl ddydd Mercher diwethaf. Mae'r adroddiad yn arbennig o ddefnyddiol gan ei fod yn ategu'r adolygiad ehangach sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac a oedd yn rhan o broses o weithredu'r Mesur o'r dechrau.

Thank you, Presiding Officer, and may I start, as I usually do, by thanking the Health and Social Care Committee for its post-legislative scrutiny work on the mental health Measure. It is excellent to have another opportunity to discuss issues related to mental health on the floor of the National Assembly, building on the mental health debate held last Wednesday. The report is particularly useful as it actually echoes the wider inquiry currently being conducted that was part of the process of implementing the Measure from the very outset.

Fel y bydd nifer ohonoch yn cofio, roedd y Mesur ei hun yn fenter drawsbleidiol gref i wella gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae Aelodau'n cael eu hannog felly i ddarllen casgliadau Cadeirydd y pwyllgor, sydd i'w gweld yn rhagair yr adroddiad, sy'n dweud, fel yr oedd David Rees wedi ei ddweud yn barod:

As many of you will recall, the Measure itself was a cross party initiative to improve primary and secondary care. Members will be encouraged, therefore, to read the conclusions of the Chair of the committee, which are to be seen in the foreword of the report, which states, as David Rees has already said, that:

'Mewn nifer o ffyrdd, mae'r Mesur yn enghraifft o arfer da.'

Ond, fel unrhyw achos o graffu adeiladol, daw meysydd i'r amlwg fel y soniwyd yn y ddatl heddiw, lle gallwn wella a datblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni, ac, yn yr ysbryd hwnnw yn union, y mae adolygiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r Mesur wedi cael ei gynnal. Dyma ddarn cynhwysfawr o waith, sy'n cynnwys dadansoddi data, profiadau defnyddwyr, grwpiau gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid, ac ymchwil annibynnol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn digwydd ers 2013 a bydd y casgliadau yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Llywydd, recommendation 6 of the report asks Ministers to report on the work of the reviewing task and finish groups. That will be done as part of a totality of the review work, taking into account all the evidence that will be available later this year. Within that work, I recognise and share the committee's emphasis on the quality of care and treatment plans and the provision of training and information in relation to advocacy. These go to the very heart of the founding intentions of the Measure, and, as such, I have agreed to reconvene the review task and finish groups, specifically to consider recommendations 3 and 5, and to advise me accordingly, and I will make sure that the points that Darren Millar has made this afternoon, especially issues of quality in advocacy provision, are specifically drawn to the attention of those reconvened groups.

Now, even when we have new services of the required quality in place, the committee remind us, in recommendations 4 and 8, that the success of the Measure rests on providing clear and accessible information to service users about the new possibilities available to them. I entirely agree with these recommendations, and they are fully in line with the feedback that the Measure has received from service users. Any policy initiative is only as good as the information and communication that accompanies it. If users and providers aren't fully familiar with their rights, and the new service requirements, then these rights will not be fully effective, nor will the service have their intended impact.

We know that there is more to be done. Darren referred to that very important right that patients in Wales now have to re-refer themselves for secondary care services. Hundreds of people have exercised that right in the first year of the Measure, but I've no doubt that there is more that needs to be done to make certain that everybody is aware of the right they now have.

Some recommendations in the report relate to matters outside the legal framework provided by the Measure, but they are nevertheless central to the provision of mental health services. Recommendation 7 deals with the way that consultation is approached, and I was heartened to read, in the foreword, that many people praised the consultative approach taken by the Welsh Government, both in developing the Measure, and in the ongoing work of its implementation.

'In many ways the Measure provides an example of good practice'.

But, as with any constructive scrutiny, areas emerge, as has already been mentioned, where we can improve on what is already being delivered, and, in exactly that spirit, the Welsh Government's own review of the Measure has already been undertaken. This is a comprehensive piece of work, involving data analysis, the experiences of service users, stakeholder task and finish groups, and independent research. This work has been ongoing since 2013 and its conclusions will be published later this year.

Lywydd, mae argymhelliaid 6 yr adroddiad yn gofyn i Weinidogion adrodd ar waith y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n adolygu. Caiff hynny ei wneud yn rhan o'r gwaith adolygu yn ei gyfanrwydd, gan ystyried yr holl dystiolaeth a fydd ar gael yn ddiweddarach eleni. Yn y gwaith hwnnw, rwy'n cydnabod ac yn rhannu pwyslais y pwyllgor ar ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth a darparu hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas ag eiriolaeth. Mae'r rhain yn mynd i galon bwriadau gwreiddiol y Mesur, ac fel y cyfryw, rwyf wedi cytuno i ailgynnull y grwpiau gorchwyl a gorffen adolygu, yn benodol i ystyried argymhellion 3 a 5, ac i roi cyngor i mi yn unol â hynny, a byddaf yn gwneud yn siŵr fod y pwyntiau a wnaeth Darren Millar y prynhawn yma, yn enwedig materion yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth eiriolaeth, yn cael eu dwyn i sylw penodol y grwpiau hynny a ailgynnullwyd.

Nawr, hyd yn oed pan fydd gennym wasanaethau newydd o'r ansawdd gofynnol ar waith, mae'r pwyllgor yn ein hatgoffa, yn argymhellion 4 ac 8, fod llwyddiant y Mesur yn dibynnu ar ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau am y posibiladau newydd sydd ar gael iddynt. Cytunaf yn llwyr â'r argymhellion hyn, ac maent yn cyd-fynd â'r adborth a gafodd y Mesur ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Nid yw unrhyw fenter polisi ond cystal â'r wybodaeth a'r cyfathrebiadau a ddaw gyda hi. Os nad yw defnyddwyr a darparwyr yn gwbl gyfarwydd â'u hawliau, a gofynion newydd y gwasanaethau, yna ni fydd yr hawliau hyn yn gwbl effeithiol, ac ni fydd y gwasanaeth yn cael yr effaith arfaethedig.

Gwyddom fod rhagor i'w wneud. Cyfeiriodd Darren at yr hawl bwysig iawn sydd gan gleifion yng Nghymru bellach i ailgyfeirio eu hunain at wasanaethau gofal eilaidd. Mae cannoedd o bobl wedi arfer yr hawl honno yn ystod blwyddyn gyntaf y Mesur, ond nid oes gennyf amheuaeth fod angen gwneud mwy i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hawl sydd ganddynt bellach.

Mae rhai argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud â materion y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan y Mesur, serch hynny maent yn ganolog i'r modd y darperir gwasanaethau iechyd meddwl. Mae argymhelliaid 7 yn ymdrin â'r ffordd y cyflawnir yr ymgynghoriad a cheffais fy nghalonogi i ddarllen yn y rhagair fod nifer o bobl wedi canmol dull Llywodraeth Cymru o ymgynghori ar ddatblygiad y Mesur ac ar y gwaith parhaus o'i weithredu.

Recommendation 1 draws attention to the 2014 £650,000 of new investment in psychological therapies, and points to the need to evaluate effectiveness. We have already asked health boards to report progress flowing from this funding during this month. And, in order to embed talking therapies in the longer term, we have commissioned a national action plan, which I hope to receive and consider next month, and will report to Assembly Members further thereafter.

Recommendation 9 refers to the child and adolescent mental health service improvement work. I was pleased formally to launch this at a very well-attended conference here in Cardiff last week, and very grateful to those Assembly Members who showed their commitment to that improvement work by being present at the conference. Undoubtedly, there are lessons to be learned from the process through which this Measure was put in place, and the way in which CAMHS services were incorporated into it, and it is excellent that the committee has taken the opportunity to reflect, and not just on the Measure itself, but to help us to learn from the process of scrutiny, and to make sure that we do it in the best possible way. The work of improving the CAMH service will continue during the rest of this year.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:39.*

## **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

I am struck by what Peter Black said about the importance of primary care in this regard, and the importance of making sure that primary care services are as well-prepared as they can be for dealing with young people in conditions of difficulty and distress. We know from research going back many, many years, that primary care clinicians are, in general, not always at their most comfortable in dealing with adolescents and young people, even for physical health needs, and it's quite likely that that anxiety is exaggerated further when dealing with young people with mental health needs.

I'm pleased to report that 30% of practices in Wales have already taken up specialist training available to them in the mental health field, designed by GPs themselves and delivered to the whole practice team, and 95% of all the practices that have now gone through that training have put specific mental health service plans in place at the practice level.

Dirprwy Lywydd dros dro, that leaves me with only recommendations 2 and 10, which deal with data collection and the need to undertake a cost-benefit analysis of the Measure. I accept the general thrust of these recommendations, but we do need to ensure that data collection is proportionate and, in particular, that the committee's intentions are met in a way that is consistent with the substantial work that is already going on to assess the impact of the Measure. In doing it in that way, we will make sure that we both provide more services and that we do so in a way that has a maximum impact.

Mae argymhelliad 1 yn tynnu sylw at y buddsoddiad newydd o £650,000 yn 2014 mewn therapiau seicolegol, ac mae'n nodi'r angen i werthuso effeithiolrwydd. Rydym eisoes wedi gofyn i fyrddau iechyd adrodd ar y cynnydd sy'n deillio o'r cyllid yn ystod y mis hwn. Ac er mwyn ymgorffori therapiau siarad yn y tymor hwy, rydym wedi comisiynu cynllun gweithredu cenedlaethol, y gobeithiaf ei gael a'i ystyried y mis nesaf, a byddaf yn cyflwyno adroddiad pellach i Aelodau'r Cynulliad ar ôl hynny.

Mae argymhelliad 9 yn cyfeirio at waith gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Roeddwn yn falch o lansio hyn yn ffurfiol mewn cynhadledd a gynhaliwyd yma yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf gyda llawer iawn o bobl yn bresennol. Rwy'n ddiolchgar iawn i Aelodau'r Cynulliad a ddangosodd eu hymrwymiad i'r gwaith gwella drwy fynychu'r gynhadledd. Yn ddi-os, mae gwersi i'w dysgu o'r broses ar gyfer rhoi'r Mesur ar waith a'r ffordd y cafodd gwasanaethau CAMHS eu hymgorffori ynddo, ac mae'n wych bod y pwyllgor wedi manteisio ar y cyfle i fyfyrrio, nid yn unig ar y Mesur ei hun, ond er mwyn ein helpu i ddysgu o'r broses graffu, ac i wneud yn siŵr ein bod yn ei wneud yn y ffordd orau bosibl. Bydd y gwaith o wella gwasanaethau CAMHS yn parhau dros weddill y flwyddyn hon.

*Sandy Mewies took the Chair at 15:39.*

Cefais fy nharo gan yr hyn a ddywedodd Peter Black am bwysigrwydd gofal sylfaenol yn y cyswllt hwn, a phwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu paratoi gystal ag y gellir er mwyn delio â phobl ifanc sy'n wynebu amgylchiadau anodd a gofid. Gwyddom o ymchwil sy'n mynd yn ôl flynyddoedd lawer nad yw clinigwyr gofal sylfaenol, yn gyffredinol, bob amser ar eu mwyafrif cyfforddus yn delio â phobl ifanc a'r glasoed, hyd yn oed mewn perthynas ag anghenion iechyd corfforol, ac mae'n eithaf tebygol fod pryder o'r fath yn chwyddo ymhellach wrth ddelio â phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl.

Rwy'n falch o adrodd bod 30% o bractisau Cymru eisoes wedi manteisio ar yr hyfforddiant arbenigol sydd ar gael iddynt ym maes iechyd meddwl, wedi'i gynllunio gan feddygon teulu eu hunain a'i gyflwyno i dîm cyfan y practis. Mae 95% o'r holl bractisau sydd bellach wedi cael yr hyfforddiant wedi rhoi cynlluniau gwasanaeth iechyd meddwl penodol ar waith ar lefel y practis.

Dirprwy Lywydd dros dro, mae hynny'n gadael argymhellion 2 a 10 yn unig, sy'n ymdrin â chasglu data a'r angen i gynnal dadansoddiad cost a budd o'r Mesur. Rwy'n derbyn byrdwn cyffredinol yr argymhellion hyn, ond mae angen i ni sicrhau bod y broses o gasglu data yn gymesur ac yn benodol, fod bwriadau'r pwyllgor yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n gyson â'r gwaith sylweddol sydd eisoes yn mynd rhagddo ar asenu effaith y Mesur. Wrth ei wneud yn y ffordd hon, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu mwy o wasanaethau a'n bod yn gwneud hynny mewn modd sy'n cael yr effaith fwyaf bosibl.

To conclude, Dirprwy Lywydd, I believe that the evidence is already clear—enough to conclude that anyone who had a hand in the creation of the mental health Measure can be proud of what it has already achieved. It has made a genuine and positive difference to many people's lives here in Wales.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu bod y dystiolaeth eisoes yn glir—yn ddigon i ddod i'r casgliad y gall unrhyw un a oedd yn rhan o'r broses o greu'r Mesur iechyd meddwl fod yn falch o'r hyn y mae eisoes wedi'i gyflawni. Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i fywydau llawer o bobl yma yng Nghymru.

15:41 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on the Chair of the Health and Social Care Committee to reply to the debate.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:41 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Can I thank all Members for their contributions this afternoon? I think what's been highlighted is a very common theme, in one sense. We've talked about the issue of the training of staff, particularly in primary care, as critical. I think it's not just the training of staff as to the issues around mental health and the advocacy and the information, but also looking at identifying—that they know the pathways that they can refer people to. Because sometimes that is the thing that is missing: very often, the pathways are unclear through some of the primary care sectors and they need to understand, so that, if there is a person presented to them and they understand the issues, they know where to send that person and where to direct that person, and that isn't always the case. So, training and awareness and also understanding of pathways are part of that process, I hope.

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. A gaf fi ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma? Rwy'n credu bod yr hyn a amlygwyd yn thema gyffredin iawn ar un ystyr. Rydym wedi siarad am hyfforddi staff, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol, fel mater hanfodol. Rwy'n credu nad yw'n fater sy'n ymwneud yn unig â hyfforddi staff ynghylch problemau sy'n codi o iechyd meddwl a'r eiriolaeth a'r wybodaeth, ond hefyd o geisio nodi—eu bod yn gyfarwydd â'r llwybrau y gallant gyfeirio pobl atynt. Oherwydd weithiau dyna'r hyn sydd ar goll: yn aml iawn, mae'r llwybrau yn aneglur drwy rai o'r sectorau gofal sylfaenol ac mae angen iddynt ddeall, os caiff rhywun ei gyfeirio atynt a'u bod yn deall y problemau, eu bod yn gwybod lle i'w gyfeirio, ac nid yw hynny'n wir bob amser. Felly, mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, yn ogystal â dealltwriaeth o lwybrau, yn rhan o'r broses honno, rwy'n gobeithio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar highlighted the concept of ring-fenced funding and we did discuss this a little bit. We felt that it was perhaps beyond the Measure, in one sense, but it was highlighted, and, Minister, you answered some questions on that when it came to us. So, I'm sure that you understand the issues there.

Amlygodd Darren Millar y cysyniad o gyllid wedi'i neilltuo ac fe drafodwyd hyn gennym i raddau. Teimlem ei fod y tu hwnt i'r Mesur ar un ystyr, o bosibl, ond tynnwyd sylw ato. Weinidog, fe ateboch chi gwestiynau ar hynny pan ddaeth y mater ger ein bron. Felly, rwy'n siŵr eich bod yn deall y problemau yn hynny o beth.

It is important, I think, to highlight the concept of psychological therapies. We very much appreciate the investment that you've put into psychological therapies, because it is recognised that talking therapies are one of the better ways of actually dealing with many issues and preventing issues from building to the point where they create bigger and more difficult problems. We've got to ensure that people don't have to wait too long for access to that. So, the investment is welcome and I look forward to your evaluation of the effectiveness of the new funding and to your statement, when you make it, on the national action plan on talking therapies.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig tynnu sylw at y cysyniad o therapiau seicolegol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y buddsoddiad a wnaethoch mewn therapiau seicolegol gan y cydnabyddir mai therapiau siarad yw un o'r ffyrdd gwell o fynd i'r afael â nifer o broblemau mewn gwirionedd ac atal problemau rhag datblygu i'r pwynt lle y maent yn creu problemau mwy o faint ac anos eu datrys. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad oes yn rhaid i bobl aros yn rhy hir i gael therapï o'r fath. Felly, mae'r buddsoddiad i'w groesawu ac rwy'n edrych ymlaen at eich gwerthusiad o effeithiolrwydd y cyllid newydd ac at eich datganiad, pan fyddwch yn ei wneud, ar y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer therapiau siarad.

Peter, could I perhaps thank you for getting the part to Stage 1? But I can also perhaps blame you in the sense of making sure that children came into it, because that is one of the issues that we identified. It was critical to get it in, you're quite right, but what was identified to us is that we need to ensure in the future—learn from it—that we get in as much as possible. So, instead of adding bits and pieces on, we make sure that it's a collective thing. That's what we need to learn from it. It was the right thing, but, as a Government, the Government needs to learn that, as it takes legislation forward, it needs to encompass as much as possible and build it in, and not build it on, to the legislation. I think that's the issue.

Peter, tybed a gaf fi ddiolch i chi am gael y rhan i Gam 1? Ond a gaf fi hefyd eich beio efallai yn yr ystyr o sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys ynddo, gan mai dyna un o'r problemau a nodwyd gennym. Roedd yn hanfodol eu cynnwys, rydych yn hollol iawn, ond yr hyn a nodwyd yw bod angen i ni sicrhau yn y dyfodol—dysgu ohono—ein bod yn cynnwys cymaint ag y bo modd. Felly, yn hytrach nag ychwanegu darnau, rydym yn gwneud yn siŵr ei fod yn rhywbeth cyfunol. Dyna beth sydd angen i ni ei ddysgu ohono. Dyna oedd y peth iawn i'w wneud, ond mae angen i'r Llywodraeth ddysgu wrth iddi fwrw rhagddi ar y ddeddfwriaeth fod angen cwmpasu cymaint â phosibl a'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth yn hytrach na'i ychwanegu ati. Rwy'n credu mai dyna sydd dan sylw.



15:43

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I just want to point out that I don't think they actually added it on. There was a complete rewrite at Stage 2, which encompasses adults and children. So, it wasn't an add-on at all.

Hoffwn nodi nad wyf yn credu eu bod wedi ei ychwanegu mewn gwirionedd. Cafwyd ailwampio llwyr ar Gam 2, sy'n cwmpasu oedolion a phlant. Felly, nid rhywbeth ychwanegol oedd hynny o gwbl.

15:43

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I stand corrected, because I wasn't here at that point in time. Lindsay and others have talked about CAMHS. I'm a member of the Children, Young People and Education Committee, so perhaps I have an advantage in also being part of the inquiry into that and seeing some of the issues. It is a critical area that we need to address and I think the Measure has started work towards some of the issues in that. But CAMHS is something that needs clear focus upon it. Our young people, I think as Lindsay highlighted, need care programmes and they also need our support. We must ensure that we do our best for those young people.

Rwy'n derbyn y cywiriad, gan nad oeddwn yma ar y pryd. Siaradodd Lindsay ac eraill am CAMHS. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, felly efallai fod gennyf fantais o fod yn rhan o'r ymchwiliad i hynny hefyd ac o fod wedi gweld rhai o'r problemau. Mae'n faes hollbwysig ac mae angen inni fynd i'r afael ag ef. Rwy'n credu bod y Mesur wedi dechrau gweithio tuag at rai o'r materion sy'n codi o hynny. Ond mae CAMHS yn galw am ffocws clir. Fel yr amlygodd Lindsay rwy'n meddwl, rwy'n credu bod ein pobl ifanc angen rhaglenni gofal ac maent hefyd angen ein cefnogaeth. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau dros y bobl ifanc hynny.

Peter, you're quite right on one other thing: Measures like this take time to embed and to actually become active. We must always remember that we cannot always transform services overnight—that is something that we might aspire to, but we really need to understand that they take time to be effective in delivering the services that we want and that is something that perhaps many of us in this Chamber sometimes forget, because we sometimes want things to happen instantly.

Peter, rydych yn hollol iawn ynglŷn ag un peth arall: mae Mesurau fel hyn yn cymryd amser i ymsefydlu ac i ddod yn weithredol mewn gwirionedd. Rhaid i ni gofio bob amser na allwn drawsnewid gwasanaethau dros nos—mae hynny'n rhywbeth y gallem anelu ato, ond mae gwir angen i ni ddeall eu bod yn cymryd amser i ddarparu'r gwasanaethau rydym eu heisiau yn effeithiol ac mae hynny'n rhywbeth y mae llawer ohonom yn y Siambr hon yn ei anghofio weithiau o bosibl, am ein bod ambell waith eisiau i bethau ddigwydd yn syth.

Minister, I'm also very pleased to hear that you're reconvening your task and finish groups on advocacy and equality. I think that's important because that is an area that needs to be addressed.

Weinidog, rwy'n falch iawn hefyd o glywed eich bod yn ailgynnull eich grwpiau gorchwyl a gorffen ar eirolaeth a chydaddoldeb. Credaf fod hyn yn bwysig am ei fod yn faes sy'n galw am sylw.

Finally, I'd like to thank everybody for taking part in this debate. Darren mentioned Hafal, Gofal and Mind. Can I also mention—there are so many of them—but all the organisations that provide services for our citizens in relation to addressing and supporting them with mental health issues? We appreciate the effort they're making. Without their support, sometimes, many people would have very different lives. Thank you.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb am gymryd rhan yn y ddatl. Soniodd Darren am Hafal, Gofal a Mind. A gaf fi hefyd sôn—mae cynifer ohonynt—am yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion o ran mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a'u cynorthwyo gyda'r problemau hynny? Rydym yn gwerthfawrogi eu hymdrechion. Heb eu cefnogaeth, byddai bywydau llawer o bobl yn wahanol iawn. Diolch yn fawr.

15:45

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to note the Health and Social Care Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi**

*Dehtholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, gwelliannau 3 a 6 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Aled Roberts. Os derbynir gwelliant 5, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol.*

**7. Welsh Conservatives Debate: The Economy**

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, amendments 3 and 6 in the name of Jane Hutt, and amendments 4 and 5 in the name of Aled Roberts. If amendment 5 is agreed, amendment 6 will be deselected.*

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is the Welsh Conservatives' debate. I call on Nick Ramsay to move the motion.

Cynnig NDM5711 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi haneru'r diffyg ariannol fel cyfran o gynnyrch domestig gros;
2. Yn cydnabod bod 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru o'i gymharu â 2010 ac mai'r DU oedd y wlad a oedd yn tyfu'n gyflymaf yn y G7 yn 2014; a
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfrannu at gynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer twf yn y sector preifat i greu swyddi a ffyniant.

*Cynigiwyd y cynnig.*

Eitem 7 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig y cynnig.

Motion NDM5711 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes that the UK Government has halved the deficit as a share of GDP;
2. Recognises that there are an extra 41,000 people in work in Wales compared with 2010 and the UK was the fastest growing country in the G7 in 2014; and
3. Calls on the Welsh Government to contribute to the UK Government's long-term economic plan to invest in infrastructure and create the conditions for private sector growth to create jobs and prosperity.

*Motion moved.*

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. The UK's economic recovery is on the up. Welsh businesses are finally breathing a sigh of relief as the economy improves. The UK coalition Government has seen the merit of supporting growth through deregulation, cutting taxation and investing in the infrastructure this country needs to compete and grow and to take its place in the global race.

At this point, can I say we will be supporting the Lib Dem amendment 4, which welcomes the positive effect of the UK Government's decision to raise the income tax threshold to £10,500? It's a very important change that has made a very real and lasting difference to thousands of families across the country and an example of the way that this UK Government is helping make people's lives a little bit easier.

Under the last UK Labour Government, the country was borrowing nearly £160 billion a year in deficit. Will anybody ever forget Liam Byrne's little note to his successor: 'there is no money'? The previous UK Government had well and truly maxed out the national credit card. Unemployment increased by nearly 0.5 million under that Government—an increase of 20%—and we were, of course, in the deepest recession and the worst financial crisis since the Great Depression of the 1930s.

Diolch, Gadeirydd. Mae adferiad economaidd y DU ar gynydd. Mae busnesau Cymru o'r diwedd yn anadlu ochenaid o ryddhad wrth i'r economi wella. Mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi gweld gwerth cefnogi twf drwy ddadreoleiddio, gan dorri trethi a buddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar y wlad hon i gystadlu a thyfu a chymryd ei lle yn y ras fyd-eang.

Ar y pwynt hwn, a gaf fi ddweud y byddwn yn cefnogi gwelliant 4 y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n croesawu effaith gadarnhaol penderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r trothwy treth incwm i £10,500? Mae'n newid pwysig iawn sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol iawn i filoedd o deuluoedd ar draws y wlad ac sy'n enghraifft o'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn helpu i wneud bywydau pobl ychydig yn haws.

O dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU, roedd y wlad yn benthyca bron i £160 biliwn y flwyddyn mewn diffyg. Sut y gall unrhyw un anghofio nodyn bach Liam Byrne i'w olynydd: 'nid oes unrhyw arian'? Roedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi benthyg i'r eithaf ar y cerdyn credyd cenedlaethol. Cynyddodd diweithdra bron i 0.5 miliwn o dan y Llywodraeth honno—cynnydd o 20%—ac wrth gwrs, roeddem yn y dirwasgiad dyfnaf a'r argyfwng ariannol gwaethaf ers Dirwasgiad Mawr y 1930au.

But enough of the bad times. There is good news. You wouldn't get that impression, sometimes, listening to some of the other parties in here, because maybe it's not a message they want to be giving, but there is good news. The stewardship of the UK economy has been described by leading international think tank, the Organisation for Economic Co-operation and Development, as 'remarkable'—not a description you hear Ed Miliband using, but then it's not a message he probably wants to hear. Angel Gurría, head of the OECD, stated that George Osborne deserved a 'pat on the back' and hailed the Government's long-term economic plan. I suppose it would be a hope too far to think that members of the Government here would wish him a pat on the back, but, nonetheless, that is what international organisations have been saying. He goes on:

'Even as unemployment has fallen, inflationary pressures have vanished...real wages are on the rise'.

We see the effects of these policies in the UK, with a historically low rate of inflation—the lowest since the war, which shows that the economy is on a solid footing. Now, key to this recovery—

15:48 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

15:48 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly. I give way.

15:48 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I recognise that the inflation is at a record low, but are you worried about deflation and the impact that might have on the economy?

15:48 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deflation certainly has undesirable consequences over the longer term, but, of course, inflation has traditionally been the problem of the UK economy, and had that taken off over the last few years, then I think we would all have been expressing concern about that. So, I think the current 0.5% rate of inflation is where it needs to be at this moment.

The UK Government's long-term economic plan is building a stronger, healthier economy and securing a better future for Britain. Key to this recovery has been dealing with the debt and getting the deficit down. Now, the deficit deniers may not have wanted to deal with the deficit, because they might've considered it was too difficult or too unpalatable, but somebody had to deal with it and the UK coalition, the Conservative and Liberal Democrat coalition, has been willing to take that challenge head on and to get the deficit down.

Ond digon am yr adegau drwg. Mae yna newyddion da. Ni fydddech yn cael yr argraff honno, weithiau, o wrando ar rai o'r pleidiau eraill yma, oherwydd efallai nad yw'n neges y maent yn dymuno ei chyfleu, ond mae yna newyddion da. Cafodd stiwardiaeth o economi'r DU ei disgrifio gan y felin drafod ryngwladol flaengar, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, fel 'trawiadol'—nid disgrifiad y clywch Ed Miliband yn ei ddefnyddio, ond wedyn, nid yw'n neges y mae am ei chlywed yn ôl pob tebyg. Dywedodd Angel Gurría, pennaeth y Sefydliad, fod George Osborne yn haeddu clod a chanmolodd gynllun economaidd hirdymor y Llywodraeth. Mae'n debyg y byddai'n rhy obeithiol meddwl y byddai aelodau o'r Llywodraeth yma yn dymuno rhoi clod iddo ond dyna beth y mae sefydliadau rhyngwladol wedi bod yn ei ddweud. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'Hyd yn oed wrth i lefelau diweithdra ostwng, ac wrth i bwysau chwyddiant ddiflannu... mae cyflogau go iawn yn codi'.

Rydym yn gweld effeithiau'r polisiau hyn yn y DU, gyda chyfradd chwyddiant hanesyddol o isel—yr isaf ers y rhyfel, sy'n dangos bod yr economi ar sylfaen gadarn. Yn awr, yn allweddol i'r adferiad hwn—

A wnewch chi ildio?

Yn bendant. Rwy'n ildio.

Rwy'n cydnabod bod chwyddiant ar lefel is nag erioed, ond a ydych yn poeni am ddatchwyddiant a'r effaith y gallai hynny ei chael ar yr economi?

Yn sicr mae canlyniadau annymunol i ddatchwyddiant yn y tymor hwy, ond wrth gwrs, yn draddodiadol problem economi'r DU yw chwyddiant wedi bod, a phe bai honno wedi ffynnu dros y blynyddoedd diwethaf, yna rwy'n meddwl y byddem i gyd wedi bod yn mynegi pryder ynglŷn â hynny. Felly, rwy'n meddwl bod y gyfradd chwyddiant gyfredol, ar 0.5%, lle y mae angen iddi fod ar hyn o bryd.

Cynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU yw adeiladu economi gryfach ac iachach, a sicrhau dyfodol gwell ar gyfer Prydain. Roedd ymdrin â'r ddyled a chael y diffyg i lawr yn allweddol i'r adferiad hwn. Nawr, efallai nad yw'r rhai sy'n gwadu'r diffyg wedi bod yn awyddus i ymdrin â'r diffyg, am eu bod yn ystyried hynny'n rhy anodd, efallai, neu'n rhy annymunol, ond roedd yn rhaid i rywun ymdrin â'r mater, ac mae clymblaid y DU, clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi bod yn barod i fynd benben â'r her a chael y diffyg i lawr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I've mentioned the Lib Dem amendment. I must say I was amused by Plaid Cymru's rather mischievous amendment 1. I have to say I think it is a bit rich of some parties to go on about the politics of austerity and then to table an amendment criticising the UK Government for not eliminating the deficit by 2015. I don't quite know how you work that one out. Clearing the deficit by 2015 was always going to be an ambitious target, and I think that it was right that the UK Government balanced deficit reduction with maintaining an appropriate level of spending in key areas. [Interruption.] Did you want to intervene, Alun Ffred?

Rwyf wedi crybwyll gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Rhaid i mi ddweud fy mod yn gweld gwelliant 1 direidus braidd Plaid Cymru yn ddoniol. Rhaid i mi ddweud ei bod braidd yn haerllug, yn fy marn i, i weld rhai pleidiau'n rhygnu ymlaen am wleidyddiaeth caledi ac yna'n cyflwyno gwelliant yn beirniadu Llywodraeth y DU am beidio â dileu'r diffyg erbyn 2015. Nid wyf yn gwybod yn iawn sut rydych yn llwyddo i wneud hynny. Roedd clirio'r diffyg erbyn 2015 bob amser yn mynd i fod yn darged uchelgeisiol, ac yn fy marn i, roedd hi'n iawn i Lywodraeth y DU gydbwysu lleihau'r diffyg â chynnal lefel briodol o wariant mewn meysydd allweddol. [Torri ar draws.] A oeddech chi eisiau ymyrryd, Alun Ffred?

15:50 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Whose target was it? Who set that target of 2015?

Targed pwy ydoedd? Pwy osododd y targed ar gyfer 2015?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:50 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
That was a target set in 2010 by the UK coalition Government. But if you are saying that you wanted the UK Government to actually cut more, and cut more radically, over the last few years, that's completely against your normally proclaimed politics on austerity. I also think, as we're on the subject of the Plaid Cymru amendment, that the second part is also quite amusing, where you talk about the loss of the UK's AAA credit rating. To put that into context, many countries across the world have been downgraded in terms of their AAA credit rating because of their having to get their debts down. Leaving that aside, I do sometimes wonder what credit rating an independent Wales would have. Would it be looking at a AAA credit rating or a higher credit rating than the rest of the UK? I really don't think so, Alun Ffred.

Targed a osododd Llywodraeth glymblaid y DU yn 2010 ydoedd. Ond os ydych yn dweud eich bod wedi bod yn awyddus i Lywodraeth y DU wneud rhagor o doriadau mewn gwirionedd, a thorri'n fwy radical dros y blynyddoedd diwethaf, mae hynny'n hollol yn erbyn eich gwleidyddiaeth honedig arferol ar galedi. Rwyf hefyd yn meddwl, gan ein bod yn trafod gwelliant Plaid Cymru, fod yr ail ran hefyd yn eithaf doniol, lle rydych yn siarad am golli statws credyd AAA y DU. I roi hynny mewn cyd-destun, mae nifer o wledydd ledled y byd wedi cael eu hisraddio o ran eu statws credyd AAA am eu bod yn gorfod lleihau eu dyledion. Gan roi hynny o'r neilltu, rwy'n meddwl weithiau tybed pa statws credyd a fyddai gan Gymru annibynnol. A fyddai ganddi statws credyd AAA neu statws credyd uwch na gweddill y DU? Nid wyf yn credu hynny, Alun Ffred.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In backing small business and enterprise—. Plaid Cymru in general, I should have said; I didn't mean to single out Alun Ffred there. In backing small business and enterprise with better infrastructure and lower jobs taxes, we've created jobs: 3 million jobs in five years. That's pretty good going for the coalition Government. Now, of course, Wales has received two rounds of European funding, plus significant investment from the UK Government over the last decade or so, and since the creation of the Assembly. And you have to say, when you look back at Rhodri Morgan's comments as First Minister—that Wales would only ever need to have one round of European funding because the money would be so well invested in capital projects, and would be so well invested in economically sustainable schemes, that we would not need to go to Brussels again, needing more money—that, of course, that has failed time and time again. In endless debates here, we listen to the Government saying that they are doing what they can to get the economy of the Valleys and the west of Wales out of the doldrums. Fine words, but unfortunately, we don't see it happening on the ground. In fact, the economies of west Wales and the Valleys are the poorest in the UK, with GDP as a percentage of the EU average at 64% in 2011.

Wrth gefnogi busnesau bach a menter—. Plaid Cymru yn gyffredinol, dylwn fod wedi dweud; nid oeddwn am gyfeirio'n benodol at Alun Ffred. Wrth gefnogi busnesau bach a menter gyda seilwaith gwella a threthi swyddi is, rydym wedi creu swyddi: 3 miliwn o swyddi mewn pum mlynedd. Mae hynny'n eithaf da gan y Llywodraeth glymblaid. Nawr, wrth gwrs, mae Cymru wedi cael dau gyllid Ewropeaidd, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y DU dros y degawd diwethaf, ac ers creu'r Cynulliad. Ac mae'n rhaid i chi ddweud, pan edrychwch yn ôl ar sylwadau Rhodri Morgan fel Prif Weinidog—mai un rownd o arian Ewropeaidd y byddai angen i Gymru ei chael byth gan y byddai'r arian yn cael ei fuddsoddi mor dda mewn prosiectau cyfalaf, ac yn cael ei fuddsoddi mor dda mewn cynlluniau cynaliadwy yn economaidd, fel na fyddai angen i ni droi at Frwsel eto am ein bod angen mwy o arian—mae hynny, wrth gwrs, wedi methu dro ar ôl tro. Mewn dadleuon diddiwedd yma, rydym yn gwrandao ar y Llywodraeth yn dweud eu bod yn gwneud yr hyn a allant i gael economi'r Cymoedd a gorllewin Cymru allan o'r cyfnod anodd. Geiriau da, ond yn anffodus, nid ydym yn ei weld yn digwydd ar lawr gwlad. Yn wir, economïau gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw'r tlotaf yn y DU, gyda chynnyrch domestig gros fel canran o gyfartaledd yr UE yn 64% yn 2011.

In 2001, the Welsh Government stated that success would mean Welsh GDP per person would rise from 80% to 90% of the UK average over the next decade. Well, that target has been spectacularly missed. So, if parties in this Chamber want to talk about targets, then let's look at some of the Welsh Government targets that have been spectacularly missed, as I say. The Welsh Government pledged to prioritise jobs and the economy. Yet, according to the ONS, GVA per head in Wales is still the lowest among the devolved countries and regions, at 72.2% of the UK average. I know the Welsh Ministers don't like talking about GVA. That's understandable, given that the figures here have historically been so bad. Admittedly, there was an improvement in recent years, but it was an improvement from a very low base, and you would expect it to go in that direction. You really wouldn't want GVA to be declining further in Wales.

Former Secretary of State for Wales, David Jones, used to be fond of pointing out that Wales has two Governments, and things are better when they work together. I'm sure that the Minister would agree with that, too. That is why it is imperative that the Welsh Government plays its full part in the long-term economic plan, investing in infrastructure here in Wales and creating better conditions for growth and prosperity. The 2012 Welsh Government infrastructure investment plan was full of positive soundbites but unfortunately short on delivery.

We talk about Cardiff Airport here, and the purchase; one way or another, that airport has been purchased. It wouldn't have been the decision of the party on this side of the Chamber, but it has happened. What we need now, in terms of the airport, is a vision of what we want that airport to be, of how it fits in with the wider economic strategy, and of the types of travel that we want to encourage from that airport. Until we have that long-term vision, then we will not see the investment in that airport delivering the sort of dividends that we would want to see happening.

Now, Chair, is the time to look forward. There is good news. Workforce jobs in Wales grew by 2.9% between September 2013 and September 2014, and there are now near 1.5 million workplace jobs in Wales. This is undeniably encouraging growth. Nevertheless, we must still consider that the average jobs growth rate for the UK is 4.2%, so there really is a need for the Welsh Government to work with the UK Government and to try and get those statistics up in Wales.

In conclusion, Chair, the UK has come a long way over the last five years. A start has been made; admittedly, it is a start, and we are not out of the woods yet. But we are on course, and we are going in the right direction. The worst thing to do would be to go back to the policies that dropped the United Kingdom into the economic mess that the UK coalition Government found itself having to deal with. Yes, the deficit has been reducing more slowly than originally anticipated, but it is heading in the right direction, as is the UK economy.

Yn 2001, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai llwyddiant yn golygu y byddai cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru yn codi o 80% i 90% o gyfartaledd y DU dros y degawd nesaf. Wel, methwyd yn llwyr â chyrraedd y targed hwnnw. Felly, os yw pleidiau yn y Siambr hon am siarad am dargedau, yna gadewch i ni edrych ar rai o dargedau Llywodraeth Cymru y methwyd yn llwyr â'u cyrraedd, fel y dywedais. Addawodd Llywodraeth Cymru flaenoriaethu swyddi a'r economi. Eto i gyd, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae GYC y pen yng Nghymru yn dal i fod yn is nag unrhyw un o'r gwledydd a'r rhanbarthau datganoledig, ar 72.2% o gyfartaledd y DU. Rwy'n gwybod nad yw Gweinidogion Cymru yn hoffi siarad am y GYC. Mae hynny'n ddealladwy, o gofio bod y ffigurau yma yn waeth nag y buont erioed. Rhaid cyfaddef, gwelwyd gwelliant yn y blynyddoedd diwethaf, ond roedd yn welliant o sylfaen isel iawn, a byddech yn disgwyl iddo symud i'r cyfeiriad hwnnw. Ni fyddech yn dymuno gweld y GYC yn dirywio ymhellach yng Nghymru.

Roedd cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones, yn arfer bod yn hoff o nodi bod gan Gymru ddwy Lywodraeth, a bod pethau'n well pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno â hynny, hefyd. Dyna pam y mae'n hollbwysig i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan lawn yn y cynllun economaidd hirdymor, gan fuddsoddi yn y seilwaith yma yng Nghymru a chreu gwell amodau ar gyfer twf a ffyniant. Roedd cynllun buddsoddi Llywodraeth Cymru yn y seilwaith ar gyfer 2012 yn llawn o sylwadau cadarnhaol ond yn cyflawni ychydig iawn, yn anffodus.

Rydym yn siarad am Faes Awyr Caerdydd fan hyn, a'r pryniant; un ffordd neu'r llall, mae'r maes awyr wedi cael ei brynu. Nid dyna fyddai penderfyniad y blaid ar yr ochr hon i'r Siambr wedi bod, ond mae wedi digwydd. Yr hyn rydym ei angen yn awr, o ran y maes awyr, yw gweledigaeth o'r hyn rydym am i'r maes awyr fod, sut y mae'n rhan o strategaeth economaidd ehangach, a'r mathau o deithiau rydym am eu hannog o'r maes awyr. Nes i ni gael gweledigaeth hirdymor o'r fath, yna ni welwn y buddsoddiad yn y maes awyr yn cyflawni'r math o ddifidendau y byddem am eu gweld yn digwydd.

Gadeirydd, yn awr yw'r amser i edrych ymlaen. Mae yna newyddion da. Cafwyd cynnydd o 2.9% yn swyddi'r gweithlu yng Nghymru rhwng mis Medi 2013 a mis Medi 2014, ac erbyn hyn mae bron 1.5 miliwn o swyddi yng ngweithleoedd Cymru. Mae hyn yn ddi-os yn annog twf. Serch hynny, mae'n rhaid i ni ddal i ystyried bod gyfartaledd y gyfradd twf swyddi ar gyfer y DU yn 4.2%, felly mae gwir angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a cheisio codi'r ystadegau hynny yn uwch yng Nghymru.

I gloi, Gadeirydd, mae'r DU wedi dod yn bell dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym wedi dechrau ar y gwaith; dechrau'n unig ydyw, rhaid cyfaddef, ac nid ydym allan o berygl eto. Ond rydym ar y trywydd cywir, ac rydym yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Y peth gwaethaf i'w wneud fyddai mynd yn ôl at y polisïau a arweiniodd y Deyrnas Unedig i'r llanast economaidd y bu'n rhaid i Lywodraeth glymblaid y DU ymdopi ag ef. Ydy, mae'r diffyg wedi bod yn gostwng yn arafach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ond mae'n mynd i'r cyfeiriad cywir, fel y mae economi'r DU.

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the six amendments to the motion. If amendment 5 is agreed, amendment 6 will be deselected. I call on Alun Ffred Jones to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Os caiff gwelliant 5 ei dderbyn, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni ei hamcanion o ddileu'r diffyg yng nghyllideb y DU erbyn 2015 a chynnal ei statws credyd AAA;*

*Notes that the UK Government has failed to meet its objectives of eliminating the UK's budget deficit by 2015 and maintaining its AAA credit rating.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at y ffaith bod mesurau llymder Llywodraeth y DU wedi arwain at doriad 10% mewn termau real i gyllideb Cymru ers 2010; a'r effeithiau economaidd a chymdeithasol ar gymunedau a theuluoedd yng Nghymru sy'n deillio o hynny.*

*Regrets that the UK Government's austerity measures have led to a 10% real terms cut to the Welsh budget since 2010; and the resulting economic and social impacts on Welsh communities and families.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, ac rwy'n falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y ddadl yma. A gaf i symud y gwelliannau yma sydd wedi cael eu gosod yn enw Elin Jones?

Thank you very much, and I'm pleased to have the opportunity to take part in this debate. May I move the amendments that have been tabled in the name of Elin Jones?

A gaf i ddechrau efo pwynt cyntaf y cynnig yma yr ydym ni newydd glywed cyfeiriad ato fo, sef bod y diffyg wedi'i haneru fel canran o'r GDP? Mae hynny'n berffaith gywir. Ond wrth gwrs nod y Llywodraeth, ac addewid y Canghellor nôl yn 2010, oedd y byddai'r diffyg yn diflannu erbyn 2015. Dyna oedd ei gyfiawnhad o am yr honiad bod rhaid inni weithredu toriadau dwfn, poenus ac, yn fy marn i, gwbl anghyfrifol. Fe ddywedodd y Ceidwadwyr fod y toriadau hyn yn angenrheidiol er mwyn inni gadw ein gafael ar ein cyfradd credyd AAA, a'r wobwr fyddai cael gwared ar y diffyg cyllidol erbyn 2015. Dyna eiriau George Osborne. Wel, mae hi'n 2015, ac mae'r diffyg yn dal i fod yn £90 biliwn. Mae'r ddyled yn £1.5 triliwn, ac mae'n cyfradd credyd AAA ni wedi'i hisraddio. Felly, dyna'r cefndir i'r ddadl y prynhawn yma, a dyna sydd yn cael ei ddweud yn ein gwelliant cyntaf ni.

May I start with the first point of the motion that we have just heard reference to, which is that the deficit has been halved as a percentage of GDP? That is entirely correct. But of course the Government's aim, and the promise of the Chancellor in 2010, was that the deficit would disappear by 2015. That was his justification for the assertion that we would have to make deep, painful and, in my view, irresponsible cuts. The Conservatives said that these cuts were essential for us to keep our AAA credit rating, and that the prize would be to get rid of the fiscal deficit by 2015. Those were the words of George Osborne. Well, it is now 2015, and the deficit is still £90 billion. The debt is £1.5 trillion, and our AAA credit rating has been downgraded. So, that is the background to the debate this afternoon, and that is what is stated in our first amendment.

Felly, cawn ni symud ymlaen at ail bwyt y cynnig, ac rwyf innau hefyd yn croesawu'r ffaith bod yna 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith heddiw yng Nghymru nag oedd pan wnaeth Llafur adael Downing Street. Ond mae'n amlwg wrth inni ddadansoddi economi Cymru, a'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol, mai safon y swyddi ydy'r broblem, nid nifer y swyddi. Mae hi'n peri pryder bod 17,000 o'r 41,000 o'r swyddi ychwanegol yma yn swyddi rhan amser, ac mae lle i gredu, wrth gwrs, fod llawer iawn o'r swyddi hunangyflogedig yn swyddi hefyd ran amser—ac os ydych chi eisiau cael y ffigyrau, mae'r ddogfen yma a gyhoeddwyd gan y TUC, gan rai o academyddion mwyaf blaenllaw Cymru, a'r tu hwnt i Gymru hefyd, yn adrodd y stori yn gyflawn.

Mae'n rhaid inni greu swyddi o safon yng Nghymru, ac ym mhob rhan o Gymru, neu mi fydd y bwlch rhwng economi Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol byth yn cau. Pryderus hefyd ydy'r ffaith mai'r Deyrnas Gyfunol ydy'r unig wladwriaeth yn yr G7 i ddangos cynnydd mewn anghydraddoldeb cyfoeth rhwng 2000 a 2014. Nid ydy creu twf mewn un ddinas ac un rhan, sef de-ddwyrain Lloegr, ddim yn cyfateb i roi economi Cymru yn ôl ar y trywydd cywir. Felly, dyna y mae'r ail welliant yn cyfeirio ato fo, sef yr effaith y mae'r toriadau yma wedi ei chael, ac yn dal i'w chael, ar ein cymunedau ni ac ar deuluoedd ledled Cymru. Diolch i'r 10% o doriad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, mae'r Llywodraeth fan hyn wedi gorfod gwneud toriadau ei hunan, sydd yn ddiinstriol i'n cymunedau ni. Wrth i gyflogau yn Ninas Llundain chwyddo, mae dibyniaeth ar fanciau bwyd yng Nghymru wedi cynyddu 400% ers 2010.

Mae toriadau i lywodraeth leol wedi arwain at godiadau yn y dreth gyngor, a dinistrio gwasanaethau. Rydym ni wedi gweld y canlyniadau: cau llyfrgelloedd, cau canolfannau i'r henoed, a hyd yn oed orfodi plant ifanc i aros blwyddyn yn ychwanegol cyn gallu dechrau'r ysgol yn llawn amser. Dyna rai o'r canlyniadau, a hyn er mwyn gael gwared ar y diffyg erbyn 2015 a dal ein gafael ar y gyfradd credyd yr oeddwn i'n cyfeirio ati hi. Dau fwriad, dau darged, sydd wedi'u methu. Felly, yn ein barn ni, nid ydy llymder ddim wedi gweithio, neu, o leiaf, mae'r pris wedi bod yn rhy uchel.

Roedd Plaid Cymru yn dadlau hyn yn 2009, pan ddaru Alistair Darling a Gordon Brown syrthio am agenda'r Ceidwadwyr, ac rydym ni wedi bod yn dweud hynny yn gyson ers hynny. Mae'n drist iawn gweld y pleidiau yn San Steffan yn cytuno â phecyd o doriadau o £30 biliwn ychwanegol tra ydynt yn hapus i wario hyd at £100 biliwn ar arfau niwclear na allai neb byth eu defnyddio. Rydym ni'n credu bod rhaid inni fuddsoddi mewn gwirionedd mewn seilwaith trafnidiaeth a gwariant cyfalaf er mwyn inni sicrhau wedyn greu swyddi wrth i hynny ddigwydd, ac, a bod yn deg, mae'r Canghellor wedi gweld synnwyr hynny, ac mae o wedi dargyfeirio cryn dipyn yn fwy o arian ar gyfer cynlluniau seilwaith, ac mae hynny i'w ganmol ac i'w groesawu, gan fod hynny'n mynd i greu swyddi. Os ydy'r buddsoddiad hwnnw'n digwydd yng Nghymru, byddai hynny'n dod â budd uniongyrchol. Dyna'r math o feddwl a'r math o feddylfryd rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu a fyddai'n arwain at wella sefyllfa economaidd Cymru. Mae'r Ceidwadwyr yn hollol deg wrth nodi bod gwendid economaidd Cymru ar hyn o bryd yn fater o bryder mawr, ac mae gwendid y farchnad swyddi hyd yn oed yn fwy o bryder, wrth inni edrych ymlaen i gau'r bwlch rhwng perfformiad Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol. Diolch.

Therefore, let us move on to the second point of the motion, and I too welcome the fact that there are 41,000 extra people in work in Wales today than when Labour left Downing Street. But it is clear as we look at the Welsh economy, and the gap between Wales and the rest of the United Kingdom, that the quality of the jobs is the problem, not the number of jobs. It's a cause of great concern that 17,000 of these 41,000 additional jobs are part-time jobs, and there is reason to believe, of course, that a lot of the self-employed jobs are also part-time jobs—and if you want the figures, this document here has been published by the TUC, by some of the foremost academics in Wales, and beyond, and it does tell that story in full.

We have to create quality jobs in Wales, and in all parts of Wales, or the gap between the Welsh economy and the rest of the United Kingdom will never be closed. It is also concerning that the United Kingdom was the only state within the G7 to show an increase in inequality in poverty between 2000 and 2014. Creating growth in one city and in one part, which is south-east England, does not correspond with putting the Welsh economy on the right track. So, that is what our second amendment refers to, which is the effect that these cuts have had, and are still having, on our communities and on families across Wales. Thanks to the 10% cut to the Welsh Government's budget, the Government in this place has had to make its own cuts, which are damaging to our communities. As wages in London increase, the dependence on food banks in Wales has increased 400% since 2010.

The cuts to local government have led to increases in council tax, a destruction of services. We've seen the results: the closure of libraries, the closure of centres for the elderly, and even forcing young children to wait an additional year before starting school full time. These are some of the results, and this is to get rid of the deficit by 2015 and to keep a hold of this AAA credit rating that I referred to. Two intentions, two targets, that have been missed. So, in our opinion, austerity hasn't worked, or, at least, the price has been too high.

Plaid Cymru argued this back in 2009, when Alistair Darling and Gordon Brown fell for the Conservative agenda, and we have been saying it consistently since then. It is very sad to see the parties at Westminster agreeing to an additional package of cuts worth £30 billion, when they are happy to spend up to £100 billion on nuclear arms that nobody can ever use. We believe that we have to invest in transport infrastructure and in capital expenditure to ensure that we can create jobs as those things develop—and, to be fair, the Chancellor has seen the sense in that, as he has diverted some additional funding for infrastructure projects, which is commendable and to be welcomed, because that is going to create jobs. If this investment does take place in Wales, it would bring direct benefits. That is the kind of thinking and the kind of mentality that we in Plaid Cymru believe would lead to improving Wales's economic position. It is entirely fair of the Conservatives to point out that Wales's economic weakness at the moment is a matter of great concern, and the weakness of the jobs market is even more of a concern, as we look forward to closing the gap in performance between Wales and the rest of the United Kingdom. Thank you.

16:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move formally the amendments.

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*Amendment 3—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 2, ar ôl '2014' ychwanegu ', er bod pryderon o hyd ynglŷn â lefel diweithdra ieuencid ac effaith contractau dim oriau ar dlodi ymysg pobl sydd mewn gwaith'.*

*In point 2, after '2014' insert ', though concerns remain about the level of youth unemployment and the impact of zero-hours contracts on in-work poverty'.*

*Gwelliant 6—Jane Hutt*

*Amendment 6—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 3, ar ôl 'ffyniant' ychwanegu 'a nodi bod Llywodraeth Cymru, er gwaethaf toriadau o tua 30% yn y Gyllideb Gyfalaf, wedi parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol ledled Cymru i gefnogi'r economi a'r gwasanaethau cyhoeddus'.*

*In point 3, after 'prosperity' insert 'and notes that despite cuts of some 30% in the Capital Budget, the Welsh Government has continued to make significant capital investment across Wales to support the economy and public services'.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3 a 6.*

*Amendments 3 and 6 moved.*

16:00

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move formally, acting Presiding Officer.

16:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendments 4 and 5 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu'r effaith gadarnhaol y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r trothwy treth incwm i £10,500 yn ei chael ar economi Cymru, gan arwain at doriad o £800 yn nhreth incwm 1.2 miliwn o weithwyr yng Nghymru, gan arbed 153,000 o bobl rhag talu treth incwm yn gyfan gwbl.*

*Welcomes the positive impact on the Welsh economy of the UK Government's decision to raise the income tax threshold to £10,500, resulting in 1.2 million Welsh workers seeing their income tax cut by £800, with 153,000 taken out of paying income tax altogether.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio, a mynd i'r afael â diffyg datblygiad yng Nghymru gydag ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru er mwyn adeiladu economi cryfach a thecach i Gymru.*

*Calls on the Welsh Government to deliver a balanced, integrated, export-led economic strategy and address Wales's underdevelopment with a long-term commitment to investing in Wales's people, business and infrastructure in order to build a stronger economy and a fairer society for Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 4 a 5.*

*Amendments 4 and 5 moved.*



Thank you, Chair. Can I move amendments 4 and 5 in the name of Aled Roberts? Can I say at the outset that the evidence that austerity is not working is actually not as clear cut as Alun Ffred has pointed out, because the fact is that we have avoided going back into recession since 2008, we have increased the number of people in work and, of course, the economy is starting to recover. That is evidence that austerity is working, to an extent. Of course, things can get better and hopefully will get better in terms of delivering an improved economy year-on-year from now on.

The fact is that more people in Wales are in work, and more people in the UK are in work. Although I accept that there are still problems, and many people still have issues with the cost of living and making ends meet, the level of real wages is rising faster than the level of inflation across the UK and, as a result of that, we are starting to tackle that problem as well.

If I refer to the amendments that have been tabled by Aled Roberts, the first one refers to the positive impact on the Welsh economy of the UK Government's decision to raise the income-tax threshold to £10,500. That has effectively resulted in 144,000 people in Wales now paying no income tax compared to pre-2010; 1.2 million people now pay less income tax than under Labour; and Britain's highest earners now pay more than a quarter of the country's entire income tax bill—more than when the coalition came to power. In fact, it is a fact that a millionaire will pay more in tax between 2010 and 2015 than they paid between 2005 and 2010, and I think that shows that this is not just a recovery for the rich—this is a recovery for everybody, and applies equally.

We want to go further than that. The £10,000 tax threshold has been achieved, with £10,500 on its way next month, and we're aiming for a £12,500 tax threshold as a minimum in the next Parliament. I think the Government is also doing more to get women in the workplace as well. We've made real improvements for women in the workplace, from the bottom to the top. Thanks to Jenny Willott and Jo Swinton in their respective governmental roles, we've made huge progress with the number of women on the boards of our top companies. It was 11% when we came to power, and now we only need 21 more women to hit our target of 25%. There is no FTSE-100 company left with an all-male board, and there are more women in work than ever before. There is now virtually no gender pay gap for full-time workers under the age of 40.

Last year, the Assembly had the option to ban zero-hours contracts in the care sector, but unfortunately that failed because the Government vetoed that move.

Diolch, Gadeirydd. A gaf fi gynnig gwelliannau 4 a 5 yn enw Aled Roberts? A gaf fi ddweud ar y dechrau nad yw'r dystiolaeth nad yw caledi yn gweithio mor amlwg ag y nododd Alun Ffred, oherwydd y ffaith amdani yw ein bod wedi osgoi mynd yn ôl i mewn i ddirwasgiad ers 2008, rydym wedi cynyddu nifer y bobl mewn gwaith ac wrth gwrs, mae'r economi yn dechrau gwella. Mae hynny'n dystiolaeth fod caledi'n gweithio, i raddau. Wrth gwrs, gall pethau wella a gobeithio y byddant yn gwella o ran sicrhau economi well flwyddyn ar ôl blwyddyn o hyn allan.

Mae'n ffaith fod mwy o bobl yng Nghymru mewn gwaith, a mwy o bobl yn y DU mewn gwaith. Er fy mod yn derbyn bod problemau o hyd, ac mae llawer o bobl yn dal i gael problemau gyda chostau byw a chael dau ben llinyn ynghyd, mae lefel y cyflogau real yn codi'n gyflymach na lefel chwyddiant ar draws y DU ac o ganlyniad i hynny, rydym yn dechrau mynd i'r afael â'r broblem honno hefyd.

Os caf gyfeirio at y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno gan Aled Roberts, mae'r cyntaf yn cyfeirio at effaith gadarnhaol penderfyniad Llywodraeth y DU i godi trothwy'r dreth incwm i £10,500 ar economi Cymru. I bob pwrpas, mae hynny wedi golygu nad yw 144,000 o bobl yng Nghymru bellach yn talu treth incwm o gwbl o gymharu â chyn 2010; mae 1.2 miliwn o bobl bellach yn talu llai o dreth incwm nag o dan Lafur; ac mae'r rhai sy'n ennill fwyaf ym Mhrydain bellach yn talu mwy na chwarter y bil treth incwm cyfan ar gyfer y wlad—mwy na phan ddaeth y glymblaid i rym. Yn wir, mae'n ffaith y bydd miliwydd yn talu mwy mewn treth rhwng 2010 a 2015 nag a dalai rhwng 2005 a 2010, a chredaf fod hynny'n dangos nad adferiad ar gyfer y cyfoethog yn unig yw hwn—mae'n adferiad i bawb, a'r un mor berthnasol i bawb.

Rydym am fynd ymhellach na hynny. Mae'r trothwy treth £10,000 wedi cael ei gyflawni, gyda £10,500 ar ei ffordd y mis nesaf, ac rydym yn anelu at drothwy treth o £12,500 fan lleiaf yn ystod y Senedd nesaf. Rwy'n meddwl bod y Llywodraeth hefyd yn gwneud mwy i gael menywod i mewn i'r gweithle yn ogystal. Rydym wedi gwneud gwelliannau gwirioneddol i fenywod yn y gweithle, o'r gwaelod i'r brig. Diolch i Jenny Willott a Jo Swinton yn eu rolau llywodraethol, rydym wedi gwneud cynnydd mawr o ran nifer y menywod sydd ar fyrddau'r cwmnïau sydd ar y brig. Roedd yn 11% pan ddaethom i rym, ac yn awr, nid oes ond angen 21 yn fwy o fenywod i ni allu cyrraedd ein targed o 25%. Nid oes yr un o gan cwmni'r FTSE â bwrdd heb fenywod o gwbl, ac mae mwy o fenywod yn gweithio nag erioed o'r blaen. Nid oes nemor ddim bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr llawn amser o dan 40 oed yn awr.

Y llynedd, roedd gan y Cynulliad opsiwn i wahardd contractau dim oriau yn y sector gofal, ond yn anffodus, fe fethodd oherwydd bod y Llywodraeth wedi rhoi feto ar y cynnig.

If we look at amendment 5, talking about an export-led economic strategy for Wales, we need to look at the long-term view. We do need a greater focus on exports. We need to get our firms selling their goods to the world. That will boost employment, prosperity and our GDP figures. Why are over 6,000 people in the Cardiff postcode and less than 3,000 in the Swansea postcode in that situation? Cardiff is doing well and is rightly being congratulated; other parts of Wales, despite their small size, should be encouraged too in terms of boosting their exports and focusing on that. That is how we start to grow the Welsh economy.

If I could just conclude by referring to the Plaid Cymru amendment, I think Nick Ramsay actually hit the nail on the head in terms of the contradiction of the two amendments. Yes, the Government has set a target in terms of reducing the UK deficit, and yes, that target is not being met, but of course the Government has to rule in real terms, and it has to adjust its economic strategy depending on the needs of the economy. If you're saying that we should have cut further and faster to meet that target, then I think you need to say so upfront. The Government, effectively, has cut and it has invested too, because there is money being invested in capital projects; that will start to pick up even more after the next general election. The Government has cut according to what it could do, whilst at the same time making sure that we keep the economy on an even keel. Of course, the deficit is being cut as much as we can without destroying that recovery that has been put in place as a result. Yes, there has been a 10% cut in real terms to the Welsh budget, but, as I never tire of reminding people, that cut is less than had been planned by the previous Labour Government. In terms of capital, the previous Labour Government had made plans that would have cut capital faster and more deeply than this present Government has done as well.

I think the economic record of the coalition Government is not perfect, but it has been a success. We've started to move and improve the economy. We're moving out of depression into recovery. We're starting to see more people in work. We're starting to see companies recover and exports recover, too. We need to build on that and we will do so from the next general election.

Os edrychwn ar welliant 5, sy'n sôn am strategaeth economaidd i Gymru wedi'i harwain gan allforio, mae angen i ni edrych ar y darlun hirdymor. Mae arnom angen mwy o ffocws ar allforion. Mae angen i ni sicrhau bod ein cwmnïau yn gwerthu eu nwyddau i'r byd. Bydd hynny'n rhoi hwb i gyflogaeth, ffyniant a'n ffigurau cynnyrch domestig gros. Pam y mae dros 6,000 o bobl â chod post yng Nghaerdydd a llai na 3,000 â chod post yn Abertawe yn y sefyllfa honno? Mae Caerdydd yn gwneud yn dda ac yn haeddu cael ei llongyfarch; dylid annog rhannau eraill o Gymru hefyd, er gwaethaf eu maint bach, i hybu eu hallforion a chanolbwyntio ar hynny. Dyna sut y gallwn ddechrau gwella economi Cymru.

Os caf gloi drwy gyfeirio at welliant Plaid Cymru, rwy'n meddwl bod Nick Ramsay wedi taro'r hoelen ar ei phen mewn gwirionedd o ran bod y ddau welliant yn gwrthddweud ei gilydd. Ydy, mae'r Llywodraeth wedi gosod targed o ran lleihau diffyg y DU, ac mae'n wir nad yw'r targed yn cael ei gyrraedd, ond wrth gwrs mae'r Llywodraeth yn gorfod llywodraethu mewn termau real, ac mae'n rhaid iddi addasu ei strategaeth economaidd yn dibynnu ar anghenion yr economi. Os ydych yn dweud y dylem fod wedi gwneud toriadau pellach a chyflymach i gyrraedd y targed hwnnw, yna rwy'n meddwl bod angen i chi ddweud hynny'n glir. Mae'r Llywodraeth, i bob pwrpas, wedi gwneud toriadau ac mae wedi buddsoddi hefyd, gan fod arian yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf; bydd hynny'n dechrau gwella hyd yn oed yn fwy ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae'r Llywodraeth wedi torri yn ôl yr hyn y gallai ei wneud, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cydbwysu'r economi. Wrth gwrs, mae'r diffyg yn cael ei dorri cymaint ag y gallwn heb ddinistrio'r adferiad a roddwyd ar waith o ganlyniad i hynny. Do, cafwyd toriad o 10% mewn termau real i gyllideb Cymru, ond fel rwy'n parhau i atgoffa pobl, mae'r toriad yn llai na'r hyn a gynlluniwyd gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. O ran cyfalaf, roedd y Llywodraeth Lafur flaenorol wedi gwneud cynlluniau a fyddai wedi torri cyfalaf yn gyflymach ac yn dwfn nag y mae'r Llywodraeth bresennol wedi ei wneud.

Rwy'n credu nad yw record economaidd y Llywodraeth glymblaid yn berffaith, ond mae wedi bod yn llwyddiant. Rydym wedi dechrau symud a gwella'r economi. Rydym yn symud allan o ddirwasgiad i mewn i adferiad. Rydym yn dechrau gweld mwy o bobl mewn gwaith. Rydym yn dechrau gweld cwmnïau'n adfer ac allforion yn gwella hefyd. Mae angen i ni adeiladu ar hynny a byddwn yn gwneud hynny o'r etholiad cyffredinol nesaf ymlaen.

16:06 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This debate this afternoon provides an opportunity to show how much the economy has improved under the policies of a Conservative-led coalition Government at Westminster—

Mae'r ddadl hon y prynhawn yma yn rhoi cyfle i ddangos cymaint y mae'r economi wedi gwella o dan bolisiau'r Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:06 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I just stop you? Considering that there are so few Members in the Chamber, there is a lot of noise going on across it. Please give Mohammad Asghar the courtesy of listening to him.

A gaf fi eich stopio? O ystyried bod cyn lleied o Aelodau yn y Siambr, mae llawer o sŵn i'w glywed ar ei thraws. Dangoswch gwртеisi drwy wrando ar Mohammad Asghar.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:06 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, I've already wasted 22 seconds.

Diolch i chi, rwyf eisoes wedi gwastraffu 22 eiliad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The debate this afternoon provides an opportunity to show how much the economy has improved under the policies of the Conservative-led coalition Government at Westminster. Only five years ago, our economy was virtually level in Europe with that of Greece. Can you imagine? The lesson people are telling us is: where is Greece today and where are we now? It's thanks to David Cameron and his team. They have turned around this economic tanker and put this country on one of the fastest growing economies in the world. So, we do not need any more lectures on this subject at all.

Let us for a moment cast our minds back to the situation the coalition inherited in 2010. Labour left a legacy of financial meltdown and social breakdown. Three quarter of a million people lost their jobs in the recession; nearly 1.5 million people had been on out-of-work benefits for nine of the previous 10 years—that's thanks to a Labour Government; more than 2.5 million people were on sickness and disability benefits, with 1 million for 10 years or more. What a shame. As a result, welfare bills spiralled out of control, rising twice as much as average earnings. No wonder the outgoing chief secretary, as my colleague just mentioned, left a note, 'There's no money left. Good luck'. Those were his words.

Recession figures released by the Office for National Statistics demonstrate that Britain's recovery is on track. Britain had the fastest growth of any major economy in 2014—2.6%, the best since 2007. There are now more people in work than ever before—1.75 million more people in work since the last election. Unemployment is down by nearly 600,000 since 2010 also. Regular pay rises of 1.8% over the last year are well above the rate of inflation. Income tax has been cut for over 25 million people, with over 3 million people taken out of tax altogether—which I think many of my colleagues have already mentioned—helping our lowest paid workers and families and money in their pocket.

Vital to turning around the economy has been the decisive action taken by the coalition to get public spending under control. When we came to Government in the country, the country was borrowing over £150 billion a year—or round about. Now the deficit has been cut by half. The Organisation for Economic Co-operation and Development, in judging Britain's economic performance, said recently:

'We are predicting this economic expansion will continue this year and next. What a difference effective economic policies can make.'

What a difference indeed. The benefits of the UK Government's effective economic policies have had their effect in Wales. There are an extra 41,000 people in work in Wales compared to 2010. In 2013, Wales saw the strongest growth in GVA of all United Kingdom nations. But, although the signs are encouraging, many challenges remain.

Mae'r ddadl y prynhawn yma yn rhoi cyfle i ddangos cymaint y mae'r economi wedi gwella o dan bolisiau'r Llywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan. Bum mlynedd yn ôl yn unig, roedd ein heconomi fwy neu lai ar yr un lefel yn Ewrop ag un Gwlad Groeg. A allwch chi ddychmygu? Y wers y mae pobl yn ei ddweud wrthym yw: lle y mae Gwlad Groeg heddiw, a lle rydym ni yn awr? Mae'r diolch i David Cameron a'i dîm. Maent wedi newid cyfeiriad y tancer economaidd a sicrhau bod gan y wlad hon un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Felly, nid oes arnom angen rhagor o ddarlithoedd ar y pwnc hwn o gwbl.

Gadewch i ni gofio'r sefyllfa a etifeddodd y glymblaid yn 2010 am eiliad. Gadawodd Llafur chwalfa ariannol a chwalfa gymdeithasol yn ei sgîl. Collodd tri chwarter miliwn o bobl eu swyddi yn y dirwasgiad; roedd bron i 1.5 miliwn o bobl wedi bod ar fudd-daliadau diweithdra am naw o'r 10 mlynedd flaenorol—diolch i Lywodraeth Lafur; roedd mwy na 2.5 miliwn o bobl ar fudd-daliadau salwch ac anabled, ac i filiwn ohonynt ers 10 mlynedd neu fwy. Am drueni. O ganlyniad, fe chwyddodd biliau lles allan o reolaeth, gan godi ddwywaith cymaint ag enillion cyfartalog. Nid yw'n rhyfedd fod y prif ysgrifennydd wrth adael ei swydd, fel y mae fy nghydweithiwr newydd sôn, wedi gadael nodyn, 'nid oes arian ar ôl. Pob lwc'. Dyna'i eiriau.

Mae ffigurau dirwasgiad a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod adferiad Prydain ar y trywydd iawn. Gan Brydain oedd y twf cyflymaf o blith unrhyw economi fawr yn 2014—ar 2.6%, y flwyddyn orau ers 2007. Erbyn hyn, mae mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen—mae 1.75 miliwn yn fwy o bobl mewn gwaith ers yr etholiad diwethaf. Mae diweithdra wedi gostwng bron i 600,000 ers 2010 hefyd. Mae codiadau cyflog rheolaidd o 1.8% dros y flwyddyn ddiwethaf yn llawer uwch na chyfradd chwyddiant. Mae'r dreth incwm wedi cael ei thorri i fwy na 25 miliwn o bobl, ac wedi ei dileu yn gyfan gwbl i dros 3 miliwn o bobl—a grybwyllwyd gan lawer o fy nghydweithwyr eisoes, rwy'n credu—gan helpu'r gweithwyr a'r teuluoedd ar y cyflogau isaf a rhoi arian yn eu poced.

Er mwyn gwrthdroi'r economi, roedd hi'n hanfodol i'r glymblaid roi camau pendant ar waith i ddoed â gwariant cyhoeddus dan reolaeth. Pan ddaethom yn Llywodraeth, roedd y wlad yn benthyca dros £150 biliwn y flwyddyn—neu oddeutu hynny. Mae'r diffyg wedi cael ei dorri yn ei hanner yn awr. Wrth farnu perfformiad economaidd Prydain, dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ddiweddar:

'Rydym yn rhagweld y bydd yr ehangu economaidd hwn yn parhau eleni a'r flwyddyn nesaf. Gall polisiau economaidd effeithiol wneud cymaint o wahaniaeth.'

Cymaint o wahaniaeth yn wir. Mae manteision polisiau economaidd effeithiol Llywodraeth y DU wedi cael effaith yng Nghymru. Mae 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru o'i gymharu â 2010. Yn 2013, Cymru a welodd y twf mwyaf yn y GYC o blith holl wledydd y Deyrnas Unedig. Ond er bod yr arwyddion yn galonogol, mae llawer o heriau o hyd.

Wales remains the poorest part of the United Kingdom, Minister, and at the bottom of economic league tables. The Welsh Government must use the levers at its disposal to take full advantage of the improving prospects for economic growth. They must act to ease the burden of business rates, to make them fairer so that many businesses can grow and thrive. We need a clear strategy to strengthen exports and to attract inward investment. We must re-establish brand Wales as a place that is open for business to the national and international community. Labour's approach to enterprise zones has been inconsistent and lacking in vigour. We must ensure enterprise zones in Wales match the progress of their counterparts in England and meet their full potential.

We must improve and expand broadband coverage, particularly in rural Wales, so that the benefit can be felt in all parts of this country. Deputy Presiding Officer, the long-term economic plan of the Conservative-led Government at Westminster is securing a better future for Britain and Wales. It is for the Welsh Government to seize this opportunity to provide longer term economic benefits for Wales.

16:11 **John Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

Can I state the case for different parts of Wales to step up to the plate, as it were, in terms of regenerating our economy and growing jobs? In particular, I think our cities have a major role to play. I, of course, am particularly interested in Newport and the role Newport can play in terms of pulling its weight as far as economic development in Wales is concerned and it obviously acts as a great economic strength for the surrounding area, and always has. So, I'm very pleased that some really exciting things are happening in terms of regenerating Newport at the current time. There's a very important city centre redevelopment under way, which is due to open in November. I'd like to pay tribute to Newport City Council, which I believe displayed great courage in finding resource themselves to the tune of around £100 million to make this development possible. It will be a big step forward in terms of retail and leisure in Newport city centre and, I'm sure, generate great economic strength for Newport.

We also have a lot of development taking place alongside the riverfront. There's new housing there, there's new housing in the city centre and, indeed, a hotel under way, and much else besides. There's the work, of course, of reNewport and Simon Gibson, which I believe is very exciting. It's very high tech. It's about software, it's about internet security, it's about producing graduates who are then supported to start their own small businesses and grow them in the city centre, involving many important partnerships.

Cymru yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig, Weinidog, ac mae ar waelod y tablau cynghrair economaidd. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i fanteisio'n llawn ar y rhagolygon twf economaidd sy'n gwella. Rhaid iddynt weithredu i leddfu baich ardrethi busnes, i'w gwneud yn decach fel y gall llawer o fusnesau dyfu a ffynnu. Mae arnom angen strategaeth glir i gryfhau allforion a denu buddsoddiad o'r tu allan. Mae'n rhaid i ni ailsefydlu brand Cymru fel lle sy'n agored i fusnes i'r gymuned genedlaethol a rhyngwladol. Mae ymagwedd Llafur tuag at ardaloedd menter wedi bod yn anghyson ac yn brin o egni. Rhaid i ni sicrhau bod yr ardaloedd menter yng Nghymru yn dilyn yr un cynnydd â'u cymheiriaid yn Lloegr ac yn cyflawni eu potensial llawn.

Mae'n rhaid i ni wella ac ehangu cyrhaeddiad y band eang, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, er mwyn i'r budd gael ei deimlo ym mhob rhan o'r wlad. Ddirprwy Lywydd, mae cynllun economaidd hirdymor y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan yn sicrhau dyfodol gwell ar gyfer Prydain a Chymru. Mater i Lywodraeth Cymru yw achub ar y cyfle hwn i ddarparu manteision economaidd hirdymor i Gymru.

A gaf fi ddatgan yr achos dros sicrhau bod gwahanol rannau o Gymru yn bachu ar y cyfle i adfywio ein heconomi a chreu swyddi? Yn benodol, rwy'n credu bod gan ein dinasoedd rôl bwysig i'w chwarae. Wrth gwrs, mae gennyf ddi-ddordeb arbennig yng Nghasnewydd a chyfraniad Casnewydd tuag at ddatblygiad economaidd yng Nghymru, ac mae'n amlwg yn gweithredu fel cryfder economaidd mawr i'r ardal o'i chwmpas, ac mae bob amser wedi gwneud hynny. Felly, rwy'n falch iawn fod rhai pethau cyffrous iawn yn digwydd o ran adfywio Casnewydd ar hyn o bryd. Mae gwaith ailddatblygu pwysig iawn yn digwydd yng nghanol y ddinas, sydd i fod i agor ym mis Tachwedd. Hoffwn roi teyrnged i Gyngor Dinas Casnewydd, y credaf ei fod wedi arddangos dewrder mawr yn dod o hyd i oddeutu £100 miliwn o gyllid eu hunain i wneud y datblygiad hwn yn bosibl. Bydd yn gam mawr ymlaen o ran manwerthu a hamdden yng nghanol dinas Casnewydd ac rwy'n siŵr y bydd yn cynhyrchu cryfder economaidd mawr i Gasnewydd.

Hefyd, mae gennym lawer o waith datblygu'n digwydd ar hyd glan yr afon. Ceir tai newydd yno, a thai newydd yng nghanol y ddinas ac yn wir, mae gwesty ar y gweill, a llawer mwy hefyd. Rwy'n credu bod gwaith reNewport a Simon Gibson, wrth gwrs, yn gyffrous iawn. Mae'n cynnwys llawer o uwch-dechnoleg. Mae'n ymwneud â meddalwedd, mae'n ymwneud â diogelwch y rhyngwryd, mae'n ymwneud â chynhyrchu graddedigion sydd wedyn yn cael eu cefnogi i ddechrau eu busnesau bach eu hunain a'u datblygu yng nghanol y ddinas, gan gynnwys llawer o bartneriaethau pwysig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We have a new conference centre to be developed at the Celtic Manor, of course, and much other activity from the Celtic Manor that supports local businesses more generally. We also have local traders taking forward a bid that I believe is showing that they want to step up to the plate in terms of doing what they can for Newport. I believe there's a lot more that could be done right across Wales, in fact, in terms of finding ways to ensure that local spend stays in the local economy, so that businesses benefit from procurement policy in the public sector, so that traders run schemes to raise awareness amongst local people and encourage local people to spend with businesses that will spend those profits, in turn, for the benefit of the local economy, because the owners of the businesses live locally.

Through all of this, Cadeirydd, I think it's very important that we build partnerships at all levels of government—UK Government, Welsh Government and local government—hopefully uniting as much as possible around a common vision and working to implement that vision. I believe the metro system and the investment that can take place around that, from UK Government, Welsh Government and local government is a very good example. I believe it is a really big idea that can create that interconnectedness that will be so important to businesses that could base themselves anywhere within the metro system geography and benefit from a workforce that can travel quickly and easily to any point in that area. Also, of course, that would then open up great opportunities for local people to access those employment opportunities and, indeed, join up retail and leisure. So, I think that is crucially important and we need to see a uniting around the work that needs to take place on those different levels of government and we need to see clear timelines so that everybody is aware of what is about to take place.

In terms of UK Government, Cadeirydd, I think it's very important that the UK Government helps create the infrastructure that we need here in Wales in terms of the metro, but more generally, and also plays its part, for example, in terms of redistributing UK Government and UK Government agency jobs. Now, in Newport we've got some really good examples of this: relocation that has taken place by previous UK Labour Governments, such as the prison service, the patent office, the statistics office, and the passport office. There are many good examples and what we need to see now, I believe, is the current UK Government understanding the importance of redistributing those jobs to the areas of the UK that are currently struggling relatively in terms of their economies. You know, there are many parts of Wales that are in that category. So, in conclusion, Cadeirydd, I think there's a lot of work that needs to be done. We really do need to see a uniting, a joining up at those different levels of Government—the UK Government, Welsh Government and local government joining up for mutual benefit and, most importantly, to benefit the people of Wales.

Mae gennym ganolfan gynadledda newydd i'w datblygu yn y Celtic Manor, wrth gwrs, a llawer o weithgarwch arall yn y Celtic Manor sy'n cefnogi busnesau lleol yn fwy cyffredinol. Mae gennym hefyd fasnachwyr lleol yn cyflwyno cais y credaf ei fod yn dangos eu hawydd i fachu ar y cyfle i wneud yr hyn a allant dros Gasnewydd. Rwy'n credu bod llawer mwy y gellid ei wneud ledled Cymru, mewn gwirionedd, o ran dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod gwariant lleol yn aros yn yr economi leol, er mwyn i fusnesau elwa o bolisi caffael yn y sector cyhoeddus, fel bod masnachwyr yn gweithredu cynlluniau i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol ac yn annog pobl leol i wario gyda busnesau a fydd yn gwario'r elw hwnnw, yn ei dro, er budd yr economi leol, oherwydd bod perchnogion y busnesau yn byw yn lleol.

Drwy hyn oll, Gadeirydd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn inni adeiladu partneriaethau ar bob lefel o lywodraeth—Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol—yn y gobaith o ymuno cymaint ag sy'n bosibl mewn gweledigaeth gyffredin a gweithio i weithredu'r weledigaeth honno. Rwy'n credu bod y system metro a'r buddsoddiad a all ddigwydd mewn perthynas â hynny gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn enghraifft dda iawn. Rwy'n credu ei fod yn syniad gwirioneddol fawr a all greu'r rhyng-gysylltiad a fydd mor bwysig i fusnesau a allai ymsefydlu unrhyw le o fewn daearyddiaeth y system fetro ac elwa ar weithlu sy'n gallu teithio'n gyflym ac yn hawdd i unrhyw fan yn yr ardal honno. Hefyd, wrth gwrs, byddai hynny wedyn yn agor posibiladau gwyb i bobl leol allu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth o'r fath ac yn wir, yn cydgysylltu manwerthu a hamdden. Felly, credaf fod hynny'n hanfodol bwysig ac mae angen i ni weld uno'n digwydd mewn perthynas â'r gwaith sydd angen ei wneud ar y lefelau gwahanol o lywodraeth. Hefyd, mae angen i ni weld amserlenni dir fel bod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd ar fin digwydd.

O ran Llywodraeth y DU, Gadeirydd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod Llywodraeth y DU yn helpu i greu'r seilwaith sydd ei angen arnom yma yng Nghymru, o ran y metro ond yn fwy cyffredinol, a'i bod yn chwarae ei rhan hefyd, er enghraifft, yn y broses o ailddosbarthu swyddi Llywodraeth y DU a swyddi asiantaethau Llywodraeth y DU. Nawr, yng Nghasnewydd mae gennym rai enghreifftiau da iawn o hyn: yr adleoli a ddigwyddodd o dan Lywodraethau Llafur blaenorol y DU, megis y gwasanaeth carchardai, y swyddfa batentau, y swyddfa ystadegau a'r swyddfa basbort. Ceir llawer o enghreifftiau da a'r hyn sydd angen i ni ei weld yn awr, yn fy marn i, yw Llywodraeth bresennol y DU yn deall pa mor bwysig yw ailddosbarthu'r swyddi hyn i ardaloedd yn y DU sydd ar hyn o bryd yn cael trafferth gymharol gyda'u heconomiau. Mae yna sawl rhan o Gymru yn y categori hwnnw, wyddoch chi. Felly, i gloi, Gadeirydd, rwy'n meddwl bod yna lawer o waith sydd angen ei wneud. Mae gwir angen uno, a chydgyssylltu ar wahanol lefelau o lywodraeth—Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ymuno â'i gilydd er budd pawb, ac yn bwysicaf oll, er budd pobl Cymru.

It's not unusual for us to debate the importance of the economy, of course, in this Chamber and certainly on this side of the Chamber we understand that a strong economy with a sensitive and mutually useful balance between private and public sectors is so important, because without that we wouldn't be able to raise enough money to support our public services. 'The Wales We Want' report, which was published on Monday, revealed that our citizens understand that as well. That doesn't mean that health, education and social care were in some way less of a concern to the people of Wales, rather it was an acknowledgement that without a strong economy those services are bound to suffer. I think, more than that, the report also showed an understanding that a stable economy is the environment that allows for greater job creation and that allows people to take a few risks with their work choices and with their aspirations. Joblessness isn't inevitable.

Thanks to the Conservative-led Westminster Government's economic plan, of course, the UK has the fastest growing economy in the western world and John Griffiths is right: that presents opportunities for both our Governments to improve the life experience and life chances of those of us in Wales. No-one is more pleased than us that the increase in job numbers and wages is rising faster here than other parts of the UK. But, there is no disguising either that that rise comes from the lowest base in the UK and there is nowhere for Labour to hide from the fact that that low base was established and even entrenched when they were in Government at both ends of the M4. Eighty-thousand manufacturing jobs were lost in Wales when Labour had control of two Governments. There are 20,000 new manufacturing jobs in Wales already after the electorate forced Labour to release the reins in London. There have been 25,000 new businesses in Wales since 2010, bringing confidence back to our nation as a place to succeed and produce. Wales is becoming, I think, a place characterised by its creativity rather than its reputation for consumption.

We certainly need our public sector, but it should not dominate our economy and I hope, therefore, that the Welsh Government welcomes those 25,000 new businesses, the new manufacturing jobs, the 50,000 people enjoying the security and dignity of a regular wage, which they didn't have under Labour's dual control, and the 39,000 children seeing the adults in their homes going out to work. I can completely understand that the Welsh Government will want to take some of the credit for this improvement, or more likely all of it, but I don't think that would be particularly fair, Minister. Without action taken at UK level regarding international confidence, corporation tax, tax breaks for firms taking on new employees on proper contracts, as well as tax cuts for individuals creating more disposable income, then Welsh Government wouldn't have the benign conditions in which to exercise its responsibility, which is for economic development.

Nid yw'n anarferol i ni drafod pwysigrwydd yr economi yn y Siambr hon, wrth gwrs, ac yn sicr ar yr ochr hon i'r Siambr rydym yn deall pa mor bwysig yw economi gref gyda chydbwysedd sensitif a defnyddiol i'r sectorau preifat a chyhoeddus fel ei gilydd, gan na fyddem fel arall yn gallu codi digon o arian i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus. Datgelodd adroddiad, Y Gymru a Garem' a gyhoeddwyd ddydd Llun, fod ein dinasyddion yn deall hynny hefyd. Nid yw hynny'n golygu bod iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn llai o bryder i bobl Cymru mewn rhyw ffordd, ond yn hytrach, roedd cydnabyddiaeth y byddai'r gwasanaethau hynny'n sicr o ddiodeff heb economi gref. Yn fwy na hynny, rwy'n meddwl bod yr adroddiad hefyd yn dangos dealltwriaeth mai economi sefydlog yw'r amgylchedd sy'n caniatáu ar gyfer creu mwy o swyddi ac sy'n caniatáu i bobl gymryd ychydig o risgiau gyda'u dewisiadau gwaith a'u dyheadau. Nid yw diweithdra'n anochel.

Diolch i gynllun economaidd Llywodraeth San Steffan o dan arweiniad y Ceidwadwyr, wrth gwrs, gan y DU y mae'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gorllewinol ac mae John Griffiths yn iawn: mae hynny'n cynnig cyfleoedd i'r ddwy Lywodraeth wella profiad bywyd a chyfleoedd bywyd pobl Cymru. Nid oes neb yn falchach na ninnau fod nifer y swyddi'n cynyddu a chyflogau'n codi'n gyflymach yma na mewn rhannau eraill o'r DU. Ond nid oes modd celu chwaith fod y cynnydd yn deillio o'r sylfaen isaf yn y DU ac nid oes unman i Lafur guddio rhag y ffaith fod y sylfaen isel wedi ei gosod a hyd yn oed wedi gostwng pan oeddent yn y Llywodraeth ar y naill ben a'r llall i'r M4. Collwyd wyth deg mil o swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru pan oedd Llafur yn arwain y ddwy Lywodraeth. Mae yna 20,000 o swyddi gweithgynhyrchu newydd yng Nghymru eisoes wedi i'r etholwyr orfodi Llafur i ryddhau'r awenau yn Llundain. Cafwyd 25,000 o fusnesau newydd yng Nghymru ers 2010, gan adfer hyder yn ein cenedl fel lle ar gyfer llwyddo a chynhyrchu. Rwy'n meddwl bod Cymru'n dod yn fan a nodweddir gan ei greadigrwydd yn hytrach na'i enw fel defnyddiwr.

Yn sicr, rydym angen ein sector cyhoeddus, ond ni ddylai dra-arglwyddiaethu ar ein heconomi ac rwy'n gobeithio, felly, fod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r 25,000 o fusnesau newydd, y swyddi gweithgynhyrchu newydd, yr 50,000 o bobl sy'n mwynhau diogelwch ac urddas cyflog rheolaidd, nad oedd ganddynt o dan reolaeth ddeuol y blaid Lafur, a'r 39,000 o blant sy'n gweld yr oedolion yn eu cartrefi yn mynd allan i weithio. Gallaf ddeall yn iawn y bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gymryd rhywfaint o'r clod am y gwelliant hwn, neu'n fwy tebygol, y cyfan o'r clod, ond nid wyf yn credu y byddai hynny'n arbennig o deg, Weinidog. Heb y gweithredu a ddigwyddodd ar lefel y DU o ran hyder rhyngwladol, treth gorfforaeth, gostyngiadau treth i gwmnïau sy'n cyflogi gweithwyr newydd ar gontractau priodol, yn ogystal â thoriadau treth i unigolion gan greu mwy o incwm gwario, yna ni fyddai'r amgylchiadau'n ffafriol i Lywodraeth Cymru allu ysgwyddo ei chyfrifoldeb, sef datblygu'r economi.

I would like to congratulate the Welsh Government, if it has been making the most of the UK's spade work, but you do make it very difficult for us, Minister. I'd like to say, 'well done', if Jobs Growth Wales is the success you claim, but we have to be honest here: it's low-hanging fruit. Because the coalition has delivered improved economic conditions, three-quarters of those young people on the scheme would have found employment anyway. As we know, only 9,000 people caught your eye when 33,000 young people were looking for help. Meanwhile, older citizens get no help from you to secure work.

Buying up prime real estate at a time when investor interest is inflating prices; terms and conditions withheld from Assembly Members who represent taxpayers on grounds of confidentiality. And I would be more than content to accept that as a reason, rather than an excuse, if your Government had good form on this, but examples of subsequent cheap land sales or low investment returns raised in this Chamber, not least by Antoinette Sandbach, means I cannot.

Speaking of difficulties in scrutinising the delivery of economic development, how about enterprise zones? Like you, we look forward to them as fertile ground for strategic planting, growing highly skilled jobs and attracting inward investment—a really good economic lever. I'd like to congratulate you here too, Minister, but I can't because details on the numbers of jobs created, the level of investment attracted to the zones and cost-benefit analyses have not been made available to this Assembly, so how can I tell? I hope I have better luck with city regions.

Infrastructure changes like electrification, the M4 and broadband roll-out, these things are really only happening because the coalition Government has embarrassed their partner Government here in Wales into waking up and throwing a few of your economic levers. And now you're getting more of them. So, Minister, in your reply, please no moaning; we've had three rounds and billions of pounds of European funding and we're still looking at the highest unemployment and lowest pay in the UK. The Conservative-led Government in Westminster is the Government that has been doing the leading, and that's really why, at last, we've started to see that encouraging improvement here in Wales.

16:22

## Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I welcome the Conservatives' conversion to the living wage and to the benefits of capital expenditure in relation to growing the economy. Unfortunately, this has not been supported by George Osborne's over 30% cut in the Welsh Government's capital budget. Without this cut, a lot more capital expenditure would have taken place in Wales in areas such as highways, housing, education and health. A lot more people would be in employment. Economic growth would be higher.

Hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru, os yw wedi bod yn manteisio i'r eithaf ar waith caled y DU, ond rydych yn ei gwneud yn anodd iawn i ni, Weinidog. Hoffwn ddweud, 'da iawn', os yw Twf Swyddi Cymru yn gymaint o lwyddiant ag rydych yn ei honni, ond rhaid i ni fod yn onest fan hyn: nid yw'n fawr o gyflawniad. Am fod y glymblaid wedi gwella'r amodau economaidd, byddai tri chwarter y bobl ifanc ar y cynllun wedi dod o hyd i waith beth bynnag. Fel y gwyddom, 9,000 o bobl yn unig a gafodd gymorth gennyh pan oedd 33,000 o bobl ifanc yn chwilio am help. Yn y cyfamser, nid yw dinasyddion hŷn yn cael help o gwbl gennyh i ddod o hyd i waith.

Prynu eiddo tiriog dethol ar adeg pan fo diddordeb buddsoddwyr yn gwrthio prisiau i fyny; cadw telerau ac amodau yn ôl rhag Aelodau'r Cynulliad sy'n cynrychioli trethdalwyr ar sail cyfrinachedd. A byddwn yn fwy na hapus i dderbyn hynny fel rheswm yn hytrach nag esgus, pe bai gan eich Llywodraeth hanes da ar hyn, ond ni allaf dderbyn enghreifftiau o werthu tir yn rhad wedyn neu enillion isel ar fuddsoddiadau a grybwyllwyd yn y Siambr hon, gan Antoinette Sandbach yn enwedig.

A siarad am anawsterau o ran craffu ar y ffordd y caiff datblygu economaidd ei gyflawni, beth am ardaloedd menter? Fel chithau, edrychwn ymlaen at eu gweld yn dod yn dir ffrwythlon ar gyfer cynllunio strategol, gan greu swyddi medrus a denu buddsoddiad o'r tu allan—ysgogiad economaidd gwirioneddol dda. Hoffwn eich llongyfarch yma hefyd, Weinidog, ond ni allaf wneud hynny am nad yw'r manylion am nifer y swyddi a grëwyd, lefel y buddsoddiad a ddenwyd i'r ardaloedd menter a dadansoddiadau cost a budd ar gael i'r Cynulliad hwn eu gweld, felly sut y gallaf ddweud? Rwy'n gobeithio y caf fwy o lwc gyda'r dinas-ranbarthau.

Newidiadau seilwaith fel trydaneiddio, yr M4 a chyflwyno band eang, nid yw'r pethau hyn ond yn digwydd mewn gwirionedd am fod Llywodraeth y glymblaid wedi achosi digon o embaras i ddihuno ei Llywodraeth bartner yma yng Nghymru a rhoi rhai o'i hysgogiadau economaidd ar waith. Ac yn awr, rydych yn cael mwy ohonynt. Felly, Weinidog, yn eich ateb, peidiwch â chwyno, os gwelwch yn dda; rydym wedi cael tair rownd a biliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd ac rydym yn dal i fod â'r lefelau uchaf o ddiweithdra a'r cyflog isaf yn y DU. Y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan yw'r Llywodraeth sydd wedi bod yn arwain, a dyna pam, o'r diwedd, ein bod yn dechrau gweld gwelliant calonogol yma yng Nghymru.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Ceidwadwyr wedi troi at y cyflog byw a manteision gwariant cyfalaf mewn perthynas ag ehangu'r economi. Yn anffodus, nid yw hyn wedi cael ei gefnogi gan doriad George Osborne o dros 30% yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru. Heb y toriad hwn, byddai llawer mwy o wariant cyfalaf wedi digwydd yng Nghymru mewn meysydd megis priffyrdd, tai, addysg ac iechyd. Byddai llawer mwy o bobl mewn gwaith. Byddai'r twf economaidd yn fwy.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On the living wage, they're not there yet. It is not needed only for the public sector; it's needed for all employees in Wales. We keep on talking about the growth in employment. Too many of these jobs are on zero hours. Even more of them are on short—

Ar y cyflog byw, nid ydynt yno eto. Nid ar gyfer y sector cyhoeddus yn unig y mae ei angen; mae ei angen ar gyfer holl weithwyr Cymru. Rydym yn dal ati i siarad am y cynnydd mewn cyflogaeth. Mae gormod o'r swyddi hyn ar gontractau dim oriau. Mae hyd yn oed mwy ohonynt ar oriau byr—

16:22 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:22 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Can I just finish this? I will after I finish this. Too many of them are on very short guaranteed hours, and even more of them are temporary.

A gaf i orffen hyn? Fe orffennaf ar ôl hyn. Mae gormod o ohonynt ar oriau gwarantedig byr iawn, a hyd yn oed mwy ohonynt yn rhai dros dro.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:22 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I'm very grateful for you taking the intervention, Mike Hedges. The reality is that only 3% of workers in Wales are on a zero-hours contract, and many of them offer the flexibility that parents, for example, of young children need.

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am dderbyn yr ymyriad, Mike Hedges. Y realiti yw mai dim ond 3% o weithwyr Cymru sydd ar gontract dim oriau, ac mae llawer ohonynt yn cynnig yr hyblygrwydd y mae rhieni plant ifanc, er enghraifft, ei angen.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:23 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
That's when an intervention starts off before I finish the sentence, because I went on to talk about something that is even more important—those who are on very short guaranteed hours. They go into work at eight o'clock in the morning and they go home at nine—it's either nine in the morning or nine at night. They don't know how long they're going to be working for. And the temporary jobs—

Dyna pryd y mae ymyriad yn cychwyn cyn i mi orffen y frawddeg, gan fy mod wedi mynd ymlaen i siarad am rywbeth sydd hyd yn oed yn bwysicach—pobl ar oriau gwarantedig byr iawn. Maent yn mynd i'r gwaith am wyth o'r gloch y bore ac yn mynd adref am naw—naill ai naw yn y bore neu naw yn y nos. Nid ydynt yn gwybod am ba hyd y byddant yn gweithio. A'r swyddi dros dro—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Perhaps something we can all agree on is the importance of growing the Welsh economy. We need to look into areas of high skill and high wages. Five sectors that I think are key are universities, ICT, life sciences, professional and financial services, and entertainment, starting with the areas that Welsh Government has made most progress in: life sciences and entertainment. The £100 million Wales life sciences investment fund, into which the Welsh Government has invested up to £50 million, is a key element in the drive to boost business growth, create jobs and raise the profile of this sector internationally. It's the largest dedicated investment fund of its kind of any sector in Wales, with the potential to make a real impact.

Efallai y gallwn gytuno ar bwysigrwydd gwella economi Cymru. Mae angen i ni edrych ar feysydd sgiliau datblygedig a chyflogau uchel. Pum sector y credaf eu bod yn allweddol yw prifysgolion, TGCh, gwyddorau bywyd, gwasanaethau proffesiynol ac ariannol, ac adloniant, gan ddechrau gyda'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y cynnydd mwyaf ynddynt: gwyddorau bywyd ac adloniant. Mae'r gronfa fuddsoddi mewn gwyddorau bywyd gwerth £100 miliwn y buddsoddodd Llywodraeth Cymru hyd at £50 miliwn ynddi yn elfen allweddol yn yr ymgyrch i hybu twf busnesau, creu swyddi a chodi proffil y sector yn rhyngwladol. Dyma'r gronfa fuddsoddi bwrsasol fwyaf o'i bath yn unrhyw sector yng Nghymru, gyda'r potensial i gael effaith wirioneddol.

I welcome the announcement today of £3 million to turn life science research projects into businesses. The sector already employs around 10,000 people in Wales in over 300 companies. Life science businesses can grow very quickly in a global and growing market, and we know the rewards for success are huge. A small number of successful businesses, compared to other sectors, can generate a great deal of economic value for Wales, ensuring that plenty of well-managed equity finance investment in Wales will have a rapid and visible effect. The fund was set up to invest in life sciences and related medical, pharmaceutical and healthcare companies based in Wales, as well as attracting companies from the UK and the rest of the world to Wales.

Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad heddiw o £3 miliwn ar gyfer troi prosiectau ymchwil gwyddorau bywyd yn fusnesau. Mae'r sector eisoes yn cyflogi tua 10,000 o bobl yng Nghymru mewn dros 300 o gwmnïau. Gall busnesau gwyddorau bywyd dyfu'n gyflym iawn mewn marchnad fyd-eang sy'n ehangu, a gwyddom fod gwobrau llwyddiant yn enfawr. Gall nifer fach o fusnesau llwyddiannus gynhyrchu llawer iawn o werth economaidd i Gymru o gymharu â sectorau eraill, gan sicrhau y bydd buddsoddi digon o gyllid ecwiti wedi ei reoli'n dda yng Nghymru yn cael effaith gyflym a gweladwy. Sefydlwyd y gronfa i fuddsoddi mewn gwyddorau bywyd a chwmnïau meddygol, fferyllol a gofal iechyd cysylltiedig wedi'u lleoli yng Nghymru, yn ogystal â denu cwmnïau o'r DU a gweddill y byd i Gymru.



In entertainment, we have the BBC studios in Cardiff, a vibrant animation sector, from 'Superted' to 'Wallace and Gromit', Pinewood Studio Wales that includes 70,000 sq ft of shooting space, including two stages of 20,000 sq ft each and an additional 30,000 sq ft of shooting floor.

Professional financial service is an area of Wales, especially outside Cardiff, that is weak. We need specially developed professional services and to use the flourishing university sector to generate employment in this area. In the 1970s and 1980s, Swansea University was at the forefront of finite element analysis, and yet Wales generated very little benefit from it. Professional services in finance and engineering can generate high salaries and also produce clusters of related activity.

The university sector in Wales has grown substantially in recent years. I am very pleased with the development in SA1 by the University of Wales Trinity St David and on the land at Jersey Marine by Swansea University. We have in Wales at least two world-class universities in Swansea and Cardiff. We need to generate ideas and employment—what technium was meant to do until someone considered it a badge and not a strategy.

Finally, ICT is one industry that is not geographically constrained and that has the ability to generate huge wealth to an area, not just in Silicon valley in California, but around Cambridge University. We know that the ICT sector remains one of our strongest performing priority sectors, delivering average earnings of over £600 a week. Our medium-sized enterprises in the sector continue to perform strongly, with a 92.8% increase in turnover in the last 10 years. But with the quality of ICT graduates being produced in Wales, it has to be a severe disappointment that Wales is so underweight in ICT. I would like to see the same support for ICT as there has been for life sciences. There are lots of good jobs to be created, lots of employment—lots of high-quality employment. Developing an economy is about developing and promoting high-value economic sectors. It's what Ireland did when it was doing well. We will not develop a successful economy and increase GVA on low-paid and seasonal work. What we need is high-quality, highly paid jobs and sectors that work together.

Ym maes adloniant, mae gennym stiwdios y BBC yng Nghaerdydd, sector animeiddio bywiog, o 'Superted' i 'Wallace and Gromit', Stiwdio Pinewood Cymru sy'n cynnwys 70,000 o droedfeddi sgwâr o ofod ffilmio, gan gynnwys dau lwyfan 20,000 troedfedd sgwâr yr un a llawr ffilmio ychwanegol 30,000 o droedfeddi sgwâr.

Mae gwasanaethau ariannol proffesiynol yn faes sy'n wan yng Nghymru, yn enwedig y tu allan i Gaerdydd. Rydym angen gwasanaethau proffesiynol wedi eu datblygu'n arbennig a defnyddio'r sector prifysgolion ffyniannus i greu gwaith yn y maes hwn. Yn y 1970au a'r 1980au, roedd Prifysgol Abertawe ar flaen y gad o ran dadansoddi elfennau cyfyngedig, ac eto ychydig iawn o fudd a gynhyrchodd Cymru o hynny. Gall gwasanaethau proffesiynol ym maes cyllid a pheirianeg gynhyrchu cyflogau uchel a chlystyrau o weithgarwch cysylltiedig hefyd.

Mae'r sector prifysgol yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n falch iawn o'r datblygiadau yn SA1 gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a datblygiadau Prifysgol Abertawe ar y tir yn Jersey Marine. Mae gennym o leiaf ddwy brifysgol o safon byd yng Nghymru, yn Abertawe a Chaerdydd. Mae angen i ni gynhyrchu syniadau a gwaith—sef yr hyn oedd technium i fod i'w wneud nes i rywun ei ystyried yn fathodyn yn hytrach na strategaeth.

Yn olaf, mae TGCh yn un diwydiant nad yw wedi ei gyfyngu yn ddaearyddol ac sydd â'r gallu i gynhyrchu cyfoeth enfawr mewn ardal, nid yn unig yn Silicon Valley yng Nghaliffornia, ond o amgylch Prifysgol Caergrawnt hefyd. Gwyddom fod y sector TGCh yn parhau i fod yn un o'n sectorau â blaenoriaeth sy'n perfformio gryfaf, gan gyflawni enillion cyfartalog o dros £600 yr wythnos. Mae ein mentrau canolig eu maint yn y sector yn parhau i berfformio'n gryf, gyda chynnydd o 92.8% mewn trosiant dros y 10 mlynedd diwethaf. Ond gydag ansawdd y graddedigion TGCh sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, mae'n rhaid ei bod yn siom difrifol fod Cymru mor brin o ran TGCh. Hoffwn weld yr un gefnogaeth i TGCh ag a gafwyd i wyddorau bywyd. Mae llawer o swyddi da i'w creu, llawer o gyflogaeth—llawer o gyflogaeth o ansawdd uchel. Mae datblygu economi yn ymwneud â datblygu a hyrwyddo sectorau economaidd gwerth uchel. Dyna a wnaeth Iwerddon pan oedd yn gwneud yn dda. Ni fyddwn yn datblygu economi lwyddiannus ac yn cynyddu gwerth ychwanegol crynswth drwy swyddi ar gyflog isel a thymhorol. Yr hyn rydym ei angen yw swyddi a sectorau o ansawdd uchel, gyda chyflogau uchel, sy'n gweithio gyda'i gilydd.

I welcome the opportunity to contribute in the debate today, which was so ably opened by my colleague Nick Ramsay, who outlined the economic miracle that the UK is currently seeing. We spent the first two years of this Assembly hearing constantly from the Government benches that they were avidly predicting a triple-dip recession, that unemployment was going to go through the roof and that the ceiling was going to collapse around us, when, in fact, what we are actually seeing are record rates of employment, record rates of company start-ups—in Wales, for example, there were 22,000 company start-ups—1.2 million people have had a tax cut, and 150,000-odd people have been taken out of tax altogether. Looking at these figures, back in 2010, if you'd said that the Government in Westminster would have been able to deliver on the financial legacy that they'd inherited, most people would have taken a sharp intake of breath. Couple that with the confidence that the Government in Westminster has been able to keep the money market onside with, and, today, the Government is able to raise money on the money markets at record rates of low interest—I think about 1.6% or 1.7%—the same rate that Germany and other economies that have had a far stronger economic profile over the years have enjoyed. Again, that shows that the long-term economic plan that has been put in place by the Government in Westminster is delivering for the people of Wales.

I do also though pay tribute to the current Minister, who, from the Welsh Government's perspective, has got to grips with inward investment after many, many years of decline. That decline now has been arrested and has actually turned a corner, albeit it is still pretty anaemic in that we're on about 3.5% or 4% of overall inward investment in the UK, when, historically, we used to enjoy 15% of inward investment in the UK. It is also to be commended that the Welsh Government does proactively now go out and market Wales as a destination for inward investment across the globe, where, historically, especially in the third Assembly, for example, when the One Wales Government was running affairs, there was a huge pull back, especially in the North American market, which is such a critical component to promote Wales in. I think the First Minister issued a statement today, highlighting the number of companies from America that invest in Wales and the level of exports that Wales enjoys. I think that £3 billion was the figure that you used in your statement today.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw, a agorwyd mor fedrus gan fy nghyd-Aelod, Nick Ramsay, a amlinellodd y wyrth economaidd y mae'r DU yn ei gweld ar hyn o bryd. Fe dreulion ni ddwy flynedd gyntaf y Cynulliad hwn yn clywed yn gyson gan feinciau'r Llywodraeth eu bod yn rhagweld dirwasgiad triphlyg, y byddai diweithdra yn mynd drwy'r to a bod y nenfwd yn mynd i gwmpo o gwmpas ein clustiau, a'r hyn a welsom mewn gwirionedd oedd cyfraddau cyflogaeth na welwyd eu cystal erioed, cyfraddau uwch nag erioed o fusnesau newydd yn dechrau—yng Nghymru, er enghraifft, cafwyd 22,000 o fusnesau newydd—1.2 miliwn o bobl yn cael toriad yn eu trethi, a dileu treth yn gyfan gwbl i oddeutu 150,000 o bobl. O edrych ar y ffigurau hyn, yn ôl yn 2010, pe baech wedi dweud y byddai'r Llywodraeth yn San Steffan wedi gallu cyflawni dim yn sgil y sefyllfa ariannol a etifeddwyd ganddynt, byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi synnu'n fawr. Ychwanegwch hynny at yr hyder y mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi gallu ei gadw yn y farchnad arian, a heddiw, gall y Llywodraeth godi arian ar y marchnadoedd arian ar gyfraddau llog is nag erioed—oddeutu 1.6% neu 1.7% rwy'n credu—yr un gyfradd ag a welwyd yn yr Almaen ac economïau eraill sydd wedi bod â phroffil economaidd llawer cryfach dros y blynyddoedd. Unwaith eto, mae hynny'n dangos bod y cynllun economaidd hirdymor a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth yn San Steffan yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

Ond hefyd rwy'n rhoi teyrnged i'r Gweinidog presennol, sydd wedi mynd i'r afael â buddsoddiadau o'r tu allan ar ôl blynyddoedd lawer o ddirywiad, o safbwynt Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd diwedd ar y dirywiad bellach ac mae wedi troi'r gornel mewn gwirionedd, er ei bod yn dal i fod yn eithaf gwan o ran ein bod ar oddeutu 3.5% neu 4% o fewnfuddsoddiad cyffredinol y Deyrnas Unedig, pan arferem ddenu 15% o'r mewnfuddsoddiad yn y DU. Hefyd, dylid canmol Llywodraeth Cymru am fynd ati'n rhagweithiol yn awr i farchnata Cymru fel cyrchfan i fuddsoddiad o bedwar ban byd, ar ôl y tynnu'n ôl enfawr a fu yn hanesyddol, yn enwedig yn y trydydd Cynulliad er enghraifft, pan oedd Llywodraeth Cymru'n Un yn rhedeg pethau, yn enwedig ym marchnad Gogledd America, sy'n elfen mor hanfodol o'r broses o hyrwyddo Cymru. Rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi datganiad heddiw yn tynnu sylw at y nifer o gwmnïau o America sy'n buddsoddi yng Nghymru a lefel yr allforion sydd gan Gymru. Credaf mai £3 biliwn oedd y ffigur a ddefnyddiwyd gennych yn eich datganiad heddiw.

I endorse the sentiments that John Griffiths used, when he spoke earlier in the debate, when he said that the people of Wales benefit best when the two Governments at both sides of the M4 work together—and I mean the whole of Wales, not just south-east Wales, because very often people sometimes think that the economy of Wales is just focused on the south-east of Wales. It is not. We have a huge economic footprint in west Wales, where my colleagues Paul Davies and Angela Burns represent the energy hub that is down in west Wales. In north Wales, there is a huge economic footprint there with Airbus, for example, the tourist industry, the agricultural sector, the energy island and the aspirations that many people hope for Anglesey, as a marker. Then, you have mid Wales, which, ultimately, plays a huge role in plant breeding, for example, in Aberystwyth, and the hosting of the Royal Welsh showground that is such a nucleus for rural enterprise and rural businesses. It really does rely on both Governments working to promote all aspects of Wales.

But to actually move away from what we are looking at, which is an economic picture that has been delivered by a Chancellor who, ultimately, was dealt most probably the toughest cards that any incoming Chancellor has had to face in peacetime, really does a disservice to the economic picture that is unfolding before us. Whilst we all recognise there's a huge amount of work still to do in making sure that the economic conditions that we're enjoying at the moment continue, we really do need to be making sure that we get the benefits of that here in Wales. Ultimately, we need to make sure that the Welsh Government are tuned in to working collaboratively with the UK Government on the promotion of Wales abroad and the promotion of infrastructure, especially major infrastructure projects, around the rail network, for example, but also energy, because, ultimately, all these types of projects do rely on national footprints across the United Kingdom.

And so, it is so pleasing to be able to stand here and paint a positive picture economically for Wales and the United Kingdom. That positive picture has been sketched, has been drawn and has been created by the UK Government and, in particular, the Chancellor, who has marked out the future economically, which is paying down the debt, making work pay, and, ultimately, making the conditions right for inward investment into this country by creating a tax regime that rewards companies that set up here, via corporation tax. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Cefnogaf y sylwadau a wyntyllwyd gan John Griffiths wrth iddo siarad yn gynharach yn y ddadl, pan ddywedodd fod pobl Cymru yn elwa fwyaf pan fo'r ddwy Lywodraeth ar y naill ben a'r llall i'r M4 yn gweithio gyda'i gilydd—ac rwy'n golygu Cymru gyfan, nid de-ddwyrain Cymru'n unig, oherwydd yn aml iawn bydd pobl weithiau'n meddwl bod economi Cymru yn canolbwyntio'n unig ar dde-ddwyrain Cymru. Nid yw hynny'n wir. Mae gennym ôl troed economaidd enfawr yng ngorllewin Cymru, lle y mae fy nghyd-Aelodau Paul Davies ac Angela Burns yn cynrychioli'r canolbwynt ynni i lawr yng ngorllewin Cymru. Yng ngogledd Cymru, ceir ôl troed economaidd enfawr yno gydag Airbus, er enghraifft, y diwydiant twristiaeth, y sector amaethyddol, yr ynys ynni a'r dyheadau y mae llawer o bobl yn obeithiol yn eu cylch ar gyfer Ynys Môn, fel man sy'n dangos y ffordd. Yna, mae gennych y canolbarth, sydd yn y pen draw yn chwarae rhan enfawr yn y maes bridio planhigion, er enghraifft, yn Aberystwyth, a chynnal maes Sioe Frenhinol Cymru sy'n gymaint o gnewyllyn i fentrau gwledig a busnesau gwledig. Mae'n bendant yn dibynnu ar ddwy Lywodraeth yn gweithio i hyrwyddo pob agwedd ar Gymru.

Ond mae symud oddi wrth yr hyn rydym yn edrych arno, sef darlun economaidd a ddarparwyd gan Ganghellor sydd yn y pen draw wedi cael y gyfres anoddaf o amgylchiadau y gallai unrhyw Ganghellor sy'n dod i mewn eu cael mewn cyfnod o heddwch yn ôl pob tebyg, yn gwneud cam â'r darlun economaidd sy'n datblygu o'n blaenau. Er ein bod i gyd yn cydnabod bod llawer iawn o waith yn dal i'w wneud i sicrhau bod yr amodau economaidd rydym yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn parhau, mae gwir angen inni sicrhau ein bod yn cael y manteision yma yng Nghymru. Yn y pen draw, mae angen i ni wneud yn siŵr fod Llywodraeth Cymru yn barod i weithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU er mwyn hyrwyddo Cymru dramor a hyrwyddo seilwaith, yn enwedig prosiectau seilwaith mawr yn ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd, er enghraifft, ac ynni yn ogystal, oherwydd yn y pen draw, mae'r holl fathau hyn o brosiectau yn dibynnu ar olion traed cenedlaethol ar draws y Deyrnas Unedig.

Ac felly, mae mor braf gallu sefyll yma a phaentio darlun cadarnhaol yn economaidd i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r darlun cadarnhaol hwnnw wedi cael ei fraslunio, ei lunio a'i greu gan Lywodraeth y DU ac yn benodol, y Canghellor, sydd wedi cynllunio'r dyfodol yn economaidd, sy'n talu'r ddyled, gan wneud i waith dalu, ac yn y pen draw, gan gynhyrchu'r amodau iawn ar gyfer buddsoddiadau o'r tu allan yn y wlad hon drwy greu cyfundrefn dreth sy'n gwobrwyo cwmnïau sydd wedi ymsefydlu yma, drwy'r dreth gorfforaethol. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

16:32

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, acting Presiding Officer. As a Government, we are committed to ensuring long-term economic growth in Wales. Can I say also, we are a very grown up administration here? We work with whatever administration there is across the border and rules the roost in Westminster in terms of the very positive relationships we've had on issues around UK Trade & Investment, what we're doing in terms of our relations with the Department for Transport, and how we've managed issues like Murco, for instance, collectively, with the UK Government.

While the recent upturn in the UK economy is to be welcomed, it can, of course, be argued that it occurred despite, not because of, UK Government action. In cash terms, the budget deficit has reduced from £153 billion in 2009-10 to £97 billion in 2013-14. However, the UK economy remains sluggish and potentially unbalanced, with exports performing poorly, despite some recent improvements, business investment too weak.

The budget deficit will be at least £90 billion in the current financial year—well over twice as large as the coalition Government targeted when it announced fiscal austerity policies in 2010. So, austerity has not coincided with a decline in the deficit expected by the coalition Government. The overall level of debt, which was £956 billion in 2009-10, will, according to the independent Office for Budget Responsibility, have increased by 56% to £1.5 trillion in the current financial year.

If I can now start to deal with some of the amendments, we will be supporting amendment 1 tabled in the name of Elin Jones, which is, of course, renumbering the order, and, in terms of amendment 2, we will also be supporting it. Can I say the cumulative impact of the UK Government's cuts to the Welsh budget mean that, by 2015-16, there is now £1.5 billion less in our budget for public services than there was in 2010-11? This equates, in real terms, to a reduction in our budget of around 9% over the Assembly term, a 7% real reduction in day-to-day spending for public services, and a 30% real terms reduction in our capital budget.

GDP per head is still below its level before the financial crisis occurred and the recovery in GDP is the weakest on record. The number of unemployed across the UK is higher than it was in 2008 and austerity has contributed to the weakest recovery for a recession on record, proving, as the Welsh Government has long argued, that coalition cutbacks went too far too fast and have been counterproductive. There is no doubt in my mind, when we talk about who we're here to represent, that the most vulnerable people in communities in Wales have borne the impact of fiscal austerity. Changes to the welfare system have reduced incomes by several hundred million pounds, disproportionately affecting residents in communities like Neath Port Talbot, Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil, and, of course, then affecting their local economies.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd dros dro. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau twf economaidd hirdymor yng Nghymru. A gaf fi ddweud hefyd ein bod yn weinyddiaeth aeddfed iawn yma? Rydym yn gweithio gyda pha weinyddiaeth bynnag sydd mewn grym dros y ffin ac sy'n rheoli yn San Steffan o ran y berthynas gadarnhaol iawn a gawsom ar faterion yn ymwneud â Masnach a Buddsoddi y DU, yr hyn rydym yn ei wneud o ran ein perthynas gyda'r Adran Drafndiaeth, a sut rydym wedi rheoli materion fel Murco, er enghraifft, ar y cyd gyda Llywodraeth y DU.

Er bod y cynnydd diweddar yn economi'r DU i'w groesawu, gellid dadlau, wrth gwrs, ei fod wedi digwydd er gwaethaf, nid oherwydd, yr hyn a wnaeth Llywodraeth y DU. Yn nhermau arian, mae'r diffyg yn y gyllideb wedi gostwng o £153 biliwn yn 2009-10 i £97 biliwn yn 2013-14. Fodd bynnag, mae economi'r DU yn parhau i fod yn swrth ac o bosibl yn anghybwys, gydag allforion yn perfformio'n wael, er gwaethaf rhai gwelliannau diweddar, a buddsoddiadau busnes yn rhy wan.

Bydd y diffyg yn y gyllideb yn £90 biliwn fan lleiaf yn y flwyddyn ariannol gyfredol—ymhell dros ddwywaith cymaint â tharged y Llywodraeth glymblaid pan gyhoeddwyd polisiâu caledi ariannol yn 2010. Felly, nid yw caledi wedi arwain at ostyngiad yn y diffyg a ddisgwyliid gan y Llywodraeth glymblaid. Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol, bydd y lefel gyffredinol o ddyled, a oedd yn £956 biliwn yn 2009-10, wedi cynyddu 56% i £1.5 triliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Os caf yn awr ddechrau ymdrin â rhai o'r gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones, sydd wrth gwrs yn newid trefn y rhifau, ac o ran gwelliant 2, byddwn hefyd yn ei gefnogi. A gaf fi ddweud bod effaith gronns toriadau Llywodraeth y DU i gyllideb Cymru yn golygu, erbyn 2015-16, y bydd £1.5 biliwn yn llai bellach yn ein cyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus nag a oedd yn 2010-11? Mae hyn yn cyfateb, mewn termau real, at ostyngiad o tua 9% yn ein cyllideb dros gyfnod y Cynulliad, 7% o ostyngiad real yn y gwariant o ddydd i ddydd ar wasanaethau cyhoeddus, a 30% o ostyngiad mewn termau real yn ein cyllideb gyfalaf.

Mae cynnyrch domestig gros y pen yn dal yn is na'i lefel cyn yr argyfwng ariannol a'r adferiad yn y cynnyrch domestig gros yw'r gwannaf a gofnodwyd erioed. Mae nifer y di-waith ar draws y DU yn uwch nag yr oedd yn 2008, ac mae caledi wedi cyfrannu at yr adferiad gwannaf o ddirwasgiad a gofnodwyd erioed, gan brofi, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers tro, fod toriadau'r glymblaid wedi mynd yn rhy bell yn rhy gyflym ac wedi bod yn wrthgynhyrchiol. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl, pan soniwn am bwy rydym yma i'w cynrychioli, mai'r bobl fwyaf agored i niwed yng nghymunedau Cymru sydd wedi dioddef effaith caledi ariannol. Mae newidiadau i'r system les wedi torri sawl can miliwn o bunnoedd oddi ar incymau, gan effeithio'n anghymesur ar drigolion mewn cymunedau fel Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, ac wrth gwrs, gan effeithio ar eu heconomiâu lleol yn sgil hynny.

If I can turn to the amendments tabled in the name of the Welsh Liberal Democrats, we will be opposing amendment 4. The lowest income 17% of workers will pay no income tax in 2014-15 anyway. A large majority of the giveaway will go to families in the top half of the income distribution or with no-one in work—that's mostly pensioners. Many of the lower income gainers will gain only partially, of course, as their universal credit and/or council tax support will be automatically rejected. Alternative policies, such as reducing national insurance contributions or cutting VAT, would be better targeted. Raising the employees' NIC threshold will be a much better way of supporting the low paid and strengthening their work incentives through the direct tax system. Aligning this threshold with the personal allowance would cut taxes for 1.2 million workers with earnings too low to benefit from the increase in the personal allowance, would benefit only workers, and would simplify the direct tax system.

If we turn now to amendment 5, which we'll also be opposing, we've taken some significant steps to improve the position of business in Wales and the environment in which it operates. The Welsh Government already has a programme of support that identifies and helps to build companies' capacities to export. Since devolution, Wales has experienced the largest increase in exports of any other part of the UK.

If I can turn to some of the other issues, when we look at the latest labour force statistics, they show that, for the 16 to 17-year-old age group, Wales has an unemployment rate of 45.7%, which is an increase of 21.5% over the year; for the 18-to-24 age group, Wales has the fourth highest unemployment rate of the UK countries and English regions, at 16.2%.

In terms of our concerns about zero-hours contracts, in December, I wrote to the Secretary of State for Business, Innovation and Skills about the uncertainty and insecurity in the workplace as a result of the growing casualisation of the workforce that others have referred to. The Wales TUC believes there's evidence that zero-hours contracts are contributing to in-work poverty, particularly in those sectors where pay is relatively low, such as retail, hospitality, entertainment and leisure. Qualification for in-work benefits can be dependent on the number of hours worked, and any variation in that number can lead to delayed payment and hardship for those affected.

We would not want to see the need for flexibility in the labour market achieved through poor employment practices. That's why we are concerned about those issues and concerned about the increase in the number of people who are economically inactive in Wales, especially youth unemployment, and, of course, as I've indicated, zero-hours work, which is turning people into poverty.

Os caf droi at y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4. Ni fydd yr 17% o weithwyr ar yr incwm isaf yn talu unrhyw dreth incwm yn 2014-15 beth bynnag. Bydd y mwyafrif helaeth o'r budd yn mynd i deuluoedd yn hanner uchaf y dosbarthiad incwm neu heb neb mewn gwaith—sef pensïynwyr yn bennaf. Bydd llawer o'r rhai ar incwm isaf fydd ar eu hennill ond yn ennill yn rhannol, wrth gwrs, gan y bydd eu credyd cyffredinol a/neu gymorth y dreth gyngor yn cael ei wrthod yn awtomatig. Byddai polisiau amgen, megis lleihau cyfraniadau yswiriant gwladol neu dorri TAW, yn well o gael eu targedu. Bydd codi trothwy cyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr yn ffordd lawer gwell o gefnogi'r rhai ar gyflog isel a chryfhau eu cymhellion i weithio drwy'r system dreth uniongyrchol. Byddai alinio'r trothwy hwn gyda'r lwfans personol yn torri trethi i 1.2 miliwn o weithwyr ag enillion rhy isel i elwa ar y cynnydd yn y lwfans personol, o fudd i weithwyr yn unig, a byddai'n symleiddio'r system dreth uniongyrchol.

Os trown yn awr at welliant 5 y byddwn yn ei wrthwynebu hefyd, rydym wedi rhoi rhai camau sylweddol ar waith i wella sefyllfa busnes yng Nghymru a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Eisoed, mae gan Lywodraeth Cymru raglen gymorth sy'n nodi ac yn helpu i ddatblygu gallu cwmnïau i allforio. Ers datganoli, mae Cymru wedi profi cynnydd mwy mewn allforion nag unrhyw ran arall o'r DU.

Os caf droi at rai o'r materion eraill, pan fyddwn yn edrych ar ystadegau diweddaraf y gweithlu, maent yn dangos bod gan Gymru gyfradd ddiweithdra o 45.7% ar gyfer y grŵp oedran 16 ac 17 oed sy'n gynnydd o 21.5% dros y flwyddyn; ar gyfer y grŵp oedran 18 i 24, mae Cymru yn y pedwerydd safle o ran cyfradd ddiweithdra uchaf o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, ar 16.2%.

O ran ein pryderon ynghylch contractau dim oriau, ym mis Rhagfyr, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ynglŷn â'r ansicrwydd yn y gweithle oherwydd natur achlysurol gynyddol y gweithlu y cyfeiriodd eraill ati. Mae TUC Cymru yn credu bod tystiolaeth fod contractau dim oriau yn cyfrannu at dlodi mewn gwaith, yn enwedig yn y sectorau hynny lle y mae'r cyflogau'n gymharol isel, megis manwerthu, lletygarwch, adloniant a hamdden. Gall cymhwyster i gael budd-daliadau mewn gwaith fod yn ddibynnol ar nifer yr oriau a weithiwyd, a gall unrhyw amrywiad yn y nifer o oriau arwain at oedi cyn talu a chaledi i'r rhai yr effeithir arnynt.

Ni fyddem am weld yr angen am hyblygrwydd yn y farchnad lafur yn cael ei ateb drwy arferion cyflogaeth gwael. Dyna pam ein bod yn pryderu am y materion hynny ac yn bryderus am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru, yn enwedig diweithdra ymhlith pobl ifanc, ac wrth gwrs, fel y nodais, gwaith ar gontractau dim oriau, sy'n gwrthio pobl i mewn i dlodi.

Now, part of ensuring that we have the right infrastructure in place for business is something that we are doing through our Wales infrastructure investment plan, which drives collaboration, increases visibility, and delivers our strategic capital investment decisions. Infrastructure investment is one of our highest priorities. It provides a much-needed stimulus, creating the conditions for sustainable growth in the medium and longer term. The plan is a key vehicle to deliver strategic capital investments. Against a backdrop of severe cuts to our capital budget, amounting to 30% since 2010, the Welsh Government has continued the economic-stimulus approach to infrastructure development. We've focused on maximising the opportunities and benefits for Welsh infrastructure investment, enabling sustained growth.

Our approach as a Welsh Labour Government has been to mitigate, to shield, and to prioritise our reducing spend to make sure that we target our resources more effectively. In these difficult times, we are continuously seeking new ways to maximise our resources and tap into new sources of funding. Now, despite those constraints, we have delivered more than our fair share of successful projects. As a Government, we need to ensure we make the best-informed decisions in a time of reducing budgets, and the Wales investment plan provides that context. In total, since the publication of the plan in 2012, additional capital allocations and innovative finance initiatives will deliver around £3.6 billion of new investment in the Wales economy, which helps to boost long-term growth and create and support jobs.

We have continued our focus on maximising the opportunities and benefits that Welsh infrastructure investment provides, enabling sustained economic growth. For example, we are making excellent progress on superfast broadband; we've only got to look at the figures on superfast broadband and the issues that we're dealing with. In our national transport plan, on which we're currently out for consultation, we've got a lot of planned future investments that will support the transport system, which helps Wales's economic competitiveness.

I've heard a lot of issues raised today: what we don't like about the enterprise zones, what we don't think is transparent, how we haven't dealt with this, that and the other. The interesting thing is that business has confidence in this Government. I'm not sure that they have such confidence in the party that tabled that resolution in Wales today.

Nawr, mae rhan o'r broses o sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn ei le ar gyfer busnes yn rhywbeth rydym yn ei wneud drwy ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, sy'n ysgogi cydweithio, yn cynyddu gwelededd, ac yn cyflawni ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf strategol. Mae buddsoddi yn y seilwaith yn un o'n blaenoriaethau uchaf. Mae'n darparu ysgogiad mawr ei angen, gan greu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'r cynllun yn gyfrwng allweddol i gyflawni buddsoddiadau cyfalaf strategol. Yn erbyn cefndir o doriadau llym yn ein cyllideb gyfalaf, sef cyfanswm o 30% ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'r dull o ddefnyddio ysgogiad economaidd i ddatblygu seilwaith. Rydym wedi canolbwyntio ar wneud y gorau o'r cyfleoedd a'r manteision i fuddsoddi yn y seilwaith yng Nghymru, gan alluogi twf parhaus.

Ein hymagwedd fel Llywodraeth Lafur Cymru yw lliniaru, gwarchod, a blaenoriaethu ein gwariant gostyngol i wneud yn siŵr ein bod yn targedu ein hadnoddau yn fwy effeithiol. Yn y cyfnod anodd hwn, rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd o wneud y gorau o'n hadnoddau ac yn manteisio ar ffynonellau cyllid newydd. Nawr, er gwaethaf y cyfyngiadau hynny, rydym wedi cyflawni mwy na'n cyfran deg o brosiectau llwyddiannus. Fel Llywodraeth, mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gwybodus gorau ar adeg pan fo cyllidebau'n crebachu ac mae cynllun buddsoddi Cymru'n darparu'r cyd-destun hwnnw. Ers cyhoeddi'r cynllun yn 2012, bydd dyraniadau cyfalaf ychwanegol a mentrau cyllid arloesol yn darparu cyfanswm o tua £3.6 biliwn o fuddsoddiad newydd yn economi Cymru, sy'n helpu i hybu twf hirdymor a chreu a chynnal swyddi.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wneud y gorau o'r cyfleoedd a'r manteision y mae buddsoddi yn seilwaith Cymru yn eu cynnig, gan alluogi twf economaidd cyson. Er enghraifft, rydym yn gwneud cynnydd rhagorol ar y band eang cyflym iawn; nid oes ond angen edrych ar y ffigurau ynglŷn â'r band eang cyflym iawn a'r materion rydym yn delio â hwy. Yn ein cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sy'n destun ymgyngoriad ar hyn o bryd, mae gennym lawer o gynlluniau i fuddsoddi yn y dyfodol i gefnogi'r system drafnidiaeth, sy'n helpu cystadleurwydd economaidd Cymru.

Rwyf wedi clywed llawer o faterion yn cael eu crybwyll heddiw: yr hyn nad ydym yn ei hoffi am yr ardaloedd menter, yr hyn nad ydym yn credu ei fod yn dryloyw, sut nad ydym wedi delio â hyn a'r llall. Y peth diddorol yw bod gan fusnesau hyder yn y Llywodraeth hon. Nid wyf yn siŵr fod ganddynt hyder o'r fath yn y blaid a gyflwynodd y cynnig hwnnw yng Nghymru heddiw.

16:40

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Mark Isherwood to reply to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

Diolch. Well, we heard from Nick Ramsay at the beginning that we've had enough of the bad times. There is good news. The OECD described economic recovery in the UK as remarkable, and George Osborne as deserving a pat on the back; unemployment's down, inflation pressures are down, wages are on the up, and the UK Government long-term economic plan's building a stronger future because this UK Government accepted the challenge of getting the deficit down.

We heard from Alun Ffred Jones that the deficit is not eliminated. Well, of course it hasn't been; there's been a bit of a global economic slowdown, problems in the eurozone, and very worrying troubles on the eastern and southern borders of Europe. You talked about an increase in inequality. In fact, the poverty gap was at its widest in 2006. You talked about a 400% increase in dependence on food banks, but, of course, the availability of food banks has gone up by over 1,000%.

Peter Black referred to 1.2 million people paying less tax than under Labour, and pointed out that millionaires will pay more tax in this UK Government term than during the last term of the UK Labour Government. He pointed out that more women led businesses than ever before, more women are on FTSE boards than ever before, that the gender pay gap is the lowest on record, and women under 40 working full time now earn more than men.

Mohammad Asghar pointed out that Labour left a legacy of financial and social breakdown, that there are now more people in work than ever before, but that Labour-run Wales remains the poorest part of the UK.

John Griffiths rightly pointed out the major role that the cities of Wales can play, and how businesses and local economies can benefit from public-sector procurement policies.

Suzy Davies pointed out that, without a strong and stable economy, public services will suffer, that joblessness is not inevitable, and the UK has the fastest-growing economy in the Western world, which improves life chances for people in Wales, that 25,000 more businesses were now in Wales since 2010, and that, without action taken at the UK level, the Welsh Government would not have the benign conditions in which to exercise its responsibilities for economic development, which refers, of course, to the infrastructure changes in Wales—rail electrification, broadband rollout, Wrexham prison, Wylfa and much else—only happening because of this UK Government.

It says a lot about economic policy since 1945 that George Osborne's pledge to move to a budget surplus in better times should be thought to be so radical. After all, it was central to John Maynard Keynes' theory of smoothing out the economic cycle that Gordon Brown, of course, claimed to have eliminated.

Diolch. Wel, clywsom gan Nick Ramsay ar y dechrau ein bod wedi cael digon ar yr adegau drwg. Mae yna newyddion da. Disgrifiodd yr OECD adferiad economaidd yn y DU fel un rhyfeddol, a George Osborne fel rhywun sy'n haeddu canmoliaeth; mae diweithdra i lawr, mae pwysau chwyddiant i lawr, mae cyflogau'n codi, ac mae cynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU yn adeiladu dyfodol cryfach am fod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr her o ostwng y diffyg.

Clywsom gan Alun Ffred Jones nad oedd y diffyg wedi cael ei ddileu. Wel, wrth gwrs nad yw wedi ei ddileu; cafwyd peth arafu economaidd yn fyd-eang, problemau yn ardal yr ewro, a thrafferthion sy'n destun pryder mawr ar ffiniau dwyreiniol a deheuol Ewrop. Fe sonioch am gynnydd mewn anghydraddoldeb. Yn wir, roedd y bwlc tldi ar ei letaf yn 2006. Fe siaradoch am gynnydd o 400% yn y ddbyniaeth ar fanciau bwyd, ond wrth gwrs, mae argaeledd banciau bwyd wedi cynyddu dros 1,000%.

Cyfeiriodd Peter Black at 1.2 miliwn o bobl yn talu llai o dreth nag o dan Lafur, a nododd y bydd miliwnyddion yn talu mwy o dreth yn nhymor Llywodraeth bresennol y DU nag yn ystod tymor olaf Llywodraeth Lafur y DU. Nododd fod mwy o fusnesau'n cael eu harwain gan fenywod nag erioed o'r blaen, mwy o fenywod ar fyrdau FTSE nag erioed o'r blaen, fod y bwlc cyflog rhwng y rhywiau yn llai nag a gofnodwyd erioed, ac mae menywod o dan 40 sy'n gweithio'n llawn amser bellach yn ennill mwy na dynion.

Nododd Mohammad Asghar fod Llafur wedi gadael etifeddiaeth o fethiant ariannol a chymdeithasol, fod yna bellach fwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen, ond mai Cymru dan arweiniad Llafur yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig.

Roedd John Griffiths yn gywir i nodi'r rôl bwysig y gall dinasoedd Cymru ei chwarae, a sut y gall busnesau ac economïau lleol elwa o bolisiau caffael y sector cyhoeddus.

Tynnodd Suzy Davies sylw at y ffaith y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn dioddef heb economi gref a sefydlog, nad yw diweithdra'n anochel, ac mai gan y DU y mae'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y byd Gorllewinol, sy'n gwella cyfleoedd bywyd i bobl yng Nghymru, fod 25,000 yn fwy o fusnesau bellach yng Nghymru ers 2010, a heb y camau a gymerwyd ar lefel y DU, ni fyddai gan Lywodraeth Cymru yr amodau hawdd sydd ganddi i arfer ei chyfrifoldebau i ddatblygu'r economi, sy'n cyfeirio, wrth gwrs, at y newidiadau i seilwaith yng Nghymru—trydaneiddio rheilffyrdd, cyflwyno band eang, carchar Wrecsam, Wylfa a llawer mwy—nad ydynt ond yn digwydd oherwydd Llywodraeth y DU.

Mae'n dweud llawer am y polisi economaidd ers 1945 fod addewid George Osborne i symud i warged cyllideb mewn amseroedd gwell yn cael ei ystyried mor radical. Wedi'r cyfan, roedd yn ganolog i theori John Maynard Keynes ynghylch llyfnhau'r cylch economaidd yr oedd Gordon Brown, wrth gwrs, yn honni ei fod wedi ei ddileu.

We heard the word 'austerity' a number of times. Austerity is defined as a situation in which there is not much money. It's therefore not a choice but an inheritance. If there's a big deficit, someone else owns you. Without delivering deficit-reduction and then budget surplus, debt will not reduce, bigger cuts will follow, and our children will be condemned to an insecure future.

Mike Hedges welcomed the Welsh Conservatives' support for the living wage. Well, thank you, Mike. Too many, he said, of our new jobs are on short-term guaranteed hours or are only temporary, but, in fact, three quarters of new jobs since the 2010 general election are full time, and the number of people working full time is at 1.4 million across the UK.

Now, Andrew R.T. Davies again referred to record numbers in employment, 150,000 taken out of tax altogether, and the UK Government able to raise money at record low-interest levels—that affects mortgages, that affects borrowing undertaken by Government and households across the UK. He paid tribute to the current Welsh Government over improvement in inward investment, but pointed out that, at 3% to 4% of the UK's share of inward investment, it was still less than a third of the level at its peak, and the need to ensure that the Welsh Government is working collaboratively with the UK Government.

The Minister, Edwina Hart, then pointed out that the Welsh Government remains committed to long-term economic development in Wales. It's unfortunate that it didn't deliver it in the short and medium term following 1999 to recent times.

When the Labour Government left the UK Government in 2010, the country was borrowing over £150 billion a year, unemployment had increased by nearly 0.5 million, Britain had suffered the deepest recession since the war, and it had the biggest structural deficit of any advanced economy. Employment allowance has now been cut, meaning a cut in jobs tax of up to £2,000 for businesses, corporation tax has been cut to attract investment and companies to Britain, 385,000 small firms are paying no business rates in England because of the doubling of rate relief, the annual investment allowance has been doubled to £500,000, and over 99% of businesses will face no upfront tax when they invest in their future. We're increasing the tax relief available to small businesses for research and development.

Since 2010, this UK Government has been turning the UK economy around and last year the UK had the fastest-growing major economy, but the recovery is fragile—

Clywsom y gair 'caledi' nifer o weithiau. Caiff caledi ei ddiffinio fel sefyllfa lle nad oes llawer o arian. Felly, nid yw'n ddewis, ond yn etifeddiaeth. Os oes diffyg mawr, mae rhywun arall yn berchen arnoch. Heb lwyddo i leihau diffyg a gwarged cyllideb wedyn, ni fydd dyled yn lleihau, bydd toriadau mwy yn dilyn, a bydd ein plant yn cael eu condemnio i ddyfodol ansicr.

Croesawodd Mike Hedges gefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig i'r cyflog byw. Wel, diolch i chi, Mike. Dywedodd fod gormod o'n swyddi newydd ar oriau byr gwarantedig neu dros dro yn unig, ond mewn gwirionedd, mae tri chwarter y swyddi newydd ers etholiad cyffredinol 2010 yn rhai llawn amser, ac mae nifer y bobl sy'n gweithio'n llawn amser yn 1.4 miliwn ledled y DU.

Nawr, unwaith eto cyfeiriodd Andrew R.T. Davies at niferoedd uwch nag erioed mewn gwaith, dileu treth yn gyfan gwbl i 150,000 o bobl, ac at y ffaith fod Llywodraeth y DU yn gallu codi arian ar lefelau llog is nag erioed—sy'n effeithio ar forgeisi, sy'n effeithio ar fenthycia a wneir gan y Llywodraeth ac aelwydydd ar draws y DU. Rhoddodd deyrnged i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd am wella buddsoddi o'r tu allan, ond nododd fod cyfran y DU o fewnfuddsoddiad, ar 3% i 4% o gyfran y DU, yn dal i fod yn llai na thraean y lefel ar ei hanterth, a'r angen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU.

Wedyn, nododd y Gweinidog, Edwina Hart, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddatblygiad economaidd hirdymor yng Nghymru. Mae'n anffodus na chyflawnodd yn y tymor byr a'r tymor canolig wedi 1999 hyd at y cyfnod diweddar.

Pan adawodd Llafur Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2010, roedd y wlad yn benthycia dros £150 biliwn y flwyddyn, roedd diweithdra wedi cynyddu bron i 0.5 miliwn, roedd Prydain wedi dioddef y dirwasgiad gwaethaf ers y rhyfel, ac roedd ganddi'r diffyg strwythurol mwyaf o blith unrhyw economi ddatblygedig. Mae lwfans cyflogaeth bellach wedi cael ei dorri, sy'n golygu toriad yn nhreth swyddi o hyd at £2,000 i fusnesau, mae'r dreth gorfforaeth wedi cael ei thorri i ddenu buddsoddiadau a chwmnïau i Brydain, nid yw 385,000 o gwmnïau bach yn talu unrhyw ardrethi busnes yn Lloegr yn sgil dyblu'r gyfradd rhyddhad, mae'r lwfans buddsoddi blynyddol wedi dyblu i £500,000, ac ni fydd dros 99% o fusnesau yn wynebu unrhyw dreth ymlaen llaw pan fyddant yn buddsoddi yn eu dyfodol. Rydym yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth ar gyfer ymchwil a datblygu i fusnesau bach.

Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gwrthdroi economi'r DU a'r llynedd, y DU oedd â'r economi fawr sy'n tyfu gyflymaf, ond mae'r adferiad yn fregus—

16:46 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wind up, please.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:46 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We mustn't jeopardise that with a return to the problems that got us into this place in the first place of borrowing, spending, more debt, bail-out, and bigger, bigger cuts.

Diolch yn fawr. Rhaid i ni beidio â pheryglu hynny â dychwelyd at y problemau a'n harweiniodd i'r fan hon yn y lle cyntaf, sef benthycia, gwario, mwy o dyled, achub croen y banciau, a thoriadau mwy o faint o hyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



16:46

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## 8. Dadl Plaid Cymru: Datganoli

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

16:46

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the Plaid Cymru debate. I call on Leanne Wood to move the motion.

Cynnig NDM5710 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu na ddylai lefel Cymru o hunanlywodraeth fod yn is nag unrhyw ran arall o'r DU;
2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni cydraddoldeb o ran pwerau a pharch i Gymru yn ystod ei thaliadaeth;
3. Yn galw am gydraddoldeb llawn o ran pwerau a chyllid ar gyfer Cymru a'r Alban;
4. Yn galw am drosglwyddo cyfrifoldeb am gyfansoddiad Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Fil ymreolaeth newydd;
5. Yn nodi y dylai'r Bil ymreolaeth gynnwys datganoli'r cyfrifoldeb dros adnoddau naturiol Cymru yn llawn;
6. Yn galw ymhellach am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a datganoli plismona, carchardai, llysoedd a chyfiawnder troseddol; a
7. Yn credu y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y grym i gefnogi'r rhai sydd angen diogelwch cymdeithasol drwy bwerau cynyddol mewn perthynas â budd-daliadau lles fel yr argymhellodd y Comisiwn Smith i'r Alban.

*Cynigiwyd y cynnig.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

## 8. Plaid Cymru Debate: Devolution

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendment 3 in the name of Paul Davies. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Eitem 8 yw dadl Plaid Cymru. Galwaf ar Leanne Wood i gynnis y cynnig.

Motion NDM5710 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that Wales's level of self-government should not be secondary to any other part of the UK;
2. Regrets that the UK Government has failed to deliver equality of powers and esteem for Wales during its tenure;
3. Calls for full parity of powers and funding for Wales with Scotland;
4. Calls for the transfer of responsibility for Wales's constitution to the National Assembly for Wales through a new home rule Bill;
5. Asserts that the home rule Bill should include the full devolution of responsibility of Wales's natural resources;
6. Further calls for the creation of a Welsh legal jurisdiction and the devolution of policing, prisons, courts and criminal justice; and
7. Believes that the National Assembly for Wales should be empowered to support those requiring social protection through increased powers on welfare benefits as recommended by the Smith Commission for Scotland.

*Motion moved.*

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

I doubt that when the former Secretary of State for Wales, Ron Davies, made the claim that devolution was a process not an event that he quite imagined that the pace and speed of that process would be so arduous and so unnecessarily lacking in momentum.

That we are a nation is beyond debate now. That we be treated as a nation is, sadly, still a topic for discussion. Last Friday, the UK Government published its command paper. They tell us that it lays the foundations for further devolution. Plaid Cymru disagrees. The command paper published was a sad reflection on the London parties, all three of whom are in Government on one end of the M4 or another, and all of whom could have made the whole process a race to the top for Wales, but, instead, created excuses for why Wales should be subjected to a devolution package that is not worthy of an English shire, let alone a nation.

I want to outline to Members this afternoon the four broad principles that have guided Plaid Cymru throughout the latest multiparty talks, and how the outcomes fall far short of not only our hopes for the country, but the expectations of the people here, too.

Firstly, we sought action on the cross-party motion that was agreed by all parties in this Chamber—all parties of this democratically elected National Assembly for Wales—and, secondly, that the recommendations of both Silk reports, both reports, be implemented in full. All parties here have participated in, and signed up to, the Silk package in full. It was a lengthy process, a process where all parties, including Plaid Cymru, demonstrated a willingness to compromise and to meet others halfway. Since its publication, others have rowed back on it, and that row-back has, sadly, been confirmed in the command paper that was published last week.

Thirdly, the recommendations made by the Smith report in relation to Scotland should also be applied to Wales. It's telling that, while the debate on further devolution in Wales was being rowed back to below Silk levels, in Scotland, the going rate for devolution in the UK is being increased. Plaid Cymru has been consistent in arguing that whatever the going rate for devolution is in the UK, then that is the minimum that Wales should expect. It's not good enough to say that we want powers offered to others to be offered to us. We must make it explicit that we want parity for our country, not just the offer of it.

Fourthly, it's been more than a year since I called for a serious reform of UK-wide institutions to reflect the multinational character of the British state and the sovereignty of the people. I was pleased that the Smith report made recommendations on how intergovernmental bodies at a UK level could be reformed to accommodate the voices of the nations and their democratically elected Governments. I maintain that the old mindset of Westminster being sovereign is well past its sell-by date. The peoples of these islands are sovereign.

Pan honnodd cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ron Davies, mai proses oedd datganoli nid digwyddiad, rwy'n amau na ddychmygodd y byddai cyflymder y broses honno mor llafurus ac mor ddiangen o brin o fomentwm.

Nid oes unrhyw ddadl ein bod yn genedl bellach. Ond yn anffodus, mae a ydym yn mynd i gael ein trin fel cenedl yn dal i fod yn destun trafod. Ddydd Gwener diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bapur gorchymyn. Maent yn dweud wrthym ei fod yn gosod y sylfeini ar gyfer datganoli pellach. Mae Plaid Cymru yn anghytuno. Roedd y papur gorchymyn a gyhoeddwyd yn adlewyrchiad trist o bleidiau Llundain, y tair ohonynt yn y Llywodraeth ar y naill ben neu'r llall i'r M4, a gallai pob un ohonynt fod wedi gwneud yr holl broses yn ras i'r copa ar gyfer Cymru, ond yn lle hynny, aethant ati i greu esgusodion pam y dylai Cymru fod yn destun pecyn datganoli nad yw'n deilwng o sir yn Lloegr, heb sôn am genedl.

Rwyf am amlinellu i'r Aelodau y prynhawn yma y pedair egwyddor gyffredinol sydd wedi tywys Plaid Cymru drwy gydol y trafodaethau amlbleidiol diweddaraf, a sut y mae'r canlyniadau ymhell o'n gobeithion ni ar gyfer y wlad, ac ymhell o ddisgwyliadau'r bobl yma, hefyd.

Yn gyntaf, roeddem am weld gweithredu ar y cynnig trawsbleidiol y cytunodd pob plaid arno yn y Siambr hon—pob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd—ac yn ail, roeddem am weld argymhellion y ddau adroddiad Silk, y ddau adroddiad, yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae pob plaid yma wedi ymwneud â phegyn Silk ac wedi ymrwymo'n llawn iddo. Roedd yn broses hir, proses lle y dangosodd pob plaid, gan gynnwys Plaid Cymru, barodrwydd i gyfaddawdu ac i gwrdd â phobl eraill hanner ffordd. Ers ei gyhoeddi, mae eraill wedi tynnu'n ôl oddi wrtho, ac yn anffodus, cadarnhawyd y tynnu'n ôl yn y papur gorchymyn a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf.

Yn drydydd, dylai'r argymhellion a wnaed gan adroddiad Smith mewn perthynas â'r Alban fod yn berthnasol i Gymru hefyd. Tra oedd y ddadl ar ddatganoli pellach yng Nghymru yn cael ei thynnu'n ôl i lefelau is na Silk, mae'n dweud llawer fod y gyfradd gyfredol ar gyfer datganoli yn y DU yn cael ei chodi yn yr Alban. Mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson yn ei dadl mai beth bynnag yw'r gyfradd gyfredol ar gyfer datganoli yn y DU yw'r lleiaf y dylai Cymru ei ddisgwyl. Nid yw'n ddigon da dweud ein bod am i bwerau sy'n cael eu cynnig i eraill gael eu cynnig i ni. Rhaid i ni ei gwneud yn glir ein bod am gael cydraddoldeb i'n gwlad, nid cael ei gynnis yn unig.

Yn bedwerydd, aeth dros flwyddyn heibio ers i mi alw am ddiwygio sefydliadau ledled y DU o ddirif er mwyn adlewyrchu cymeriad amlwladol y wladwriaeth Brydeinig a sofraniaeth y bobl. Roeddwn yn falch fod adroddiad Smith wedi gwneud argymhellion ynglŷn â sut y gellid diwygio cyrff rhynglywodraethol ar lefel y DU i ddarparu ar gyfer lleisiau'r cenhedloedd a'u Llywodraethau a etholwyd yn ddemocrataidd. Rwy'n honni bod hen feddylfryd ynghylch sofraniaeth San Steffan wedi hen basio'i ddyddiad gwerthu. Mae pobloedd yr ynysoedd hyn yn sofran.

And so, I reiterate today Plaid Cymru's view that, by transforming the joint ministerial committee into a proper UK council of Ministers, representative of all Governments in the UK, we could have the framework that would give all nations a voice in UK-wide matters, including reserved matters. That new body could also accommodate divergence in areas where there is no disagreement, as well as facilitating co-operation in important areas where there is agreement.

On all four of the broad themes I've outlined, I've not heard once—not once—a compelling argument against this pragmatic and fair position. Plaid Cymru is, of course, ambitious for Wales. It's the very reason for our existence. Our long-term aim is for the people of Wales to decide whether or not to become an independent country. But we are democrats, and we recognise that the people of Wales do not want that debate yet. We have more work to do before we can get to that point. What the people of Wales want in the immediate term is equality with our neighbours. I fail to understand why those parties who purport to cherish the union would seek a constitutional process where Wales is denied equality within it. But that is something that you will have to justify to the people of Wales for yourselves. People in Wales can be clear that the Party of Wales seeks to lift the bar on our national ambitions, not lower it to levels unworthy of this great country of ours.

Ac felly, rwy'n ailadrodd barn Plaid Cymru heddiw y gallem, drwy drawsnewid y pwyllgor gweinidogol ar y cyd yn gyngor priodol o Weinidogion y DU i gynrychioli pob Llywodraeth yn y DU, sicrhau'r fframwaith a fyddai'n rhoi llais i bob cenedl ym materion y DU, gan gynnwys materion a gadwyd yn ôl. Hefyd, gallai'r corff newydd ddarparu ar gyfer gwahaniaethau mewn meysydd lle na cheir anghytundeb, yn ogystal â hwyluso cydweithio mewn meysydd pwysig lle y ceir cytundeb.

Ar bob un o'r pedair thema fras a amlinellais, ni chlywais unwaith—ddim unwaith—ddadl rymus yn erbyn safbwynt pragmatig a theg o'r fath. Wrth gwrs, mae Plaid Cymru yn uchelgeisiol dros Gymru. Dyna'r union reswm dros ein bodolaeth. Ein nod hirdymor yw i bobl Cymru benderfynu a ydynt am inni ddod yn wlad annibynnol. Ond rydym yn ddemocratiaid, ac rydym yn cydnabod nad yw pobl Cymru eisiau'r ddadl honno eto. Mae gennym fwy o waith i'w wneud cyn y gallwn gyrraedd y pwynt hwnnw. Yr hyn y mae pobl Cymru am ei gael yn y tymor byr yw cydraddoldeb â'n cymdogion. Ni allaf ddeall pam y byddai pleidiau sy'n honni eu bod yn ystyried yr undeb yn annwyl yn deisyfu proses gyfansoddiadol lle nad yw Cymru yn cael cydraddoldeb o'i fewn. Ond mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i chi ei gyfiawnhau i bobl Cymru drosoch eich hunain. Gall pobl yng Nghymru fod yn glir fod Plaid Cymru yn ceisio ymestyn ein uchelgeisiau cenedlaethol, yn hytrach na'u cyfyngu i lefelau sy'n annheilwng o'n gwlad wych ni.

16:52

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Presiding Officer has selected the three amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Aled Roberts to move amendment 1, tabled in his name.

### *Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*1. Yn croesawu'r camau sylweddol a gymerwyd ymlaen mewn perthynas â'r setliad datganoli i Gymru ers 2010, gan gynnwys:*

*a) refferendwm ar bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;*

*b) sefydlu Comisiwn Silk;*

*c) cyflwyno Deddf Cymru 2014, sydd wedi datganoli treth stamp, trethi busnes a threth tirlenwi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a darparu ar gyfer refferendwm ar a ddyliad datganoli elfen o dreth incwm.*

*2. Yn croesawu'r cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi sy'n cynnig:*

Mae'r Llywydd wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Aled Roberts i gynnis gwelliant 1, a gyflwynwyd yn ei enw.

### *Amendment 1—Aled Roberts*

*Delete all and replace with:*

*1. Welcomes the substantial steps forward in the devolution settlement for Wales taken since 2010 including:*

*a) a referendum on law-making powers for the National Assembly for Wales;*

*b) the establishment of the Silk Commission;*

*c) the delivery of the Wales Act 2014 which has devolved stamp duty, business rates and landfill tax to the National Assembly for Wales and provided for a referendum on whether an element of income tax should be devolved.*

*2. Welcomes the St. David's Day announcement which proposes:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

<i>a) datganoli'r cyfrifoldeb dros bob caniatâd cynllunio i ddatblygiadau prosiectau ynni hyd at 350 MW ar y tir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru;</i>	<i>a) devolving the responsibility for all energy planning development consents for projects up to 350 MW onshore and in Welsh territorial waters;</i>
<i>b) datganoli terfynau cyflymder, rheoliadau bws a thacsi, a swyddogaethau'r Comisiynydd Traffig;</i>	<i>b) devolving speed limits, bus and taxi regulations, and the functions of the Traffic Commissioner;</i>
<i>c) cyflwyno model cadw pwerau;</i>	<i>c) introducing a Reserved Powers model;</i>
<i>d) datganoli datblygu porthladdoedd;</i>	<i>d) devolving port development;</i>
<i>e) datganoli pwerau yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol;</i>	<i>e) devolving powers relating to Assembly and local government elections;</i>
<i>f) datganoli cymhwysedd dros ddyletswyddau cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig; a</i>	<i>f) devolving competence over equality duties for devolved public sector; and</i>
<i>g) datganoli trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir yng Nghymru.</i>	<i>g) devolving the licensing of onshore oil and gas extraction in Wales.</i>
<i>3. Yn credu bod yn rhaid inni fynd ymhellach i sicrhau ymreolaeth i Gymru ac yn galw am:</i>	<i>3. Believes that we must go further in securing Home Rule for Wales and calls for:</i>
<i>a) datganoli'n llawn y cynigion Silk Rhan 1 sy'n weddill ar bwerau ariannol i Gymru;</i>	<i>a) full devolution of the remaining Silk Part 1 proposals on financial powers for Wales;</i>
<i>b) datganoli'n llawn y cynigion Silk Rhan 2 sy'n weddill ar bwerau deddfwriaethol i Gymru;</i>	<i>b) full devolution of the remaining Silk Part 2 proposals on legislative powers for Wales;</i>
<i>c) datganoli cyllid Network Rail mewn perthynas â rhwydwaith Cymru;</i>	<i>c) the devolution of funding of Network Rail in relation to the Wales network;</i>
<i>d) datganoli terfynau yfed a gyrru;</i>	<i>d) the devolution of drink drive limits;</i>
<i>e) datganoli'r cyfrifoldeb dros ariannu gwariant cyhoeddus ar S4C i'r Cynulliad;</i>	<i>e) devolution of the responsibility for funding public expenditure to S4C to the Assembly;</i>
<i>f) datganoli cyfiawnder ieuencid, plismona a phwerau cyfiawnder eraill yn y tymor hwy;</i>	<i>f) the devolution of youth justice, policing and in the longer term other justice powers;</i>
<i>g) trosglwyddo pwerau i reoli asedau economaidd Ystâd y Goron;</i>	<i>g) the transferral of powers to manage the Crown Estate's economic assets;</i>
<i>h) trosglwyddo rheolaeth dros ystod o fuddion ar gyfer pobl hŷn, gofalwyr a phobl anabl;</i>	<i>h) the transferral of control over a range of benefits for older people, carers and disabled people;</i>
<i>i) datganoli pwerau i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau cenedlaethol a lleol Cymru;</i>	<i>i) the devolution of powers to lower the voting age to 16 in Welsh national and local elections;</i>
<i>j) rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru osod ei gwyliau banc ei hun; a</i>	<i>j) the Welsh Government to be allowed to set its own bank holidays; and</i>
<i>k) rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Plant Cymru archwilio materion sy'n effeithio ar blant yng Nghymru ond nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru.</i>	<i>k) the Children's Commissioner for Wales to be given the power to examine issues that affect children in Wales but are not within the control of the Welsh Government.</i>
<i>4. Yn galw am sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar draws y DU i ddrafftio cynllun ar gyfer undeb newydd.</i>	<i>4. Calls for the establishment of a UK-wide constitutional convention to draft a plan for a new union.</i>

16:52

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch, Gadeirydd. Rwyf yn cynnig gwelliant 1 yn ffurfiol. Rwy'n diolch i Blaid Cymru yn y lle cyntaf ein bod ni'n cael cyfle i drafod y sefyllfa ar ôl y datganiad a wnaethpwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi. Yn amlwg, rydym ni, fel plaid, wedi cefnogi camau sy'n cael eu cymryd o ran datganoli, ac mi fuaswn i'n cytuno mai proses ydy hyn. Nid wy'n meddwl, erbyn hyn, fod unrhyw un yn credu bod y datganiad a wnaethpwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi yn ddiwedd ar y stori.

Nid wyf i'n gweld fy hun, yn bersonol—a dyma safbwynt fy mhlaid i hefyd—fod Cymru yn wahanol i'r Alban yn hynny o beth. Rwy'n cytuno y dylai fod yr un pwerau yn cael eu cynnig ac yn cael eu derbyn yng Nghymru yn y lle cyntaf. Nid wy'n fodlon efo sefyllfa lle, am ryw reswm, mae Cymru wastad ar ei hôl hi o ran y pwerau sy'n cael eu datganoli. Roedd y cynllun gwreiddiol yn ddiffygiol ac rwy'n credu ein bod ni'n creu sefyllfa lle mae'r cynllun yna yn parhau. Fel y mae Kirsty Williams eisoes wedi'i ddweud mewn nifer o achosion ac ar nifer o achlysuron, yn y pen draw, beth rwy'n teimlo y mae'n rhaid inni ei wneud yw symud i sefyllfa lle rydym ni'n creu cyfundrefn ffederal yn y Deyrnas Gyfunol. Ond, yn amlwg, mae yna rai sydd ddim yn cytuno efo hynny. Beth mae'n rhaid inni ei wneud ydy creu sefyllfa—. Rwyf hefyd yn gwrandao ar beth yr ydych wedi'i ddweud ynglŷn â chyngor o Weinidogion, ond, yn y pen draw, y broblem fwyaf sydd gennym ni yw bod San Steffan ar hyn o bryd yn dal i gael ei redeg fel Senedd ar ran ynysoedd Prydain. Rwy'n meddwl, fel mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud eisoes, fod yna wir gwestiwn yma ynglŷn â sut y mae pobl Lloegr yn cael eu rheoli, o achos dyna'r mater sy'n cael ei roi i un ochr. Rwy'n meddwl bod yna ofyn ar Aelodau Seneddol ym mhob plaid dderbyn y sefyllfa fod diwrnod yr hen gyfundrefn yn San Steffan, erbyn hyn, ar ben.

Mae gan fy mhlaid i hanes o ymladd dros ddatganoli, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Beth sydd angen inni ei wneud, wrth gwrs, ydy datgan yn glir—ac mi fyddwn ni'n gwneud hynny fel plaid, yn fewnol ac o fewn y ddaid wleidyddol sy'n cymryd lle—nad ydym ni'n fodlon efo'r setliad. Ond, yn anffodus, y broses y cytunwyd arni hi oedd bod yn rhaid, i ryw raddau, i'r isafswm gael ei dderbyn fel y ffordd yr ydym ni'n symud ymlaen. Ac rwyf yn meddwl bod angen inni i gyd ddatgan yma ein bod ni yn awyddus i weld holl bwerau Silk, 1 a 2, yn cael eu trosglwyddo.

Rwyf hefyd yn meddwl bod yna angen inni ddeall yn union pam mae'r Llywodraeth, neu blaid y Llywodraeth yma, yn creu sefyllfa lle mae eu polisiau nhw yn yr Alban yn wahanol i'w polisiau nhw yma yng Nghymru. Mae Jim Murphy wedi dweud, er enghraifft, ei fod o'n awyddus iawn i weld pwerau llawn dros y dreth incwm yn cael eu cyflawni. Rwy'n gwybod bod yna bwynt wedi cael ei wneud gan y Prif Weinidog ei fod o'n awyddus i weld yn union sut mae llawr Barnett yn cael ei weithredu, ond rwy'n meddwl bod angen inni weld beth ydy safbwynt y Llywodraeth wrth symud ymlaen ac a ydy'r Prif Weinidog yn barod i ddatgan rhyw fath o amserlen os ydy o'n gweld sefyllfa lle mae'r llawr yn rhoi'r sicrwydd yna.

Thank you, Chair. I move amendment 1 formally. I thank Plaid Cymru, first of all, for giving us an opportunity to discuss the situation following the St David's Day announcement. Clearly, we, as a party, have supported the steps taken in terms of devolution, and I would agree that this is a process. I don't think that anyone now believes that the statement made on St David's Day is the end of the story.

I, personally—and this is also the view of my party—don't see that Wales is any different to Scotland. I agree that the same powers should be offered to Wales and accepted by Wales. I'm not content with a situation where, for some reason, Wales is always lagging behind in terms of the powers devolved. The original plan was deficient, and I think that we are creating a situation now where that is being perpetuated. As Kirsty Williams has already stated on a number of occasions, ultimately, I believe that what we must do is to move to a situation where we create a federal system within the United Kingdom. But, clearly, there are some who disagree with that proposal. What we have to do is create a situation—. I also heard what you said about a council of Ministers, but, ultimately, the main problem we have is that Westminster at present is still run as a Parliament for the British Isles. As the First Minister has already said, there is a real question here about how the people of England are governed, because that is the matter that has been pushed to one side. I think that there is a requirement on Members of Parliament from all parties to accept that the old Westminster regime is now a thing of the past.

My party has a history of fighting for devolution, and we will continue to do so. What we must do, of course, is to state clearly—and we will as a party be doing that both internally and within the wider political discourse—that we are not content with the current settlement. But, unfortunately, the process agreed upon was that, to some extent, the minimum would have to be accepted as a means for us to progress. And I do think that we must all state here that we are eager to see all the Silk proposals, from parts 1 and 2, devolved to this place.

I also think that there is a need for us to understand exactly why the Government, or the governing party here, is creating a situation where their policies in Scotland differ to their policies here in Wales. Jim Murphy has said, for example, that he is very eager to see the devolution of all powers over income tax. I know that a point was made by the First Minister that he is eager to see exactly how the Barnett floor is to be implemented, but I do think that we need to see what the Government's stance is on progressing this issue and whether the First Minister is willing to announce some sort of timetable if he does see the floor providing that assurance.

Y rheswm yr ydym ni wedi rhoi'r holl gynigion o ran pwerau yr ydym ni eisiau eu gweld yn cael eu datganoli ydy, rwy'n meddwl, fod yna angen inni wthio ymlaen ynglŷn â beth yn union sydd wedi cael ei adael allan o'r datganiad yma ar Ddydd Gŵyl Dewi. Rydym ni'n credu y dylai fod holl bwerau Cymru yn cael eu penderfynu gan y lle yma, gan bobl sydd wedi cael eu hethol gan bobl Cymru yn y pen draw. Nid wy'n credu y dylem ni fel gwlad dderbyn unrhyw fath o arafwch o'i gymharu â'r Alban; rwy'n meddwl bod hynny yn creu sefyllfa lle mae yna gwestiynau yn codi ynglŷn â holl bwrpas y Deyrnas Gyfunol. Felly, rwy'n meddwl bod ein gwelliant ni heddiw yn creu llwybr, yn creu patrwm o ran beth yr ydym ni'n awyddus i'w weld. Yn amlwg, nid ydym ni'n mynd cyn belled â Phlaid Cymru a dweud mai diwedd y daith o'n rhan ni ydy annibyniaeth, ond heblaw bod San Steffan yn ymateb i wir obeithion pobl Cymru, rwyf yn credu y bydd yna sefyllfa yn datblygu lle mae mwyafrif o bobl Cymru yn gofyn cwestiynau ynglŷn ag ai dyna ddiwedd y daith, o achos y bydden nhw'n dweud bod angen i'r holl bleidiau sy'n cael eu cynrychioli yn y lle yma ddweud mai yma y dylai'r penderfyniadau gael eu gwneud.

The reason we have tabled all these proposals in terms of the powers that we want to see devolved is because I do think that we need to push this process forward and address the issues that have been omitted from the St David's Day announcement. We believe that all powers for Wales should be determined by this place, by people who have been elected by the people of Wales, ultimately. I don't think that we as a nation should accept any dragging of feet compared with Scotland; I think that that creates a situation where questions are raised about the whole purpose of the United Kingdom. Therefore, I think that our amendment today creates a pathway, creates a methodology in terms of what we want to see. Clearly, we don't go as far as Plaid Cymru and say that the end of the journey is independence, but, unless Westminster responds to the aspirations of the people of Wales, I think that a situation will develop where the majority of the people of Wales will be asking questions as to whether that is the end of the journey, because they will say that all parties represented in this place will need to say that decisions should be taken in this place.

16:57

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the First Minister to move formally amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*1. Yn nodi cynnig y Cynulliad, a gefnogwyd gan bob plaid a'i gymeradwyo ar 22 Hydref 2014, sy'n amlinellu ei ddyheadau ar gyfer dyfodol datganoli yng Nghymru;*

*2. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Papur Gorchymyn sy'n amlinellu ein cynigion ar gyfer camau nesaf datganoli;*

*3. Yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud o safbwynt rhai o'r dyheadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad ar gyfer datganoli, gan gynnwys model cadw pwerau i Gymru, a phwerau newydd i'r Cynulliad ar drafndiaeth, adnoddau naturiol ac etholiadau;*

*4. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y dylai Cymru gael setliad cyllido tecach, ond yn mynegi siom nad yw hyn yn mynd yn ddigon pell i fodloni cais unfrydol gan y Cynulliad i Lywodraeth y DU ymrwymo i ddull penodedig o atal rhagor o gydgyfeirio.*

*5. Yn mynegi siom ynghylch y diffyg cynnydd o ran datganoli pwerau eraill a argymhellwyd gan Gomisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru: a*

*6. Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i roi sylw i'r materion hyn sy'n weddill yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

Galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig yn ffurfiol gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*1. Notes the Assembly's resolution, supported by all parties and approved on 22 October 2014, setting out its aspirations for the future of devolution in Wales;*

*2. Notes the publication by the UK Government of a Command Paper setting out proposals for the next stages of devolution;*

*3. Recognises that progress has been made against some of the Assembly's agreed aspirations for devolution, including a reserved powers model for Wales, and new powers for the Assembly on transport, natural resources and elections;*

*4. Welcomes the recognition by the UK Government that Wales should have a fairer funding settlement, but expresses disappointment that this falls short of the Assembly's unanimous request for the UK Government to commit to a specific mechanism to stop further convergence.*

*5. Expresses disappointment about the lack of progress on devolving other powers recommended by the UK Government's Commission on Devolution in Wales; and*

*6. Calls on the next UK Government to address these outstanding matters following the UK General Election.*

*Amendment 2 moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:57	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>  Yn ffurfiol, Lywydd dros dro.</p>	Formally, acting Deputy Presiding Officer.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:57	<p><b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.</p> <p><i>Gwelliant 3—Paul Davies</i></p> <p><i>Dileu pob dim a rhoi yn ei le:</i></p> <p><i>Yn croesawu'r newidiadau cyfansoddiadol sylweddol sydd wedi digwydd i setliad datganoli Cymru ers 2010 ac yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i anrhydeddu y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi trawsbleidiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU.</i></p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 3.</i></p>	Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnis gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		<i>Amendment 3—Paul Davies</i>	
		<i>Delete all and replace with:</i>	
		<i>Welcomes the major constitutional changes which have taken place to the Welsh devolution settlement since 2010 and calls upon the next UK Government to honour the cross-party St David's Day agreement recently announced by the UK Prime Minister and Deputy Prime Minister.</i>	
		<i>Amendment 3 moved.</i>	
16:57	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to contribute to this debate and I formally move amendment 3 in the name of my colleague, Paul Davies.</p> <p>Another constitutional debate, another day in the Assembly, and, obviously, it has been a matter of fixation for some politicians, but pretty much irrelevant to many people outside of this institution—and that is a fact. What we should be dealing with here is now making sure that the St David's Day process does go forward, enjoying the endorsement it should enjoy from all the parties that did sign up to it, and to offer no wriggle room at all for whoever wins the election—and, as I said yesterday at the First Minister's statement, I very much hope that it's a Conservative majority Government and that it will be a Conservative majority Government that will deliver what is in the St David's Day proposals.</p> <p>As I said yesterday in the statement that the First Minister brought before the Chamber, who, in 2010, would've thought we would be where we are today, with the constitutional landscape and settlement that is being offered around the United Kingdom? One thing on which I agree entirely with all parties that have made the point today, but I was making it some years ago, was the issue of English devolution and the ability for England to decide exactly how, in the reconfigured United Kingdom—with the enhanced powers that the Scottish Parliament is having, with the enhanced powers that Stormont has got and, obviously, since Silk 1 and now Silk 2, and the St David's Day agreement coming together, and, hopefully, not long after the next general election, those powers arriving here for whichever Government is formed after 2016 to use for the benefit of the people of Wales— England needs to have its voice heard, and its own settlement, so that the fabric of the United Kingdom can be kept together, because one thing I am passionate about is being (a) a Welshman, but (b) a unionist as well.</p>	Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon a chynigiau welliant 3 yn ffurfiol yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		Dadl gyfansoddiadol arall, diwrnod arall yn y Cynulliad, ac yn amlwg, mae wedi bod yn obsesiwn i rai gwleidyddion, ond fwy neu lai'n amherthnasol i lawer o bobl y tu allan i'r sefydliad hwn—ac mae hynny'n ffaith. Yr hyn y dylem fod yn ymdrin ag ef yma yn awr yw sicrhau bod proses Dydd Gŵyl Dewi yn parhau, gan fwynhau'r gymeradwyaeth y dylai ei mwynhau gan yr holl bleidiau a ymrwymodd iddi, ac i beidio â chynnig unrhyw le i bwy bynnag sy'n ennill yr etholiad allu gwyro o'r broses honno—ac fel y dywedais ddoe yn natganiad y Prif Weinidog, rwy'n gobeithio'n fawr iawn mai Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol fydd hi ac mai Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol fydd yn cyflawni'r hyn sydd yng nghynigion Dydd Gŵyl Dewi.	
		Fel y dywedais ddoe yn y datganiad a gyflwynodd y Prif Weinidog i'r Siambr, pwy fyddai wedi meddwl yn 2010 y byddem yn y sefyllfa rydym ynddi heddiw o ran y dirwedd a'r setliad cyfansoddiadol sy'n cael ei gynnis o amgylch y Deyrnas Unedig? Un peth rwy'n cytuno'n llwyr â phob plaid a wnaeth y pwynt heddiw, ond roeddwn i'n ei wneud rai blynyddoedd yn ôl, oedd mater datganoli yn Lloegr a'r gallu i Loegr benderfynu sut yn union, yn y Deyrnas Unedig wedi ei hailgyflunio—gyda'r pwerau ychwanegol y mae Senedd yr Alban yn eu cael, a'r pwerau ychwanegol y mae Stormont wedi eu cael ac yn amlwg, ers dod â Silk 1 ac yn awr Silk 2 a chytundeb Dydd Gŵyl Dewi at ei gilydd, a gobeithio, yn fuan ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf, y bydd y pwerau hynny'n cyrraedd yma i ba Lywodraeth bynnag a ffurfir ar ôl 2016 eu defnyddio er budd pobl Cymru—mae angen i Loegr gael ei llais wedi ei glywed, a'i setliad ei hun, fel y gellir cadw gwedd y Deyrnas Unedig gyda'i gilydd, gan mai un peth rwy'n angerddol amdano yw (a) bod yn Gymro, ond (b) yn unoliaethwr hefyd.	

- 16:59 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I'll take the intervention from the Plaid Cymru leader.
- 16:59 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for taking the intervention. I just wondered if you could clarify a point for us here. The announcement that was made on Friday from the Secretary of State for Wales was not an agreed statement, was it? It wasn't something that we were all asked to sign up to. Could you just clarify that point for us, please?
- 17:00 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
It was my understanding that you had agreed to the principles that were in that agreement, and you surprise me to indicate that you seem to be saying that you do not. Therefore, obviously, those issues that were agreed at various meetings, I presume, are being cast into doubt now by the assertion that you are making, because your party is indicating that they do not agree with them.
- 17:00 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Just to make it clear: my party never agreed not to go forward with the devolution of the criminal justice system and policing, for example. We never made that agreement.
- 17:00 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
That is quite right, and it is entirely up to you to continue to make that point, as it is for other parties. The point I am making is that the proposals that were put forward last Friday were an agreement between the four political parties on, as has been talked about, the lowest common denominator—i.e. where everyone is in agreement on what should be brought forward after May.
- I disagree with you. It is a fact that Plaid Cymru would like to see an independent Wales. It is a fact that, on today's polling, only 6% of the population wish to enjoy that. The other polling that has come forward today clearly shows that there has been a considerable drop in support for the continuation of more powers to come to the Assembly—a 9% drop has happened since the last poll was taken. It is really up now to politicians to start to use those powers and make sure that they are used effectively to improve Wales's place within the union of the United Kingdom.
- I don't recognise Westminster as being an alien Parliament. I vote at general elections. I send a representative from the constituency to speak on my behalf. Sometimes that might be Labour, sometimes it might be Conservative, but it is not some—[Interruption.] I've only got a little bit of time left. I do not see Westminster as an alien Parliament.
- 17:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Can I ask for some order, please? Let Andrew R.T. Davies continue to move the amendment.
- Fe gymeraf yr ymyriad gan arweinydd Plaid Cymru.
- Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Tybed a allech egluro pwynt i ni yma. Nid oedd y cyhoeddiad a wnaed ddydd Gwener gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn ddatganiad wedi'i gytuno, nac oedd? Nid oedd yn rhywbeth y gofynnwyd i bawb ohonom ddangos ein cefnogaeth iddo. A wnewch chi egluro'r pwynt hwnnw i ni, os gwelwch yn dda?
- Yn ôl fy nealltwriaeth i, roeddech wedi cytuno i'r egwyddorion yn y cytundeb hwnnw, ac rydych yn fy synnu drwy ymddangos fel pe baech yn awgrymu nad oeddech wedi gwneud hynny. Yn amlwg, felly, mae yna amheuaeth yn awr, fe dybiaf, ynghylch y materion y cytunwyd arnynt mewn gwahanol gyfarfodydd, yn ôl yr hyn a honnwyd, gan fod eich plaid yn nodi nad yw'n cytuno â hwy.
- Gadewch i mi wneud hyn yn glir: ni chytunodd fy mhlaid i beidio â bwrw ymlaen â datganoli'r system cyfiawnder troseddol a phlisma, er enghraifft. Ni chafwyd y cytundeb hwnnw.
- Mae hynny'n hollol iawn, a'ch dewis chi yn llwyr yw parhau i wneud y pwynt hwnnw, fel y mae i'r pleidiau eraill. Y pwynt rwy'n ei wneud yw mai'r cynigion a gyflwynwyd ddydd Gwener diwethaf oedd cytundeb rhwng y pedair plaid wleidyddol ar y cyfenwadr lleiaf, fel y soniwyd—hynny yw, lle y mae pawb yn cytuno ar yr hyn y dylid ei gyflwyno ar ôl mis Mai.
- Rwy'n anghytuno â chi. Mae'n ffaith y byddai Plaid Cymru yn hoffi gweld Cymru annibynnol. Mae'n ffaith mai 6% yn unig o'r boblogaeth, yn ôl arolwg barn heddiw, a fyddai'n dymuno mwynhau hynny. Mae'r arolwg barn arall a gyflwynwyd heddiw yn dangos yn glir y bu gostyngiad sylweddol yn y gefnogaeth i barhau i gael mwy o bwerau i'r Cynulliad—gostyngiad o 9% ers yr arolwg barn diwethaf. Mae'n bendant yn fater i wleidyddion ddechrau defnyddio'r pwerau hynny yn awr a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella lle Cymru yn rhan o undeb y Deyrnas Unedig.
- Nid wyf yn ystyried San Steffan yn Senedd estron. Rwy'n pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol. Rwy'n anfon cynrychiolydd o'r etholaeth i siarad ar fy rhan. Weithiau gallai fod yn Llafur, weithiau gallai fod yn Geidwadol, ond nid yw'n—[Torri ar draws.] Ychydig o amser sydd gennyf ar ôl. Nid wyf yn gweld San Steffan fel Senedd estron.
- A gaf fi ofyn am drefn, os gwelwch yn dda? Gadewch i Andrew R.T. Davies barhau i gynnyg y gwelliant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



17:02

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In particular, when you look at the changes that have happened over the last five years, people talk about the old order, but there has never been a bigger constitutional change in these islands than over the last 15 years, with devolution going to Scotland, devolution coming to Wales, home rule into Northern Ireland, as well. All those changes have happened in the last 15 years, and it is an evolving process that is happening across these islands. So, for people to talk about some old regime, some imperial regime, really does show their thinking. We should embrace the new powers that we've got. We should embrace the St David's Day agreement and, ultimately, we stand shoulder to shoulder with the Welsh people when they reject the narrow isolationism that the independence party on the other side moving this motion today upholds.

Yn benodol, pan edrychwch ar y newidiadau sydd wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf, mae pobl yn siarad am yr hen drefn, ond ni fu erioed newid cyfansoddiadol mwy yn yr ynysoedd hyn nag a gafwyd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, gyda datganoli'n mynd i'r Alban, datganoli'n dod i Gymru, ymreolaeth i Ogledd Iwerddon, yn ogystal. Mae'r holl newidiadau hynny wedi digwydd yn y 15 mlynedd diwethaf, ac mae'n broses sy'n esblygu ac sy'n digwydd ar draws yr ynysoedd hyn. Felly, mae i bobl siarad am ryw hen drefn, rhyw drefn ymerodrol, yn dangos eu ffordd o feddwl mewn gwirionedd. Dylem groesawu'r cytundeb Dydd Gŵyl Dewi ac yn y pen draw, rydym yn sefyll law yn llaw â phobl Cymru pan fyddant yn gwrthod yr arwahanrwydd cul y mae plaid annibyniaeth ar yr ochr arall sy'n cynnig y cynnig hwn heddiw yn ei goleddu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:02

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas.

Simon Thomas.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:02

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair, as I think we must refer to you. I wish to contribute to this debate, first of all, by stating that we agree on one thing: that the command paper published last week does not set out home rule in any way, shape or form. We will, of course, as Plaid Cymru, accept that which is set out in the command paper. It's a small step, particularly as regards reserved powers, which is something I want to concentrate on today. It is a welcome step, but it is in no way an agreement. We didn't agree with it, and I don't even think that the Labour Party agreed with it. I see the First Minister assenting to that.

Diolch, Gadeirydd, fel y credaf sy'n rhaid i ni gyfeirio atoch. Hoffwn gyfrannu at y ddadl hon, yn gyntaf oll, drwy ddatgan ein bod yn cytuno ar un peth: nad yw'r papur gorchymyn a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn cyflwyno ymreolaeth mewn unrhyw ddull na modd. Wrth gwrs, fe fyddwn ni ym Mhlaid Cymru yn derbyn yr hyn a gyflwynir yn y papur gorchymyn. Mae'n gam bach, yn enwedig o ran pwerau a gadwyd yn ôl, a dyna rwyf am ganolbwyntio arno heddiw. Mae'n gam i'w groesawu, ond nid yw'n gytundeb mewn unrhyw ffordd. Nid oeddem yn cytuno ag ef, ac nid wyf hyd yn oed yn credu bod y Blaid Lafur yn cytuno ag ef. Rwy'n gweld y Prif Weinidog yn ategu hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Aled has almost argued himself into a position of independence there. He just stopped short of it, as does the amendment from the Liberal Democrats, which we can't quite accept, but we welcome you as a fellow traveller almost to the end of the journey, Aled. I would accept that the roadblocks to reform here are not within the Liberal Democrats, as far as this position is taken. The roadblocks to reform are very much within—. We've heard it in the Conservative Party here; we've heard that sort of attitude that comes there. We heard a little bit of it, I have to say, within the Westminster Labour Party, and I was very struck by what the First Minister said yesterday when I think he turned to his colleague—once our colleague—Alun Davies and said we can now talk about home rule without being laughed at. It's quite true. There has been a signal change in the Wales Labour Party, and that is to be welcomed, but it's been a change driven by Plaid Cymru consistently advocating our position, and it's our advocacy of these ideas that has led to a wider acceptance now of home rule and, in time, independence, because that is the inevitable consequence—that you must, at some stage, give a choice to the people of Wales to decide their future.

Mae Aled bron â bod wedi dadlau ei hun i safbwynt o blaid annibyniaeth. Fe stopiodd ychydig yn fyr o'r pwynt hwnnw, fel y mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud, ac ni allwn dderbyn y gwelliant hwnnw, ond rydym yn eich croesawu fel cyd-deithiwr bron i ben y daith, Aled. Fe fyddwn yn derbyn nad o fewn y Democratiaid Rhyddfrydol y mae'r rhwystrau ar y ffordd i ddiwygio yma, o ran y safbwynt hwn. Mae'r rhwystrau i ddiwygio'n bendant iawn o fewn—. Rydym wedi ei glywed gan y Blaid Geidwadol yma; rydym wedi clywed y math yna o agwedd. Clywsom ychydig ohono, rhaid i mi ddweud, o fewn y Blaid Lafur yn San Steffan, ac fe'm synnwyd gan yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddoe pan drodd, rwy'n meddwl, at ei gyd-Aelod—ein cyd-Aelod ni ar un adeg—Alun Davies, a dweud y gallwn bellach siarad am ymreolaeth heb i neb chwerthin ar ein pennau. Mae'n hollol wir. Mae newid cyfeiriad wedi bod ym Mhlaid Lafur Cymru, ac mae hynny i'w groesawu, ond mae'n newid a ysgogwyd gan Blaid Cymru yn hyrwyddo ein safbwynt yn gyson, a'n hyrwyddiad ni i'r syniadau hyn sydd wedi arwain at dderbyniad ehangach erbyn hyn o ymreolaeth ac, ymhen amser, annibyniaeth, gan mai dyna'r canlyniad anochel—fod yn rhaid i chi, ar ryw gam, roi dewis i bobl Cymru benderfynu ynglŷn â'u dyfodol.

But we will focus today on what's been said in the command paper. I just want to be clear about some of the dangers that now lie ahead. We've all talked about a reserved-powers model and we've all accepted that that is the best model for us to embrace. But, there are difficulties within it, particularly if you take what's been suggested as further devolution in the command paper and simply transfer that into a reserved-powers model, because it doesn't address those wider issues.

It doesn't, for example, set out a real freeing up of Welsh democracy, which even Aled Roberts asked for, which is that we take the decisions here on everything that affects the people of Wales, apart from the things that we reserve and allow to be reserved still within Westminster, which would include pensions, defence, and some aspects of home affairs. But that is not the approach taken in the command paper towards reserved powers. Unless we cut those apron strings, unless we have a real clarity around this, we will be back here again. I'm sorry that Andrew R. T. Davies thinks that this doesn't affect the people of Wales or is not of interest to them, but even his own amendment talks about the constitutional settlement being taken forward by the next Westminster Parliament. So, I'm afraid he's arguing against his own amendment in that regard.

A very interesting letter came to the Constitutional and Legislative Affairs Committee on Monday, written by the Equality and Human Rights Commission in Wales, setting out some of the difficulties that could happen if we simply absorb a reserved-powers model on the basis of our current settlement and the little bit added in by the command paper last week, without taking a more fundamental look at what should be reserved and what should be taken. We have some human rights obligations as an Assembly, which the letter was pointing out, which could be sent back to Westminster in effect, if we don't deal with some of these silent areas, as they've been called—defence being one of them by the way. Defence isn't explicitly reserved to Westminster within the current constitutional settlement, but I'm not suggesting that we embark on that straight away. But that is the difficulty that we have at the moment—a mixed and messy system, which I'm afraid the command paper does not address. It is the lowest common denominator. We will of course work with it, but we will always be advocating a much more fundamental reform in this regard.

Ond fe fyddwn yn canolbwyntio heddiw ar yr hyn sy'n cael ei ddweud yn y papur gorchymyn. Rwyf am fod yn glir ynghylch rhai o'r peryglon sydd bellach yn ein hwynebu. Rydym i gyd wedi siarad am fodel cadw pwerau ac rydym i gyd wedi derbyn mai dyna'r model gorau i ni ei gael. Ond mae anawsterau yn perthyn iddo, yn enwedig os cymerwch yr hyn a awgrymwyd fel datganoli pellach yn y papur gorchymyn a throsglwyddo hynny'n syml i mewn i fodel cadw pwerau, oherwydd nid yw'n mynd i'r afael â'r materion ehangach hynny.

Nid yw, er enghraifft, yn rhyddhau democratiaeth yng Nghymru go iawn, sef rhywbeth y gofynnodd Aled Roberts amdano hyd yn oed, sef ein bod yn gwneud penderfyniadau yma ar bopeth sy'n effeithio ar bobl Cymru, ar wahân i'r pethau rydym yn eu cadw ac yn caniatáu i gael eu cadw yn San Steffan, a fyddai'n cynnwys pensiynau, amddiffyn, a rhai agweddau ar faterion cartref. Ond nid dyna'r agwedd a welir yn y papur gorchymyn tuag at bwerau a gadwyd. Oni bai ein bod torri'r rhwymau hynny, oni bai ein bod yn wirioneddol eglur ynglŷn â hyn, byddwn yn ôl yma eto. Mae'n ddrwg gen i fod Andrew R.T. Davies yn credu nad yw hyn yn effeithio ar bobl Cymru, neu nad yw o ddiddordeb iddynt, ond mae hyd yn oed ei welliant ei hun yn sôn am gyflwyno'r setliad cyfansoddiadol gan Senedd nesaf San Steffan. Felly, rwy'n ofni ei fod yn dadlau yn erbyn ei welliant ei hun yn hynny o beth.

Derbyniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol llythyr diddorol iawn ddydd Llun gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, yn nodi rhai o'r anawsterau a allai ddigwydd pe baem yn mynd ati'n syml i amsugno model cadw pwerau ar sail ein setliad cyfredol a'r ychydig bach a ychwanegwyd gan y papur gorchymyn yr wythnos diwethaf, heb edrych yn fwy trwyadl ar yr hyn y dylid ei gadw a beth y dylid ei gymryd. Tynnodd y llythyr sylw at yr ymrwymadau hawliau dynol sydd gennym fel Cynulliad y gellid eu hanfon yn ôl i San Steffan i bob pwrpas os nad ydym yn ymdrin â rhai o'r meysydd tawel hyn, fel y maent wedi cael eu galw—mae amddiffyn yn un ohonynt gyda llaw. Nid yw amddiffyn wedi'i gadw i San Steffan yn benodol yn y setliad cyfansoddiadol presennol, ond nid wyf yn awgrymu ein bod yn cychwyn ar hynny ar unwaith. Ond dyna'r anhawster sydd gennym ar hyn o bryd—system gymysg ac anniben, nad yw'r papur gorchymyn yn mynd i'r afael â hi, gwaetha'r modd. Cyfenwador lleiaf ydyw. Wrth gwrs, fe fyddwn yn gweithio gydag ef, ond fe fyddwn bob amser yn dadlau dros ddiwygio llawer mwy sylfaenol yn y cyswllt hwn.

Plaid Cymru has advocated a very positive way forward on the constitutional question. We do think the next step is, in effect, home rule for Wales. That is our next constitutional step. The command paper does not address that. It doesn't address some of the issues around devolution of S4C, for example. There are complexities around that we need to be talking about. And, it doesn't address the simple parity-with-Scotland argument around funding. We know that the vow made to Scotland that enshrines the Barnett formula must be transferred to Wales by any responsible Westminster Government, so that we get a similar funding pattern to Scotland's. With that £1.2 billion extra we could invest in our public services here in Wales and we could be making a difference. That, I say to Members—Andrew R.T. Davies amongst them—is the real reason why we debate constitutional affairs here, because it's about our future and about our funding.

Mae Plaid Cymru wedi argymhell ffordd gadarnhaol iawn ymlaen ar y cwestiwn cyfansoddiadol. Rydym yn credu mai'r cam nesaf, i bob pwrpas, yw ymreolaeth i Gymru. Dyna ein cam cyfansoddiadol nesaf. Nid yw'r papur gorchymyn yn ymdrin â hynny. Nid yw'n mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â datganoli S4C, er enghraifft. Mae cymhlethdodau ynghylch hynny sydd angen i ni siarad amdanynt. Ac nid yw'n mynd i'r afael â dadl syml cydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid. Gwyddom fod yn rhaid i'r adduned a wnaed i'r Alban sy'n ymgorffori fformiwla Barnett gael ei throsglwyddo i Gymru gan unrhyw Lywodraeth gyfrifol yn San Steffan, er mwyn i ni gael patrwm ariannu tebyg i'r Alban. Gyda'r £1.2 biliwn hwnnw'n ychwanegol, gallem fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru a gallem wneud gwahaniaeth. Rwy'n dweud wrth yr Aelodau—ac Andrew R.T. Davies yn eu plith—mai dyna'r gwir reswm pam rydym yn trafod materion cyfansoddiadol yma, oherwydd eu bod yn ymwneud â'n dyfodol a'n cyllid.

17:08

### **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

When the devolution debate first emerged as a serious political debate in the 1960s, the then Prime Minister, Harold Wilson, established the Royal Commission on the Constitution, which sat from 1969 to 1973, leading to the report eventually known as the Kilbrandon report. That report examined the United Kingdom's constitution from all political positions. It considered all options, looking at systems of governance of the United Kingdom and considered what options and reasons there were for constitutional change. I'd encourage Members to actually look at that report and to look at the minority report that also dealt with the issue of regional assemblies in England. I mention this historic royal commission because it was the issue that dominated my first year as a law student in Cardiff in 1973, but also because it was one of the most comprehensive analyses of governmental power and the options for constitutional change based on clear social and economic principles. What a difference from the shabby way the current UK Government and the Secretary of State for Wales have conducted the current purported discussions and negotiations.

Pan ddaeth y ddadl ar ddatganoli i'r amlwg gyntaf fel dadl wleidyddol ddifrifol yn y 1960au, sefydlodd Harold Wilson, y Prif Weinidog ar y pryd, y Comisiwn Brenhinol y Cyfansoddiad, a fu'n weithredol rhwng 1969-1973, gan arwain at yr adroddiad a alwyd yn y pen draw yn adroddiad Kilbrandon. Roedd yr adroddiad hwnnw'n edrych ar gyfansoddiad y Deyrnas Unedig o bob safbwynt gwleidyddol. Ystyriodd yr holl opsiynau, gan edrych ar systemau llywodraethu'r Deyrnas Unedig ac ystyried pa opsiynau a rhesymau a geid dros newid cyfansoddiadol. Fe fyddwn yn annog yr Aelodau i edrych ar yr adroddiad hwnnw ac i edrych ar yr adroddiad lleiafrifol a oedd yn ymdrin hefyd â mater cynulliadau rhanbarthol yn Lloegr. Rwy'n sôn am y comisiwn brenhinol hanesyddol am mai dyna'r mater a gâi fwyaf o sylw pan oeddwn yn fy mlwyddyn gyntaf fel myfyriwr y gyfraith yng Nghaerdydd ym 1973, ond hefyd am ei fod yn un o'r dadansoddiadau mwyaf cynhwysfawr o rym llywodraethol a'r opsiynau ar gyfer newid cyfansoddiadol yn seiliedig ar egwyddorion cymdeithasol ac economaidd clir. Mor wahanol i'r ffordd anniben y mae Llywodraeth bresennol y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cynnal y trafodaethau honedig presennol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Instead of having clear guiding principles, they've treated devolution for Wales like a glutton in charge of a bag of sweets, trying to hang on to as many as possible, reluctant to give away too many and keeping the best for themselves. The Tory negotiations have been inept, dysfunctional and devoid of statesmanship. There is no vision. They have no vision for the future of the UK and no concept of planned decentralisation of powers. I support Wales being part of the United Kingdom, but on the principles of common wealth, redistribution, social justice and equality. The sad consequence of the way this Government has handled such important issues is that, if the Tories were to win the next general election, I don't believe the UK could survive. I made this point yesterday during the discussion on the First Minister's statement. The Tories jeered and Plaid Cymru cheered. Of course, I can understand why, strategically, Plaid Cymru would welcome another Conservative Government, because it would deliver the separation from the UK that they know they cannot achieve through the ballot box. But, for the Tories, their legacy of toxic and divisive policies, constitutional ineptitude and crass political self-interest only proves their lack of fitness for government.

Yn hytrach na sicrhau bod ganddynt egwyddorion arweiniol clir, maent wedi trin datganoli i Gymru fel dyn glwth yng ngofal cwdyn losin, yn ceisio dal gafael ar gynifer ag y bo modd, yn amharod i roi gormod ac yn cadw'r gorau i'w hun. Mae trafodaethau'r Torïaid wedi bod yn anfedrus, yn gamweithredol ac yn amddifad o wladweiniaeth. Ni cheir unrhyw weledigaeth. Nid oes ganddynt weledigaeth ar gyfer dyfodol y DU nac unrhyw ddirnadaeth o sut i gynllunio'r broses o ddatganoli pwerau. Rwy'n cefnogi Cymru yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ond ar egwyddorion cyfoeth cyffredin, aildodosbarthu, cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb. Canlyniad trist y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi ymdrin â materion pwysig o'r fath yw nad wyf yn credu y gallai'r DU orosi pe bai'r Torïaid yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf. Fe wnes y pwynt hwn ddoe yn ystod y drafodaeth ar ddatganiad y Prif Weinidog. Fe watwarodd y Torïaid ac fe gymeradwyodd Plaid Cymru. Wrth gwrs, gallaf ddeall pam, yn strategol, y byddai Plaid Cymru yn croesawu Llywodraeth Geidwadol arall, gan y byddai'n arwain at y gwahanu oddi wrth y DU y maent yn gwybod na allent ei gyflawni drwy'r blwch pleidleisio. Ond am y Torïaid, nid yw eu hetiffediaeth o bolisiâu gwenwynig ac ymrannol, anfedruswydd cyfansoddiadol a hunan-les gwleidyddol affwysol ond yn profi pa mor gwbl anaddas ydynt i lywodraethu.

17:10 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:10 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No I won't, because there isn't time.

Na wnaif, oherwydd nad oes amser.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

How else can you explain the sudden devolution of £6 billion of spending to the north-west without any process of consultation, without any referendum or mandate and without any proper constitutional accountability or structure? It beggars belief.

Sut arall y mae esbonio datganoli £6 biliwn o wariant yn sydyn i'r gogledd-orllewin, heb unrhyw broses ymgynghori, heb unrhyw refferendwm neu fandad a heb unrhyw atebolrwydd na strwythur cyfansoddiadol priodol? Mae'n anhygoel.

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

17:10 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The stability of any settlement can only be as good as the overall stability and sustainability of the UK constitutional settlement, and that is dependent on a fair funding system and principles for the whole of the UK, which all countries and regions of the United Kingdom have to buy into. That means a funding formula not based on nationalist principles, as espoused by Plaid Cymru, but based on social democratic principles of equality, fairness and the redistribution of wealth. McPlaid's new nationalist formula has only one objective, and that is the break-up of the United Kingdom. It shuns our historic solidarity and common interests with the regions of England and can only lead to a breakdown of collective bargaining, the fragmentation of trade unionism, regional pay and regional benefits. I reject this new nationalist perspective just as I reject the UK Tory agenda to sell out Wales in order to maintain power in England.

Ni fydd sefydlogrwydd unrhyw setliad ond cystal â'r sefydlogrwydd cyffredinol a chynaliadwyedd setliad cyfansoddiadol y DU, ac mae hynny'n ddibynnol ar system gyllido ac egwyddorion teg ar gyfer y DU gyfan wedi'u cefnogi gan holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae hynny'n golygu fformiwla gyllido nad yw'n seiliedig ar egwyddorion cenedlaetholgar, fel y mae Plaid Cymru yn eu harddel, ond ar egwyddorion democrataidd cymdeithasol cydraddoldeb, tegwch ac aildodosbarthu cyfoeth. Un amcan yn unig sydd i fformiwla genedlaetholgar newydd McPlaid, sef chwalu'r Deyrnas Unedig. Mae'n gwrthod ein hundod hanesyddol a'r buddiannau sy'n gyffredin rhyngom a rhanbarthau Lloegr ac ni all ond arwain at fethiant cydfargeinio, darnio undebaeth lafur, cyflogau rhanbarthol a buddion rhanbarthol. Rwy'n gwrthod y persbectif cenedlaetholgar newydd hwn yn union fel rwy'n gwrthod agenda Torïaid y DU i fradychu Cymru er mwyn cynnal grym yn Lloegr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

During one of the devolution debates in 1974, a well-known Welsh socialist MP chastised the Tories, saying that the Conservatives

Yn ystod un o'r dadleuon ar ddatganoli yn 1974, ceryddodd AS sosialaidd adnabyddus o Gymru y Torïaid, gan ddweud nad oedd gan y Ceidwadwyr

'have no policy on devolution short of retaining what I can only describe as a refined version of the status quo...The Conservative Party has no constructive views at all on devolution'.

He went on to say that

'it is in the context of the possible timing of a General Election and the electoral pressures on the Government that I see the developing devolution debate. The motivation on the devolution issue has been governed all along by electoral pressures.'

Presiding Officer, it is 40 years since Dafydd Elis-Thomas made that speech, and the Tories' continuing inability to put the interests of the people of Wales above their own petty party political interests has not changed and, if anything, they are less fit to rule now than they were then. Wouldn't it be sadly ironic if it took the death of the union at the hands of the Conservative and Unionist Party to prove this point?

'unrhyw bolisi ar ddatganoli ar wahân i gadw'r hyn na allaf ond ei ddisgrifio fel fersiwn wedi'i mireinio o'r status quo... Nid oes gan y Blaid Geidwadol farn adeiladol o gwbl ar ddatganoli'.

Aeth ymlaen i ddweud

'mai yng nghyd-destun amseriad posibl Etholiad Cyffredinol a'r pwysau etholiadol ar y Llywodraeth y gwelaf y ddadl sy'n datblygu ar ddatganoli. Mae'r cymhelliad ar fater datganoli wedi ei lywio o'r cychwyn gan bwysau etholiadol.'

Lywydd, mae 40 mlynedd ers i Dafydd Elis-Thomas wneud yr araith honno, ac nid yw anallu parhaus y Torïaid i roi buddiannau pobl Cymru yn uwch na'u buddiannau pleidiol pitw eu hunain wedi newid ac os rhywbeth, maent yn llai addas i reoli yn awr nag oeddent bryd hynny. Oni fyddai'n eironi trist pe bai'n rhaid gweld tranc yr undeb drwy law'r Blaid Geidwadol ac Unoliaethol er mwyn profi'r pwynt hwn?

17:12 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask that people do not have dialogue across the floor? There seem to be three-people discussions going on and it doesn't help with what is supposed to be an important debate.

A gaf fi ofyn i bobl beidio â thrafod ar draws y llawr? Mae'n ymddangos fel pe bai trafodaethau'n digwydd rhwng tri o bobl ac nid yw'n helpu gyda'r hyn sydd i fod yn ddadl bwysig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:13 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be very careful quoting Dafydd Elis-Thomas from 40 years ago, because he may have changed his mind in the intervening period—40 days is good for him. [Laughter.] But, there you are; I did enjoy that.

Fe fyddwn yn ofalus iawn yn dyfynnu Dafydd Elis-Thomas 40 mlynedd yn ôl, oherwydd mae'n bosibl ei fod wedi newid ei feddwl yn y cyfamser—mae 40 diwrnod yn dda iddo ef. [Chwerthin.] Ond dyna ni; fe wnes i fwynhau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Every nation should have the power to respond to the needs of its population in a way that is tailored to their unique demands. Following the publication of the Smith Commission report, the Scottish Parliament will be gaining new powers over the benefits system in Scotland, and this expansion of the Scottish Parliament's responsibilities to the people it represents will empower them to instigate joined-up social welfare policies to the benefit of the Scottish people, and Wales must be granted the same.

Dylai pob cenedl gael y pŵer i ymateb i anghenion ei phoblogaeth mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i ymateb i'w gofynion unigryw. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Smith, bydd Senedd yr Alban yn cael pwerau newydd dros y system fudd-daliadau yn yr Alban, ac mae ehangu cyfrifoldebau Senedd yr Alban i'r bobl y mae'n eu cynrychioli yn y modd hwn yn eu grymuso i lansio polisiau lles cymdeithasol cydgysylltiedig er budd pobl yr Alban, a rhaid i Gymru gael yr un peth.

Now, it would be tempting to argue for the devolution of powers over the benefits system by citing, of course, the UK coalition Government's disastrous reforms, but I'll resist doing that today, while acknowledging, of course, that this has had a significant impact on Wales, where analysis has concluded that welfare reforms have reduced total benefit and tax credit entitlements here by around £520 million. Now, obviously, that's a huge sum lost to individuals, but also lost to the economy at large.

Nawr, byddai'n demtasiwn i ddadlau dros ddatganoli pwerau dros y system fudd-daliadau drwy nodi diwygiadau trychinebus Llywodraeth glymblaid y DU, wrth gwrs, ond rwy'n ymatal rhag gwneud hynny heddiw, gan gydnabod fod hynny wedi cael effaith sylweddol ar Gymru, lle y daeth dadansoddiadau i'r casgliad fod diwygiadau lles wedi torri tua £520 miliwn oddi ar gyfanswm hawliadau budd-daliadau a chredyd treth yma. Nawr, yn amlwg, mae hwnnw'n swm enfawr a gollwyd i unigolion, ond a gollwyd hefyd i'r economi yn gyffredinol.

While the devolution of welfare would offer immediate relief from current UK policy, I believe it is important to take a longer term view of the benefit of devolving powers over the benefits system. Following the devolution of many vital areas of public welfare, like health, housing and social care, the devolved legislatures remain constrained by the UK Government's strategy for benefits in these policy areas, whatever it may be, and as we see greater political divergence between the nations of the UK, the differences between the policy of devolved Governments and the welfare system will become more and more apparent. I think this is entirely at odds with having a joined up social welfare programme.

Now, while the Scottish Parliament is not gaining total control over benefits, they will have significant power to vary welfare payments. Universal credit will remain a reserved benefit administered and delivered by the Department for Work and Pensions, but within this framework the Scottish Parliament will have the powers to change the frequency of payments, vary single household payments, pay landlords directly for housing costs and vary the bedroom tax. Powers over benefits for carers, disabled people and those who are ill, carers' allowance, disability living allowance and personal independence payments will also be devolved, as will discretionary housing payments.

Increased power over welfare is not a fix-all solution, of course, and some questions remain unanswered. In Wales, quite rightly, there are particular concerns about the financial cost of gaining similar powers and whether the money transferred would be enough to cover future needs in terms of how much the benefits would cost. Now, this demonstrates that we need to move towards a needs-based funding formula or, as has already been said this afternoon, ideally parity with resources that go to Scotland.

Finally, while many in Scotland have welcomed the plans for the Scottish Parliament to gain new powers over welfare, there are concerns about the changes being rushed through. Constitutional change is too significant to be hurried without proper consultation and the opportunity for real debate. In Wales, we should aspire for further powers over welfare to be delivered during the next Westminster Parliament, in time for the 2021 Assembly. That would allow sufficient time for full consultation, proper debate and an effective plan for implementation. If the National Assembly is to effectively serve the needs of the Welsh people, we must have the tools to create joined-up social policy that is tailored to meet the needs of our nation. I think further powers over the welfare system should enable us to do that. Thank you, Chair.

Er y byddai datganoli lles yn cynnig rhyddhad ar unwaith o bolisi cyfredol y DU, rwy'n credu ei bod yn bwysig edrych yn hirdymor ar fudd datganoli pwerau dros y system fudd-daliadau. Yn dilyn datganoli llawer o feysydd lles y cyhoedd hanfodol, megis iechyd, tai a gofal cymdeithasol, mae'r deddfwrfeydd datganoledig yn parhau wedi eu cyfyngu gan strategaeth fudd-daliadau Llywodraeth y DU yn y meysydd polisi hyn, beth bynnag y bo, ac wrth i ni weld mwy o wahaniaeth gwleidyddol rhwng gwledydd y DU, bydd y gwahaniaethau rhwng polisiau Llywodraethau datganoledig a'r system les yn dod yn fwyfwy amlwg. Rwy'n credu bod hynny'n gwbl groes i gael rhaglen gydgysylltiedig o les cymdeithasol.

Nawr, er nad yw Senedd yr Alban yn ennill rheolaeth lwyr dros fudd-daliadau, bydd ganddynt bŵer sylweddol i amrywio taliadau lles. Bydd credyd cynhwysol yn parhau i fod yn fudd wedi'i gadw'n ôl a'i weinyddu a'i gyflwyno gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ond o fewn y fframwaith hwn, bydd Senedd yr Alban yn cael pwerau i newid pa mor aml y caiff taliadau eu gwneud, i amrywio taliadau i aelwydydd un person, i dalu landlordiaid yn uniongyrchol am gostau tai ac i amrywio'r dreth ystafell wely. Bydd pwerau dros fudd-daliadau i ofalwyr, pobl anabl a phobl sâl, lwfans gofalwyr, lwfans byw i'r anabl a thaliadau annibyniaeth bersonol hefyd yn cael eu datganoli, fel y bydd taliadau tai yn ôl disgrisiwn.

Nid yw mwy o bŵer dros les yn ateb i bob problem, wrth gwrs, ac mae rhai cwestiynau yn dal heb eu hateb. Yng Nghymru, yn gwbl briodol, ceir pryderon penodol ynghylch cost ariannol ennill pwerau tebyg ac a fyddai'r arian a drosglwyddid yn ddigon i dalu am anghenion yn y dyfodol o ran faint y byddai'r budd-daliadau'n costio. Nawr, mae hyn yn dangos bod angen i ni symud tuag at fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar anghenion neu fel y dywedwyd eisoes y prynhawn yma, yn ddelfrydol, cydraddoldeb o ran yr adnoddau sy'n mynd i'r Alban.

Yn olaf, er bod llawer yn yr Alban wedi croesawu'r cynlluniau i Senedd yr Alban gael pwerau newydd dros les, ceir pryderon ynglŷn â'r newidiadau sy'n cael eu rhuthro drwodd. Mae newid cyfansoddiadol yn rhy bwysig i gael ei frysio heb ymgynghori priodol a chyfle i gael trafodaeth go iawn. Yng Nghymru, dylem anelu am bwerau pellach dros les i'w darparu yn ystod Senedd nesaf San Steffan, mewn pryd ar gyfer Cynulliad 2021. Byddai hynny'n caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori llawn, dadlau priodol a chynllun effeithiol ar gyfer ei weithredu. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynd i wasanaethu anghenion pobl Cymru yn effeithiol, mae'n rhaid i ni gael yr adnoddau i greu polisi cymdeithasol cydgysylltiedig wedi'i deilwra i ateb anghenion ein cenedl. Rwy'n credu y dylai rhagor o bwerau dros y system les ein galluogi i wneud hynny. Diolch, Gadeirydd.

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae pawb, rwy'n credu, yn gytûn nad ydy cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn rhoi cydraddoldeb i Gymru gyda'r Alban ac mae hynny'n sicr o fod yn wir am faterion ariannol. Mae'r pecyn ariannol yn gyfyngedig iawn ei gwmpas ac mae'n dra diffygiol o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei gynnegi i'r Alban o ran trethiant a hefyd o ran mecanweithiau cyllidol. Mi fu peth symud ynghylch llawr Barnett ac mae pleidiau clymblaid y Deyrnas Gyfunol yn bwriadu defnyddio hyn fel erfyn bargeinio i gychwyn refferendwm ar bwerau rhannol i rannu treth incwm i Gymru, ond mae'r union fanylion i'w penderfynu yn nes ymlaen.

Ers blyneddoddedd, mae Plaid Cymru wedi galw am gyflwyno system o gyllido teg yn seiliedig ar anghenion ar draws y Deyrnas Gyfunol. Rwyf yn gofyn i Mick Antoniw i nodi hynny. Cafodd Cymru ei thangyllido ers degawdau ac, yn wir, mor bell yn ôl ag 1977-78 fe wnaeth y Trysorlys gynnal astudiaeth fewnol oedd yn dangos bod Cymru wedi ei thangyllido o ran angen, ond gwnaed dim byd gan y Llywodraeth Lafur bryd hynny. Wrth gwrs, mae fformiwla Barnett wedi ymgorffori'r tangyllido hwnnw hyd y dydd heddiw ac nid oes neb wedi gwneud dim byd ynglŷn â fo yn y cyfamser. Nawr, mae comisiwn annibynnol Holtham, wrth gwrs, wedi adolygu'r sefyllfa'n ofalus yn 2010 ac mi ddaeth i'r casgliad bod Cymru'n parhau i gael ei thangyllido yng nghyd-destun yr angen. Fel yr wyf wedi pwysleisio, does dim byd wedi newid.

Yn achos yr Alban, wrth gwrs, ymrwymodd y tair plaid Lundeinig yn ddiweddar i gadw fformiwla Barnett ac yng ngoleuni'r ymrwymiad hwnnw, mae Plaid Cymru wedi galw am i Gymru gael ei chyllido ar yr un lefel â'r Alban. Rwyf yn gofyn i unrhyw un gyflwyno dadl yma heddiw sy'n cyfiawnhau bod yr Alban yn cael ei chyllido ar lefel gymaint yn uwch na Chymru. A all rywun amddiffyn y sefyllfa honno heddiw, y prynhawn yma?

I droi at fater treth incwm, mae'n ymddangos yn od iawn y gall gweinyddiaethau Cymreig yn y dyfodol ddewis bod yn atebol neu beidio am godi peth o'u referniw eu hunain o dreth incwm, ac eto does dim angen refferendwm am y swm sy'n agos at £1 biliwn a gesglir yn flynyddol o ardrethi busnes a threthi datganoledig eraill. Ond, rydym wedi gwneud eithriad o dreth incwm, mae'n ymddangos, oherwydd sefyllfa'r Alban ers 1997. Mae'n rhaid i ni feddwl yn ofalus ynglŷn â'r angen am y refferendwm hwnnw.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:20.*

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ond, rydym yn cael ein trin yn eilradd mewn ffyrdd eraill hefyd. Er enghraifft, mae'r pwerau dros ffracio nwy yn cael eu cynnig, mae'n debyg, yn gyfartal â'r Alban, ond nid yw Stad y Goron yn dod i Gymru, ac mae hynny'n mynd i fod yn eithriadol o bwysig i'n heconomi yn y blyneddoddedd sydd i ddod.

Everyone, I think, agrees that the St David's Day announcement does not give parity to Wales and Scotland and that is certainly true for financial matters. The financial package is very restricted in scope and it is deficient as compared to what is being offered to Scotland in terms of taxation and also in terms of funding mechanisms. There has been some movement in terms of the Barnett floor and the coalition parties at the UK level intend to use this as a bargaining tool to start a referendum on partial powers to award income tax to Wales, but the details are to be decided later on.

For a number of years, Plaid Cymru has called for a fair funding system based on need across the United Kingdom. I ask Mick Antoniw to note that. Wales has been underfunded for decades and, as far back as 1977-78, the Treasury undertook an internal inquiry that showed that Wales had been underfunded in terms of need, but nothing was done by the Labour Government at that time. Of course, the Barnett formula has incorporated that underfunding to this day and nobody has done anything about that in the meantime. Now, the independent Holtham commission reviewed the situation very carefully in 2010 and came to the conclusion that Wales continues to be underfunded in the context of need. As I have emphasised, nothing has changed.

In the case of Scotland, of course, the three London-centric parties recently committed to keeping the Barnett formula and in the light of that commitment, Plaid Cymru has called for Wales to be funded at the same level as Scotland. I ask anyone to put forward an argument today that justifies the fact that Scotland has been funded at such a higher level than Wales. Can someone defend that position today, this afternoon?

To turn to the matter of income tax, it appears very strange that administrations in Wales in the future can choose to be accountable or not for raising some of their own revenue from income tax, and yet there is no need for a referendum for the sum that's close to £1 billion collected every year from business rates and other devolved taxes. But, we've made an exception of income tax, it appears, because of the situation in Scotland since 1997. So, we have to think very carefully about the need for that referendum.

*The Presiding Officer took the Chair at 17:20.*

But, we are being treated as second-rate in other areas as well. For example, the powers over fracking gas are being offered, it seems, on an equal basis to Scotland, but the Crown Estate isn't coming to Wales and that's going to be exceptionally important for our economy in the coming years.

O ran treth teithwyr awyr, mae sôn bod yna adolygiad yn cael ei gynnegi i ni. Ochr yn ochr â hynny, mae'n debyg bod sôn am roi iawndal i'r meysydd awyr hynny yn Lloegr sydd agosaf at Gymru. Ac eto, mae'r sefyllfa yn wahanol iawn i'r Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

Felly, mae ffordd bell i fynd cyn y bydd yna fargen deg ar y bwrdd o safbwynt Cymru, ac mae'r sefyllfa, hyd y gallaf i weld, yn cadarnhau un ffaith syml: mae'r Alban wedi cael ei thrin yn arbennig oherwydd y diweddar bwysau o lwyddiant yr SNP. Nid oes un disgrifiad arall; nid oes un esboniad arall am y peth. Ac hyd y gwelaf i felly, dim ond cael mwy o gynrychiolaeth o Blaid Cymru yn Senedd Lloegr sydd yn mynd i ddyllanwadu ar Lywodraeth San Steffan i ddod â setliad tecach i Gymru, sef yr union beth rydym i gyd yn gofyn amdano, er mwyn i ni allu hybu a hyrwyddo ein economi a sefyll ar ein traed ein hunain yn llawer iawn fwy cadarn, a gwneud yr hyn y dylem ni wneud dros ein pobl yma yng Nghymru.

In terms of APD, there is mention made that a review is being offered to us. Side by side with that, it seems that there is talk of providing compensation to those airports in England that are closest to Wales. And again, the situation is very different in Scotland and Northern Ireland.

So, there is a long way to go before there will be a fair deal on the table in terms of Wales, and the situation, as far as I can see, confirms one simple fact: Scotland has been treated as a special case because of recent pressure from the SNP's success. There is no other description; there is no other explanation for it. As far as I can see, therefore, it is only by getting greater representation from Plaid Cymru in Parliament in England that we will influence the Government in Westminster to bring a fairer settlement to Wales, which is what we are all calling for, so that we can promote our economy and stand on our own two feet on a much more robust basis, and do what we should be doing for our people here in Wales.

17:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The First Minister to speak on behalf of the Government.

Y Prif Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:21 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Llywydd, and can I speak to amendment 3 in the name of the Government, the amendment that is in the name of Jane Hutt? Once again, we are discussing or debating in this Chamber the issue of the constitution. I listened carefully to what the leader of Plaid Cymru said, much of what she said I've already said, and have been saying for some time, short, of course, of what she said about independence, on which we could never agree.

Diolch i chi, Lywydd, ac a gaf fi siarad am welliant 3 yn enw'r Llywodraeth, y gwelliant sydd yn enw Jane Hutt? Unwaith eto, rydym yn trafod neu'n dadlau mater y cyfansoddiad yn y Siambr hon. Gwrandawais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd arweinydd Plaid Cymru, ac mae llawer o'r hyn a ddywedodd yr un fath â'r hyn rwyf wedi ei ddweud yn barod, ac wedi bod yn ei ddweud ers peth amser, wrth gwrs, heb gynnwys annibyniaeth, na allem fyth gytuno yn ei gylch.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

This is an issue, ideally, which should be outside the purview of party politics; it should be an issue on which there can be a coalescing of views as far as is possible in terms of Wales's constitutional future, bearing in mind that within this Chamber, there'll be different views on what that constitutional future should look like. That said, I think it's important to outline what views we have in terms of what the future should look like. Much of what I'll be saying to the Chamber this afternoon is what I've said before, and I'm trying not to repeat what I said yesterday in this Chamber.

Yn ddefnyddiol, mae hwn yn fater a ddylai fod y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid; dylai fod yn fater y gellid cyfuno safbwyntiau yn ei gylch cyn belled ag y bo modd o ran dyfodol cyfansoddiadol Cymru, gan gofio y bydd yna safbwyntiau gwahanol yn y Siambr hon ynglŷn â sut ddyfodol cyfansoddiadol y dylid anelu tuag ato. Wedi dweud hynny, rwy'n credu ei bod yn bwysig amlinellu pa safbwyntiau sydd gennym o ran yr hyn y dylid ei gael yn y dyfodol. Mae llawer o'r hyn y byddaf yn ei ddweud wrth y Siambr y prynhawn yma yn bethau rwyf wedi eu dweud o'r blaen, ac fe geisïaf beidio ag ailadrodd yr hyn a ddywedais ddoe yn y Siambr hon.

First of all, there's no agreement. The leader of Plaid Cymru's right: there never was an agreement, but there was never an intention for there to be an agreement either. I was in the meetings that she was in, and it was quite clear there wouldn't be an agreement. That said, progress has been made, and it's quite right to say that no party in this Chamber would seek to reverse what has already been agreed to that extent. But to suggest that this is in some way an agreement that will last for many years is incorrect.

Yn gyntaf oll, nid oes cytundeb. Mae arweinydd Plaid Cymru yn iawn: ni chafwyd cytundeb, ond ni fu bwriad erioed i gael cytundeb chwaith. Roeddwn yn bresennol yn yr un cyfarfodydd â hithau, ac roedd yn eithaf clir na fyddai cytundeb. Wedi dweud hynny, gwnaed cynnydd, ac mae'n hollol iawn i ddweud na fyddai unrhyw blaid yn y Siambr hon yn ceisio gwrthdroi'r hyn sydd eisoes wedi ei gytuno i'r graddau hynny. Ond mae awgrymu bod yma gytundeb mewn rhyw ffordd a fydd yn parhau am nifer o flynyddoedd yn anghywir.

17:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, First Minister. I will point out that you're speaking to amendment 2, not amendment 3; that's my amendment, that is.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Nodaf eich bod yn siarad ynglŷn â gwelliant 2, nid gwelliant 3; fy ngwelliant i yw hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



- 17:23 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I noticed as soon as I said it. Sylwais ar hynny cyn gynted ag y'i dywedais.
- 17:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
It is a small point. Surely the agreement is the understanding that no party would seek to row back from the basic principles that were agreed amongst us all. That, surely, is the agreement; therefore, there is an agreement that those principles will be taken forward, whoever wins the general election in May. Pwynt bach yw hynny. Siawns nad cytundeb yw'r ddealltwriaeth na fyddai unrhyw blaid yn ceisio tynnu'n ôl o'r egwyddorion sylfaenol y cytunwyd arnynt rhyngom i gyd. Dyna'n sicr yw'r cytundeb; felly, mae cytundeb y bydd yr egwyddorion hynny yn cael eu dwyn ymlaen, pwy bynnag sy'n ennill yr etholiad cyffredinol ym mis Mai.
- 17:23 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
There is, perhaps, an agreement so far, but it's certainly not the case that there is general agreement between the parties. And certainly from my point of view, there are areas where there is not agreement, which are still issues that need to be resolved. On air passenger duty, there is no reason why Wales should be treated differently to Scotland. If it is the case—and I suspect it is—that the Treasury feels a mistake was made in offering air passenger duty to Scotland, then denying it to Wales is not a way of righting that wrong. That is certainly the impression that I get. But there's no reason why Wales should be treated differently. Efallai fod cytundeb hyd yn hyn, ond yn bendant nid yw'n wir fod cytundeb cyffredinol rhwng y pleidiau. Ac yn sicr o fy safbwynt i, ceir meysydd lle na cheir cytundeb sy'n dal i fod yn faterion y mae angen eu datrys. Ar doll teithwyr awyr, nid oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei thrin yn wahanol i'r Alban. Os yw'n wir—ac rwy'n credu ei fod—fod y Trysorlys yn teimlo bod camgymeriad wedi'i wneud wrth gynig toll teithwyr awyr i'r Alban, yna nid yw gwrthod ei roi i Gymru yn ffordd o unioni'r cam. Yn sicr, dyna'r argraff a gaf. Ond nid oes rheswm pam y dylai Cymru gael ei thrin yn wahanol.
- When it comes to policing and justice, again, there is no reason why Wales should not have the same offer as Scotland. We shouldn't underestimate what the costs would be, for example, if the people of Wales want to see this, of setting up our own criminal justice system; they are substantial, especially bearing in mind that we start from scratch. O ran plismona a chyfiawnder, unwaith eto, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Cymru gael yr un cynnig â'r Alban. Ni ddylem amcangyfrif yn rhy isel beth fyddai'r costau, er enghraifft, os yw pobl Cymru am weld hyn, o sefydlu ein system cyfiawnder troseddol eu hunain; maent yn sylweddol, yn enwedig o gofio ein bod yn dechrau o'r dechrau.
- In terms of the constitutional journey that Wales has been on, it's quite right to say that those of us who were here 16 years ago would have been amazed at where we are now. There are many of us who were here at that stage when there was very little we could do without restrictions, in terms even of the secondary legislative powers that we had— incredible restrictions. That, at least, is changing. The reserved-powers model is welcome, although as I said yesterday, it is what is in the detail that will be absolutely crucial in terms of scrutinising that model. It's of immense importance that we are able in Wales to control the electoral system of this place and the name of this place, and, of course, it's important that we have more control over our own resources in the way that England, Scotland and Northern Ireland do. O ran y daith gyfansoddiadol y mae Cymru wedi bod arni, mae'n hollol iawn i ddweud y byddai'r rheini ohonom a oedd yma 16 mlynedd yn ôl wedi rhyfeddu at lle'r ydym yn awr. Mae llawer ohonom a oedd yma ar yr adeg honno pan nad oedd ond ychydig iawn y gallem ei wneud heb gyfyngiadau, o ran hyd yn oed y pwerau is-ddeddfwriaethol a oedd gennym—cyfyngiadau anhygoel. Mae hynny, o leiaf, yn newid. Mae'r model cadw pwerau i'w groesawu, ond fel y dywedais ddoe, yr hyn sydd yn y manylion fydd yn gwbl allweddol o ran craffu ar y model hwnnw. Mae'n bwysig aruthrol ein bod yng Nghymru yn gallu rheoli system etholiadol y lle hwn ac enw'r lle hwn, ac wrth gwrs, mae'n bwysig fod gennym fwy o reolaeth dros ein hadnoddau ein hunain yr un fath â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

I have said for some time now that I think that the old model of the sovereignty of Parliament is no longer appropriate for the twenty-first century. People talk about history. Well, let's not forget that the current United Kingdom is not even 100 years old. The Irish free state was set up in 1920; a significant part of the UK as it was then disappeared. Let's also remember that it was only for 27 years that devolution did not exist in the current UK because Northern Ireland was devolved for many, many years until prorogation in 1972, and devolution of course then rolled out from 1999 onwards. So, let's not pretend that there are old, old traditions here that cannot be overturned. There will be some who will argue that it's not possible to have stability within a sovereign state unless there is a supreme body that can exercise power anywhere, and yet that is not the case in Canada, where there is pooled sovereignty, and Canada is a stable state. I see no reason why we cannot move to a situation where it is understood that, if we want to use that word, sovereignty rests in the devolved administrations in some areas and with the UK Government in others. It's perfectly possible, and other countries have shown us the way.

In terms of the issue of equality, my view has always been that Wales should be offered what is available to Scotland. That doesn't mean that we should necessarily take it. I have tremendous difficulty in accepting that we should have full income tax raising and varying powers because of the fact that the tax system is redistributive and losing that element would not be in Wales's interest. While I'm sympathetic to the idea of the management of benefits being devolved to some extent—it was mentioned yesterday by my colleague the Member for Swansea East—losing the redistributive element of the welfare system, again, is not in Wales's interests. Let's remember as well that there are some areas that are devolved in Northern Ireland, such as employment law, health and safety, and driver and vehicle licensing. Do we really want those? Well, no, I would argue that those are areas that we would not want to see necessarily in Wales.

But, nevertheless, I do hold strongly to the view that Wales is being treated differently and in an inferior way to Scotland, and it comes down to the fact that, again, the constitutional debate in the UK has taken place in three different rooms. The UK Government in one room with Northern Ireland, in one room with Scotland, in one room with Wales and pretending that the devolution of power to one nation of the UK somehow has no effect on people's thinking in another part of the UK. The argument's been used over air passenger duty and it's an argument that I reject utterly.

Rwyf wedi dweud ers peth amser bellach fy mod yn meddwl nad yw hen fodel y Senedd sofran yn briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae pobl yn sôn am hanes. Wel, gadewch i ni beidio ag anghofio nad yw'r Deyrnas Unedig yn 100 mlwydd oed eto hyd yn oed. Sefydlwyd gwladwriaeth rydd Iwerddon yn 1920; diflannodd rhan sylweddol o'r DU fel yr oedd ar y pryd. Gadewch i ni gofio hefyd mai 27 mlynedd yn unig o amser a gafwyd pan nad oedd datganoli yn bodoli yn y DU gyfredol am fod Gogledd Iwerddon wedi ei datganoli am lawer iawn o flynyddoedd cyn y gohiriad yn 1972, a datganoli, wrth gwrs, fesul cam o 1999 ymlaen. Felly, gadewch i ni beidio ag esgus bod yna hen, hen draddodiadau na ellir eu gwrthdroi. Bydd rhai'n dadlau nad yw'n bosibl cael sefydlogrwydd mewn gwladwriaeth sofran heb gorff goruchaf sy'n gallu arfer pŵer yn unrhyw le, ac eto nid yw hynny'n wir yng Nghanada, lle y ceir sofraniaeth gyfunol, ac mae Canada yn wladwriaeth sefydlog. Ni welaf unrhyw reswm pam na allwn symud at sefyllfa lle y deallir bod sofraniaeth, os ydym eisiau defnyddio'r gair hwnnw, gan y gweinyddiaethau datganoledig mewn rhai meysydd a chan Lywodraeth y DU mewn meysydd eraill. Mae'n gwbl bosibl ac mae gwledydd eraill wedi dangos y ffordd i ni.

O ran cydraddoldeb, fy marn i bob amser yw y dylai Cymru gael cynnig yr hyn sydd ar gael i'r Alban. Nid yw hynny'n golygu y dylem ei gymryd o reidrwydd. Rwy'n cael anhawster aruthrol i dderbyn y dylem gael pwerau codi ac amrywio treth incwm llawn oherwydd bod y system dreth yn aildosbarthol ac ni fyddai colli'r elfen honno o fudd i Gymru. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r syniad y dylid datganoli rheolaeth dros fudd-daliadau i ryw raddau—cafodd ei grybwyll ddoe gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe—unwaith eto, ni fyddai colli elfen aildosbarthol y system les o fudd i Gymru. Gadewch i ni gofio hefyd fod rhai meysydd sydd wedi'u datganoli yng Ngogledd Iwerddon, megis cyfraith cyflogaeth, iechyd a diogelwch, a thrwyddedu gyrrwyr a cherbydau. A ydym wir eisiau'r rheini? Wel, na, fe fyddwn yn dadlau bod y rheini'n feysydd na fyddem o reidrwydd am eu gweld yng Nghymru.

Serch hynny, rwy'n dal yn bendant o'r farn fod Cymru yn cael ei thrin yn wahanol ac mewn ffordd israddol i'r Alban, ac mae'n deillio o'r ffaith, unwaith eto, fod y ddadl gyfansoddiadol yn y DU wedi digwydd mewn tair ystafell wahanol. Mae Llywodraeth y DU mewn un ystafell gyda Gogledd Iwerddon, mewn un ystafell gyda'r Alban, mewn un ystafell gyda Chymru ac yn esgus nad yw datganoli grym i un o wledydd y DU rywsut yn cael effaith ar ffordd pobl o feddwl mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'r ddadl wedi cael ei defnyddio ynghylch y doll teithwyr awyr ac mae'n ddadl rwy'n ei gwrthod yn llwyr.

When it comes to the issue of finance, you'll have heard what I said yesterday. Thinking about a referendum on income tax, I think the case for a referendum is weakened now. I think, on balance, there is still a case for a referendum. It's already there in the legislation. Given what's being offered to Scotland, given in fact what's being offered parts of England now with the £6 billion of devolution there, I think the argument is weakened although not fatally undermined, although I would not be prepared to support yet another referendum beyond that in terms of any further devolution because that is not the case as far as Scotland and Northern Ireland are concerned. Now, in terms of an income tax referendum, I would ask Members to think carefully about how such a referendum could be won. I've heard the arguments about accountability. I hear the arguments from the Conservative benches that this would make Members more accountable. I don't necessarily agree with that, but I can see that that would be an argument for people voting 'yes' in a referendum, but I'm at a loss at the moment to say to people, 'Well, these powers could be used for Wales's benefit'. It's very difficult to see how the current suite of powers as proposed could actually be used effectively in any way beyond simply being a revenue-raising tool, which undoubtedly it would be. Certainly, more thought needs to be given to it. I'm hardly somebody who could be accused of being in some way reticent on devolution, having fought two referendums and led from the front on the last referendum, but I struggle at the moment to see how a positive case can be presented to the people of Wales to ensure that they would vote 'yes' in such a referendum. That is something to consider for the future.

Fe glywais i beth ddywedodd Aled Roberts ac mae gennyf beth cydymdeimlad o ran beth ddywedodd e ynglŷn â system ffederal. Mae'n anodd, wrth gwrs, yn y Deyrnas Unedig o achos Lloegr a maint Lloegr. Beth felly ydych chi'n ei wneud gyda Lloegr? Lloegr yw'r cwestiwn mawr o ran hynny. Felly, byddai system ffederal llawn yn gorfod delio â'r cwestiwn hwnnw er mwyn sicrhau bod y system yn un cytbwys o ran y dyfodol.

How should the UK structure itself in the future? Members have heard me talk about a constitutional convention ad nauseam. The reality is that we cannot go on thinking that we can have different deals done in different nations of the UK and think that that settles the issue for ever and a day. The reality is that we need a constitutional convention. We need to make sure that all the nations in the UK are part of it. We need to ensure that there's general agreement as to who does what. It's as simple as that. It's a shame this wasn't done more than two years ago. So, we're in a position where progress has been made, more powers are coming, but we're still a long way from being treated as we should be and still a long way from having a constitution for the UK that will stand the test of time for this coming century.

O ran cyllid, fe fyddwch wedi clywed yr hyn a ddywedais ddoe. Gan feddwl am refferendwm ar y dreth incwm, rwy'n meddwl bod yr achos dros refferendwm wedi ei wanhau erbyn hyn. Ar y cyfan, rwy'n credu bod achos o hyd dros refferendwm. Mae yno eisoes yn y ddeddfwriaeth. O ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnis i'r Alban, o ystyried mewn gwirionedd yr hyn sy'n cael ei gynnis mewn rhannau o Loegr yn awr gyda datganoli £6 biliwn yno, rwy'n meddwl bod y ddadl wedi ei gwanhau, er nad yw wedi'i thanseilio'n derfynol, er na fyddwn yn barod i gefnogi refferendwm arall y tu hwnt i hynny o ran unrhyw ddatganoli pellach gan nad yw hynny'n digwydd yn achos yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nawr, o ran refferendwm treth incwm, fe fyddwn yn gofyn i'r Aelodau feddwl yn ofalus sut y gellid ennill refferendwm o'r fath. Rwyf wedi clywed y dadleuon ynghylch atebolrwydd. Rwyf yn clywed y dadleuon o feinciau'r Ceidwadwyr y byddai hyn yn gwneud yr Aelodau'n fwy atebol. Nid wyf o reidrwydd yn cytuno â hynny, ond gallaf weld y byddai hynny'n ddadl dros bleidleisio 'ie' mewn refferendwm, ond ni allaf yn fy myw â dweud wrth bobl ar hyn o bryd, 'Wel, gellid defnyddio'r pwerau hyn er budd Cymru.' Mae'n anodd iawn gweld sut y gellid mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio'r gyfres bresennol o bwerau, fel y cânt eu hargymell, mewn unrhyw ffordd y tu hwnt i fod yn offeryn codi refeniw, a dyna'n sicr a fyddai. Yn ddi-os, mae angen meddwl mwy yn ei gylch. Prin fy mod yn rhywun y gellid ei gyhuddo o fod yn dawedog mewn rhyw ffordd ar ddatganoli ar ôl ymladd dau refferendwm ac arwain o'r tu blaen ar y refferendwm diwethaf, ond rwy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd i weld sut y gellid cyflwyno achos cadarnhaol i bobl Cymru er mwyn sicrhau y byddent yn pleidleisio 'ie' mewn refferendwm o'r fath. Mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried ar gyfer y dyfodol.

I heard Aled Roberts's comments and I have some sympathy with what he said about a federal system. It's difficult in the UK, of course, because of England and the size of England. What do you do about England? England is the major question in that regard. So, an entirely federal system would have to deal with that issue in order to ensure that the system would be balanced for the future.

Sut y dylai'r DU strwythuro'i hun yn y dyfodol? Mae'r Aelodau wedi fy nghlywed yn siarad hyd at syrffed am gonfensiwn cyfansoddiadol. Y realiti yw na allwn barhau i feddwl y gallwn gael bargeinion gwahanol yn digwydd yng ngwahanol wledydd y DU a meddwl bod hynny'n setlo'r mater unwaith ac am byth. Y gwirionedd yw bod arnom angen confensiwn cyfansoddiadol. Mae angen i ni wneud yn siŵr fod holl wledydd y DU yn rhan ohono. Mae angen i ni sicrhau bod cytundeb cyffredinol ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth. Mae mor syml â hynny. Mae'n drueni na chafodd hyn ei wneud dros ddwy flynedd yn ôl. Felly, rydym mewn sefyllfa lle y gwnaed cynnydd, mae mwy o bwerau ar y ffordd, ond rydym yn dal i fod yn bell o gael ein trin fel y dylem gael ein trin ac yn dal yn bell o gael cyfansoddiad ar gyfer y DU a fydd yn gwrthsefyll prawf amser ar gyfer y ganrif sydd i ddod.

17:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Leanne Wood to reply to the debate. Leanne.

Galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl. Leanne.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:30

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. I've listened to the contributions made during this debate and I thank all Members for their contributions. Aled Roberts talked about the need for parity with Scotland in terms of powers and you also mentioned the tax situation. What you didn't mention, though, Aled, is the question of funding. I give thanks to Simon Thomas and to Alun Ffred Jones for outlining the case for financial parity for Wales with Scotland and I would be interested to know whether or not he supports Plaid Cymru on that question, as a fellow traveller.

Diolch, Lywydd. Rwyf wedi gwrandao ar y cyfraniadau a wnaed yn ystod y ddaidl hon a diolch i'r holl Aelodau am eucyfraniadau. Soniodd Aled Roberts am yr angen am gydraddoldeb gyda'r Alban o safbwynt pwerau ac fe sonioch chi hefyd am y sefyllfa dreth. Yr hyn na sonioch yn ei gylch, fodd bynnag, Aled, oedd mater cyllid. Diolch i Simon Thomas ac i Alun Ffred Jones am amlinellu'r achos dros gydraddoldeb â'r Alban i Gymru yn ariannol a byddai'n ddiddorol gwybod a yw'n cefnogi Plaid Cymru ar y cwestiwn hwnnw, fel cyd-deithiwr.

Interesting tangents from the leader of the Conservatives: I could take issue with an awful lot of what he said, but I must take issue with the point that he made about the latest polls. He stated that support for more devolution has dropped by 9%, compared to a previous poll that was done in September, but he must accept that it is still higher than when the equivalent poll was taken in both 2012 and in 2013, so, what we see is a trend, over several years, of an increase in support for further powers, and not a decrease.

Cafwyd gwyrriadau diddorol oddi ar y testun gan arweinydd y Ceidwadwyr: gallwn anghytuno â llawer iawn o'r hyn a ddywedodd, ond rhaid imi anghytuno â'r pwynt a wnaeth am yr arolygon barn diweddaraf. Dywedodd fod cefnogaeth i ragor o ddatganoli wedi gostwng 9%, o'i gymharu ag arolwg barn blaenorol a gynhaliwyd ym mis Medi, ond rhaid iddo dderbyn ei fod yn dal yn uwch na phan gafwyd arolwg cyfatebol yn 2012 ac yn 2013, felly'r hyn a welwn yw tuedd, dros nifer o flynyddoedd, o gynydd yn y gefnogaeth i bwerau pellach, nid gostyngiad.

To Mick Antoniw, I recall a previous Labour Secretary of State for Wales telling us that the Government of Wales Act 2006 would settle the devolution question for a generation. Well, that went well, didn't it? He also suggested that Plaid Cymru, in some way, really wants to see a Conservative Government re-elected in London. Now, Mick, you know very well that I have ruled out Plaid Cymru propping up a Conservative Government in the event of a hung Parliament in London. Labour has not ruled out going into coalition with the Conservatives. [Laughter.]

Yr hyn a ddywedaf wrth Mick Antoniw yw fy mod yn cofio Ysgrifennydd Gwladol Cymru blaenorol y blaid Lafur yn dweud wrthym y byddai Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn setlo cwestiwn datganoli am genhedlaeth. Wel, onid oedd hynny'n llwyddiant? Awgrymodd hefyd fod Plaid Cymru, mewn rhyw ffordd, yn awyddus iawn i weld Llywodraeth Geidwadol yn cael ei hail-ethol yn Llundain. Nawr, Mick, fe wyddoch yn iawn fy mod wedi dweud na fydd Plaid Cymru yn cynnal Llywodraeth Geidwadol pe caem Senedd grog yn Llundain. Nid yw Llafur wedi dweud na fyddant yn ffurfio clymblaid gyda'r Ceidwadwyr. [Chwerthin.]

But, Mick, I have to tell you this—

Ond, Mick, rhaid i mi ddweud hyn wrthych—

17:32

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

17:32

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:32

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have to tell you this—

Mae'n rhaid i mi ddweud hyn wrthych—

17:32

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

She's not taking an intervention.

Nid yw'n cymryd ymyriad.

17:32

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You are misrepresenting our position. You have done it before and it is a lie and I will not allow it to go unchallenged. [Interruption.]

Rydych yn camliwio ein safbwynt. Rydych wedi gwneud hynny o'r blaen, mae'n gelwydd ac nid wyf yn caniatáu i'r peth fynd heb ei herio. [Torri ar draws.]

17:32

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

17:32	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Jocelyn Davies has outlined why—</p> <p><i>Mick Antoniw a gododd—</i></p>	<p>Mae Jocelyn Davies wedi amlinellu pam—</p> <p><i>Mick Antoniw rose—</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:32	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Are you taking an intervention?</p>	<p>A ydych yn derbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:32	<p><b>Mick Antoniw</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Will you withdraw that?</p>	<p>A wnewch chi dynnu hynny'n ôl?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:32	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No, I won't.</p>	<p>Na wnaif.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:32	<p><b>Mick Antoniw</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I've made a representation. You accused me of a lie. I have specifically not lied; I have an opinion you disagree with. It is extremely offensive and doesn't do dignity to your position of leader of a party.</p>	<p>Rwyf wedi gwneud sylwadau. Fe gyhuddoch chi fi o gelwydd. Yn bendant, nid wyf wedi dweud celwydd; mae gen i farn rydych yn anghytuno â hi. Mae'n hynod o sarhaus ac nid yw'n cyfrannu at urddas eich statws fel arweinydd plaid.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:32	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mick, what you said is not true. You have misrepresented Plaid Cymru's position and I will not allow that misrepresentation to go unchallenged.</p> <p>Jocelyn Davies has outlined why powers over our social security—[Interruption.]</p>	<p>Mick, nid yw'r hyn a ddywedoch yn wir. Rydych wedi camliwio safbwynt Plaid Cymru ac nid wyf am ganiatáu i gamliwio o'r fath fynd heb ei herio.</p> <p>Mae Jocelyn Davies wedi amlinellu pam y mae pwerau dros ein nawdd cymdeithasol—[Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:33	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Order. Carry on.</p>	<p>Trefn. Ewch yn eich blaen.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:33	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Presiding Officer. Jocelyn Davies has outlined why powers over our social security net are essential if this institution is to properly protect people in need here, and Alun Ffred Jones outlined Plaid Cymru's position in relation to our funding and how the game has changed significantly since that vow was made to people in Scotland. He asked if anyone could justify why Wales should be treated differently to Scotland and I have not heard any justification for that here this afternoon.</p> <p>The First Minister says that he largely agrees with what I said, but he has not said that he wants Wales to have parity with Scotland in terms of both powers and finance and that is the key question for our next steps. Yet it is not a question that has been addressed this afternoon by the First Minister. He is not committed to financial parity and he has not sought to justify why we do not deserve financial parity. Our financial settlement is inferior and we should not be prepared to stand for that. I suspect that we will be returning to this question in the coming weeks and months.</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Mae Jocelyn Davies wedi amlinellu pam y mae pwerau dros ein rhwyd ddiogelwch nawdd cymdeithasol yn hanfodol os yw'r sefydliad hwn yn mynd i amddiffyn pobl mewn angen yn briodol yma, ac amlinellodd Alun Ffred Jones safbwynt Plaid Cymru ar y dull o'n cyllido a sut y mae pethau wedi newid yn sylweddol ers yr adduned a wnaed i bobl yr Alban. Gofynnodd a allai unrhyw un gyfiawnhau pam y dylai Cymru gael ei thrin yn wahanol i'r Alban, ac nid wyf wedi clywed unrhyw gyfiawnhad dros hynny yma y prynhawn yma.</p> <p>Mae'r Prif Weinidog yn dweud ei fod yn cytuno i raddau helaeth â'r hyn a ddywedais, ond nid yw wedi dweud ei fod am i Gymru gael cydraddoldeb â'r Alban o ran pwerau a chyllid a dyna'r cwestiwn allweddol ar gyfer ein camau nesaf. Ac eto, nid yw'n fater sydd wedi cael sylw y prynhawn yma gan y Prif Weinidog. Nid yw wedi ymrwymo i gydraddoldeb ariannol ac nid yw wedi ceisio cyfiawnhau pam nad ydym yn haeddu cydraddoldeb ariannol. Mae ein setliad ariannol yn israddol ac ni ddylem fod yn barod i ddioddef hynny. Rwy'n amau y byddwn yn dychwelyd at y cwestiwn hwn yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Members will recall that, in the aftermath of the Scottish independence referendum, politicians in this Chamber suddenly became converts to the cause of home rule. It was telling that a term that had not been used for some decades suddenly became fashionable. In debates and ministerial questions, Members here have repeatedly used the term 'home rule' to describe their desired outcome for Wales. It's noticeable that its use has dwindled significantly since the Scottish referendum and I can't recall the term being used once during the recent cross-party talks on devolution, and, from today's debate, it's still far from clear what exactly members of the Westminster-headquartered parties mean by 'home rule'.

Keir Hardie was clear what he meant by it, all those years ago, as was Lloyd George. It seems inconceivable to me that home rule could mean Wales having statutory responsibility for carers, but no say over carers' allowance, or that Wales can set speed limits, but not drink-drive limits, or that a body of distinct Welsh law can grow without a Welsh legal jurisdiction. I look forward to the publication of a clear definition of 'home rule' in the manifestos of the parties opposite. Plaid Cymru has already published detailed proposals for meaningful self-government that form the basis of our proposed Wales Bill, which we will seek in a new Parliament.

Parity characterises Plaid Cymru's approach to self-government. Whatever the going rate for devolution within the UK, then that is the very least we can expect for our country—parity of resources, too, because all three of the parties opposite have had opportunities to address our funding needs since the introduction of the Barnett formula in 1978, and none have taken that opportunity.

Some of you in this Chamber will have spent some time in Scotland during the referendum campaign, and, although we may be on different sides of that debate, surely we've all returned home to Wales knowing that there is absolutely nothing inferior about this nation or the people who live here to justify our third-rate powers. Nothing about us here in Wales is inferior to any other country anywhere else in the world. Plaid Cymru believes that we've got what it takes to unleash the full potential of Wales. Nothing should stop us doing all that we can to achieve just that.

Yn dilyn refferendwm annibyniaeth yr Alban, bydd yr Aelodau'n cofio gwleidyddion yn y Siambr hon yn newid yn sydyn i gefnogi ymreolaeth. Roedd yn dweud llawer fod term nad oedd wedi cael ei ddefnyddio ers rhai degawdau wedi dod yn ffasiynol yn sydyn iawn. Mewn dadleuon a chwestiynau i'r gweinidogion, mae Aelodau yma wedi defnyddio'r term 'ymreolaeth' dro ar ôl tro i ddisgrifio eu canlyniadau dymunol ar gyfer Cymru. Mae'n amlwg fod ei ddefnydd wedi lleihau'n sylweddol ers refferendwm yr Alban ac ni allaf gofio'r term yn cael ei ddefnyddio unwaith yn ystod y trafodaethau trawsbleidiol diweddar ar ddatganoli, ac o wrando ar y ddadl heddiw, mae'n dal ymhell o fod yn glir beth yn union y mae aelodau pleidiau sydd â'u pencadlys yn San Steffan yn ei olygu wrth 'ymreolaeth'.

Roedd Keir Hardie yn glir ynghylch yr hyn a olygai wrth ei ddefnyddio, flynyddoedd maith yn ôl, fel yr oedd Lloyd George. Mae'n ymddangos yn annirnadwy i mi y gallai ymreolaeth olygu bod Cymru â chyfrifoldeb statudol dros ofalwyr heb lais ynghylch lwfans gofalwyr, neu y gall Cymru osod cyfyngiadau cyflymder ond nid terfynau yfed a gyrru, neu y gall corff o gyfraith Gymreig unigryw dyfu heb awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig. Edrychaf ymlaen at weld diffiniad clir o 'ymreolaeth' ym manifestos y pleidiau gyferbyn. Mae Plaid Cymru eisoes wedi cyhoeddi argymhellion manwl ar gyfer hunanlywodraeth ystyrllon sy'n ffurfio sail i'n Bil Cymru arfaethedig y byddwn yn ei gyflwyno mewn Senedd newydd.

Mae cydraddoldeb yn nodweddu ymagwedd Plaid Cymru tuag at hunanlywodraeth. Beth bynnag yw'r gyfradd gyfredol am ddatganoli yn y DU, dyna'r lleiaf y gallwn ei ddisgwyl ar gyfer ein gwlad—cydraddoldeb o ran adnoddau hefyd, gan fod y tair plaid gyferbyn wedi cael cyfleoedd i fynd i'r afael â'n hanghenion cyllido ers cyflwyno fformiwlâ Barnett yn 1978, ac nid oes yr un ohonynt wedi manteisio ar y cyfle hwnnw.

Bydd rhai ohonoch yn y Siambr hon wedi treulio peth amser yn yr Alban yn ystod ymgyrch y refferendwm, ac er ein bod ar ochrau gwahanol i'r ddadl honno, 'does bosibl na ddychwelodd pawb ohonom adref i Gymru gan wybod nad oes dim o gwbl yn israddol am y genedl hon neu'r bobl sy'n byw yma i allu cyfiawnhau ein pwerau trydedd radd. Nid oes dim amdanom ni yma yng Nghymru sy'n israddol i unrhyw wlad arall yn unrhyw ran arall o'r byd. Mae Plaid Cymru o'r farn fod gennym yr hyn sydd ei angen i ryddhau potensial llawn Cymru. Ni ddylai unrhyw beth ein hatal rhag gwneud popeth y gallwn i gyflawni hynny.

17:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Mick Antoniw, point of order.

Mick Antoniw, mater o drefn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:37 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

My point of order: during the course of that debate, the leader of Plaid Cymru called me a liar. There have been previous rulings—[Interruption.] There have been previous rulings—

Dyma fy mater o drefn: yn ystod y ddadl hon, honnodd arweinydd Plaid Cymru fy mod yn gelwyddgi. Cafwyd dyfarniadau blaenorol— [Torri ar draws.] Cafwyd dyfarniadau blaenorol—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 17:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Excuse me—I'm sorry, Mick Antoniw—this is a point of order, a serious matter. Will you please refrain from barracking from the sidelines? Mick Antoniw.
- Esgusodwch fi—mae'n ddrwg gennyf, Mick Antoniw—mater o drefn yw hyn, mae'n fater difrifol. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ymatal rhag heclo o'r ochr? Mick Antoniw.
- 17:37 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There have been previous rulings that that is not proper conduct and discussion in this particular Chamber. I put a particular debate and expressed opinions, which I believe were put succinctly and logically, and which the Member did not choose to challenge by any form of intellectual response, merely to refer to me as a liar. I believe that is a breach—[interruption.] I believe that is a breach of conduct, a breach of our procedures, and I call upon the leader of Plaid Cymru to apologise and to withdraw that comment.
- Bu dyfarniadau blaenorol nad yw hynny'n ymddygiad priodol i drafodaeth yn y Siambr hon. Cyflwynais ddadl benodol a mynegi safbwyntiau y credaf eu bod wedi'u cyfleu'n gryno ac yn rhesymegol, ac ni ddewisodd yr Aelod eu herio drwy ddefnyddio unrhyw fath o ymateb deallusol, ond yn hytrach, cyfeiriodd ataf fel celwyddgi. Credaf fod hynny'n—[Torri ar draws.] Credaf fod hynny'n gamymddwyn, yn dramgwydd yn erbyn ein gweithdrefnau, ac rwy'n galw ar arweinydd Plaid Cymru i ymddiheuro ac i dynnu'r sylw hwnnw'n ôl.
- 17:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Members must be very careful what they say in the Chamber, but I think Leanne Wood rephrased her suggestion and said you were telling an untruth, but I will look—[Interruption.] I will look at the Record and see whether the rephrasing was enough, but it's very important that people are very careful what they say in the Chamber. I'll come back to you on that, okay.
- Diolch yn fawr. Rhaid i aelodau fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddweud yn y Siambr, ond rwy'n credu bod Leanne Wood wedi aralleirio ei hawgrym a dywedodd eich bod yn dweud anwiredd, ond fe edrychaf—[Torri ar draws.] Fe edrychaf ar y Cofnod i weld a oedd yr aralleirio yn ddigon, ond mae'n bwysig iawn i bobl fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddweud yn y Siambr. Dof yn ôl atoch ynglŷn â hynny, iawn.
- The proposal is that we agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Object. I defer all voting on this item until voting time.
- Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
- Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
- Voting deferred until voting time.*
- 17:39 **9. Cyfnod Pleidleisio** **Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Business Committee have agreed that voting will take place before the short debate, so we'll now move straight into the vote.
- Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd y pleidleisio'n digwydd cyn y ddadl fer, felly symudwn yn syth yn awr at y bleidlais.
- The first vote is on the Welsh Conservatives' debate, so I call for a vote on the motion, which is tabled in the name of Paul Davies. Now, if the proposal is not agreed, we will vote on the amendments to the motion. So, open the vote—[Interruption.] Order. Gracious me. Close the vote. In favour nine, no abstentions, 35 against. Therefore, the motion falls.
- Mae'r bleidlais gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, felly galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Nawr, os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Felly, agorwch y bleidlais—[Torri ar draws.] Trefn. Mawredd mawr. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 blaid, nid oedd neb yn ymatal, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei wrthod.
- Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*
- Motion not agreed: For 9, Against 35, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5711](#)
- [Result of the vote on motion NDM 5711](#)
- 17:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- So, we now move on to the vote on amendment 1, which is tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. In favour 32, no abstentions, 12 against. Therefore, amendment 1 is carried.
- Felly, symudwn ymlaen yn awr at y bleidlais ar welliant 1, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 32, neb yn ymatal, 12 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 32, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5711](#)

17:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on amendment 2, again in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. In favour 32, no abstentions, 12 against. Therefore, the amendment is carried.

Galwaf yn awr am bleidlais ar welliant 2, unwaith eto yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 32, neb yn ymatal, 12 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 32, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5711](#)

17:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to a vote on amendment 3, in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 35, nine abstentions, none against. Therefore, amendment 3 is carried.

Symudwn yn awr i bleidlais ar welliant 3, yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 35, 9 yn ymatal, neb yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 0, Ymatal 9.

Amendment agreed: For 35, Against 0, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5711](#)

17:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4. Open the vote. This is in the name of Aled Roberts. Close the vote. In favour 12, nine abstentions, 23 against. Therefore, amendment 4 falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4. Agorwch y bleidlais. Fe'i cyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Caewch y bleidlais. O blaid 12, 9 yn ymatal, 23 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 4 yn cael ei wrthod.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 23, Ymatal 9.

Amendment not agreed: For 12, Against 23, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5711](#)

17:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Vote on amendment 5, again in the name of Aled Roberts: open the vote. Close the vote. In favour 12, no abstentions, 32 against. Therefore, amendment 5 falls.

Y bleidlais ar welliant 5, eto yn enw Aled Roberts: agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 12, neb yn ymatal, 32 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 5 yn cael ei wrthod.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 32, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 12, Against 32, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5711](#)

17:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Amendment 6, in the name of Jane Hutt: open the vote. Close the vote. In favour 23, 12 abstentions, nine against. Therefore, amendment 6 is carried.

Gwelliant 6, yn enw Jane Hutt: agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 23, 12 yn ymatal, 9 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 6 yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 9, Ymatal 12.

Amendment agreed: For 23, Against 9, Abstain 12.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5711](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5711](#)



**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5711 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5711 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni ei hamcanion o ddileu'r diffyg yng nghyllideb y DU erbyn 2015 a chynnal ei statws credyd AAA;

1. Notes that the UK Government has failed to meet its objectives of eliminating the UK's budget deficit by 2015 and maintaining its AAA credit rating;

2. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi haneru'r diffyg ariannol fel cyfran o gynnyrch domestig gros;

2. Notes that the UK Government has halved the deficit as a share of GDP;

3. Yn gresynu at y ffaith bod mesurau llymder Llywodraeth y DU wedi arwain at doriad 10% mewn termau real i gyllideb Cymru ers 2010; a'r effeithiau economaidd a chymdeithasol ar gymunedau a theuluoedd yng Nghymru sy'n deillio o hynny;

3. Regrets that the UK Government's austerity measures have led to a 10% real terms cut to the Welsh budget since 2010; and the resulting economic and social impacts on Welsh communities and families;

4. Yn cydnabod bod 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru o'i gymharu â 2010 ac mai'r DU oedd y wlad a oedd yn tyfu'n gyflymaf yn y G7 yn 2014, er bod pryderon o hyd ynglŷn â lefel diweithdra ieuenctid ac effaith contractau dim oriau ar dlodi ymysg pobl sydd mewn gwaith; a

4. Recognises that there are an extra 41,000 people in work in Wales compared with 2010 and the UK was the fastest growing country in the G7 in 2014, though concerns remain about the level of youth unemployment and the impact of zero-hours contracts on in-work poverty; and

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfrannu at gynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer twf yn y sector preifat i greu swyddi a ffyniant a nodi bod Llywodraeth Cymru, er gwaethaf toriadau o tua 30% yn y Gyllideb Gyfalaf, wedi parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol ledled Cymru i gefnogi'r economi a'r gwasanaethau cyhoeddus.

5. Calls on the Welsh Government to contribute to the UK Government's long-term economic plan to invest in infrastructure and create the conditions for private sector growth to create jobs and prosperity and notes that despite cuts of some 30% in the Capital Budget, the Welsh Government has continued to make significant capital investment across Wales to support the economy and public services.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Open the vote. Close the vote. In favour 31, no abstentions, 12 against. Therefore, the amended motion is carried.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 31, neb yn ymatal, 12 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5711 fel y'i diwygiwyd: O blaid 31, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion NDM5711 as amended agreed: For 31, Against 12, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5711 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5711 as amended](#)

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to a vote on the Plaid Cymru debate and I call for a vote on the motion, which is tabled in the name of Elin Jones. Now, if the proposal is not agreed, we will vote on the amendments to the motion. Open the vote. Close the vote. In favour nine, no abstentions, 35 against. Therefore, the motion falls.

Symudwn ymlaen yn awr i bleidlais ar ddadl Plaid Cymru a galwaf am bleidlais ar y cynnig sy'n cael ei gyflwyno yn enw Elin Jones. Nawr, os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 9, neb yn ymatal, 35 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei wrthod.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 35, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5710](#)

[Result of the vote on motion NDM5710](#)

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

So, the first vote now is on amendment 1. Now, if amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. So, I call for a vote on the amendment in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. In favour three, no abstentions, 41 against. Therefore, amendment 1 falls.

Felly, mae'r bleidlais gyntaf yn awr ar welliant 1. Nawr, os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol. Felly, galwaf am bleidlais ar y gwelliant yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 3, neb yn ymatal, 41 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 1 yn cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 3, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 3, Against 41, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5710](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5710](#)

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on amendment 2. Again, this is in the name of Jane Hutt. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. So, open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 18 against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar welliant 2. Unwaith eto, fe'i cyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Felly, agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 18 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 18, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 26, Against 18, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5710](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5710](#)

*Cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.*

*Amendment 3 deselected.*

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on amendment 3, and this is in the name of Paul Davies. [Interruption.] Oh, I am sorry. I beg your pardon; it has just fallen. I call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar welliant 3, ac fe'i cyflwynir yn enw Paul Davies. [Torri ar draws.] O, mae'n ddrwg gennyf. Mae'n ddrwg gennyf; mae newydd gael ei wrthod. Galwaf am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5710 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5710 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynnis y Cynulliad, a gefnogwyd gan bob plaid a'i gymeradwyo ar 22 Hydref 2014, sy'n amlinellu ei ddyheadau ar gyfer dyfodol datganoli yng Nghymru;

1. Notes the Assembly's resolution, supported by all parties and approved on 22 October 2014, setting out its aspirations for the future of devolution in Wales;

2. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Papur Gorchymyn sy'n amlinellu ein cynigion ar gyfer camau nesaf datganoli;

2. Notes the publication by the UK Government of a Command Paper setting out proposals for the next stages of devolution;

3. Yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud o safbwynt rhai o'r dyheadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad ar gyfer datganoli, gan gynnwys model cadw pwerau i Gymru, a phwerau newydd i'r Cynulliad ar drafnidiaeth, adnoddau naturiol ac etholiadau;

3. Recognises that progress has been made against some of the Assembly's agreed aspirations for devolution, including a reserved powers model for Wales, and new powers for the Assembly on transport, natural resources and elections;

4. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y dylai Cymru gael setliad cyllido tecach, ond yn mynegi siom nad yw hyn yn mynd yn ddigon pell i fodloni cais unfrydol gan y Cynulliad i Lywodraeth y DU ymrwymo i ddull penodedig o atal rhagor o gydgyfeirio.

4. Welcomes the recognition by the UK Government that Wales should have a fairer funding settlement, but expresses disappointment that this falls short of the Assembly's unanimous request for the UK Government to commit to a specific mechanism to stop further convergence.

5. Yn mynegi siom ynghylch y diffyg cynnydd o ran datganoli pwerau eraill a argymhellwyd gan Gomisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru: a

5. Expresses disappointment about the lack of progress on devolving other powers recommended by the UK Government's Commission on Devolution in Wales; and

6. Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i roi sylw i'r materion hyn sy'n weddill yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU.

6. Calls on the next UK Government to address these outstanding matters following the UK General Election.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. In favour 35, no abstentions, nine against. Therefore, the amended motion is carried.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 35, neb yn ymatal, 9 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5710 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Motion NDM5710 as amended agreed: For 35, Against 9, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5710 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5710 as amended](#)

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the short debate. Anyone wishing to leave the Chamber, if you could do it quickly and quietly.

Symudwn yn awr at y ddadl fer. Dylai unrhyw un sydd am adael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

17:43 **10. Dadl Fer: Cyfeillio—Atal Unigrwydd ac Arwahanrwydd**

**10. Short Debate: Befriending—Ending Loneliness and Isolation**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. We now move to item 10, which is the short debate. I call on Mike Hedges to talk on the subject that he's chosen, which is 'Befriending—Ending Loneliness and Isolation'.

Diolch yn fawr iawn. Symudwn yn awr at eitem 10, sef y ddadl fer. Galwaf ar Mike Hedges i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis, sef 'Cyfeillio—Atal Unigrwydd'.

17:44 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I have given one minute to Bill Powell.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf wedi rhoi un funud i Bill Powell.

Speaking about loneliness in a Chamber of Assembly Members, most of whom are time-poor, spending their time rushing between meetings, Assembly events and their own constituencies—they have no time to be lonely, but, for many elderly people, the reality is very different. There is no single cause of loneliness and isolation, but most people who are lonely and isolated will have some of the following characteristics. They'll be elderly, their partner deceased or in a nursing home, have mobility problems, family living away—often on another continent—friends either incapacitated, deceased or moved. It is also not a case of people who have been anti-social becoming lonely and isolated.

Mae siarad am unigrwydd mewn Siambr o Aelodau'r Cynulliad, y rhan fwyaf ohonynt yn brin o amser, yn treulio eu hamser yn rhuthro rhwng cyfarfodydd, digwyddiadau'r Cynulliad a'u hetholaethau—nid oes ganddynt amser i fod yn unig, ond i lawer o bobl oedrannus, mae'r realiti yn wahanol iawn. Nid un rheswm sydd yna dros unigrwydd ac arwahanrwydd, ond bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n unig ac yn ynysig yn meddu ar rywfaint o'r nodweddion canlynol. Byddant yn oedrannus, eu partner wedi marw neu mewn cartref nyrsio, bydd ganddynt broblemau symudedd, teulu sy'n byw yn bell—yn aml ar gyfandir arall—a'u cyfeillion naill ai'n fethedig, wedi marw neu wedi symud. Nid yw'n ymwneud chwaith â phobl sydd wedi arfer bod yn anghymdeithasol yn dod unig ac yn ynysig.

One case study is Charlotte—not her real name—a former trade union activist living in Cardiff, a regular attendant at the age cross-party group. Following the loss of her husband, she has suffered from loneliness. A more outgoing, sociable and active person it would be difficult to meet. According to the TNS Loneliness Omnibus Survey for Age UK in April 2014, 75,000 over-65s in Wales described themselves as ‘always or often’ lonely, and 46%, which is almost half, said that a tv or pet is their main form of company. This is perhaps the saddest statement I have made in this Chamber, and probably the saddest statement I’ve ever heard in this Chamber.

Loneliness is a huge issue that affects people all the year round, with nearly a third of older people in Wales saying they would like to go out more often. Without the benefit of the Welsh Government’s free bus pass scheme, that number would be substantially higher. Anyone catching a bus in the day will note how many bus passes are shown as people get on the bus. Sometimes you think, ‘Do people actually pay as well?’

The research also reveals that one in seven people aged over 65 are feeling cut off from society. Loneliness can be seriously damaging and recent studies have shown that it has doubled the impact of obesity, and that the feeling of extreme loneliness can increase an older person’s chance of premature death by 14%. Being able to take part in community life with good access to local services and facilities is a lifeline for many older people. If an older person cannot get out and about locally, they’re at risk of poor health, less social contact with others and a reduced quality-of-life overall.

Increasing opportunities for older people to take part locally can do so much to boost independence, combat social isolation and loneliness and promote health and wellbeing. I’m not going to say at this stage what most people say: money spent on dealing with befriending will save so many millions of pounds for the health service. But what it will do is reduce some of the people going there.

An age-friendly community is one that has the capacity to support older people to enjoy the best possible quality of life. It includes facilities, services and amenities that are accessible and that accommodate the needs of older people to help them to fully participate in society. Community centres, luncheon clubs and day centres all give the opportunity to socialise. The Welsh Government’s ‘Strategy for Older People in Wales 2013-2023’ identifies the key challenge to develop communities that are age-friendly, by ensuring older people have the resources they need to live. The strategy acknowledges that the number of older people in our communities is growing and recognises the health and wellbeing benefits of social connectedness—or just meeting with people, as I would describe it—so it is vital that communities become more age-friendly and facilitate the participation of people of all ages. It also highlights the importance of older people being full participants in society, not just stuck in their homes.

Un astudiaeth achos yw Charlotte—nid ei henw iawn—cyn-aelod gweithredol o undeb llafur sy’n byw yng Nghaerdydd, ac un sy’n mynychu’r grŵp oedran trawsbleidiol yn rheolaidd. Yn sgil colli ei gŵr, mae hi wedi dioddef o unigrwydd. Ni allech feddwl am berson mwy allblyg, cymdeithasol a gweithgar. Yn ôl Arolwg Omnibws TNS o Unigrwydd ar gyfer Age UK ym mis Ebrill 2014, disgrifiodd 75,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru eu hunain fel pobl unig ‘drwy’r amser neu’n aml’, a dywedodd 46%, sef bron i hanner, mai’r teledu neu anifail anwes yw eu prif fath o gwmni. Dyma’r datganiad tristaf rwyf erioed wedi’i wneud yn y Siambr hon o bosibl, a’r datganiad tristaf, yn ôl pob tebyg, a glywais yn y Siambr hon erioed.

Mae unigrwydd yn fater enfawr sy’n effeithio ar bobl drwy gydol y flwyddyn, gyda bron i draean o bobl hŷn yng Nghymru yn dweud y byddent yn hoffi mynd allan yn amlach. Heb fantais cynllun tocyn bws am ddim Llywodraeth Cymru, byddai’r nifer yn sylweddol uwch. Bydd unrhyw un sy’n dal bws yn y dydd yn sylwi faint o docynnau bws sy’n cael eu dangos wrth i bobl fynd ar y bws. Weithiau rydych yn meddwl, ‘A oes yna bobl sy’n talu?’

Mae’r ymchwil hefyd yn dangos bod un o bob saith o bobl dros 65 oed yn teimlo eu bod wedi’u torri i ffwrdd o gymdeithas. Gall unigrwydd fod yn niweidiol tu hwnt ac mae astudiaethau diweddar wedi dangos ei fod wedi dyblu effaith gordewdra, ac y gall y teimlad o unigrwydd eithafol olygu cynnydd o 14% yn y perygl y bydd person hŷn yn marw’n gynamserol. Mae gallu cymryd rhan ym mywyd y gymuned a gwasanaethau a chyfleusterau lleol hygyrch yn achubiaeth i lawer o bobl hŷn. Os na all person hŷn fynd allan yn lleol, mae’n wynebu risg o iechyd gwael, llai o gyswllt cymdeithasol ag eraill a llai o ansawdd bywyd yn gyffredinol.

Gall cynyddu cyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan yn lleol wneud cymaint i hyrwyddo annibyniaeth, brwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a hybu iechyd a lles. Nid wyf am ddweud ar y cam hwn yr hyn y mae’r rhan fwyaf o bobl yn ei ddweud: bydd arian a werir ar gyfeillio yn arbed hyn a hyn o filiynau o bunnoedd i’r gwasanaeth iechyd. Ond yr hyn y bydd yn ei wneud yw lleihau nifer y bobl sy’n troi ato.

Mae cymuned sy’n ystyriol o oedran yn un sydd â’r gallu i gynorthwyo pobl hŷn i fwynhau bywyd o’r ansawdd gorau posibl. Mae’n cynnwys cyfleusterau, gwasanaethau ac amwynderau sy’n hygyrch ac sy’n darparu ar gyfer anghenion pobl hŷn i’w helpu i gymryd rhan lawn yn y gymdeithas. Bydd canolfannau cymunedol, clybiau cinio a chanolfannau dydd oll yn cynnig cyfle i gymdeithasu. Mae ‘Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023’ Llywodraeth Cymru yn nodi’r her allweddol i ddatblygu cymunedau sy’n ystyriol o oedran, drwy sicrhau bod gan bobl hŷn yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fyw. Mae’r strategaeth yn cydnabod bod nifer y bobl hŷn yn ein cymunedau ar gynydd ac yn nodi manteision iechyd a lles cysylltioldeb cymdeithasol—neu gyfarfod â phobl, fel y byddwn yn ei ddisgrifio—felly mae’n hanfodol i gymunedau fod yn fwy ystyriol o oedran a hwyluso cyfranogiad pobl o bob oed. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ei bod hi’n bwysig i bobl hŷn gymryd rhan lawn ym mywyd y gymdeithas, nid aros yn gaeth i’w cartrefi.

However, many older people come up against barriers to prevent their participation, and what should be an enjoyable stage of life can become a time of loneliness and isolation. With local authorities facing budget cutbacks, many of the essential facilities and services that older people rely on are under threat. The declining local services of recent decades have caused a real problem for many older people, particularly those who face additional barriers, such as declining mobility, poor health, low incomes or limited social contact. Older people living in rural areas can face acute challenges in accessing any facilities and services.

There are many social barriers that can exclude older people from their community. These can include physical access problems for people with mobility impairments, such as steps, including those steps, which we've all met in places, of different depths as you climb; access to wheelchairs and mobility scooters; pavements of a poor condition and street clutter, which can be hazardous to older people and can pose an increased fall risk; a lack of public toilets in the right place, because adequate public toilet provision is vital to enable older people to maintain their dignity and participate in community life; a lack of places to meet in the community, which can increase social isolation; and a reduction in the number of facilities, such as public libraries, which can enable older people to engage in activities and access computers—the ability to Skype or FaceTime grandchildren and great-grandchildren can have a hugely beneficial effect on the lives of the elderly.

There is the importance of social care in dealing with the problems of mobility and personal care, but there are other equally important means of supporting the elderly, such as the Contact the Elderly service model. The Contact the Elderly model is based on a simple, yet very effective, concept: free monthly tea parties for older people, supported by a network of volunteers within local communities. These social gatherings bring individuals together and develop fulfilling friendships and support networks, and thereby help to reduce loneliness and isolation. There are opportunities for people to meet with these people not just once a month, but more often, as they build a new circle of friends to replace the friends they used to have. Contact the Elderly recruits volunteers, drivers, hosts and group co-ordinators to help arrange monthly tea parties for small groups of older people. Once a month, each older guest is collected from their home by a volunteer driver and is taken to a volunteer host's home, where they join a small group for tea, chat and companionship. The group is warmly welcomed by a different host each month, but the charity's drivers and older guests remain the same. This ensures that, over the months and years, acquaintances turn into friends, and loneliness is replaced by companionship.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl hŷn yn wynebu rhwystrau sy'n atal eu cyfranogiad, a gall cam bywyd a ddylai fod yn bleserus ddod yn adeg o unigrwydd ac arwahanrwydd. Gydag awdurdodau lleol yn wynebu toriadau yn eu cyllidebau, mae llawer o'r cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol y mae pobl hŷn yn dibynnu arnynt dan fygythiad. Mae'r dirywiad mewn gwasanaethau lleol dros y degawdau diwethaf wedi achosi problem go iawn i lawer o bobl hŷn, yn enwedig pobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol, megis dirywiad yn y gallu i symud, afiechyd, incwm isel neu gysylltiadau cymdeithasol cyfyngedig. Gall pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig wynebu heriau difrifol o ran cael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau.

Ceir llawer o rwystrau cymdeithasol a all allgau pobl hŷn o'u cymunedau. Gall y rhain gynnwys problemau gyda mynediad corfforol i bobl ag anawsterau symudedd, megis grisiau, gan gynnwys stepiau y mae pawb ohonom wedi eu gweld mewn mannau o wahanol ddyfnder wrth i chi ddringo; defnydd o gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd; palmentydd mewn cyflwr gwael ac annibendod ar strydoedd, sy'n gallu bod yn beryglus i bobl hŷn ac yn gallu peri mwy o risg o gwmpo; diffyg toiledau cyhoeddus yn y mannau iawn, gan fod darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus yn hanfodol er mwyn galluogi pobl hŷn i gadw eu hurddas a chymryd rhan ym mywyd y gymuned; diffyg llefydd i gyfarfod yn y gymuned, a all gynyddu arwahanrwydd cymdeithasol; a gostyngiad yn nifer y cyfleusterau, megis llyfrgelloedd cyhoeddus, a all alluogi pobl hŷn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a defnyddio cyfrifiaduron—gall y gallu i ddefnyddio Skype neu FaceTime gydag wyrion a gor-wyrion gael effaith hynod o fuddiol ar fywydau'r henoed.

Mae gofal cymdeithasol ar gyfer delio â phroblemau symudedd a gofal personol yn bwysig, ond ceir dulliau eraill yr un mor bwysig o gefnogi'r henoed, megis y model gwasanaeth Cyswllt â'r Henoed. Mae model Cyswllt â'r Henoed yn seiliedig ar gysyniad syml, ond effeithiol iawn: te misol am ddim i bobl hŷn, wedi eu cefnogi gan rwydwaith o wirfoddolwyr yn y cymunedau lleol. Daw'r digwyddiadau cymdeithasol ag unigolion at ei gilydd a datblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth boddhaus, a thrwy hynny helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Ceir cyfleoedd i bobl gyfarfod â'r bobl hyn nid unwaith y mis yn unig, ond yn fwy aml, wrth iddynt adeiladu cylch newydd o ffrindiau i gymryd lle'r ffrindiau a arferai fod ganddynt. Mae Cyswllt â'r Henoed yn recriwtio gwirfoddolwyr, gyrwyr, mannau cynnal a chydlynwyr grŵp i helpu i drefnu te misol i grwpiau bach o bobl hŷn. Unwaith y mis, bydd pob gwestai hŷn yn cael eu casglu o'u cartref gan yrrwr gwirfoddol ac yn cael eu cudo i gartref gwirfoddolwr, lle y byddant yn ymuno â grŵp bach i gael te, sgwrs a chwmmiaeth. Mae'r grŵp yn cael croeso cynnes mewn mannau gwahanol bob mis, ond yr un yw gyrwyr yr elusen a'r gwesteion hŷn. Mae hyn yn sicrhau bod cydnabod yn dod yn gyfeillion dros y misoedd a'r blynyddoedd, a chwmmiaeth yn cymryd lle unigrwydd.

Simple changes. Decisions on changes to services and facilities must take older people's needs into account through effective engagement and consultation. Local authorities must ensure the streets are safe and accessible, with good lighting. Pedestrian crossings must allow sufficient time to cross roads. There must be a means of crossing the road in mobility scooters. Signage should be easily visible, and pavements must be well maintained and free of obstruction.

The vital role of the library service, which I talked about earlier, in facilitating digital inclusion must be protected and extended to ensure that such services are accessible to older people. One of the things that I've noticed with the library service in recent times: it used to be full of older people and children using it. Because of changes in the way that benefits are dealt with, there are now queues to get on to computers in libraries, for those trying to access job searches and trying to access jobs and fill in forms. That has had an effect on the ability of older people to actually get access to computers within the library service.

The Welsh Government's community toilet grant scheme, which provides local authorities with grant funding to encourage local businesses to open their facilities to the public, must be better publicised and promoted if it is to form part of a co-ordinated, sustainable solution to toilet provision. I'm sure there are many places in Swansea that have got toilet facilities that have been opened up to the public. It's just that I, considered one of the more knowledgeable people about what's going on in Swansea, don't know where they are, so how would the elderly know? The Welsh Government could consider promoting befriending projects across Wales when the current funding ends in 2016. If the project ends, the experience and knowledge of staff and volunteers will be lost.

In my experience, a large number of older men attempt to overcome loneliness by going to the pub and drinking all day. Others, both men and women, overcome loneliness by drinking at home. We need a better understanding of how many older people need support to fight the addiction of alcohol, which they're using to replace the fact they lack friends. Befriending is a simple yet strategic way to tackle social isolation. Research during the 1990s made a clear link between older people living in isolation and the emergence of befriending. Befriending schemes seek to address the fact that older age brings challenges that, without support, can be daunting and lead to social isolation, which means loneliness or a lack of contact with other people. The outputs of befriending schemes include reduced loneliness, increased confidence, and increased understanding. The research found that most befriending schemes rely on volunteers, not only because they are a cheaper means of providing a service, but because they have the skills and attributes that a paid befriender could not bring to the role. It concluded that, while befriending is not a mechanism for tackling the root cause of disadvantage, it can ameliorate the worst aspects of isolation and exclusion in the community. Participation can make a valid and valuable contribution to people's lives.

Newidiadau syml. Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau a chyfleusterau ystyried anghenion pobl hŷn drwy ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y strydoedd yn ddiogel ac yn hygyrch, ac wedi eu goleuo'n dda. Rhaid i groesfannau ar gyfer cerddwyr ganiatáu digon o amser i groesi ffordd. Rhaid bod modd o groesi'r ffordd mewn sgwteri symudedd. Dylai arwyddion fod yn hawdd eu gweld, a rhaid i balmentydd gael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn rhydd o rwystrau.

Rhaid diogelu rôl hanfodol y gwasanaeth llyfrgell, y soniais amdani'n gynharach, i hwyluso cynhwysiant digidol a'i hymestyn i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn hygyrch i bobl hŷn. O ran y gwasanaeth llyfrgell, sylwais ar un peth yn ddiweddar: arferai'r llyfrgell fod yn llawn o bobl hŷn a phlant. Oherwydd newidiadau yn y ffordd yr ymdrinnir â budd-daliadau, bellach mae ciwiau i fynd ar gyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd, i rai sy'n ceisio chwilio am waith a dod o hyd i swyddi a llenwi ffurflenni. Mae hynny mewn gwirionedd wedi effeithio ar allu pobl hŷn i ddefnyddio cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd.

Rhaid hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd gwell i gynllun grant cyfleusterau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cyllid grant i awdurdodau lleol er mwyn annog busnesau lleol i agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd, os yw'n mynd i fod yn rhan o ateb cynaliadwy a chydlynol ar gyfer darparu toiledau. Rwy'n siŵr bod llawer o leoedd yn Abertawe sydd â chyfleusterau cyhoeddus a agorwyd ar gyfer y cyhoedd. Ond nid wyf fi, sy'n cael fy ystyried yn un o'r rhai mwy gwybodus am yr hyn sy'n digwydd yn Abertawe, yn gwybod lle y maent, felly sut y byddai'r henoed yn gwybod? Gallai Llywodraeth Cymru ystyried hyrwyddo prosiectau cyfeillio ar draws Cymru pan ddaw'r cyllid presennol i ben yn 2016. Os daw'r prosiect i ben, bydd profiad a gwybodaeth staff a gwirfoddolwyr yn cael eu colli.

Yn fy mhrofiad i, mae nifer fawr o ddynion hŷn yn ceisio goresgyn unigrwydd drwy fynd i'r dafarn ac yfed drwy'r dydd. Mae eraill, yn ddynion a menywod, yn goresgyn unigrwydd drwy yfed yn y cartref. Mae arnom angen gwell dealltwriaeth o faint o bobl hŷn sydd angen cymorth i ddod yn rhydd o afael alcohol a ddefnyddiant i gymryd lle'r ffaith nad oes ganddynt ffrindiau. Mae cyfeillio yn ffordd syml ond strategol i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol. Roedd ymchwil yn ystod y 1990au yn gweld cyswllt clir rhwng pobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain a datblygiad cyfeillio. Mae cynlluniau cyfeillio yn ceisio mynd i'r afael â'r ffaith fod heriau'n gysylltiedig â thyfu'n hŷn a all fod yn frawychus, os na cheir cymorth, ac arwain at arwahanrwydd cymdeithasol, sy'n golygu unigrwydd neu ddiffyg cyswllt â phobl eraill. Mae allbynnau cynlluniau cyfeillio yn cynnwys lleihau unigrwydd, mwy o hyder a mwy o ddealltwriaeth. Canfu'r ymchwil fod y rhan fwyaf o gynlluniau cyfeillio yn dibynnu ar wirfoddolwyr, nid yn unig am eu bod yn ffordd ratach o ddarparu gwasanaeth, ond oherwydd bod ganddynt y sgiliau a'r priodoleddau na allai cyfaill sy'n cael ei dalu eu cyfrannu i'r rôl. Er nad yw cyfeillio yn system ar gyfer mynd i'r afael ag achos sylfaenol anfantais, daeth i'r casgliad y gall liniaru agweddau gwaethaf arwahanrwydd ac allgau yn y gymuned. Gall cyfranogiad wneud cyfraniad dilys a gwerthfawr i fywydau pobl.

Can I just finish by saying that there's an awful lot of befriending going on there? It really is important. It's important that people do have friends. They have an opportunity to meet socially. It'll improve their quality of life. It'll improve their lives and improve the lives of their community. Everyone, hopefully, will grow old. What we must ensure is that the golden years are not sad and lonely ones.

A gaf fi orffen drwy ddweud fod yna lawer iawn o gyfeillio'n digwydd? Mae'n wirioneddol bwysig. Mae'n bwysig i bobl gael ffrindiau. Cânt gyfle i gyfarfod yn gymdeithasol. Bydd yn gwella ansawdd eu bywydau. Bydd yn gwella eu bywydau ac yn gwella bywydau eu cymunedau. Yn y pen draw, bydd pawb, gobeithio, yn tyfu'n hen. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei sicrhau yw nad yw'r blynyddoedd euraidd yn rhai trist ac unig.

17:53 **William Powell** [Bywgraffiad Biography](#)

I am very grateful to Mike Hedges for the opportunity to take part in this debate and would like to highlight in particular the west Wales Befriending Links Project, run by Age Cymru across Carmarthenshire, Pembrokeshire and Ceredigion. Over 50 projects have been set up through the Befriending Links Project across west Wales, with 2,000 older people involved on a weekly basis, ranging from tea dances to book clubs. These projects not only help to tackle loneliness and isolation, as we've heard, but also enable older members of society to get back involved in their local communities.

Diolch yn fawr iawn i Mike Hedges am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl hon a hoffwn dynnu sylw arbennig at Brosiect Cysylltiadau Cyfeillio Gorllewin Cymru, sy'n cael ei redeg gan Age Cymru ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Sefydlwyd dros 50 o brosiectau drwy'r Brosiect Cysylltiadau Cyfeillio ledled gorllewin Cymru, gyda 2,000 o bobl hŷn yn cymryd rhan yn wythnosol, yn amrywio o ddawnsfeydd te i glybiau llyfrau. Mae'r prosiectau hyn nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, fel y clywsom, ond maent hefyd yn galluogi aelodau hŷn y gymdeithas i ailddechrau cymryd rhan yn eu cymunedau lleol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Other commendable projects that support befriending and promote socialisation in my region include the Talgarth and district luncheon club, and also the Dementia Friends group in Brecon. The latter has led to Brecon becoming the first community in the whole of Wales to receive official Working to Become Dementia-Friendly recognition from the Alzheimer's Society. This is to be commended, and I very much look forward to the Minister's response to today's debate.

Mae prosiectau clodwiw eraill sy'n cefnogi cyfeillio ac yn hyrwyddo cymdeithasoli yn fy rhanbarth yn cynnwys clwb cinio ardal Talgarth a'r cylch, a hefyd y grŵp Cyfeillion Dementia yn Aberhonddu. Mae'r olaf wedi golygu mai Aberhonddu yw'r gymuned gyntaf drwy Gymru i gael cydnabyddiaeth gweithio tuag at ddod yn gyfeillion dementia swyddogol gan y Gymdeithas Alzheimer. Mae hyn i'w ganmol, ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn at ymateb y Gweinidog i'r ddatl heddiw.

17:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:54 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. Thanks to Mike Hedges for choosing this topic for today's short debate. It's a subject with which any Assembly Member in regular contact with constituents through surgery work will be immediately familiar. It's also a complex topic. It's possible to be isolated, but not lonely, and to be lonely in the least isolated of circumstances. Isolation is sometimes used to describe those factors that are beyond the personal— isolation as a consequence of poverty or geography, or of environmental barriers—while loneliness, in this way of thinking, is used to describe a sense of personal disposition. We, all of us, I'm sure, know that it is possible to feel very lonely in a crowd of other people, and there's no doubt that each of us, individually, has a different propensity for sociability—for needing the company of others on the one hand, or preferring our own company on the other.

Diolch yn fawr, Lywydd. Diolch i Mike Hedges am ddewis y pwnc ar gyfer y ddatl fer heddiw. Mae'n bwnc y bydd unrhyw Aelod o'r Cynulliad sydd mewn cysylltiad rheolaidd ag etholwyr drwy waith y cymorthfeydd yn gyfarwydd iawn ag ef. Mae hefyd yn bwnc cymhleth. Mae'n bosibl cael arwahanrwydd heb unigrwydd, a bod yn unig yn yr amgylchiadau lleiaf ynysig. Weithiau, defnyddir arwahanrwydd i ddisgrifio'r ffactorau sydd y tu hwnt i'r personol—arwahanrwydd o ganlyniad i dlodi neu ddaearyddiaeth, neu rwystrau amgylcheddol—tra defnyddir unigrwydd, yn yr ystyr hwn, i ddisgrifio ymdeimlad personol. Mae pob un ohonom, rwy'n siŵr, yn gwybod ei bod yn bosibl teimlo'n unig iawn mewn torf o bobl, ac nid oes amheuaeth fod gan bob un ohonom, fel unigolion, du—dros fod angen cwmni eraill ar y naill law, neu dros fod yn well gennym ein cwmni ein hunain ar y llall.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

What we also know is that the likelihood of experiencing damaging loneliness and isolation is strongly associated with the life course. For whole swathes of our lives, most of us are lucky enough to live in a social context that mitigates the risk of loneliness or isolation. When bringing up young families, we find ourselves brought into the company of others in the same situation, from antenatal classes to the school gate. The social benefits of being in work, of having a job, are in many ways as significant as the economic consequences. The human contact of the workplace, as we discussed in last week's debate on mental health, provides us, at its best, with the personal satisfaction of being part of a collective endeavour. But at either side of these parts of our lives, we know that the risks of loneliness and isolation are heightened. I'll concentrate this afternoon, as Mike has, on the impact on older people, but adolescence has long been recognised as a period when introspection and uncertainty can deepen into harmful experiences of loneliness and of alienation. For some people, life after work, especially when connected with the loss of a partner or declining physical health, is marred by a debilitating sense of being cut off from the life of a busy, or apparently indifferent, community.

Now, the role that Government has to play in addressing this experience is, it seems to me, important but only part of the solution. On the one hand, Government has a direct role. The way we organise the built environment, the way we plan and provide transport, the bus pass mentioned by Mike Hedges, the design and location of housing adopted for older people—they all have a really significant impact on reducing or exaggerating the potential for loneliness and isolation. Lywydd, I've been around in the Assembly now, it seems, for a very long time, but some of the most powerful letters I remember reading were ones that came into the First Minister's office, when I worked there, in the months after the bus pass was introduced, and they were letters spontaneously written by people to say that, as a result of the bus pass, they were now able to do things, visit places, come into contact with people, in a way that they simply had not been able to do for lengthy times beforehand. So, there are real things that Government can do.

I look forward to bringing the public health Bill in front of the Assembly later this year, which will, for the first time, place a new duty on local authorities to draw up a strategy for the provision of toilets for use by the public. That'll include the sorts of schemes that Mike Hedges mentioned, but will also, I hope, draw into greater use all those possibilities that we already have, which are paid for by the public purse but where older people will sometimes feel reluctant to make use of those facilities because they're in a sports centre and they don't play sport, or they're in an arts centre and they haven't bought a ticket for the cinema or for the theatre.

Yr hyn rydym hefyd yn ei wybod yw bod y tebygolrwydd o brofi unigrwydd ac arwahanrwydd niweidiol yn gysylltiedig iawn â chwrs bywyd. Am rannau helaeth o'n bywydau, mae'r rhan fwyaf ohonom yn ddigon ffodus i fyw mewn cyd-destun cymdeithasol sy'n lliniaru'r perygl o unigrwydd neu arwahanrwydd. Wrth fagu teuluoedd ifanc, rydym yn canfod ein hunain yng nghwmni pobl eraill yn yr un sefyllfa, o ddosbarthiadau cyn geni i giât yr ysgol. Mae manteision cymdeithasol bod mewn gwaith, o gael swydd, mewn sawl ffordd yr un mor sylweddol â'r canlyniadau economaidd. Mae cyswllt dynol y gweithle, fel y trafodwyd gennym yn y ddadl yr wythnos diwethaf ar iechyd meddwl, ar ei orau'n rhoi'r boddhad personol i ni o fod yn rhan o ymdrech ar y cyd. Ond ar bob ochr i'r rhannau hyn o'n bywydau, rydym yn gwybod bod risgiau unigrwydd ac arwahanrwydd yn cael eu dwysáu. Fe ganolbwyntiaf y prynhawn yma ar yr effaith ar bobl hŷn fel y mae Mike wedi ei wneud, ond mae'r ardeggau wedi eu hen gydnabod fel cyfnod pan all mewnblygrwydd ac ansicrwydd ddyfnhau'n brofiadau niweidiol o unigrwydd ac o ddiethrio. I rai pobl, mae bywyd ar ôl gwaith, yn enwedig pan fo'n gysylltiedig â cholli partner neu ddirywiad mewn iechyd corfforol, yn cael ei ddifetha gan ymdeimlad gwanychol o gael eich torri i fwrdd o fywyd cymuned brysur, neu ymddangosiadol ddifater.

Nawr, mae'n ymddangos i mi fod y rôl sydd gan y Llywodraeth i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r profiad hwn yn bwysig, ond rhan o'r ateb yn unig ydyw. Ar y naill law, mae gan y Llywodraeth rôl uniongyrchol. Mae'r ffordd rydym yn trefnu'r amgylchedd adeiledig, y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu cludiant, y tocyn bws y soniodd Mike Hedges amdano, cynllun a lleoliad tai ar gyfer pobl hŷn—maent i gyd yn cael effaith wirioneddol arwyddocaol o ran lleihau neu chwyddo'r perygl o unigrwydd ac arwahanrwydd. Lywydd, rwyf wedi bod yn Aelod o'r Cynulliad bellach ers amser hir iawn, mae'n ymddangos, ond rhai o'r llythyrau mwyaf pwerus rwy'n cofio eu darllen oedd y rhai a ddaeth i swyddfa'r Prif Weinidog pan oeddwn yn gweithio yno, yn ystod y misoedd ar ôl i'r tocyn bws gael ei gyflwyno, ac roeddent yn llythyrau a ysgrifennwyd yn ddigymell gan bobl i ddweud, yn sgil y tocyn bws, eu bod bellach yn gallu gwneud pethau, ymweld â llefydd, dod i gysylltiad â phobl, mewn ffordd na allent ei wneud o gwbl am gyfnodau hir cyn hynny. Felly, mae yna bethau go iawn y gall y Llywodraeth ei wneud.

Rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno'r Mesur iechyd cyhoeddus gerbron y Cynulliad yn ddiweddarach eleni. Am y tro cyntaf, bydd yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth ar gyfer darparu toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd. Bydd hynny'n cynnwys y mathau o gynlluniau a grybwyllodd Mike Hedges, ond bydd hefyd, gobeithio, yn gwneud mwy o ddefnydd o'r holl bosibiliadau sydd gennym eisoes, y telir amdanynt o'r pwrw cyhoeddus ond lle y bydd pobl hŷn weithiau'n teimlo'n amharod i wneud defnydd o'r cyfleusterau hynny oherwydd eu bod mewn canolfan chwaraeon ac nid ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon, neu oherwydd eu bod mewn canolfan gelfyddydau ac nid ydynt wedi prynu tocyn ar gyfer y sinema neu'r theatr.



When it comes to those softer services, as they are sometimes known, aimed at combating loneliness and isolation, then it cannot and should not be the job of Government alone to tackle these issues, and, here in Wales, we are very fortunate still to have a tradition and a richness of community effort that helps to make this happen. The Commissioner for Older People in Wales takes full advantage of that in her Ageing Well in Wales programme, launched in October last year, which has as one of its five key themes a focus on isolation and loneliness. The programme brings together national and local government and the major public and third sector organisations in Wales. Its network events later this month in Llandudno and Port Talbot will share ideas and shape future actions right across those boundaries for responding to loneliness and isolation, and it will bring together examples of what can be done from across Wales, and from Europe as well, to help us inform the debate on how we will tackle this issue in partnership.

O ran y gwasanaethau mwy meddal hynny, fel y'u gelwir weithiau, sy'n anelu at drechu unigrwydd ac arwahanrwydd, yna ni all ac ni ddylai fod yn waith i'r Llywodraeth ar ei phen ei hun i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac yma yng Nghymru, rydym yn ffodus iawn o hyd ein bod yn meddu ar draddodiad a chyfoeth o ymdrech gymunedol sy'n helpu i alluogi hyn i ddigwydd. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn manteisio'n llawn ar hynny yn ei rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Hydref y llynedd, ac mae un o'i bum thema allweddol yn canolbwyntio ar unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd y llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol a'r sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd ei digwyddiadau rhwydwaith yn ddiweddarach y mis hwn yn Llandudno a Phort Talbot yn rhannu syniadau a llunio camau gweithredu yn y dyfodol ar draws y ffiniau hynny ar gyfer ymateb i unigrwydd ac arwahanrwydd, a bydd yn casglu enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud o bob rhan o Gymru, ac o Ewrop hefyd, i'n helpu i lywio'r drafodaeth ar sut yr awn i'r afael â'r mater hwn mewn partneriaeth.

18:00 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you give way?

A wnewch chi ildio?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:00 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:00 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thanks for giving way, Minister. Would you agree with me as well that local authorities should be encouraged to develop intergenerational programmes? I know, a few years ago, Monmouthshire County Council developed a very successful intergenerational programme that brought together young people and older people, and it was amazing to watch how both benefited from that interaction.

Diolch am ildio, Weinidog. A fydddech yn cytuno â mi hefyd y dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i ddatblygu rhaglenni sy'n pontio'r cenedlaethau? Rwy'n gwybod bod Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu rhaglen bontio'r cenedlaethau lwyddiannus iawn ychydig flynyddoedd yn ôl a ddaeth â phobl ifanc a phobl hŷn at ei gilydd, ac roedd yn wych gweld sut oedd y ddwy genhedlaeth yn elwa o'r rhyngweithio.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I entirely agree with that, Nick, and it's a point I'll come back to at the end, but let me say at this point that one of the reasons why intergenerational work is so powerful is that it positions older people as contributors, as people who have things to give, who have experiences that they can share or things that they can teach, not simply people who are in receipt of services provided by other people.

Cytunaf yn llwyr â hynny, Nick, ac mae'n bwynt y dof yn ôl ato ar y diwedd, ond gadewch i mi ddweud yn y fan hon mai un o'r rhesymau pam y mae gwaith pontio'r cenedlaethau mor bwerus yw ei fod yn gosod pobl hŷn fel cyfranwyr, fel y bobl sydd â phethau i'w rhoi, sydd â phrofiadau y gallant eu rhannu neu bethau y gallant eu dysgu, nid fel pobl sydd ond yn derbyn gwasanaethau wedi'u darparu gan bobl eraill.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

In the Welsh Government, through our third sector grant scheme, we are working with the Royal Voluntary Service Cymru, one of Wales's biggest voluntary organisations, to develop befriending schemes that will help to minimise the loneliness and isolation that older people experience and help them to retain their independence. There are a range of social support services on offer, provided by over 3,500 volunteers across the country. We know that it is often just that little bit of extra help that is enough to help older people to remain self-sufficient and keep independent within their own homes, and befriending schemes can help deliver just this, whether it is a lift from a community transport volunteer or somewhere to go to see friends and have a hot meal. There are many, many examples of this across Wales. The Newport good neighbours scheme has 50 volunteers providing over 300 hours of support every month, and that's to do one-to-one visits with older people in their own homes. It has the effect, as Mike said in one of his examples, of building up relationships over time so that acquaintances turn into friendships and companionship.

The RVS also has a thriving befriending and car transport service in Swansea, Neath, Port Talbot and Bridgend. This scheme started in July 2013. It includes face-to-face befriending, telephone befriending, assisted shopping, prescription collection, basic help in the home, and that really important service for older people whose health may be in decline, or who may have to go into hospital for a small number of days—dog walking, and helping people to look after pets in their own home.

And then, Llywydd, there are new ways in which loneliness and isolation can be tackled. When my grandmother won a scholarship to the newly formed Carmarthen Grammar School for Girls just before the first world war, she left Trelech in north-west Carmarthenshire to live in lodgings in Carmarthen town, because it was impossible to travel from the one place to the next other than at weekends. She didn't see her family, at the age of 11, from one end of the week to the next. Today, my children's grandmother—one generation later—will be sending e-mails, no doubt, this evening, using the internet and talking on Skype in a way that brings the world to you and opens up a whole new set of electronic ways of overcoming loneliness and isolation with a set of possibilities not available to any earlier generation.

Yn Llywodraeth Cymru, drwy ein cynllun grant trydydd sector, rydym yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol Cymru, un o fudiadau gwirfoddol mwyaf Cymru, er mwyn datblygu cynlluniau cyfeillio a fydd yn helpu i leihau'r unigrwydd a'r arwahanrwydd y mae pobl hŷn yn eu profi ac yn eu helpu i aros yn annibynnol. Cynigir amrywiaeth o wasanaethau cymorth cymdeithasol wedi'u darparu gan dros 3,500 o wirfoddolwyr ar draws y wlad. Yn aml, gwyddom fod ychydig bach o help ychwanegol yn ddigon i helpu pobl hŷn i aros yn hunangynhaliol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a gall cynlluniau cyfeillio helpu i gyflawni hyn, pa un a yw'n gludiant gan wirfoddolwr cymunedol neu'n rhywle i fynd i weld ffrindiau a chael pryd cynnes o fwyd. Ceir llawer iawn o enghreifftiau o hyn ar draws Cymru. Mae gan gynllun cymdogion da Casnewydd 50 o wirfoddolwyr sy'n darparu dros 300 awr o gymorth bob mis ar ffurf ymweliadau un i un â phobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain. Fel y dywedodd Mike yn un o'i enghreifftiau, effaith hyn yw meithrin perthynas â phobl dros amser er mwyn i gydnabod droi'n gyfeillio a chwmniaeth.

Mae gan y gwasanaeth brenhinol gwirfoddol wasanaeth cyfeillio a thrafnidiaeth car ffyniannus yn Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Dechreuodd y cynllun ym mis Gorffennaf 2013. Mae'n cynnwys cyfeillio wyneb yn wyneb, cyfeillio dros y ffôn, cymorth gyda siopa, casglu presgripsiwn, cymorth sylfaenol yn y cartref, a'r gwasanaeth hynod o bwysig hwnnw i bobl hŷn y mae eu hiechyd yn dirywio o bosibl, neu sydd efallai'n gorfod mynd i'r ysbyty am nifer fach o ddyddiau—gwasanaeth mynd â chŵn am dro, a helpu pobl i ofalu am anifeiliaid anwes yn eu cartref eu hunain.

Hefyd, Lywydd, mae yna ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Pan enillodd fy nain ysgoloriaeth i Ysgol Ramadeg i Ferched Caerfyrddin a oedd newydd ei ffurfio ychydig cyn y rhyfel byd cyntaf, gadawodd Dre-lech yng ngogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin i fynd i fyw mewn llety yn nhref Caerfyrddin, am ei bod yn amhosibl teithio o un lle i'r llall heblaw ar benwythnosau. Yn 11 oed, ni welai ei theulu o un pen i'r wythnos i'r llall. Heddiw, bydd nain fy mhlant—un genhedlaeth yn ddiweddarach—yn sicr o fod yn anfon negeseuon e-bost heno, gan ddefnyddio'r rhynggrwyd a siarad ar Skype mewn ffordd sy'n dod â'r byd atoch ac yn agor set newydd gyfan o ffyrdd electronig i oresgyn unigrwydd ac arwahanrwydd gyda set o bosibiliadau nad oeddent ar gael i genhedlaeth gynharach.

And we have new ways, too, of stimulating exchanges between people that reach right into this agenda. The timebanking movement, which has been so powerful here in Wales, teaches us something fundamentally important about loneliness and isolation, because there can be little more isolating than to be, always and exclusively, on the receiving end of the benign attention of others. Timebanking experience demonstrates that it is the act of giving rather than receiving that makes the most effective inroad into loneliness. The Rushey Green primary care practice in London made, as its first step in combating isolation amongst its elderly patients, a prescription to that person to make one telephone call of one hour a week to someone else in need of human conversation. People who, for years, had thought they had nothing to offer suddenly found themselves being needed and appreciated by someone else as someone with strengths and abilities of their own to contribute. And that is absolutely true of the intergenerational work that Nick Ramsay mentioned.

And, of course, in timebanking, that hour of conversation becomes a deposit that can be exchanged for other forms of human interaction, as discussed by Darren Millar in his cross-party group on alternative currencies, in a learning circle. To use the famous phrase by Edgar Cahn, the inventor of timebanking, there are 'no more throw-away people'. Llywydd, it is just this set of ideas that animates the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 as a people's Act, based on the belief that people, even in difficult times, have strengths and opportunities to help others with the challenges that they face, and are waiting and wanting to be contributors as well as recipients of actions taken by others.

So, I end with this optimistic belief that the disabling effects of loneliness and isolation are neither inevitable nor irreversible, and that with imagination and determination there are new ideas, as well as old ways of befriending, which can help here in Wales to do what Mike Hedges set out in introducing this short debate and to put them to use to help prevent people from becoming lonely and isolated.

Ac mae gennym ffyrdd newydd, hefyd, o ysgogi ymwneud rhwng pobl sy'n ymestyn i galon yr agenda hon. Mae'r mudiad bancio amser, sydd wedi bod mor bwerus yma yng Nghymru, yn dysgu rhywbeth sylfaenol bwysig inni am unigrwydd ac arwahanrwydd, gan na all dim fod yn fwy ynysig na bod yn destun sylw hawddgar pobl eraill. Mae profiad o fancio amser yn dangos mai'r weithred o roi yn hytrach na derbyn sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd yn fwyaf effeithiol. Fel cam cyntaf i drechu arwahanrwydd ymhlith ei gleifion oedrannus, gwnaeth practis gofal sylfaenol Rushey Green yn Llundain bresgripsiwn i'r unigolyn dan sylw wneud galwad ffôn am un awr yn wythnos i rywun arall sydd angen sgwrs â phobl eraill. Yn sydyn, canfu pobl a oedd wedi credu ers blynyddoedd nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w gynnig fod rhywun arall eu hangen ac yn eu gwerthfawrogi fel rhywun â chryfderau a galluoedd eu hunain i'w cyfrannu. Ac mae hynny'n hollol wir am y gwaith pontio'r cenedlaethau a grybwyllodd Nick Ramsay.

Ac wrth gwrs, gyda bancio amser, gall yr awr o sgwrs ddod yn flaendal y gellir ei gyfnwid am ffurfiau eraill o ryngweithio rhwng pobl, fel y soniodd Darren Millar yn ei grŵp trawsbleidiol ar arian amgen, mewn cylch dysgu. I ddefnyddio'r ymadrodd enwog gan Edgar Cahn, dyfeisiwr bancio amser, ni cheir 'pobl defnydd untro' mwyach. Lywydd, y set hon o syniadau sy'n bywiogi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel deddf ar gyfer y bobl, yn seiliedig ar y gred fod pobl, hyd yn oed mewn cyfnodau anodd, yn meddu ar gryfderau a chyfleoedd i helpu eraill â'r heriau a wynebant, ac maent yn barod ac yn awyddus i fod yn gyfranwyr yn ogystal â derbynwyr yr hyn a wneir gan eraill.

Felly, dof i ben â'r gred optimistaidd hon nad yw effeithiau gwanychol unigrwydd ac arwahanrwydd yn anochel nac yn amhosibl eu gwrthdroi, a gyda dychymyg a phenderfyniad, ceir syniadau newydd, yn ogystal â hen ffyrdd o gyfeillio, a all helpu yma yng Nghymru i wneud yr hyn a nododd Mike Hedges wrth gyflwyno'r ddadl fer hon a'u defnyddio i helpu i atal pobl rhag mynd yn unig ac yn ynysig.

18:06

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, and that brings today's business to a close.

Diolch i chi, a daw hynny â'r trafodion i ben am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:06*

*The meeting ended at 18:06*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)